ESPONIAD

BYRAR

GATECISM yr EGLWYS.

SEF,

Holiadau ac Attebion Yſgrythurol

YNGHYLCH

EGWYDDORION a DYLEDSWYDDAU'R

GREFYDD GRIS'NOGOL.

YN BUM RHAN.

gan Griffith Jones

DEUT. xi. 19. EPH. vi. 4.

yſgwch hwynt i'ch Plant. —— Maethwch hwynt yn Addyſg ac Athrawiaeth yr ARGLWYDD.

LLUNDAIN:

rgraphwyd gan JOAN OLFIR, ym *Martholomy-Clôs*, ger llaw *Smithffild Gorllewinol.* 1752.

Egwyddor i'r Anllythyrennog i ddyſgu darllain.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y.

Y Llafarjaid, neu 'r Bogeiljaid.

a e i o u w y.

Yr holl Lythyrennau eraill a elwïr Cydſeiniaid.

ab eb ib ob ub wb yb	ba be bi bo bu bw by
ac ec ic oc uc wc yc	ca ce ci co cu cw cy
ach ech ich och uch wch ych	cha che chi cho chu chw chy
ad ed id od ud wd yd	da de di do du dw dy
add edd idd odd udd wdd ydd	dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
af ef if of uf wf yf	fa fe fi fo fu fw fy
aff eff iff off uff wff yff	ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ag eg ig og ug wg yg	ga ge gi go gu gw gy
ang eng ing ong ung wng yng	ha he hi ho hu hw hy
al el il ol ul wl yl	ja je ji jo ju jw jy
all ell ill oll ull wll yll	la le li lo lu lw ly
am em im om um wm ym	lla lle lli llo llu llw lly
an en in on un wn yn	ma me mi mo mu mw my
ap ep ip op up wp yp	na ne ni no nu nw ny
aph eph iph oph uph wph yph	pa pe pi po pu pw py
ar er ir or ur wr yr	pha phe phi pho phu phw phy
as es is os us ws ys	ra re ri ro ru rw ry
at et it ot ut wt yt	ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
ath eth ith oth uth wth yth	ta te ti to tu tw ty

44
4 136 6

Y *Rhwymedigaeth* a oſodir ar bawb ynghŷleh CATECEISIO, yng *Nghanonau Eglwyſig* Eglwys *LOEGR.*

CAN. LIX. *Gweinidogion i Gateceiſio bob Sul.*

HOled pob Perſon, Ficcer, neu Gurad, ar bob Sul a Gŵyl, cyn Goſper, y rhai jeuaingc ac anwybodus o'i Blwyf, dros Hanner Awr, neu ychwaneg, yn y *Deg Gorchymmyn, Pyngciau'r Ffydd*, ac yng *Ngweddi'r Arglwydd*; a gwrandawed, hyffordded, a dyſged yn fanwl iddunt, y *Cateciſm* a oſodwyd allan yn y Llyfr *Gweddi Gyffredin.* A phared pob Tad, Mam, Meiſtr, a Meiſtres, i'w Plant, eu Gwaſanaethddynion, a'u Prentiſiaid, ſy heb fedru eu *Cateciſm*, ddyfod i'r Eglwys ar yr Amſer pwyntiedig, i wrando'n uſudd, ac i'w trefnu gan y Gweinidog, hyd oni ddyſgont eu *Cateciſm.* Ac o's eſgeuluſa un Gweinidog ei Ddyled yn hyn, cerydder ef yn llym ar yr Achwyn cyntaf; a rhodder Hyſpyſrwydd cywir o hono i Eſgob neu Ordinari'r Lle. O's efe, wedi ymoſtwng, a droſedda eilwaith o'i fodd yn hynny; gorfodoger ef: ac os felly y drydydd waith; gan nad oes nemmawr o Obaith y gwellhâ ef yn hynny, yna yſgymmuner ef: ac arhoſed felly, hyd oni wellhao. Ac hefyd, o's eſgeuluſa un o'r dywededig Dadau, Mammau, Meiſtraid, neu Feiſtreſi, Plant, Gwaſanaethddynion, neu Brentiſiid, eu Dyledſwyddau; megis, y naill fath, trwy beidio peri iddunt ddyfod; a'r llall, trwy ommedd yſgu, fel y dywedpwyd: gorfodoger hwynt gan eu Hordinariaid (tra na bônt Blant) ac o's parhânt felly tos fis; yna yſgymmuner hwynt.

Y Rubric *ar ol y* Catecism.

BID i Gurad pob Plwyf yn ddieſgeulus, ar y Sulïau a'r Gŵyliau, ar ol yr ail Lith o'r Goſper, ddyſgu ar oſteg yn yr Eglwys, a holi cynnifer o Blant ei Blwyf ag a ddanfoner atto, megis y tybio efe fod yn gymheſur, yn rhyw Barth o'r *Cateciſm* hwn.

A bid i bob Tad, a Mam, a phob Perchen Tylwyth, berí i'w Plant, i'w Gwaſanaethddynion, ac i'w Prentiſiaid (y rhai ni ddyſgaſant eu *Cateciſm*) ddyfod i'r Eglwys ar yr Amſer goſodedig; a gwrando yn ufudd, a bod wrth Lywödraeth y Curad, hyd oni ddarffo iddynt ddyſgu pob peth ag y ſydd ymma wedi ei oſod i'w ddyſgu ganddynt.

YN y Ffurf o Urddo Gweinidogion, pan yr urddir hwy yn Ddïaconiaid, y mae'r Eſgob yn mynegu iddynt y Pethau a berthyn i'w Swydd; ſef, Bod iddynt, ym mhlith Dyledion eraill, *ddyſgu'r Bobl jeuaingc yn y Cateciſm*: y maent hwy oll, yngŵydd Duw a'r Gynnull-eidfa, yn addunedu i wneuthur hynny; gan atteb bob un o honynt, *Trwy Nerth Duw, felly y gwnaf.*

Rhan o Yſtyr y LXXIX Gan. *am Ddyled Yſgolfeiſtraid.*

DYSGED pawb o'r Yſgolfeiſtraid, yn *Gymraeg*, — y *Cateciſm* — a roddwyd allan gynt trwy gyffredin Awdurdod. A chyn fynyched ag y bo un Bregeth ar Wyliau neu Ucherau, o fewn y Plwyf lle maent yn dyſgu, hwy a ddygant eu Hyſgolheigion i'r Eglwys lle bo'r cyfryw Bregeth: ac yno a edrychant ar iddunt ymddŵyn yn llonydd ac yn ſobr; ac a'u holant ar Amſer cyfaddas, wedi eu dyfod yn ol, beth a ddygaſant gyd â hwy o'r cyfryw Bregethau. Ar Ddyddiau ac Amſerau eraill, hwy a'u hyfforddant â'r cyfryw Werſi o'r Yſgrythur Lân, ag a fo rhwyddaf i'w tueddu i bob Duwioldeb, &c.

ESPONIAD
BYR AR
GATECISM
YR
EGLWYS.

YRHAN GYNTAF.

Cweſtiwn.

BETH yw dy Enw di?

Atteb. N. neu M.

Cw. Paham y gofynir dy Enw yn gyntaf yn y Cateciſm?

Att. I'm tywys yn drefnus i ddywedud fy Nghateciſm, ac yſtyriaid fy Medydd pan gefais fy Enw.

Cw. Pa'm y dylech ddyſgu'ch Cateciſm?

Att. 1. Er mwyn adnabod Duw a Chriſt. *Canys hyn yw'r bywyd tragywyddol; iddunt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaiſt ti Jeſu Griſt.* Joan xvii. 3.

2. O blegid trwy eſgeuluſo hynny, y mae llawer yn parhâu'n anwybodus dan Air Duw. *Lle dylent fod yn athrawon o ran amſer, y mae arnunt drachefn eiſiau dyſgu iddunt beth yw egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw.* 1 Tim. iii. 7. Heb. v. 12.

3. O blegid fod Anwybodaeth yn beryglus. Canys yr Arglwydd a ddywaid, *Fy mhobl a ddifethir o eiſiau gwybodaeth: am it' ddiyſtyru gwybodaeth, minnau a'th ddiyſtyraf dithau.* Hoſ. iv. 6. 2 Theſ. i. 7, 8.

4. Er mwyn dal yn ddianwadal Egwyddorion jachus y ffydd. *Bydded gennyt ffurf yr ymadroddion jachus.—Fel byddom mwyach yn blantos, yn bwhwmman ac yn ein charwain â phob awel dyſgeidiaeth.* 2 Tim. i. 13. Eph. iv. 14.

5. O blegid fod Athrawön a Rhieni yn rhwym i'n dyſgu. *Wrth y Gweinidog y dywaid Criſt, Portha fy ŵyn. Ac am eu Tylwyth y gorchymynnir i Bennau-teuluoedd; Maethwch hwynt yn addyſg ac athrawiaeth yr Arglwydd.* Joan xxi. 15. Eph. vi. 4.

Cw. Pa ſawl Rhan ſydd yn y Cateciſm hwn?

Att. Pump. 1. Am Freintiau ac Ammodau'r Cyfammod Bedydd.

2. Am Egwyddorion y Ffydd; yn y *Gredo.*

3. Am ein Hufudd-dod i Dduw; yn y *Deg Gorchymmyn.*

4. Am Weddi, a'i Pherthynaſau; yng *Ngweddi 'r Arglwydd.*

5. Am y ddau Sacrament; ſef, *Bedydd,* a *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pwy a roddes yr Enw hwn arnat ti?

Att. Fy Nhadau-bedydd a'm Mammau-bedydd wrth fy medyddio; pan y'm gwnaethpwyd yn Aelod i Griſt, yn Blentyn i Dduw, ac yn Etifedd Teyrnas Nefoedd.

Cw. Beth a yſtyriwch yn yr Atteb hwn?

Att. Tri pheth. 1. Pwy a roddes fy Enw arnaf; ſef, *fy Nhadau a'm Mammau Bedydd.*

2. Pa bryd y derbyniais fy Enw; ſef, *pan y'm bedyddiwyd.*

3. Pa Freintiau a addewïr i mi trwy Gyfammod fy Medydd; ſef, *cael fy ngwneuthur yn Aelod i Griſt, yn Blentyn i Dduw, ac yn Etifedd Teyrnas Nefoedd.*

Cw. Beth yw Dyled Tadau a Mammau Bedydd?

Att. 1. Dwyn Tyſtiolaeth i mi gael fy nerbyn i Eglwys Dduw. *Dan ammod o ymatteb cydwybod dda, yn ol defod y prif Griſtionogion.* Eſay viii. 2,3. 1 Pedr iii. 21.

2. Gweddïo drofof trwy Ffydd. Canys, *y Dyn claf o'r Parlys a jachawyd trwy Ffydd y rhai a'i dygaſant ef at Griſt. Gwâs y Canwriad a jachawyd trwy Ffydd ei Feiſtr; ac eraill trwy ffydd eu Rhieni.* Mat. ix. 2. viii. 5—13. xv. 22—28. Marc ix. 17—27.

3. Fy annog i wrando Gair Duw, a'i addoli, ac i ddyſgu Egwyddorion Crefydd; fel y gallwyf gymmeryd Cyfammod fy Medydd arnaf fy hun. *Heb.* x. 24, 25. *Diar.* xxii. 6.

Cw. Paham y rhoddwyd dy Enw arnat wrth dy fedyddio?

Att. 1. Am mai felly yr oedd arfer y Duwiolion gynt; a'r *Juddewön* a enwënt eu Plant pan yr enwaedent hwy. *Gen.* xvii. *Luc* i. 59, 60. ii. 21.

2. Fe

2. Fe roddwyd ſy Enw arnaf wrth ſy medyddio, i'm dodi'n waſtadol mewn cof o Gyfammod ſy Medydd. *Ymgedwch arnoch rhag anghofio cyfammod yr Arglwydd eich Duw.* Deut. iv. 24.

3. Fe ddodwyd ſy Enw arnaf wrth ſy medyddio, fel na ddiſtrïo neb yr Enw parchus a dderbyniais pan y'm bedyddïwyd. *Ni chaiff difenwyr etifedlu teyrnas Dduw.—Dwy arth o'r goedwig a ddrylliodd ddau blentyn a deugain, am alw, Moelyn, moelyn, ar Wr Duw.* 1 Cor. vi. 9, 10. 2 Bren. ii. 23, 24. Deut. xxii. 19.

Cw. Paham yr wyt yn dywedud, Mi a *wnaethpwyd* yn Aelod i Griſt, yn Blentyn i Dduw, ac yn Etifedd Teyrnas Nefoedd?

Att. Am na aned fi felly: o blegid i ni ſyrthio yn *Adda* i 'ſtad o bechod a thrueni. *Yr oeddym ni oll wrth naturiaeth yn blant digofaint, megis eraill.* Eph. ii. 3.

Cw. Pa ſodd y crëwyd, ac y ſyrthiodd, *Adda*?

Att. 1. Duw a greodd gorph *Adda* o bridd y ddaear, ac a anadlodd yn ei ffroenau anadl einioes; a'r dyn a aeth yn enaid byw. *Gen.* ii. 7.

2. Duw a greodd Wraig, ſef *Efa*, o aſen *Adda*, yn ymgeledd cymmwys iddo, tra yr oedd efe yn cyſgu. *Gen.* ii. 20—22.

3. Duw a greodd y Dyn yn berffaith, ar ei Ddelw ei hun, mewn Gwybodaeth, a Chyfiawnder, a Sancteiddrwydd; ac a roddes iddo arglwyddiaeth ar greaduriaid y ddaear. *Gen.* i. 26, 27. *Eph.* iv. 24. *Col.* iii. 10.

4. Duw a ddodes y Dyn yng Ngardd *Eden*, i'w llafurio, a'i chadw, ac i fwytta o'i ffrwyth, ac o ffrwyth Pren y Bywyd, a byw; ond i farw, os bwyttâi o Bren Gwybodaeth Da a Drwg. Hwn yw'r Cyfammod Gweithredoedd a wnaeth Duw ag *Adda*. Gen. ii.

5. Y Dyn a hudwyd gan y Wraig, a'r Wraig gan y Sarph, i dorri'r Cyfammod Gweithredoedd, trwy fwytta o ffrwyth Pren Gwybodaeth Da a Drwg: ac felly y ſyrthiaſant hwy a'u Heppil oddi wrth Dduw. *Gen.* iii. 6. *Rhuf.* v. 16, 18, 19. 1 *Cor.* xv. 22.

Cw. Paham y galwyd efe yn *Bren Gwybodaeth Da a Drwg*?

Att. 1. I ſod yn arwydd i'r Dyn wybod yn ſier, mai Ufudd-dod i Dduw oedd dda iddo; ac y byddai yn ddrwg iddo anufuddhau, os bwyttâi o'r ffrwyth gwaharddedig.

2. O herwydd i'r Dyn, pan fwyttaodd o ffrwyth y Pren

gwaharddedig, gael Gwybodaeth brofiadol a chwerw o'r Cyflwr da a gollodd, a'r Drwg a ddaeth iddo trwy dorri Cyfammod Duw.

3. O herwydd i'r Pren hwn, trwy Ragwelediad Duw (yn groes i fwriad y temtiwr) fod yn achlyſur o wybodaeth i'r byd yn ol llaw, o Ddaioni Duw, trwy Griſt, i'w Bobl; a drwg Gyflwr y rhai colledig.

Cw. Beth a ddigwyddodd i'n Rhieni cyntaf, ar ol torri 'r Cyfammod Gweithredoedd?

Att. 1. Delw Duw arnynt a lygrwyd; cywilydd ac ofn a ddaeth arnynt; ceiſiaſant ymguddio oddi wrth Dduw; a dechreuaſant gyhuddo eu gilydd. *Gen.* iii. 7—12.

2. Duw a'u gyrrodd hwynt allan o'r Ardd, i fwytta eu Bara yn Chwŷs eu Hwyneb; a'r Wraig i feichiogi, a dwyn Plant mewn Poen; a'r Ddaear a felldigwyd o'u Hachos hwynt. *Gen.* iii. 16, 17, 18, 19, 23, 24.

3. Hwy a ſyrthiaſant dan Ddigofaint Duw, a Barn Marwolaeth. *Gen.* ii. 7. *Gal.* iii. 10. *Rhuf.* v. 12, 16. 2 *Cor.* xv. 22.

Cw. Ym mha yſtyr yr y'm ni yn gyfrannog o Bechod *Adda*, a elwir yn *Bechod gwreiddiol*?

Att. 1. Yn y diffyg o Gyfiawnder gwreiddiol ag oedd gan *Adda* cyn pechu. *Megis y mae'n'ſgrifenedig; Nid oes neb cyfiawn, nac oes un.* Rhuf. iii. 10.

2. Yn Llygredigaeth ein holl Natur. *Ciliodd pawb; cydymddifwynaſant. — Gwyraſant oll; aethant i gŷd yn anfuddiol.* Sal. xiv. 3. Gen. vi. 5, 6.

3. Yn ein Daroſtyngiad i'r Goſp a'r Trueni a ddaeth trwy Bechod. *Dyn a aned o wraig, ſydd fyr o ddyddiau, a llawn o helbul. — Ei holl ddyddiau ſydd orthrymder, a'i lafur yn ofid.* Job xiv. 1. Preg. ii. 23.

Cw. Pa fodd y gallwn ni fod yn gyfrannog o Bechod *Adda*?

Att. 1. Yr oeddym ni yn lwynau *Adda* pan ſyrthiodd efe, fel canghennau heb dorri allan, y rhai ni allent ſefyll pan oedd y pren yn ſyrthio. *Megis deilen y ſyrthiaſom ni oll.* Eſay lxiv. 6. Act. xvii. 26.

2. Nid allai dynion halogedig genhedlu had dihalog. Mwy nâ phren drwg ddwyn ffrwythau da, na feirph ddwyn colommennod. *Adda a genhedlodd fab ar ei ddelw ei hun. —Pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan? neb.* Gen. v. 3. Job xiv. 4.

3. Mae ffrwythau Pechod yn ymddangos mewn Plant bychain cyn pechu'n weithredol. Sef, *Poen, Digllonedd, Cleſydau,*

Cleſydau, ac Angau. Canys cyflog pechod yw marwōlaeth. Rhuf. vi. 23.

4. Pe buaſem yn ddilygredd yn ein genedigaeth naturiol, ni buaſai raid wrth Ail-enedigaeth yſprydol. *Eithr Criſt a ddywedodd, Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.* Joa. iii. 3.

5. Mae'r Seintiau pennaf yn profi Llygredd gwreiddiol ynddunt. *Dafydd a ddywedodd, Mewn anwiredd y'm llunïwyd; ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf. — A Phaul ſy'n llefain, Yſ truan o ddyn wyf fi! pwy a'm gwared i oddi wrth gorph y farwōlaeth hon!* Sal. li. 5. Rhuf. vii. 24.

6. Pe buaſem yn lân oddi wrth Bechod gwreiddiol, gallaſem (cyn pechu yn weithredol) fod yn gadwëdig o honom ein hunain. *Eithr nid oes iechydwriaeth i neb, ond trwy Griſt yn unig.* Act. iv. 12. Joan xiv. 6.

7. O herwydd Llygredd dynolryw trwy genhedliad naturiol, y daeth Criſt i'r byd trwy Genhedliad goruwchnaturiol. *Fel y byddai yn Archoffeiriad ſanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddi wrth bechaduriaid.* Luc i. 35. Heb. vii. 26.

Cw. A ellwch chwi fod yn gadwëdig trwy'r Cyfammod Gweithredoedd?

Att. Na allwn. 1. O blegid nyni oll a dorraſom y Cyfammod hwnnw trwy Gwymp ein Rhieni cyntaf. *Trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad.—Trwy anufudd-dod un y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid.* Rhuf. v. 18, 19.

2. O blegid i ni dorri'r Cyfammod hwnnw aneirif o weithiau trwyddom ein hunain. *Onid yw ein drygioni yn aml, a'n hanwireddau heb derfyn?—Pwy a ddyall ei gamweddau? — Amlach ydynt nâ gwallt ein pen.* Job xxii. 5. Sal. xix. 12. xl. 12.

3. O blegid ein bod yn llwyr-anabl i gyflawni Gofyniad y Cyfammod Gweithredoedd rhag llaw. *O herwydd na ddichon dyn pechadurus roddi ufudd-dod dibechod i Gyfraith Dduw. Canys nid oes dyn cyfiawn ar y ddaear, a wna ddaioni, ac ni phecha.* Preg. vii. 20.

Cw. Beth oedd Gofyniad y Cyfammod Gweithredoedd?

Att. Ufudd-dod perffaith a dibechod i Gyfraith Dduw. *Canys 'ſgrifenwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a'ſgrifenir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt,* Gal. iii. 10.

Cw. Ym mha fodd y treſnwyd Jechydwriaeth i ni ar ol torri 'r Cyfammod Gweithredoedd?

Att. Duw a amlygodd y Cyfammod Gras, gan hyſpyſu i'n Rhieni cyntaf, *Y byddai i had y wraig* (ſef, Criſt) *yſigo pen y ſarph a'u twyllaſai hwynt.* Gen. iii. 15.

Cw. Beth a hyſpyſir ymma am Griſt?

Att. Tri pheth. 1. Ei Gnawdoliaeth oruwchnaturiol ef; ſef, y genid Criſt o Wraig heb adnabod Gwr: canys Had y *Wraig* y gelwïr efe.

2. Dïoddefaint Criſt yn ei Natur ddynol droſom ni: canys ſe ddywedodd Duw, y byddai i'r ſarph yſigo ei ſawdl ef.

3. Goruchafiaeth Criſt; ſef, y byddai iddo ef *yſigo pen y ſarph.* Trwy ddiſtrywïo grym a chyfrwyſtra Satan, a'i holl lywödraeth. 1 *Joan* iii. 8.

Cw. Pa wahaniaeth ſydd rhwng y Cyfammod Gweithredoedd a'r Cyfammod Gras?

Att. 1. *Adda* oedd ein Pen cyfammodol yn y Cyfammod Gweithredoedd: eithr Criſt yw ein Pen cyfammodol yn y Cyfammod Gras. *Eſay* xlii. 6. 1 *Cor.* xv. 22.

2. Goſyniad y Cyfammod Gweithredoedd oedd, Ufudd-dod perffaith, dibechod: eithr Gofyniad y Cyfammod Gras yw, Ffydd yn gweithio Edifeirwch ac Uſudd-dod newydd. *Act.* xvi. 31. *Eph.* ii. 8.

3. Trwy Gyfiawnder ac Ufudd-dod Dyn ei hun, yr oedd Cyfiawnhâd a Bywyd yn y Cyfammod Gweithredoedd: eithr trwy Ffydd yng Nghriſt, y mae Cyfiawnhâd a Bywyd tragywyddol yn y Cyfammod Gras. *Rhuf.* iii. 22, 23, 28.

4. Nid oedd Cyfryngwr yn y Cyfammod Gweithredoedd: eithr y mae Criſt yn Gyfryngwr i fechnïo ac i eiriol droſom, yn y Cyfammod Gras. *Heb.* vii. 22, 25.

5. Nid oedd Addewïd o Faddeuant byth am y Pechod lleiaf, yn y Cyfammod Gweithredoedd: eithr ſe elwïr y Pechaduriaid mwyaf i gael Maddeuant, trwy Griſt, yn y Cyfammod Gras. *Eſay* i. 18. lv. 7. *Joan* iii. 16 *Mic.* vii. 18, 19.

6. Yr oedd Parhâd Dyn, yn y Cyfammod Gweithredoedd, yn ſeſyll ar ei Nerth naturiol ei hun: eithr y mae i ni, trwy Allu yſprydol, Sicrwydd mwy am Barhâd, yn y Cyfammod Gras. *Phil.* i. 6. *Jer.* xxxii. 40. *Sal.* xxxvii. 24. *Jo.* x. 27—29.

7. Cyn Cwymp Dyn i Bechod, y gwnaed y Cyfammod Gweithredoedd, am ſwynhâd y Bywyd oedd ganddo: eithr ar ol y Cwymp, yr amlygwyd y Cyfammod Gras, am gael Bywyd tragywyddol ar ol ei golli. *Gen.* ii. a iii.

Cw.

Cw. Pa fath y'wr Cyfammod Gras?

Att. 1. Mae'n Gyfammod ſanctaidd. I'n dwyn ni i fod yn Bobl ſanctaidd, yw'r Diben o hono; ac y mae'r cwbl yn ſanctaidd a berthyn iddo. *Luc* i. 72.

2. Mae'n Gyfammod manteiſiol. Canys y mae i ni Hawl trwyddo yn Nuw, a'i holl Briodoliaethau; yng Nghriſt, a holl Ddoniau'r Prynedigaeth; yn yr Yſpryd Glân, a'i holl Raſau; ac o'r cwbl a gynhwyſir yn holl Addewïdion Duw. 2 *Sam.* xxiii. 5. 1 *Cor.* ii. 9. iii. 21—23.

3. Mae'n Gyfammod trâgywyddol, na derfydd byth. Bendithion tragywyddol, Llawenydd a Bywyd tragywyddol, a gynhwyſir ynddo. *Sal.* cxi. 9.

4. Mae'n Gyfammod Priodas; trwy ba un y mae'r Undeb agoſaf, a'r Cariad anwylaf, rhwng Duw a'i Bobl. *Eſay* lxii. 5. *Hoſ.* ii. 19.

5. Mae'n Gyfammod rhad. Canys yn rhad ac yn ddihaeddiant y carodd Duw ei Bobl; fel na fydd pall am Ran ynddo i'r neb a ewyllyſio, er annheilynged y bônt. *Hoſ.* xiv. 4.

6. Mae'n Gyfammod ſicr; na's gellir ei gyfnewid, na'i ddiddymmu, byth. *Fel y gallom ymgyſuro ynddo yn ddibryder. Cyfammod fy hedd ni ſyſt, medd yr Arglwydd ſydd yn trugarhâu wrthyt.* Eſay liv. 10.

Cw. Pa rai o Freintiau y Cyfammod Gras a arwyddocâwyd yn eich Bedydd?

Att. Y tair hyn. 1. Cael fy ngwneuthur yn Aelod i Griſt. 2. Yn Blentyn i Dduw. 3. Yn Etifedd Teyrnas Nefoedd.

Cw. Paham yr enwïr, *Aelod i Griſt*, yn ſtaenaf?

Att. Am mai trwy fod yn Aelod i Griſt, y mae ein holl Freintiau eraill yn dyfod. 2 *Cor.* i. 30. iii. 22, 23.

Cw. Beth y mae eich bod yn Aelod i Griſt, yn arwyddocâu?

Att. 1. Perthynas ac Undeb broffeſol â Chriſt. *Trwy fod yn Aelod weledig o'i Eglwys ef, a elwïr yn Gorph Criſt.* Eph. i. 22, 23. 1 Cor. xii. 27.

2. Perthynas ac Undeb yſprydol â Chriſt. *Trwy un Yſpryd y bedyddïwyd ni oll yn un corph.* 1 Cor. xii. 13.

Cw. Beth a fyddylïwch wrth Undeb broffeſol â Chriſt?

Att. 1. Nad yw y rhai ſy'n Aelodau o Eglwys Griſt trwy Broffes yn unig, ond fel coes bren, neu lygad gwydr, heb fod n aelodau bywiol o'r corph; neu frigyn a impir yn y pren, eb gydio a chyd-dyfu ag ef; neu *ganhennau diffrwyth o'r winwydden.* Joan v. 2. Mat. xv. 13.

2. Fod

2. Fod y rhai nad ydynt ond Aelodau o Eglwys Grist trwy Broffes yn unig, yn aros yn eu cyflwr colledig, er eu bedyddio, ac arferu Ordinhadau eraill. *Mae ganddunt enw eu bod yn fyw, a meirw ydynt.* Dat. iii. 1. Luc xiii. 26, 27.

Cw. Pa fath yw Undeb yſprydol â Chriſt?

Att. 1. Undeb dirgeledig. *Aelodau ydym o'i gorph ef, o'i gnawd ef, ac o'i eſgyrn ef. Y dirgelwch hyn ſydd fawr: eithr am Grist, ac am yr eglwys, yr wyf fi yn dywedud.* Eph. v. 30, 32.

2. Undeb goruwchnaturiol. Canys Duw ei hun yw'r Awdwr o hono. *Yr ydych chwi o hono ef* (ſef, o Dduw) *yng Nghriſt Jeſu.* 1 Cor. i. 30.

3. Undeb anrhydeddus yw. *Pa genedl mor fawr, yr hon y mae Duw iddi yn nesâu atti, ſel yr Arglwydd ein Duw ni!* Deut. iv. 7.

4. Undeb diddattodol; na's gall na bywyd nac angau, na dim arall, ei dorri. *Pwy a'n gwahana ni oddi wrth gariad Criſt?* Rhuf. viii. 35, 38, 39. Eſay liv. 10.

5. Undeb manteiſiol; trwy'r hwn y mae'r holl Freintiau a bwrcaſodd Criſt, yn eiddo ni. *Pob peth ſydd eiddo chwi, a chwithau yn eiddo Criſt.* 1 Cor. iii. 22, 23. Joan i. 16.

Cw. Pa Freintiau a berthyn i chwi trwy Undeb â Chriſt?

Att. 1. Mae Criſt yn eiddo ni yn ei holl Berthynaſau: ſef, yn Gâr, yn Gyfaill, yn Fechnïydd, yn Feddyg, yn Brynwr, ac yn Briod; yn Brophwyd, yn Frenhin, ac yn Archoffeiriad trugarog, i ddadleu droſom ger bron Duw. *Can.* v. 16. *Heb.* ii. 11.

2. Trwy Griſt, y mae ein Cyfiawnhâd a'n Sancteiddiad, a'n Cymmod â Duw; ac y'n llwyr-waredir oddi wrth Ddamnedigaeth a Phechod. 1 *Cor.* vi. 11. *Mat.* i. 21. *Rhuf.* viii. 1.

3. Trwy Undeb á Chriſt, y mae'n Bywyd yſprydol, a'n Nerth i ddwyn Ffrwythau da er Gogoniant i Dduw. Megis y mae bywyd a nerth yr aelodau oddi wrth eu hundeb â'r corph, a ffrwyth y canghennau oddi wrth eu hundeb â'r pren. *Joan* xv. 5. *Rhuf.* vii. 4.

4. Trwy Undeb â Chriſt, y mae Gofal neillduol Rhagluniaeth Dduw, a Gwarchodaeth ei Angylion ef, droſom. 1 *Pedr* v. 7. *Mat.* vi. 31—33. *Heb.* i. 14.

5. Trwy Undeb â Chriſt, y mae i ni Hawl am Gyfur a Chymmorth yn holl Drallodau'r Bywyd hwn, ac yn Angau; ac am Adgyfodiad gogoneddus yn Nydd y Farn, i fwynhâu Bywyd tragywyddol. *Sal.* xxiii. 4. 1 *Cor.* xv. 55—57.

Cw.

Cw. Ym mha gyffelyb y'n gwneir ni yn Gyfrannogion o'r Breintiau hyn trwy Grift?

Att. 1. Megis yr ydym yn *Adda* yn Gydgyfrannog ag ef yn ei Gwymp a'i Gofp; felly y'n gwneir yng Nghrift yn Gydgyfrannogion o Haeddiant ei holl Ddïoddefaint ef drofom.

2. Megis yr halogwyd, ac y collwyd ni yn *Adda*, trwy Bechod; felly yng Nghrift y glanhêir ac y cedwïr ni, trwy Ffydd.

3. Trwy Grift y cawn drachefn y cwbl a gollafom yn *Adda*, a llawer mwy: o blegid fod Haeddiant da Crift yn fwy nâ drwg haeddiant Adda. A Chrift a ddywedodd, *Myfi a ddaethum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach.* Joan x. 10.

Cw. Beth a ddyfgwch oddi wrth Undeb â Chrift?

Att. 1. Mi ddylwn ei garu am fy nghymmeryd i Undeb ag ef. *Od oes neb nid yw yn caru yr Arglwydd Jefu Grift, bydded Anathema, Maranatha.* 1 Cor. xvi. 22.

2. Mi ddylwn holi pa un a feddaf fi Undeb â Chrift mewn Gwirionedd. *Holwch eich hunain. Ai nid ydych yn adnabod eich hunain, fef bod Jefu Grift ynnoch, oddïeithr i chwi fod yn anghymmeradwy?* 2 Cor. xiii. 5. 1 Joan i. 6. iv. 13.

3. Mi ddylwn edrych er i mi garu, ac na bo i mi un amfer ddirmygu neb o'r Duwiolion, er diftadled y fo'r olwg arnynt: canys Aelodau Crift ydynt. *Zec.* ii. 8. *Act.* ix. 4, 5. *Mat.* xxv. 40.

4. Mi ddylwn fod yn gyfurus ym mhob Trallod; o blegid fod Crift yn cyd-deimlo â phob Aelod a berthyn iddo. *Yn eu holl gyftudd hwynt efe a gyftuddïwyd.* Efay lxiii. 9. Heb. iv. 15.

5. Fe ddylai Cyd-aelodau Crift fod yn gyttûn â'u gilydd: nid ymbleidio, na rhwygo Corph Crift; eithr yn *ddyfal i gadw undeb yr Yfpryd yng nghwlwm tangnefedd. — Wedi eu cyfan-gyfylltu yn yr un meddwl, ac yn yr un farn.* Eph. iv. 3—6. 1 Cor. i. 10. xii. 25.

Cw. Beth yw ail Ragorfraint y Cyfammod Bedydd?

Att. Fy Mabwyfiad i fod yn *Blentyn i Dduw.*

Cw. Pa fath Ragorfraint yw Mabwyfiad i fod yn Blentyn i Dduw?

Att. 1. Rhagorfraint briodol i Aelodau Crift yn unig, ydyw. *Cynnifer ag a dderbyniafant Grift, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw.* Joan i. 12. Gal. iii. 26, 27.

2. Rhagor-

2. Rhagorfraint ſy'n dyfod oddi wrth Ewyllys da Duw, ydyw. *Eſe a'n rhagluniodd ni i fabwyſiad trwy Jeſu Griſt iddo ei hun, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef.* Eph. i. 5.

3. Rhagorfraint uchel ac anrhydeddus, ydyw. *Gwelwch pa fath gariad a roes y Tad arnom, fel y'n gelwïd yn feibion i Dduw!* 1 Joan iii. 1.

4. Rhagorfraint goſtfawr, ſef gwerth Gwaed Criſt, ydyw. *Yr hwn a'n prynodd oddi tan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwyſiad.* Gal. iv. 4, 5.

5. Mae Breintiau mawrion yn cyd-gerdded â Mabwyſiad.

Cw. Pa Freintiau ſy'n cyd-gerdded â Mabwyſiad?

Att. 1. *Addewidion mawr jawn a gwerthfawr; fel trwy y rhai hyn y byddom gyfrannogion o'r duwiol anian, wedi diangc oddi wrth y llygredigaeth ſydd yn y byd trwy drachwant.* 2 Pedr i. 4.

2. *Yſpryd mabwyſiad yn ein calonnau, yn lleſain Abba, Dad, i gyd-dyſtiolaethu â'n hyſpryd ni, ein bod yn blant i Dduw.* Rhuf. viii. 15, 16. Gal. iv. 6.

3. Etiſeddiaeth fawr ogoneddus. *O's plant, etifeddion hefyd; ſef etiſeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Chriſt.* Rhuf. viii. 17. Gal. iv. 7.

4. Mae Duw ei hun yn Dad i ni, ac yn ymddwyn fel Tad tu ag attom. *Joan* xx. 17.

Cw. Pa lun y mae Duw yn ymddwyn fel Tad tu ag attoch?

Att. 1. Mae Duw, fel Tad, yn dïwallu ein Hangen ni. *Ac yn cyflawnu ein holl raid ni, yn ol ei olud mewn gogoniant yng Nghriſt Jeſu.* Phil. iv. 19. Mat. vi. 32. 1 Pedr v. 7.

2. Mae Duw, fel Tad, yn ein cyfarwyddo ni. *Canys Duw a ddywaid, Cyfarwyddaf di, a dyſgaf di yn y ffordd yr elech; a'm llygad arnat y'th gynghoraf.* Sal. xxxii. 8. Eſay liv. 13.

3. Mae Duw, fel Tad, yn ein ceryddu er ein Lles ni. *Canys pa fab ſydd, yr hwn nid yw ei dad yn ei geryddu?* Heb. xii. 6—10.

4. Mae Duw, fel Tad, yn dirion wrthym. *Canys fel y toſturia tad wrth ei blant, felly y toſturia'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.* Sal. ciii. 13. Mal. iii. 17.

5. Mae Duw, fel Tad, yn gwrando Llef ein Gweddiau. *Hyn yw'r hyſder ſydd gennym ta ag atto ef; ei fod ef yn ein gwrando ni, o's gofymwn ddim yn ol ei ewyllys ef.* 1 Joan v. 14, 15. Mat. vii. 8, 11.

Cw. Beth a ddyſgi oddi wrth dy Fabwyſiad i fod yn Blentyn i Dduw?

Att.

Att. 1. Mi ddylwn ddiolch i Dduw am ei Ddawn anhraethol i ni. 2 *Cor.* ix. 15.

2. Mi ddylwn fod yn gyſurus ym mhob Cyflwr. Canys, *Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwön, yw Duw.— Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyn.* Sal. lxviii. 5. xxvii. 10. Eſay lx ii. 16.

3. Mi ddylwn ymddŵyn yn addas i Fraint uchel fy Mabwyſiad. *Fel plant uſudd-dod, heb gyd-ymagweddi â'r trachwantau o'r blaen.* 1 Pedr i. 14. Deut. xiv. 1. 2 Cor. vi. 18. vii. 1. Mat. 5. 48.

4. Mi ddylwn anrhydeddu Duw fy Nhad, a phob Peth a berthyn iddo; ſef, ei Enw, a'i Air, a'i holl Ordinhadau. *Mab a anrhydedda ei dad, a gweinidog ei feiſtr; ac o's ydwyf fi Dad, pa le y mae fy anrhydedd? ac o's ydwyf fi Feiſtr, pa le y mae fy ofn?* Mal. i. 6.

5. Mi ddylwn ddilyn Cyngor Duw, a'i Eſampl. *Fy mab, gwrando addyſg dy dâd.— Bydwch ddilynwyr Duw, fel plant annwyl.* Diar. i. 8. Eph. v. 1.

6. Mi ddylwn garu Criſt, trwy'r hwn y'm gwnaethpwyd yn Blentyn i Dduw. Megis y dywedodd Criſt; *Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i.* Joan viii. 42.

Cw. Beth yw trydydd Rhagorfraint y Cyfammod Bedydd?

Att. Cael bod yn *Etifedd Teyrnas Nefoedd.*

Cw. Beth a feddyliwch ymma wrth *Deyrnas Nefoedd?*

Att. 'Stad wynfydedig Plant Duw yn y Byd a ddaw. *Mat.* v. 10. 2 *Tim.* iv. 18.

Cw. Pa fath yw 'Stad wynfydedig Plant Duw yn Nheyrnas Nefoedd?

Att. 1. Mae Trigfannau gwynfydedig ar eu Medr, na's gellir adrodd Gogoniant eu Harddwch. *Joan* xiv. 2. *Dat.* xxi. 10, 11. *Sal.* xvi. 6.

2. Hwynthwy a ryddhêir oddi wrth eu holl ofidiau, ac a olchir oddi wrth eu holl Bechodau: eu holl Synhwyrau a'u Graſau a berffeithir; ac ni bydd Newyn na Syched, na Chlefyd na Galar, mwy. *Dat.* vii. 14—17. xxi. 4.

3. Hwy a gânt fwynhâu hoff Gymdeithas Plant Duw eu Brodyr, a'u Prynwr yr Arglwydd Jeſu, a'r holl Angylion gogoneddus. *Heb.* xii. 22—24.

4. Eu Cymmundeb hwy â Duw eu Tad, a'u Heinw hwynt a Gariad a Gorfoledd annhraethadwy. *Eſay* xxv. 9. lx. 19, 20. lxi. 7. *Dat.* xiv. 2, 3, 13.

5. Eu Gwynfyd a fydd yn â gywyddol; a hwythau yn anfarwöl,

anfarwöl, i'w fwynhâu byth. *Canys ni's gallant farw mwy: o blegid cyd-'ſtad ydynt â'r angylion.* Luc xx. 36. Sal. xvi. 11.

Cw. Gwynfyd Etifeddion Teyrnas Nefoedd, pa fath Etiſeddiaeth yw hon?

Att. 1. Etifeddiaeth ſy'n dyfod, nid trwy waddoliaeth naturiol, ond trwy Adenedigaeth yſprydol. *Oddïeithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.* Jo. iii. 3.

2. Etifeddiaeth briodol i bob un o holl Blant Duw; ac iddunt hwy yn unig. Canys, *Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern, a'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw.* Sal. ix. 17. xi. 6. Joan vi. 40.

3. Etiſeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflannedig, ac ynghadw yn y Nefoedd, ydyw. 1 *Pedr* i. 4.

4. Etifeddiaeth ragorol. Canys, *Ni welodd llygad, ni chlywödd clufl, ac ni ddaeth i gâlon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef.* 1 Cor. ii. 9.

Cw. Beth a ddyfgwch oddi wrth yr Etifeddiaeth hon?

Att. 1. Mi ddylwn ryfeddu Cariad Duw. *Gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymmwys i gael rhan o etifeddiaeth y ſaint yn y goleuni.* Col. i. 12.

2. Mi ddylwn ddilyn Cyfiawnder a Duwioldeb yn ddiragrith. *Canys oni bydd eich cyfiawnder yn helaethach na chyfiawnder y 'ſgrifenyddion a'r Phariſeaid, nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd.* Mat. v. 20.

3. Mi ddylwn fod yn amyneddgar ym mhob Blinder. Canys, *Trwy lawer o orthrymderau y mae'n rhaid i ni fyned i deyrnas Dduw.* Act. xiv. 22. Luc xii. 32, 43, 44.

4. Mi ddylwn gyflawnu'r Ammodau a wnaeth fy Nhadau-bedydd a'm Mammau-bedydd droſwyf, pan y'm bedyddïwyd yn Aelod i Grift, yn Blentyn i Dduw, ac yn Etifedd Teyrnas Nefoedd.

Cw. Pa beth a wnaeth dy Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd yr amſer hwnnw droſot ti?

Att. Hwy a addawſant ac a addunaſant dri pheth yn fy enw. Yn gyntaf, Ymwrthod o honof y diafol a'i holl weithredoedd; rhodres a gorwagedd y byd anwir hwn; a holl bechadurus chwantau'r cnawd. Yn ail, Bod i mi gredu holl Byngciau Ffydd Grift. A yn drydydd, Cadw o honof wynfydedig Ewyllys Duw a'i Orchymynnion, a rh[illegible] ynddunt holl ddyddiau f mywyd.

Cw.

Cw. Paham y mae ymwrthod â'r Drwg yn flaenaf?

Att. Am na allaf wneuthur yn dda heb ymwrthod â'r Drwg. *Cilia oddi wrth ddwg, a gwna dda.* Sal. xxxiv. 14.

Cw. Paham y mae *credu* holl Byngciau Ffydd Criſt, o laen *ufuddhâu* i Orchymynnion Duw?

Att. Am na's gallaf ufuddhâu, na'm Hufudd-dod i fod n gymmeradwy, heb Ffydd a Chred yng Nghriſt. *Heb ffydd mmhoſibl yw rhyngu bodd Duw.* Heb. xi. 4, 5, 6. Rhuf. iv. 23.

Cw. Pa ſawl peth ſydd yn yr Adduned hyn?

Att. Tri pheth. 1. Ymwrthod Gelynion yſprydol ſy Enaid.

2. Credu holl Byngciau'r Ffydd.

3. Cadw gwynfydedig Ewyllys Duw a'i Orchymynnion.

Cw. Pa Elynion a ddylech ymwrthod?

Att. 1. Y Diafol, a'i holl Weithredoedd. *Jago* iv. 7.

2. Rhodres a Gorwagedd y Byd anwir hwn. 1 *Joan* ii. 15.

3. Holl Chwantau pechadurus y Cnawd. *Rhuf.* viii. 13.

Cw. Beth yw'r Diafol?

Att. Yr holl Yſprydion drwg, a ſyrthiaſant o'u Cyflwr da ynt, i falais a gwrthryfel yn erbyn Duw; ac a geiſiant yn diorphwys demtio pob dyn i Bechod a Dinyſtr. *Jud.* 6. *Dat.* xii.

Cw. Paham y dylech ymwrthod y Diafol?

Att. 1. O blegid mai Gelyn creulon yw'r Diafol; a Gwrthynebwr, ag *ſydd, megis llew rhuadwy, yn rhodio oddi ngylch, gan geiſio y neb a allo ei lyngcu.* 1 Pedr v. 8.

2. O blegid mai i'n gwaredu rhag y Diafol y daeth Criſt r byd. *I'n troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant San at Dduw.* Act. xxvi. 18. Col. i. 13.

3. O blegid na's gallwn fod yn eiddo Criſt, heb ymwrthod r Diafol. *Canys, pa gyſondeb ſydd rhwng Criſt a Bel?* 2 Cor. vi. 14, 15.

Cw. Pa rai yw Gweithredoedd y Diafol?

Att. Pob rhyw Bechodau: canys y Diafol ſydd awdwr o nunt, ac yn temtio dynion iddunt. Ond yn fwy enwedig y rhai hyn; ſef, 1. Llofruddiaeth, Lladratta, Anlladydd, ac Eilunaddoliad. *Joan* viii. 44. 1 *Cor.* x. 20.

2. Swynedigaeth, a Dewiniaeth, ac Ymofyn â Chonſurr. *Lef.* xx. 6. *Deut.* xviii. 10—12.

3. Erlid a Charcharu Pobl Dduw am eu Ffyddlondeb. *at.* ii. 10.

4. Pob Cynfigen a Malais, a phob Anghyfiawnder a elwydd. *Jago* iii. 14—16. *Joan* viii. 44. *Act.* v. 3. 5.

5. Balchder, a Themtio eraill i Bechu, a Gwrthwynebu Addoliad Duw; a phob Llwon oſer, Rhegau, ac Anudoniaeth. 1 *Tim.* iii. 6. 1 *Theſ.* iii. 5. *Act.* iii. 6—10. *Joan* xiii. 2, 17. 2 *Cor.* iv. 3, 4. *Mat.* v. 34, 37.

Cw. Paham y dylech ymwrthod Gweithredoedd y Diafol?

Att. 1. O blegid mai Gweiſion y Diafol yw'r rhai a wnant ei Weithredoedd ef. *Oni wyddoch chwi,—eich bod yn weiſion i'r hwn yr ydych yn ufuddhâu iddo?* Rhuf. vi. 16. Joan viii 34.

2. Plant y Diafol ydynt. *O'ch tad diafol yr ydych chwi, a thrachwantau'ch tad a fynnwch chwi eu gwneuthur.* Joan viii. 44. Act. xiii. 10.

3. Ym Meddiant y Diafol y maent. Canys, *Yr hwn ſydd yn gwneuthur pechod, o ddiafol y mae.* 1 Joan iii. 8.

4 Mae'r Diafol ar waith ynddunt. *Hwn yw'r yſpryd ſydd yr awr hon yn gweithio ym mhlant yr anufudd-dod.* Eph. ii. 2.

5. Gyd â'r Diafol y bydd eu Rhan hwynt. Criſt a ddywaid wrthunt yn Nydd y Farn, *Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barottôwyd i ddiafol a'i angylion.* Mat. xxv. 41.

Cw. Peth, yn ail, a ddylech ymwrthod?

Att. Rhodres a Gorwagedd y Byd anwir hwn.

Cw. Paham y gelwïr ef yn *Fyd anwir*?

Att. Am ei fod yn llawn o Anwiredd ei Breſwylwyr, trwy Rodres a Gorwagedd y Byd.

Cw. Beth yw *Rhodres a Gorwagedd y Byd*?

Att. Chwant y Cnawd, Chwant y Llygaid, a Balchder y Bywyd; ſef, holl Bethau llygredig y Byd, ag ſy'n hudo Chwantau Dyn ar eu hol. 1 *Joan* ii. 16.

Cw. Paham y dylech wrthod y Pethau hyn?

Att. 1. Am mai Gwagedd a Gorthrymder Yſpryd ydynt; ac ni wnant Les i neb yn eu dïwedd. *Ni thyccia cyfoeth yn nydd digofaint.* Diar. xi. 4. Preg. ii.

2. Am mai Pethau anwadal ydynt. *O ynſyd, y nos hon y gofynant dy enaid oddi wrthyt; ac eiddo pwy fydd y pethau a barottôaiſt?* Luc xii. 20.

3. Am eu bod yn rhwyſtro Cariad Duw. *O's câr neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef.* 1 Joan ii. 15. Luc xvi. 13.

4. Am mai *Eilunaddolwyr*, *Putteinwyr*, a *Gelynion*, *Phlant y Felldith*, y gelwïr Cybyddion y Byd hwn. *Eph.* v. 5. *Jago* iv. 4.

5. A

5. Am ſod Trachwant i Bethau'r Byd, yn tywys i Bechodau lawer, a Dinyſtr. *Y rhai ſy'n ewyllyſio ymgyſoethogi, ſydd yn ſyrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai ſydd yn boddi dynion i ddinyſtr a cholledigaeth.* 1 Tim. vi. 9.

Cw. Pa Eſamplau ſydd gennych, o ſod Trachwant y Byd yn tywys i Bechodau lawer, a Dinyſtr?

Att. 1. Trwy Drachwant y Byd, yr oedd gwrandawyr *Ezeciel* yn rhagrithio o flaen Duw. Canys, *A'u geneuau y dangoſent gariad; ond eu calonnau oedd yn myned ar ol eu cybydd-dod. — A'r Phariſeaid ariangar a watworent Athrawiaeth Criſt.* Ezec. xxxiii. 31. Luc xvi. 14.

2. Trachwant *Ahab* a'i gwnaeth ef yn glaf o Ofid, ac yn euog o Lwon anudon, a Llofruddiaeth: o herwydd paham y dinyſtriwyd ef a'i holl dylwyth. 1 *Bren.* xxi.

3. *Balaam*, o Chwant Gwobr Anghyfiawnder, a geiſiodd felldigo Pobl Dduw: ac ar ol hynny efe a laddwyd â'r Cleddyf. 2 *Pedr* ii. 15. *Num.* xxxi. 8.

4. *Judas Iſcariot*, am Arian, a fradychodd Griſt: ac ar ol hynny, a ymgrogodd. *Mat.* xxvi.

5. *Demas* a drodd yn Apoſtat, ac a adawödd ei Broffes, trwy garu'r Byd preſennol. 2 *Tim.* iv. 10.

Cw. Pa Bethau bydol, yn neillduol, a ddylech ymwrthod?

Att. 1. Gwag-fawredd a Rhwyſg y Byd. *A geiſi di fawredd i ti dy hun? na chais.* Jer. xlv. 5.

2. Gwag-orfoledd y Byd hwn. *Byr yw gorfoledd yr annuwiol; a llawenydd y rhagrithiwr ſydd dros funud awr.* Job xx. 4, 5.

3. Gwag-ogoniant ac Anrhydedd y Byd; y rhai ſy'n rhwyſtro Ffydd Griſt. *Pa fodd y gellwch chwi gredu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan eu gilydd?* Joan v. 44. xii. 42, 43.

4. Cyſylltu Tŷ at Dŷ, a Maes at Faes, hyd oni byddo eiſiau Lle: o herwydd hyn y gwna Duw dai lawer, mawrion, a theg, yn anghyfannedd heb drigiannydd. *Eſay* v. 8, 9.

5. Trwſiadau coeglyd, anweddus i'n Graddau a'n Proffes. *Am hyn yr ymwêl Duw â cheryddon chwerw.* Eſay iii. 16—26.

6. Drwg-arferion a Chyffeillach y Byd. *Na chyd-ymffurfiwch â'r byd hwn.* Rhuf. xii. 2. Jago iv. 4. Ecſod. xxiii. 2.

Cw. Ym mha yſtyr y dylech ymwrthod â Phethau'r Byd?

Att.

Att. 1. Na bo i mi eu ceiſio mewn Ffordd anghyfiawn *Gwae a elwö elw drwg i'w dŷ.—Fel petris yn eiſtedd, a heb ddeor, yw'r hwn a helio gyfoeth yn annheilwng: y hanner ei ddyddiau y gedy hwynt, ac yn ei ddiwedd ynfy ſydd.* Hab. ii. 9, 11. Jer. xvii. 11.

2. Na fyddwyf awyddus i Bethau cyfreithlon y Byd. *neb a bryſuro i fod yn gyfoethog, ni bydd ddigerydd.* Dia xxviii. 20. xxiii. 4.

3. Na bo i mi, o's cynhydda Golud, roddi fy Nghàlo arno, nac ymddiried ynddo. *Sal.* lxii. 10. *Marc* x. 24.

4. Fod i mi arferyd y Byd, megis heb ei gamarfer *Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio.* 1 Cor. vii 29, 31.

5. Fod yn rhwydd gennyf ymadael â phob peth, er mew Criſt. Canys efe a ddywedodd, *Pob un o honoch chwi na ymwrthodo â chymmaint oll ag a feddo, nid all fod y ddiſgybl i mi.* Luc xiv. 33. Phil. iii. 7, 8.

Cw. Pa rai yw Chwantau pechadurus y Cnawd, ag ddylech ymwrthod â hwynt?

Att. 1. Glythineb, a Meddwdod, a Gloddeſt. *Ag ſy cau dynion allan o Deyrnas Nefoedd.* 1 Cor. vi.

2. Cynhennau, ac Ymrafael, ac Ymbleidiau Pobl gre fyddol. Canys, *Chwantau'r Cnawd, mae'r Yſpryd Glân y eu galw.* 1 Cor. iii. 3, 4. 2 Tim. iv. 3.

3. Godineb ac Aflendid, ac aneirif Wŷniau eraill. *N chaiff y rhai a wnant y cyfryw bethau, etifeddu Teyrna Dduw.* Gal. v. 19—21.

Cw. Paham y dylech wrthod Chwantau'r Cnawd?

Att. 1. Am mai Chwantau pechadurus ydynt. *Chwant wedi ymddŵyn, a eſgor ar bechod: a phechod hefyd, pa orphener, a eſgor ar farwölaeth.* Jago i. 15.

2. Am fod Chwantau cnawdol yn rhyfela yn erbyn y Enaid. *Ac yn chwennychu yn erbyn yr Yſpryd.* 1 Pedr ii 11. Gal. v. 17.

3. Am fod *y rhai ſydd eiddo Criſt, yn croeſhoelio'r cnawd, a'i wŷniau, a'i chwantau.* Gal. v. 24.

4. Am fod y Rhyfeloedd a'r Ymladdau ſydd ymhlith Dynion, yn dyfod *oddi wrth eu meluſchwantau, y rha ſydd yn rhyfela yn eu haelodau.* Jago iv. 1.

5. Am fod llawer yn gwerthu'r Nefoedd am eu Chwant au. *Megis Eſau; yr hwn, am un ſaig o fwyd, a werthod ei enedigaethfraint.* Heb. xii. 16, 17.

6. Am

6. Am fod Barn Duw weithiau yn goddiweddyd Dynion nghanol eu Chwantau. *Yr Juddewön a laddwyd, pan oedd moethau a flyſiaſant yn eu ſafnau. — Zimri a Chosbi a laddwyd yn eu Godineb; Ela yn ei Feddwdod; a Belſaſſar n ei Loddeſt.* Sal. lxxviii. Num. xxv. 1 Bren. xxi. Dan. v.

Cw. Beth yw ail Ammod eich Cyfammod Bedydd?

Att. Bod i mi gredu holl Byngciau Ffydd Griſt.

Cw. Beth a ddylech yſtyriaid yn yr Ammod hyn?

Att. Pum peth. 1. Y Weithred ei hun; ſef, *Credu.*

2. Pwy ſydd i gredu; ſef, bod i *mi* gredu.

3. Beth ſydd i mi *gredu*; ſef, Pyngciau'r Ffydd.

4. Pa nifer a gredaf; ſef, *holl* Byngciau'r Ffydd.

5. Ffydd pwy; ſef, Ffydd *Griſt.*

Cw. Pa ſawl Math o Ffydd ſydd?

Att. Pedair. 1. Ffydd hiſtorïawl. *Jago* ii. 19.

2. Ffydd amſerol. *Luc* viii. 13.

3. Ffydd wyrthiol. *Mat.* vii. 22, 23. *Luc* ix. 1.

4. Ffydd jachuſol. *Joan* iii. 36.

Cw. Pa fath yw Ffydd jachuſol?

Att. Gras, o Rodd Duw, i gredu yng Nghriſt (megis 'n dyſgir yn yr Efengyl) fel y byddom gadwëdig. *Eph.*ii.8.

Cw. Paham y dylech gredu yng Nghriſt?

Att. 1. Am mai hyn yw Gofyniad y Cyfammod Gras. *Cred yn yr Arglwydd Jeſu Griſt, a chadwëdig fyddi.* Act. vi. 31. Joan iii. 16, 18, 36.

2. Am mai hyn yw Gorchymmyn Duw; *Gredu o honoch n Enw ei Fab ef Jeſu Griſt.* 1 Joan iii. 23. Joan vi. 29.

3. Am *na chyflawnhêir dyn trwy weithredoedd y ddeddf, nd trwy ffydd Jeſu Griſt.* Gal. ii. 16.

4. Am mai felly y gwrandewïr ein Gweddïau. *Beth ynnag a ofynoch mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i der-yniwch.* Mat. xxi. 22. Jago i. 6, 7.

5. Am mai *Tarian y Ffydd ſy'n diffoddi holl biccellau anllyd y fall: —* ac *yn gorchfygu holl hudoliaeth y byd.* Eph. vi. 16. 1 Joan v. 4.

6. Am na chredent yn Nuw, ac na obeithient yn ei Jechdwriaeth ef, yr ennynodd Tân yn erbyn *Jacob*, a Digofaint n erbyn *Iſräel.—Trwy anghrediniaeth y torrwyd hwynt mmaith.* Sal. lxxviii. 21, 22. Rhuf. xi. 20.

Cw. A raid fod yr un faint o Ffydd ym mhawb a'u gi-ydd?

Att. Na raid. Canys, 1. Y mae rhai o'r Seintiau yn gryfach

gryfach eu Ffydd nâ'u gilydd: *Megis Abraham a Moſes Ac eraill yn wannach: megis y dywedodd Criſt wrth ei Ddiſgyblion; Paham yr ydych yn ofnus, O chwi o ychydig ffydd?* Mat. viii. 26.

2. Mae Aelodau Criſt, ſel aelodau'r corph, rhai yn gryfach, a rhai yn wannach, nag eraill. *Ac y mae yn Nheulu'r Ffydd, ſel teuluoedd eraill, ſabanod a phlant, gwŷr jeuaingc a thadau.* 1 Cor. xii. 15, 16.

3. Mae Criſt yn derbyn y gwannaf ei Ffydd. *Corſen yſig, ni's tyrr; a llîn yn mygu, ni's diffydd.—Fe jachawyd ſab y dyn a ddywedodd, O's gelli di ddim, cymmorth ni.—Yr hwn ſydd wan yn y ffydd, derbyniwch attoch.* Mat. xii. 20. Marc ix. 22. Rhuf. xiv. 1.

Cw. Beth a wnewch i gynnyddu'ch Ffydd?

Att. 1. Gweddïo ſel y Diſgyblion; *Arglwydd, chwanega ein ffydd ni.* Luc xvii. 5.

2. Dyſal-wrando Gair Duw. *Canys ffydd ſydd, trwy glywaid; a chlywaid, trwy Air Duw.* Rhuf. x. 17. 1 Pedr ii. 2. Joan xx. 31.

3. Yſtyriaid Ffyddlondeb Criſt. *Dalïwn gyffes ein gobaith yn ddiſigl: canys ffyddlon yw'r hwn a addawödd.* Heb. x. 23.

4. Atgofio'n ſynych y Pechaduriaid mawrion a dderbyniodd Duw. *Er ſiampl i'r rhai a gredant rhag llaw ynddo ef i fywyd tragywyddol. — Ynddo ef yr ymddiriedaſant; ac ni's gwaradwyddwyd hwynt.* 1 Tim. i. 15, 16. Sal. xxii 4, 5.

5. Nesâu yn barchus at Ford yr Arglwydd; i fod yn gyfrannog o'i Gorph a'i Waed ef, er Cymmorth i Wendid ein Ffydd. 1 *Cor.* x. 6.

Cw. Beth yw trydydd Ammod y Cyfammod Bedydd?

Att. Cadw o honof wynſydedig Ewyllys Duw a'i Orchymynnion, a rhodio ynddunt holl ddyddiau fy mywyd.

Cw. Beth ſydd i'w yſtyriaid yn yr Ammod hon?

Att. Tri pheth. 1. Rheol ein Hufudd-dod ni; ſef, *Ewyllys a Gorchymynnion Duw.*

2. Mai *Ewyllys gwynfydedig* yw Ewyllys Duw.

3. Bod i mi *rodio yn yr unrhyw holl ddyddiau fy mywyd.*

Cw. Ym mha le yr yſpyſir i chwi Ewyllys Duw a'i Orchymynnion?

Att. Yn yr Yſgrythur, a *rodd-wyd gan yſprydoliaeth Ddiw; ac ſydd fuddiol i athrawïaethu, i argyoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder.* 2 Tim. iii. 16, 17.

Cw.

Cw. Pa fath Ufudd-dod ſy ddyledus i Ewyllys a Gorymynnion Duw?

Att. 1. Ufudd-dod gwirioneddus; ſef, *Ufuddhâu o hom o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth a draddodwyd i* Rhuf. vi. 17.

2. Ufudd-dod egnïol. Megis y dywedodd *Salomon*; *Beth nnag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th oll egni.* Preg. ix. 10.

3. Ufudd-dod awyddus. Megis y dywedodd *Dafydd*; *wyddus oeddwn i'th orchymynnion di.— A Duw a chwy'r rhai claiar allan o'i enau.* Sal. cxix. 40. Dat. iii. 16.

4. Ufudd-dod cyffredinol i bob Dyledſwydd. Canys, *Yr wn a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl.* go ii. 10.

5. Ufudd-dod hunan-ymwadol; gyd ag Ediſeirwch am n Ffaeledd, a Ffydd yng Nghriſt; a chan olygu Gogoniant uw ym mhob peth. *Luc* xvii. 10. *Heb.* xi. 6. 1 *Cor.* x. 31.

Cw. Pa Annogaeth ſydd i chwi fod yn ufudd i Dduw?

Att. 1. Criſt a ddywaid, *Chwychwi yw fy nghyfeillion, s gwnewch pa bethau bynnag yr wyf fi yn eu gorchymmyn chwi.* Joan xv. 14.

2. *Yr hwn a gadwö ei air ef, yn wir yn hwn y mae riad Duw yn berffaith.* 1 Joan ii. 5.

3. *Beth bynnag a ofynom, yr ydym yn ei dderbyn ganddo ; o blegid ein bod yn cadw ei orchymynnion ef.* 1 Joan . 22. Diar. xxviii. 9.

4. Y rhai ufudd a gânt yr holl Fendithion, a'r anufudd holl Felldithion, a'ſgrifenwyd yn Llyfr y Ddeddf. *Deut.* xviii. 1—21.

5. Mi a ddylwn ufuddhâu i Ewyllys Duw a'i Orchymynon, o herwydd Addunedau fy Nhadau-bedydd a'm Mamau-bedydd drоſof fi; *rhag i mi golli'r Breintiau mawrn o fod yn Aelod i Griſt, yn Blentyn i Dduw, ac yn tifedd Teyrnas Neſoedd.*

Cw. Onid wyt ti yn tybiaid dy fod yn rhwymedig i redu, ac i wneuthur, megis yr addawſant hwy droſt ti?

Att. Ydwyf yn wir; a thrwy Nerth Duw, felly y wnaf. Ac yr wyf fi yn mawr-ddiolch i'n Tad nefol, m iddo fy ngalw i gyfryw 'ſtad Jechydwriaeth, trwy Jeſu

Jeſu Griſt ein Jachawdwr. Ac mi a attolygaf i Ddu
roddi i mi ei Ras, modd y gallwyf aros ynddo ho
ddyddiau fy einioes.

Cw. Pa ſawl peth ſydd yn yr Atteb hwn?

Att. 1. Fy Addewïd i gyflawnu Ammodau fy Medyd
*Arnaf fi, O Dduw, y mae dy addunedau. — Fy addunedau
a dalaf i'r Arglwydd.* Sal. lvi. 12. cxvi. 14.

2. Ym mha fodd y cyflawnaf hwynt. Nid yn fy ngall
fy hun; ond, *Trwy Nerth Duw, felly y gwnaf.— Yr w
yn gallu pob peth trwy Griſt.*—A Chriſt a ddywaid, *Heb
fi ni ellwch chwi wneuthur dim.* Phil. iv. 13. Joan xv. 5.

3. Fy Nïolch i'r Tad, am fy ngalw i gyfryw 'Stad Jec
ydwriaeth. *Fel y cae y rhai a alwyd, dderbyn addewïd
etiſeddiaeth tragywyddol.* Heb. ix. 15.

4. Trwy bwy y'm galwyd i'r 'Stad hon o Jechydwriaeth
ſef, trwy Jeſu Griſt ein Jachawdwr. Canys, *Nid oes jec
ydwriaeth yn neb arall.* Act. iv. 12.

5. Fy Nyled yw, attolwg ar Dduw am *Râs i aros yn
'Stad hon holl ddyddiau fy einioes. Canys yr hwn a barh
hyd y dïwedd, hwnnw a fydd cadwëdig.* Mat. xxiv. 13.

Cw. Beth a yſtyrïwch am 'Stad Jechydwriaeth y'ch galw
yd iddi?

Att. 1. Fod y 'Stad hon yn cynnwys ynddi bob peth
berthyn i'n Jechydwriaeth ni trwy Griſt. *Rhuf.* i. 16.

2. Mai mewn 'Stad o Golledigaeth y'n ganed ni oll:
blegid mai trwy Griſt y galwyd ni i 'Stad o Jechydwriaet
Trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemnia
Rhuf. v. 18.

3. Nad yw pawb a elwïr oddi allan, i'r 'Stad hon
Jechydwriaeth, yn gadwëdig. *O blegid llawer ſydd wedi
galw, ond ychydig wedi eu dewis.* Mat. xxii. 14.

4. Mai Pobl wynfydedig yw'r rhai ſydd *yn wir* yn 'Sta
Jechydwriaeth. Canys y mae holl Freintiau ac Addewïdi
Cyfammod Duw yn perthyn iddunt. *Sal.* cxliv. 15.

Cw. Pa fodd y gwybyddwch eich bod *yn wir* yn 'Sta
Jechydwriaeth?

Att. 1. O's wyf yn ymwrthod â'r Diafol, a'i holl Weit
redoedd; a Rhodres orwag y Byd; ac â holl Chwanta
pechadurus y Cnawd.

2. O's wyf fi yn credu holl Byngciau Ffydd Griſt.

3. O's wyf yn ymrôi i gadw gwynfydedig Ewllys Duw
Orchymy

Orchymynnion. Yna y gallaf obeithio, fy mod *yn wir* yn Aelod i Griſt, yn Blentyn i Dduw, ac yn Etifedd Teyrnas Nefoedd.

Cw. Beth o's nad ydych yn 'Stad Jechydwriaeth?

Att. 1. Mi a ddylwn ddïolch i Dduw, na ddarfu am danaf fi eiſoes yn fy 'Stad golledig. *Gal.* iii. 22.

2. Mi a ddylwn geiſio Duw â'm holl Gàlon, tra gellir ei gael. *Jer.* xxix. 13.

3. Mi a ddylwn yn ddïoed edifarhâu, a dychwelyd; fel y dileer fy Mhechodau. *Act.* iii. 19.

4. Mi a ddylwn gyfammodi â Duw o'r newydd; fel y tro ei Ddigoſaint llidiog oddi wrthyf. 2 *Cron.* xxix. 10.

Cw. Beth a wnewch, o's ydych yn 'Stad Jechydwriaeth?

Att. 1. Caru Duw, am *fy ſymmud o feddiant y tywyllwch, i deyrnas ei anwyl Fab.* Col. i. 13.

2. Holi fy hun yn dda ynghylch hyn. *O blegid o's tybia neb ei fod yn rhyw beth, ac yntef heb fod yn ddim; y mae yn ei dwyllo ei hun.* Gal. vi. 3, 4.

3. Parhâu yn y 'Stad honno. *Canys ſe a'n gwnaed ni yn gyfrannogion o Griſt, o's daliwn ddechreuad ein hyder yn ſicr hyd y dïwedd.* Heb. iii. 14.

Cw. Beth a wnewch i barhâu?

Att. 1. Bod yn *ddïwyd i wneuthur ſy ngalwëdigaeth a'm hetholedigaeth yn ſicr: canys tra fyddom yn gwneuthur felly, ni lithrwn ni ddim byth.* 2 Pedr i. 10. Heb. vi. 11.

2. Arferiad difrifol o Foddion Gras. *Gan weddïo bob amſer â phob rhyw weddi a deiſyfiad yn yr Yſpryd Glan.* Eph. vi. 18.

3. Gochelyd Cyfeillach ofer. *Rhag ein harwain ymmaith trwy amryfuſedd yr annuwiol, a chwympo oddi wrth ein ſicrwydd ein hunain.* 2 Pedr iii. 17. 1 Cor. xv. 33.

4. Ymgadw'n wir-oſtyngedig. *Canys balchder ſy'n myned o flaen dinyſtr, ac uchder yſpryd o flaen cwymp.* Diar. xvi. 18.

5. Dyfal-gofio, fod Gwrthgilwyr yn ſyrthio i Ddamnedigaeth y Diafol. *A'u dïwedd yn waeth nâ'u dechreuad. Heb barhâd nid oes jechydwriaeth.* Mat. x. 22.

DIWEDD Y RHAN GYNTAF.

ESPONIAD

BYR O

GREDO'R APOSTOLION.

YR AIL RAN.

Cweſtiwn.

BETH a gynhwyſir yng *Nghredo'r Apoſtolion*?

Atteb. Prif-fannau'r Ffydd Gris'nogol.

Cw. Pa'm ei gelwïr yn *Gredo'r Apoſtolion*?

Att. 1. Fe'i gelwïr yn *Gredo*, am mai *Prif-fannau'r* Ffydd yw, ag y ddylai pawb gredu.

2. Fe'i gelwïr yn *Gredo'r Apoſtolion*, am mai'r *Ffydd* a ddyſgir i ni, gan yr *Apoſtolion*, a gynhwyſir ynddi.

Cw. Adrodd i mi Fannau dy Ffydd.

Att. Credaf yn Nuw Dad Hollgyfoethog, Creawdwr Nef a Daear: Ac yn Jeſu Griſt, ei un Mab ef, ein Harglwydd ni; Yr hwn a gaed trwy'r Yſpryd Glân, A aned o Fair Forwyn; A ddïoddefodd dan Bontius Pilatus, A groeſhoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd; A ddiſgynodd i Uffern; y trydydd dydd y cyfododd o feirw; A eſgynodd i'r Nefoedd, Ac y mae yn eiſtedd ar Ddeheulaw Dduw Dad Hollgyfoethog; Oddyno y daw i farnu byw a meirw. Credaf yn yr Yſpryd Glân; yr Eglwys Lân Gatholig; Cymmun y Saint; Maddeuant Pechodau; Cyfodiad y Cnawd, A'r Bywyd tragywyddol. *Amen.*

Cw. Pa beth yr wyt ti yn ei ddyſgu yn bennaf yn y Pyngciau hyn o'th Ffydd?

Att.

Att. I. Yr wyf yn dyſgu credu yn Nuw Dad, yr hwn a'm gwnaeth i, a'r holl fyd.

II. Yr wyf yn dyſgu credu yn Nuw Fab, yr hwn a'm prynodd i, a phob rhyw ddyn.

III. Yr wyf yn dyſgu credu yn Nuw Yſpryd Glân, yr hwn ſydd i'm ſancteiddio i, a holl etholedig bobl Dduw.

Cw. Beth a ddylech yſtyriaid ymma?

Att. 1. Fod tri o *Berſonau* yn y Duwdod; ſef, y *Tad*, a'r *Mab*, a'r *Yſpryd Glân.* Mat. xxviii. 19.

2. Fod pob *un* o'r tri Pherſon yn wir Dduw; yn ogyd-dragywyddol, a gogyfuwch. 2 *Cor.* xiii. 13. 1 *Pedr* i. 2.

3. Nad yw y tri Pherſon yn dri Duwiau; ond un Duw. 1 *Joan* v. 7.

Cw. Pa lun y gwahaniaethwch rhwng y Perſonau?

Att. 1. Wrth eu Henwau; ſef, *y Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd Glân.*

2. Wrth eu Priodoliaethau. " Y Tad ni wnaethpwyd " gan neb; ni's crëwyd, ac ni's cenhedlwyd. Y Mab " ſydd o'r Tad yn unig; heb ei wneuthur, na'i grëu, " eithr wedi ei genhedlu. Yr Yſpryd Glân ſydd o'r Tad, " a'r Mab; heb ei wneuthur, na'i grëu, na'i genhedlu, eithr " yn deilliaw." *Ecſod.* iii. 14. *Sal.* ii. 7. *Joan* xv. 26. *Rhuf.* viii. 9.

3. Wrth y Gweithredoedd a gyfrifir yn fwyaf priodol iddunt; ſef, *Creadigaeth* i'r Tad, *Prynedigaeth* i'r Mab, a *Sancteiddiad* i'r Yſpryd Glân. 1 *Cor.* viii. 6. *Gal.* iii. 13. 2 *Theſ.* ii. 13.

Cw. Pa ſawl Rhan ſydd yn y *Gredo*?

Att. Deuddeg o Brif-byngciau Crefydd.

Cw. Pa'm y mae'r Gair *Credaf* yn flaenaf yn y *Gredo*?

Att. I arwyddocâu fy Nhred i'r holl *Byngciau* ſydd yn-ddi; fel pe dywedwn, *Credaf*, o flaen pob un o honunt.

Cw. Beth yw'r Pwngc cyntaf?

Att. Credaf yn Nuw Dad Hollgyfoethog, Creawdwr Nef a Daear.

Cw. Beth a yſtyriwch yn y Pwngc hwn?

Att. 1. Y dylai fod gennyf fi Ffydd *fy hun:* canys *Credaf* wyf yn ddywedud, ac nid *Credwn*; megis yn gyffredinol am bawb. *Rhuf.* xiv. 22.

2. Y dylwn gredu fod *un* Duw; ac nad oes ond *un:*

canys *Duw*, nid Duwiau, a enwïr ymma. *Eſay* xlv. 5.

3. Y dylwn gredu *yn* Nuw; ſef, ymddiried ynddo; ac nid credu yn unig, *i ſod* Duw. *Sal.* ii. 12.

4. Mi ddylwn gredu fod Duw yn *Dad Hollgyfoethog*.

5. Mi ddylwn gredu mai Duw Dad Hollgyfoethog yw *Creawdwr Nef a Daear*.

Cw. Beth yw Duw?

Att. Nid oes Corph i Dduw, fel dyn. Eithr, *Yſpryd yw Duw; a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn yſpryd a gwirionedd.* Joan iv. 24.

Cw. Pa fath Yſpryd yw Duw?

Att. Yſpryd tragywyddol, Hollalluog, Hollwybodol, Hollbreſennol, Anghyfnewidiol, ac Anfeidrol mewn Mawredd gogoneddus a Pherffeithrwydd. *Sal.* cxlv. 3. *Ecſod.* xv. 11.

Cw. I bwy y mae Duw yn Dad?

Att. 1. Mae Duw, trwy Genhedliad tragywyddol, yn Dad i Griſt. *Eph.* i. 3.

2. Mae Duw, trwy Greadigaeth, yn *Dad* i'r holl Greaduriaid. *Mal.* ii. 10.

3. Mae Duw, trwy Brynedigaeth, yn *Dad* i'r Ffyddloniaid. *Gal.* iv. 4, 5.

Cw. Pa fath *Dad* yw Duw?

Att. 1. *Tad Hollgyfoethog.* Yn abl cyflawni holl angen ei Blant. *Y cwbl yn y nef a'r ddaear ſydd eiddo ef.* 1 Cron. xxix. 11.

2. *Tad Hollalluog.* Yn abl i amddiffyn ei Blant, a'u gwaredu. *Gyd â Duw ni bydd dim yn ammhoſibl.* Luc i. 37.

3. *Tad Hollwybodol.* Efe a wyr eu hachos, ac a fedr eu cyfarwyddo. *Aneirif yw ei ddyall.* Sal. cxlvii. 5.

4. *Tad Hollbreſennol.* Yn waſtad gyd â'i Blant ym mhob cyflwr. *Sal.* cxxxix.

5. *Tad Anfarwöl.* Na ddichon ei Blant fod byth yn amddifaid o hono. 1 *Tim.* vi. 16. *Joan* xiv. 18.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth Fawredd Duw a'r Tad Hollgyfoethog?

Att. 1. Ei ofni ef. *Canys trwy ofn yr Arglwydd y mae ymado oddi wrth ddrwg.* Diar. xvi. 6.

2. Moliannu Duw. *Bendithier dy Enw gogoneddus a dyrchafedig goruwch pob bendith a moliant.* Neh. ix. 5.

3. Ymddiried ynddo. *Gan fod yn gwbl ſicr, am yr hyn a addawödd Duw, ei fod yn abl i'w wneuthur hefyd.* Rhuf. iv. 21.

4. Rhyfedd

4. Rhyſeddu Daroſtyngiad ei Gariad tu ag attom ni. *Arglwydd, beth yw dyn, pan gydnabyddit ef? neu fab dyn, pan wnait gyſrif o hono?* Sal. cxliv. 3.

Cw. Beth a yſtyrïwch am y Creadigaeth?

Att. 1. Mai Duw a greodd y Neſoedd, a'r Ddaear, a'r Môr, ac oll ſydd ynddunt. *Act.* iv. 24.

2. I Dduw grëu'r cwbl o ddim. Canys, *Nid o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir.* Heb. xi. 3.

3. Mai trwy ei Air y creodd Duw y cwbl. *Efe a ddywedodd, ac felly y bu.* Sal. xxxiii. 9.

4. Mai mewn chwe' diwrnod y creodd Duw bob peth. *Ac a orphwyſodd y ſeithfed dydd.* Gen. ii. 2, 3.

5. I Dduw grëu pob peth yn berffaith. *Canys gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai; ac wele, da jawn ydoedd.* Gen. i. 31.

Cw. Pa bethau a greodd Duw yn y Neſoedd?

Att. Y Ffurfafen, a Ser y Neſoedd, a'r holl Angylion. *Col.* i. 16.

Cw. Beth a yſtyrïwch am Angylion Duw?

Att. 1. Eu bod hwy yn ſanctaidd ac yn ffyddlon, yn gwaſanaethu Duw; ac yn gweini i Blant Duw yn y byd hwn. *Heb.* i. 14.

2. Eu bod yn aml o rifedi; ſef, *yn fyrddiynau o fyrddynau, ac yn filoedd o filoedd.* Dat. v. 11. Dan. vii. 10.

3. I rai o'r Angylion bechu, a throi yn gythreuliaid. Y rhai hyn, *fel llewod rhuadwy, a rodiant oddi amgylch, gan geiſio y neb a allont lyngcu.* 1 Pedr v. 8.

Cw. Beth a greodd Duw ar y Ddaear?

Att. 1. Y Sychdir, a'r Dyfroedd, a'r holl Ffrwythau da ſydd ynddunt. *Gen.* i.

2. Holl Anifeiliaid y Ddaear, Ehediaid yr Awyr, Ymluſgiaid, a Phyſg y Dyfroedd. *Gen.* i.

3. Duw a greodd *Adda* ac *Efa*, wedi iddo yn gyntaf ddarparu pob peth ar eu medr.

Cw. Beth a wnaeth Duw i'r Creaduriaid heblaw eu crëu?

Att. 1. Mae *Rhagluniaeth Dduw* yn jawn-drefnu pob peth iddunt, yn ol eu naturiaeth. *Sal.* civ. cxxxvi.

2. Mae Rhagluniaeth Dduw yn eu cynnal. *Canys ynddo ef mae pob peth yn cyd-ſefyll.* Col. i. 17.

3. Mae Rhagluniaeth Dduw yn teyrnaſu droſtunt, ac yn llywödraethu ar bob peth. *Sal.* ciii. 19.

Cw. Dros pa beth mae Rhagluniaeth Dduw yn llywödraethu?

Att. 1. Dros yr holl Greaduriaid, o'r mwyaf hyd y lleiaf o honynt. *Trwyddo ef y teyrnaſa brenhinoedd; ac hebddo ef ni ſyrth un o adar y to i'r ddaear.* Diar. viii. 15, 16. Mat. x. 29.

2. Mae Rhagluniaeth Dduw yn llywödraethu dros fwriadau dyn. *Mae'n diddymmu amcanion y cyfrwys, fel na all eu dwylaw ddwyn dim i ben.* Job v. 12.

3. Mae Rhagluniaeth Dduw yn llywödraethu dros bethau damweiniol. *Y coelbren a fwrir i'r arffed; ond oddi wrth yr Arglwydd y mae ei holl lywödraethiad ef.* Diar. xvi. 33.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth y Creadigaeth, a Rhagluniaeth Dduw?

Att. 1. Fod tragywyddol Allu Duw, a'i Dduwdod, i'w gweled yn amlwg yn y pethau a wnaeth efe; hyd onid yw y di-Dduw yn ddieſgus. *Rhuf.* i. 20.

2. Mai teilwng yw'r Arglwydd i dderbyn Gogoniant, Anrhydedd, a Gallu. *Canys efe a greodd bob peth; ac o herwydd ei ewyllys ef y maent, ac y crëwyd hwynt.* Sal. xxviii. 5. Dat. iv. 11.

3. Y rhai nid yſtyriant Weithredoedd yr Arglwydd, na Gwaith ei Ddwylaw ef, efe a'u dinyſtria hwynt, ac ni's adeiladа hwynt. *Sal.* xxviii. 5.

4. Fe ddylai golwg ar Weithredoedd Duw, weithio Ymddaroſtyngiad mawr ynnom. *Pan edrychwyf ar dy nefoedd, gwaith dy fyſedd; y lloer, a'r ſer, y rhai a ordeiniaiſt: pa beth yw dyn, i ti i'w gofio? a mab dyn, i ti ymweled ag ef?* Sal. viii. 3, 4.

5. Fod Creadigaeth y byd, a Rhagluniaeth Dduw, yn tyſtio i bawb am dano ef. *Y nefoedd ſy'n datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen ſy'n mynegi gwaith ei ddwylaw ef.* —*Ni adawödd efe mo hono ei hun yn ddidyſt, gan wneuthur daioni, a rhoddi glaw o'r nefoedd i ni, a thymhorau ffrwythlon, a llenwi ein calonnau ni â lluniaeth, ac â llawenydd.* Sal. xix. 1. Act. xiv. 17.

Cw. Beth a gredwch yn yr ail Bwngc?

Att. Credaf yn Jeſu Griſt, ei un Mab ef, ein Harglwydd ni.

Cw. Beth a yſtyriwch yn y Pwngc hwn?

Att. Pedwar peth. 1. Fy Nyled i gredu. 2. Ymhwy y credaf; ſef, yn Jeſu Griſt. 3. Ei Berthynas ef i Dduw; ſef, ei *un Mab ef.* 4. Ei Berthynas i ni; ſef, *ein Harglwydd ni.*

Cw. A raid i chwi gredu yn Nuw a *Chriſt* heſyd?

Att. Rhaid. Canys, 1. Criſt a ddywedodd, *Yr ydych yn credu yn Nuw; credwch ynnof finnau heſyd.* Joan xiv. 1.

2. Am hyn y 'ſgrifenwyd y 'Sgrythurau; fel y credom ni mai yr Jeſu yw Criſt Mab Duw. *Joan* xx. 31.

3. Ni ddichon neb ddyfod at y Tad, na chael Jechydwriaeth, ond trwy gredu yng Nghriſt. *Joan* iii. 36. xiv. 6.

Cw. Beth mae'r Enw *Jeſu* yn arwyddocâu?

Att. 1. Fe'i galwyd ef, *Jeſu, o blegid y gwaredai eſe ei bobl oddi wrth eu pechodau.* Mat. i. 21.

Cw. Beth a ddyallwch wrth hyn?

Att. 1. Fod pawb wedi ſyrthio i Bechod. *Mat.* ix. 12.

2. Na's gellir myned i'r Nefoedd heb Ymwared oddi wrth Bechod. *Dat.* xxi. 27.

3. Nad oes Ymwared oddi wrth Bechod, ond trwy Griſt. *Act.* iv. 12.

4. Mai ei Bobl ef yn unig, ſef, y rhai a ufuddhânt i Griſt, a waredir trwyddo ef oddi wrth eu Pechodau. *Heb.* v. 9.

Cw. Ymha yſtyr y mae Criſt yn gwaredu ei Bobl oddi wrth eu Pechodau?

Att. 1. Y mae Criſt yn ein gwared oddi wrth Lywödraeth ein Pechodau. *Fel rhag llaw na waſanaethom bechod.* Rhuf. vi. 6.

2. Oddi wrth Halogrwydd ac Aflendid Pechod. *Trwy'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da.* Tit. ii. 14.

3. Oddi wrth y Ddamnedigaeth a'r holl Felldithion a dynnodd Pechod arnom. *Canys Criſt a'n llwyrbrynodd oddi wrth felldith y ddeddf.* Rhuf. viii. 1. Gal. iii. 13.

Cw. Beth mae'r Enw *Criſt* yn arwyddocâu?

Att. Enneiniog. O blegid ei enneinio ef gan Dduw i dair o Swyddau ſanctaidd; ſef, yn Brophwyd, yn Offeiriad, ac yn Frenhin. *Act.* iii. 22, 23. *Hebr.* iii. 1, 2. *Dat.* xix. 16.

Cw. Ai fel Swyddwyr eraill, yr enneiniwyd Criſt?

Att. Nag ê. Canys, 1. Eraill a enneinid ag olew: eithr Criſt a enneiniwyd â'r Yſpryd Glân. *Eſay* lxi. 1. *Joan* i. 31.

2. Eraill a enneinid gan ddynion: eithr Criſt a enneiniwyd gan Dduw. *Act.* x. 38.

3. Criſt a enneiniwyd â mwy o'r Yſpryd Glân, nâ neb arall. *Sef, ag olew gorfoledd tu hwnt ei gyfeillion.* Heb. i. 9.

4. Ni enneinid neb eraill, ond i *un* neu *ddwy* o'r Swyddau hyn:

hyn: eithr Criſt â enneinïwyd i bob un o'r tair; ſef, yn Frenhin, yn Brophwyd, ac yn Offeiriad.

Cw. Paham yr enneinïwyd Criſt i'r Swyddau hyn?

Att. 1. Fe enneinïwyd Criſt yn Brophwyd, i'n dyſgu ni, o herwydd ein Hanwybodaeth. *Mat.* xi. 27.

2. Fe enneinïwyd Criſt yn Offeiriad, i'n cymmodi ni â Duw. *O herwydd mai plant digofaint ydym wrth natur* Eph. v. 2.

3. Fe enneinïwyd Criſt yn Frenhin, i deyrnaſu droſom. *A'n gwaredu o law ein gelynion, i w waſanaethu ef yn ddioſn.* Luc i. 68, 71, 74.

Cw. Ymha lun y mae Criſt yn ein dyſgu ni fel Prophwyd?

Att. 1. Trwy ragſynegu pethau i ddyfod, a datguddio i ni Ewyllys Duw yn y 'Sgrythurau a roddwyd gan ei Yſpryd ef. 2 *Tim.* iii. 16.

2. Trwy urddo ac anfon ei Weinidogion i'n dyſgu ni. 1 *Cor.* xii. 28. *Eph.* iv. 11.

3. Trwy oleuo ein Dyall ni â'i Air a'i Yſpryd. *Luc* xxiv. 45. *Act.* xvi. 14.

Cw. Beth a wna Criſt fel Offeiriad?

Att. 1. Offrymmu ei hun droſom i'n heddychu ni â Duw. *Col.* i. 21, 22.

2. Ein bendithio ni â'i Ras, i'n troi oddi wrth ein Pechodau. *Act.* iii. 26.

3. Eiriol droſom ger bron Duw. 1 *Joan* ii. 2, 3.

Cw. Beth a wna Criſt fel Brenhin?

Att. 1. Ein daroſtwng ni i fod yn Bobl iddo ef. *Sal.* cx. 3.

2. Rhoddi ei Gyfraith i ni, a'i 'ſgrifenu yn ein Calonnau. *Jer.* xxxi. 33.

3. Gorchfygu'n Gelynion, a'n hamddiffyn ni. *Eſay* xxxiii. 22.

Cw. Beth yw Rhagoriaeth Criſt ar Brophwydi, Offeiriaid, a Brenhinoedd eraill?

Att. Mae Criſt goruwch pawb, yn Hollalluog, yn Hollwybodol, yn Hollbreſennol, yn Anffaeledig, yn Anfarwöl, ac yn Gyflawn o bob Perffeithrwydd. *Col.* i. 9.

Cw. Pa lun y mae i chwi dderbyn Criſt yn y Swyddau hyn?

Att. 1. Mi ddylwn ddyſgu ganddo fel fy Mhrophwyd. *Act.* iii. 23.

2. Mi ddylwn ymddiried ynddo fel fy Archoffeiriad. *Heb.* iv. 14.

3. Mi ddylwn ymhob peth fod yn ufudd iddo fel fy Mrenhin. *Luc* xix. 27.

Cw.

Cw. Pa Berthynas ſydd rhwng Criſt a Duw?

Att. Ei *un* Mab ef, ſef *unig* anedig Fab Duw, yw Criſt.

Cw. Ymha ffordd yr amlygwyd Criſt yn *un* Fab Duw?

Att. 1. Yn ei Genhedliad ef trwy'r Yſpryd Glân. *Luc* i. 35.

2. Yn ei Sancteiddiad ef i Waith y Prynedigaeth. *Joan* x. 36.

3. Yn ei Feddiant ef o bob peth. *Heb.* i. 2.

4. Yn y Gweithredoedd rhyfedd a wnaeth Criſt. *Joan* x. 25.

5. Yn ei Adgyfodiad o feirw. *Rhuf.* i. 4.

Cw. Ymha yſtyr y mae Criſt yn *un* neu *unig* Fab Duw?

Att. Nid trwy Fabwyſiad fel y Seintiau, na thrwy Greadigaeth; eithr trwy Genhedliad Duw ei hun. *Sal.* ii. 7.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth fod Criſt yn *unig* Fab Duw?

Att. 1. Fod ein Colledigaeth ni yn fawr jawn, pan na allai neb ond *unig* Fab Duw ein gwaredu. *Act.* iv. 12.

2. Fod Cariad Duw yn rhyfedd jawn; gan iddo roddi ei *unig* Fab drofom. *Joan* iii. 16.

3. Fod ſicrwydd mawr am gael y peth a geiſiom gan Dduw mewn Gweddi. *Gan nad arbedodd Duw i roddi ei unig Fab drofom, pa wedd, gyd ag ef, na ddyry efe i ni bob peth?* Rhuf. viii. 32.

Cw. Ymha yſtyr y mae Criſt yn *Arglwydd* i ni?

Att. 1. Trwy Greadigaeth. Canys, *Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth.* Joan i. 3.

2. Trwy Brynedigaeth. Canys â'i Waed ef ein prynwyd ni. 1 *Cor.* vi. 19, 20.

3. Trwyddo ef ein hadgenhedlwyd ni i Obaith bywiol. 1 *Pedr* i. 3.

4. Duw a'i *gwnaeth* ef yn Arglwydd ac yn Griſt i ni; ac a roddes iddo Awdurdod ar bob cnawd. *Arglwydd yr arglwyddi, a Brenhin y brenhinoedd, y gelwïr ef.* Joan xvii. 2. Dat. xix. 16.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth fod Criſt yn *Arglwydd* i ni?

Att. 1. Mi ddylwn ymoſtwng iddo ymhob peth, ac ymfoddloni ymhob cyflwr. *Yr Arglwydd yw efe: gwnaed yr hyn a fyddo da yn ei olwg.* Sal. xlv. 11. 1 Sam. iii. 18.

2. Mi ddylwn, nid arddel ei enw yn unig, ond gwneuthur ei Gyngor hefyd. *Paham yr ydych yn fy ngalw i, yn Arglwydd, Arglwydd, ac nad ydych yn gwneuthur yr hyn yr wyf yn ei ddywedud?* Luc vi. 46.

3. Mi ddylwn barchu Criſt, ac ymddiried ynddo. *Canys eſe yw'r Arglwydd; ac a ſydd yn noddfa i ni.* Eſay viii. 13, 14.

Cw. Beth yw'r trydydd Pwngc o'r *Gredo*?

Att. Eſe a gaed trwy'r Yſpryd Glân, ac a aned o Fair Forwyn.

Cw. Beth a yſtyrïwch yn y Pwngc hwn?

Att. Dau beth. 1. Cenhedliad Criſt trwy'r Yſpryd Glân. 2. Ei Enedigaeth ef o *Fair* Forwyn.

Cw. Pa un yw Criſt, ai Duw, neu Ddyn?

Att. Mae Criſt yn Dduw, ac yn Ddyn. Ma'i Dduwdod ef a'i Ddyndod mewn Undeb dirgelaidd â'u gilydd.

Cw. Pa lun y mae Criſt yn Dduw, ac yn Ddyn?

Att. Mae'n " Dduw, o Sylwedd y Tad; ac yn Ddyn, o " ſylwedd ei Fam: gogyſuwch a'r Tad, o blegid ei Dduw- " dod; a llai nâ'r Tad, o blegid ei Ddyndod. "

Cw. Pa fodd yr ymddengys fod Criſt yn Dduw?

Att. 1. Am ei fod o'r un Hanfod a Duw; fel y dywedodd Criſt ei hun. *Myfi a'r Tad un ydym.* Joan x. 30.

2. Am fod Enwau *priodol* Duw ei hun yn perthyn iddo. Sef, y *Duw cadarn, Tad Tragywyddoldeb, y Duw bedigedig yn oes oeſoedd, y gwir Dduw, a'r Bywyd tragywyddol.* Eſay ix. 6. Rhuf. ix. 5. 1 Joan v. 20.

3. Am fod Criſt yn gyfrannog o'r Priodoliaethau a berthyn i Dduw yn unig. Sef, yn Dragywyddol, yn Hollbreſennol, yn Hollwybodol, yn Hollalluog, ac yn Anghyfnewidiol. *Mica* v. 1. *Mat.* xviii. 20. *Joan* xvi. 30. *Dat.* i. 8. *Heb.* xiii. 8.

4. Am fod Criſt yn gwneuthur Gweithredoedd priodol Duw; nad allai neb eu gwneuthur ond Duw yn unig. Sef, Crëu a chynnal pob peth; maddau Pechodau; rhoddi'r Yſpryd Glân, a Bywyd tragywyddol. *Joan* i. 3. *Hebr.* i. 3. *Mat.* x. 1. *Luc* v. 21. *Joan* xvi. 26.

5. Am fod Addoliad priodol Duw yn ddyledus i Griſt; nad yw yn perthyn i neb ond i Dduw yn unig. *Mae'r holl neſoedd yn addoli Criſt.* A'r Tad ei hun a ddywedodd, *Addoled holl angylion Duw ef.* Dat. v. 13. Heb. i. 6. Joan v. 23.

Cw. Paham yr oedd raid i Griſt fod yn Dduw?

Att. 1. Am nad allai neb arall ein gwaredu oddi dan alluoedd y tywyllwch. *Sal.* xlix. 7.

2. Am nad allai neb arall ddïoddef droſom gymmaint ag oeddym ni yn haeddu. *Eſay* liii.

3. Am

3. Am nad allai dïoddefaint neb arall roi Jawn ddigonol m ein Pechodau ni. *Rhuf.* iii. 25.

Cw. Pa lun y daeth Criſt i fod yn Dduw, ac yn Ddyn efyd?

Att. 1. Yr oedd Criſt yn Dduw eriôed, wrth natur.

2. Dyndod Criſt a genhedlwyd trwy'r Yſpryd Glân yngroth y Forwyn *Fair*. Luc i. 34, 35.

3. Ei Dduwdod ef a'i Ddyndod a gyſylltwyd i fod yn un Criſt; ſel nad yw'r corph a'r enaid ond un dyn. 1 *Tim.* ii. 5.

Cw. Ymha fodd y ganed Criſt?

Att. 1. Fe aned Criſt o Forwyn bur wedi ei dyweddio i ŵr. Canys Had y Wraig a addawödd Duw yn Waredwr. *Gen.* iii. 15.

2. Fe aned Criſt mewn cyflwr tlawd, er mwyn ein cyfoethogi ni. 2 *Cor.* viii. 9.

3. Pan aned Criſt, Doethion y Dwyrain a ddaethant i'w addoli ef; a'r Angylion a fynegaſant am dano. *Mat.* ii. *Luc* ii.

Cw. Paham yr oedd yn rhaid i Griſt fod yn Ddyn?

Att. 1. O blegid heb hyn nid allai farw a dïoddef drofom.

2. Fel y dïoddefai efe goſp pechod yn y natur a bechodd.

3. Fel y byddai yn brofiadol o'n holl Wendidau ni. *Heb.* ii. 17.

4. Fel y rhoddai efe eſampl o Sancteiddrwydd i ni. *Joan* xiii. 15.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth Dduwdod a Dyndod Criſt?

Att. 1. Mi ddylwn ryfeddu ei Ddaroſtyngiad ef, a dyſgu Goſtyngeiddrwydd ganddo. *Phil.* ii. 5—7.

2. Mi ddylwn ymddiried yn ddiamhëus ynddo. Canys, ſel y mae efe yn Dduw, efe a all wneuthur yn dra rhagorol drofom. *Eph.* iii. 20.

3. Y mae'n Gyfur i bob Criſtion, fod Criſt, yn ei Natur ddynol, yn brofiadol o'n cyflyrau ni. *Heb.* iv. 15.

4. Mae Criſt yn Berthynas agos i'w Bobl; gan iddo gymmeryd eu natur hwy arno. *O ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr.* Heb. ii. 11.

5. Ni a ddylem foli Criſt, am ei Gariad i ddynolryw. *Canys ni chymmerodd efe naturiaeth angylion.* Heb. ii. 16.

Cw. Beth yw'r bedwaredd Pwngc o'r *Gredo*?

Att. Efe a ddïoddefodd dan Bontius Pilatus, a groſhoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd; a ddiſgynodd i uffern.

Cw.

Cw. Beth a yſtyrïwch yn y Pwngc hwn?

Att. Pum peth. 1. Dïoddefaint Criſt dan *Pontius Pilat.* 2. Croſhoeliad Criſt. 3. Marwölaeth Criſt. 4. Claddedigaeth Criſt. 5. Ei Ddiſgyniad i Uffern.

Cw. Pa bryd y dechreuodd Dïoddefaint Criſt?

Att. 1. Fe ddechreuodd *Herod* erlid Criſt pan aned ef. *Mat.* ii.

2. Gwr gofidus, a chynnefin â Dolur, oedd efe yn ei Fywyd. *Eſay* liii.

3. Efe a ddïoddefodd Boen, a Lludded, a Thlodi lawer. *Joan* iv. 6. 2 *Cor.* viii. 9.

4. Efe a gafodd ei gablu, a'i ammharchu'n faleiſus, gan yr *Juddewön* yn fynych. *Joan* x. 20. *Luc* vii. 33, 34.

5. Efe a gafodd ei demtio gan y Diafol; ac a'i gorchfygodd ef. *Mat.* iv. 1—11.

Cw. Pa fath oedd Ddïoddefaint dïweddaf Criſt?

Att. 1. Ei Enaid a aeth yn driſt jawn yn yr ardd. *Mat.* xxvi. 37, 38.

2. Yr *Juddewön* a ymgynghoraſant pa fodd y lladdent ef. *Mat.* xxvi. 4 xxvii. 1.

3. *Judas Iſcariot* a fradychodd Griſt am ddeg ar hugain o arian. *Mat.* xxvi. 14, 15.

4. Criſt a rwymwyd yn garcharwr, ac a ddygwyd at farnwyr maleiſus iddo. *Mat.* xxvi.

5. Pe gafodd Criſt ei wawdio, a'i gernodio, a phoeri yn ei Wyneb; a'r holl bobl a grochlefent yn ei erbyn. *Mat.* xxvii. 22, 23.

6. Fe gafodd Criſt ei fflangellu, a'i goroni â drain, a llawer o bob ammharch. *Joan* xix. *Mat.* xxvii.

7. Ceiſiaſant gau diſtion yn erbyn Criſt; a *Philat* a'i condemniodd yn erbyn ei gydwybod. *Mat.* xxvi, xxvii. *Joan* xix.

Cw. Paham y mynegir, mai *Pilat*, gwr o *Rufain*, oedd y barnwr?

Att. I arwyddocâu, fod y Deyrnwialen wedi ymadael o *Juda* pan oedd Criſt yn dïoddef; yn ol y Brophwydoliaeth. *Gen.* xlix. 10.

Cw. Pa lun y croeſhoeliwyd Criſt?

Att. 1. Hwy a baraſant iddo ddwyn ei Groes ei hun. *Joan* xix.

2. Hwy a roddaſant iddo finegr a buſtl i'w yfed. *Mat.* xxvii.

3. Hwy

3. Hwy a dynnaſant ei Ddillad o'i gylch, ac a hoeliaſant i Draed a'i Ddwylaw ar y Groes. *Luc* xxiv.

4. Er mwy o waradwydd i Griſt, hwy a'i croeſhoeliaſant rhwng dau leidr. *Marc* xv.

5. Hwy a watwaraſant Griſt ar y Groes, yn ei Ddïoddefint mwyaf. *Luc* xxiii.

6. Cyſuron Duw a'i gadawödd ef, i ddïoddef hyd yr eithaf roſom; nes iddo roddi i fynu yr yſpryd, a marw. *Mat.* xxvii. *Joan* xix.

Cw. Paham yr oedd yn rhaid i Griſt farw?

Att. 1. I ddilëu ein pechodau ni. Canys *cyflog pechod yw marwölaeth.* 1 Cor. xv. 5.

2. Fel y dinyſtriai efe yr hwn oedd â nerth marwölaeth ganddo; hynny yw, diafol. *Heb.* ii. 14.

3. Trwy Farwölaeth Criſt, y'n heddychwyd ni â Duw, pan oeddym yn elynion. *Rhuf.* v. 10.

Cw. Pa fodd yr ymddygodd Criſt wrth farw?

Att. Efe a roddes Eſampl dda i ni. 1. Yn ei Amynedd. *Eſay* liii. 7.

2. Efe a weddïodd dros ei Elynion. *Luc* xxiii. 34.

3. Efe a ofalodd am ei Fam. *Joan* xix. 26—29.

4. Efe a doſturiodd wrth y Lleidr edifeiriol. *Luc* xxiii. 43.

Cw. Beth a ddigwyddodd pan fu Criſt farw?

Att. 1. Tywyllwch a fu ar yr holl ddaear dros dair awr. *Mat.* xxvii. 45.

2. Llen y Deml a rwygwyd yn ddau oddi fynu hyd i waered; a'r ddaear a grynodd, a'r meini a holldwyd. *Mat.* xxvii. 51.

3. Beddau a agorwyd; a llawer o gyrph y Saint a hunaſant, a gyfodaſant. *Mat.* xxvii. 52.

Cw. Pa lun y claddwyd Criſt ar ol ei farw?

Att. Joſeph o *Arimathea* a *Nicodemus* a'i claddaſant ef mewn bedd newydd, lle ni chladdeſid neb o'r blaen. *Joan* xix. *Mat.* xxvii.

Cw. Paham y claddwyd Criſt, gan fod iddo ef adgyfodi drachefn?

Att. 1. Er tyſtiolaeth ſicr o'i Farwölaeth ef.

2. I aros yn y bedd hyd y trydydd dydd; yn ol y 'Sgrythurau. *Mat.* xii. 40.

3. I orchfygu angau droſom ni yn ei garchar ei hun. 1 *Cor.* v. 54.

Cw. Ymha yſtyr y diſgynodd Criſt i Uffern?

Att.

Att. Nid trwy fyned i le'r damnedigion; canys Corpl Criſt a ddodwyd yn y bedd, a'i Enaid a aeth i Baradwys eithr trwy aros yn 'ſtad y meirw, a neillduad y corph a'i enaid, dros amſer.

Cw. Pa ddefnydd a wnewch o Ddïoddefaint a Marwölaeth Criſt?

Att. 1. Mi ddylwn weled, yng nghreulonedd a thoſtur Dïoddefaint Criſt, mor fawr yw Drwg Pechod, mor llym yw Digoſaint a Chyfiawnder Duw yn erbyn Pechod, mor werthfawr yw Enaid Dyn, mor fawr yw'r Breintiau a brynodd Criſt ac mor fawr yw Cariad Duw yn rhoddi ei Fab droſom.

2. Mi ddylwn ryfeddu Doethineb Duw, yn dwyn i ben Jechydwriaeth pechaduriaid yng Nghriſt, trwy lid eu cynfigen hwy yn ei erbyn ef. *Megis y dyrchafwyd Joſeph, trwy gynfigen ei frodyr, i'w cadw hwy yn fyw yn amſer newyn.* Gen. l. 20. Sal. lxxvi. 10.

3. Mi ddylwn weled, yn Nïoddefaint Criſt, faint o Goſpedigaeth ſydd ddyledus i mi, oni chaf ran yng Nghriſt. Canys, *Peth ofnadwy yw ſyrthio yn nwylaw y Duw byw.* Heb. x. 31.

4. Mi ddylwn garu Criſt, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni, a rhoddi ei hun droſom ni, *i ddileu'n pechodau, trwy ei aberthu ei hun.* 1 Joan iv. 19. Heb. ix. 26.

5. Mi ddylwn ddïoddef yn ewyllyſgar bob peth er mwyn Criſt, yr hwn a ddïoddefodd gymmaint droſof fi. *Canys Criſt a ddywedodd, Pwy bynnag ni ddycco ei groes, a dyfod ar fy ol i, nid all efe fod yn ddiſgybl i mi.* Luc xiv. 27.

6. Mi ddylwn nesâu yn ddyfal at Swpper yr Arglwydd, i goffhâu am ei Gariad ef, yn dïoddef ac yn marw droſof. *Canys efe a ddywedodd, Gwnewch hyn er cof am danaf.* 1 Cor. xi. 24—26.

7. Mi ddylwn farw i bechod. Canys, *Efe a ddygodd ein pechodau ni yn ei gorph ei hun ar y pren; fel, gwedi ein marw i bechod, y byddem fyw i gyfiawnder.* 1 Pedr ii. 24.

8. Mi ddylwn edrych na bo i mi eſgeuluſo Pwrcas mor fawr ag y brynodd Criſt trwy'r fath Ddïoddefaint. *Canys pa fodd y diangwn, os eſgeuluſwn jechydwriaeth gymmaint?* Heb. ii. 3.

9. Mi ddylwn ymddiried yn gyſurus am Jechydwriaeth, er gwaethaf pob amheuon ac ofnau. Canys, *Pwy yw'r hwn ſydd yn damnio? Criſt yw'r hwn a fu farw.* Rhuf. viii. 34.

10. Mi ddylwn edrych, na byddwyf fi byth yn elyn Croes Criſt,

riſt, ac yn euog o'i Gorph a'i Waed ef; gan ei ailgroeſhoelio dracheſn, a'i oſod yn watwor, trwy ddirmygu ei Gyngor i Ordinhadau ef, neu wrthgilio oddi wrtho ar ol ei arddel. *Cor.* xi. 27. *Phil.* iii. 18.

Cw. Beth yw'r pummed Pwngc o'r *Gredo*?

Att. Y trydydd dydd y cyfododd o feirw.

Cw. Beth a yſtyrïwch yn y Pwngc hwn?

Att. Dau beth. 1. Cyfodiad Criſt o feirw. 2. Pa bryd cyfododd; ſef, *y trydydd dydd.*

Cw. Pa lun y cyfododd Criſt?

Att. 1. Fe gyfododd yn ei Gorph ei hun. *Luc* xxiv. 39.

2. Fe gyfododd trwy ei Allu ei hun. *Joan* x. 17, 18.

3. Fe gyfododd yn forau'r *trydydd dydd.* Mat. xxviii.

Cw. Pa ſicrwydd ſydd am Adgyfodiad Criſt?

Att. 1. Fe fynegodd y Prophwydi, a Chriſt ei hun, am Adgyfodiad ef ymlaen-llaw. *Act.* xxvi. 22, 23.

2. Daeargryn mawr ac Angylion Duw a dyſtiaſant Adgyfodiad Criſt; a cheidwaid y bedd a ffoiſant gan ddychryn. *Mat.* xxviii.

3. Fe ddarfu i lawer weled ac ymddidan â Chriſt, a'i leimlo â'u dwylaw, a chydfwytta ag ef, ar ol ei adgyfodi. *Act.* i. 3. x. 40, 41. 1 *Joan* i. 13.

4. Duw a wnaeth Wyrthiau mawrion trwy'r Apoſtoljon, wirio eu tyſtiolaeth hwy am Adgyfodiad Criſt. *Act.* iii. 15, 16. iv. 10.

5. Fe newidïwyd y Sabboth o'r ſeithfed i'r dydd cyntaf o'r wythnos, yn goffadwriaeth o Adgyfodiad Criſt. *Act.* xx. 7.

Cw. Paham y cyfododd Criſt o feirw?

Att. 1. I ddangos ei Fuddugoliaeth dros angau, a galluoedd tywyllwch, er Cyſur i ni. 1 *Cor.* xv. 54—57.

2. Fel y dyrchefid Criſt ar ol ei Ddaroſtyngiad. *Phil.* ii. 8, 9.

3. Fel yr eglurid ef yn Fab Duw, trwy ei Adgyfodiad oddi wrth y meirw. *Rhuf.* i. 4.

4. Fel y byddai Ymwared ſicr i ni trwyddo ef. Canys, *Efe a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhâu ni.* Rhuf. iv. 25.

5. Fe gyfododd Criſt o feirw, i fyned i'r Nefoedd, i eiriol roſom ger bron Duw. *Heb.* ix. 24.

Cw. Pa ddefnydd a wnewch o hyn?

Att. 1. Megis y cyfodwyd Criſt o feirw, felly y dylem ni *fodio mewn newydd-deb buchedd.* Rhuf. vi. 4.

2. Mi ddylwn ymoſtwng iddo fel fy Arglwydd. Canys,

Er

Er mwyn hyn y bu Criſt farw, ac yr adgyſodes. Rhuf. xiv.

3. Mi ddylwn ymgyſuro ymhob adfyd. Canys *mi wn fo fy Mhrynwr yn fyw,* ar ol iddo farw droſof. *Job* xix. 2 *Dat.* i. 17, 18.

4. Mi ddylwn foli Duw am ein *hadgenhedlu i obait byw iol trwy adgyſodiad Criſt o feirw.* 1 Pedr i. 3.

Cw. Beth yw'r chweched Pwngc o'r *Gredo*?

Att. Eſgynodd i'r Neſoedd, ac y mae yn eiſteddar Dde heulaw Dduw Dad Hollgyſoethog.

Cw. Beth a yſtyriwch yn y Pwngc hwn?

Att. Dau beth. 1. Eſgyniad Criſt i'r Neſoedd.

2. Eiſteddiad Criſt ar Ddeheulaw Dduw.

Cw. Pa bryd yr eſgynodd Criſt i'r Neſoedd?

Att. Ymhen deugain niwrnod ar ol ei Adgyſodiad. *We iddo ddywedud wrth ei Ddiſgyblion y pethau a berthynen i deyrnas Dduw.* Act. i. 3.

Cw. Pa lun yr eſgynodd Criſt i'r Neſoedd?

Att. 1. Fe hyſpyſodd hynny ymlaen-llaw i'w Ddiſgyblion *Joan* xx. 17.

2. Fe'u dygodd hwy o'r neilldu, ac a gododd ei Ddwy law, ac a'u bendithiodd hwy wrth ymadael. *Luc* xxiv. 50.

3. Criſt a ddygpwyd i fynu i'r Nef, a chwmmwl a'i der byniodd ef allan o'u golwg hwy. *Luc* xxiv. 51. *Act.* i. 8, 9

4. Dau Angel a ddywedodd, y deuai Criſt o'r Nef (ſef, y Nydd y Farn) *yn yr un modd ag y gwelſent ef yn myned i'r nef.* Act. i. 11.

Cw. Paham yr eſgynodd Criſt i'r Neſoedd?

Att. 1. Am iddo orphen ei Waith ar y ddaear. *Joan* xvii. 4. xix. 30.

2. I barottôi lle i'w Bobl. *Joan* xiv. 2, 3.

3. I eiriol dros ei Bobl. *Heb.* ix. 24.

4. I roddi'r Yſpryd Glân i'w Ddiſgyblion. *Joan* xvi. 7.

5. I eiſtedd ar Ddeheulaw Dduw Dad Hollgyſoethog.

Cw. Beth a yſtyriwch wrth Eiſteddiad Criſt ar Ddeheulaw Dduw?

Att. 1. Fod Criſt yn gorphwys oddi wrth ei Boen ar y ddaear. *Heb.* iv. 9.

2. Goruchafiaeth Criſt, a'i Ddyrchafiad i'r Anrhydedd mwyaf. *Heb.* i. 13.

Cw. Ymha beth y mae Goruchafiaeth Criſt yn ſefyll?

Att. 1. Yn ei Feddiant ef o bob peth yn y nef a'r ddaear *Mat.* xi. 27. *Joan* xvi. 15. *Heb.* i. 2.

2. Y

2. Yn ei Arglwyddiaeth ef, a'i Awdurdod dros bob peth. *Mat.* xxviii. 18.

3. Ym Mhennaduriaeth Criſt ar ei Eglwys. *Canys Duw ddaroſtyngodd bob peth dan ei draed ef, ac a'i rhoddes ef n Ben, uwchlaw pob peth, i'r eglwys.* Eph. i. 22.

Cw. Beth a wna Criſt yn ei Bennaduriaeth ar ei Eglwys?

Att. 1. Mae Criſt yn amddiffyn ei Eglwys. *Gan ei chadw os a dydd, rhag i neb ei drygu.* Eſay xxvii. 3.

2. Mae Criſt yn *teyrnaſu ar Dŷ Jacob* (ſef ei Eglwys) *yn ragywydd; ac ar ei frenhiniaeth ef ni bydd diwedd.* Luc 33.

3. Mae Criſt yn trefnu Adeiladaeth ei Eglwys. *Gan roddi hai yn efangylwyr, rhai yn ſugeiliaid ac yn athrawön, i erffeithio'r ſaint.* Eph. iv. 11, 14.

4. Mae Criſt yn cyfrannu Doniau'r Prynedigaeth i'w Bobl. *Efe ſy'n rhoi edifeirwch i Iſraël, a maddeuant pechodau.* ct. v. 31. Sal. lxviii. 16.

5. Criſt ſydd i farnu ei Bobl, a phawb oll, yn y Dydd af. *Joan* v. 31.

Cw. Pa'm y dywedir ymma, ſod Criſt ar Ddeheulaw Dduw Dad *Hollgyſoethog*?

Att. I arwyddocâu, ſod Duw, ſel *Tad*, yn ewyllyſgar, ac, l y mae'n *Dad Hollgyſoethog*, yn abl, i roi pob peth i ni wy Griſt.

Cw. Pa Ddefnydd a wnewch o Eſgyniad Criſt i'r Neſoedd?

Att. 1. Mi ddylwn addoli'r hwn a ddyrchafwyd ar Ddeeulaw Dduw. *Canys holl angylion Duw a'i haddolant* f. Heb. i. 6.

2. Mi ddylwn ymddiried yng Nghriſt am bob peth. *Yr wn a ddyrchafwyd i'r uchelder, ac a dderbyniodd roddion ddynion.* Sal. lxviii. 18.

3. Mi ddylwn ymgyſuro yng Nghriſt ymhob trallodau ac fnau. Canys yn ei Law ef y mae'r Llywödraeth. *Sal.* xlix. 2.

Cw. Beth yw'r ſeithfed Pwngc o'r *Gredo*?

Att. Oddi yno y daw i farnu byw a meirw.

Cw. Beth a yſtyriwch yn y Pwngc hwn?

Att. Tri pheth. 1. Pwy ſy'n dyfod; ſef, *Criſt.*

2. I ba beth y mae Criſt yn dyfod; ſef, *i farnu.*

3. I farnu pwy; ſef, *y byw a'r meirw.*

Cw. Pa'm y goſodwyd Criſt yn Farnwr y Byd?

Att. 1. Am mai Criſt a brynodd y byd. *Eph.* iv. 10.

2. Fel

2. Fel y bo'r Barnwr yn weledig i bawb. *Dat.* i. 7.

3. Fel y bernid dynion gan un ag ſydd yn Ddyn ſ hwythau. *Joan* v. 27.

Cw. Pa fath Farnwr ſydd Criſt?

Att. 1. Barnwr Hollwybodol; na's gall eſe gamſynniai *Joan* xxi. 17.

2. Barnwr Hollalluog; na's gellir ei wrthſefyll. *Dat.* i.

3. Barnwr Cyfiawn; na dderbyn wyneb neb. *Rhuf.* ii. 1

4. Barnwr Penawdurdodol; nad oes appelio oddi wrth *Mat.* xxviii. 18.

5. Barnwr Manwl; a ddug bob peth i'r Farn. *Preg.* xii. 1

Cw. Wrth ba Reol y barna Criſt?

Att. 1. Fe'n barna *ni*, dan yr Eſengyl, yn ol Athraw iaeth yr Efengyl. *Joan* xii. 48.

2. Pawb a fernir yn ol y Ddeddf a'r Rheol a roddes Du iddunt. *Rhuf.* ii. 12—15.

Cw. Pa bryd y bydd Dydd y Farn?

Att. 1. Nid oes neb a ŵyr y dydd, na'r awr, ond Du yn unig. *Mat.* xxiv. 36.

2. Dydd y Farn a ſydd yn niwedd y byd hwn; pan dyddiau'r ddaear yn darfod. *Mat.* xiii. 4.

3. Fe ddaw Dydd y Farn cyn y bo hir. *Canys Criſt ddywedodd, Wele fi yn dyfod ar frys.* Dat. xxii. 12.

4. Fe ddaw Dydd y Farn yn ddiſymmwth. *Yn yr aw ni thybioch, y daw Mab y dyn.* Mat. xxiv. 44.

Cw. Ymha gyffelyb y daw Dydd y Farn yn ddiſymmwth

Att. 1. Megis lleidr yn y nos. 2 *Pedr* iii. 10.

2. Fel gwewyr eſgor ar un a fo beichiog. 1 *Theſ.* v. 3.

3. Fel gwaedd hanner nos. *Mat.* xxv. 6.

4. Fel y Diluw yn nyddiau *Nöe*; a Diſtryw *Sodom* nyddiau *Lot*. Luc xxvii.

5. Fel mellden, ac fel magl, y daw Dydd y Farn, warthaf pawb oll. *Luc* xvii. a xxi. 35.

Cw. Pa fath Ddiwrnod fydd Dydd y Farn?

Att. 1. Dydd o Drallod mawr ac Wylofain. *Dat.* vi.

2. Dydd o Ddigter a Digofaint Duw. *Nah.* i. 6.

3. Dydd dychrynllyd ac ofnadwy. *Luc* xxi. 26.

4. Dydd o Ddiſtryw i'r Byd hwn. 2 *Pedr* iii. 10.

5. Dydd o Ddatguddiad pob Dirgelion. *Luc* xii. 2.

6. Dydd Taledigaeth pawb yn ol eu Gwaith. *Rhuf* ii. 6—10.

7. Dydd o Lawenydd mawr i'r Duwiol. *Luc* xxi. 28.

Cw. Ymh

Cw. Ymha lun y daw Criſt i'r Farn?

Att. 1. *Bydd arwyddion yn yr haul, a'r lleuad, a'r ſer: c ar y ddaear ing cenhedloedd gan gyſyng-gyngor; a'r môr 'r tonnau yn rhuo. A dynion yn llewygu gan ofn.* Luc xi. 25, 26.

2. *Y nefoedd a ant heibio gyd â thwrwf, a'r defnyddiau an wir wres a doddant, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo yndi a loſgir.* 2 Pedr iii. 10.

3. *Yr Arglwydd ei hun a ddiſgyn o'r nef gyd â bloedd, llef yr archangel, ac ag udgorn Duw: a'r meirw yng Nghriſt a gyfodant yn gyntaf.* 1 Theſ. iv. 16.

4. Yr holl feirwön a gyfodir, a phawb *a welant Fab y yn yn dyfod mewn cwmmwl, gyd â gallu a gogoniant mawr.* Luc xxi. 27.

5. Wedi i'r udgorn ganu, a'r meirw gyfodi, *hwynt oll a ydgeſglir ger bron Criſt; ac efe a'u didola hwynt oddi wrth u gilydd, megis y didola'r bugail y defaid oddi wrth y geifr.* Mat. xxv. 32.

6. Ni adewïr neb o'r annuwiolion i hilio ar y ddaear mwy, *Canys y dydd ſydd yn dyfod a'u llyſg hwynt, medd Arglwydd lluoedd, fel na's gadawö iddunt na gwreiddyn na changen.* Mal. iv. 1.

Cw. Pa fodd y bydd ar y Duwiolion yn y Farn?

Att. 1. Ni ddaw un farn o gondemniad na melldith i gyfarfod â hwynt. *Canys, Criſt a'u llwyr brynodd oddi wrth felldith y ddeddf.* Gal. iii. 13.

2. Ni ddichon neb eu condemnio. *Canys Criſt a'u cyfiawnhaodd, ac a fu farw droſtunt.* Rhuf. viii. 33, 34.

3. Ni bydd i Ddigofaint Duw eu dychrynu. *Canys, gan eu bod wedi eu cyfiawnhâu trwy ffydd, y mae ganddunt heddwch tu ag at Dduw trwy Jeſu Griſt.* Rhuf. v. 1.

4. Ni ddannodir iddunt eu pechodau. *Canys Duw a ddywedodd, Trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pechodau hwynt a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honunt mwyach.* Heb. viii. 12.

5. Nid ymddengys cywilydd eu beiau. *Canys, gwaed Criſt a'u glanhaodd oddi wrth bob pechod.* 1 Joan i. 7.

6. Fe gyfrifir â hwy, er Cyſur iddunt, am yr holl Ddaioni a wnaethant. *Am yr holl eluſenau a roddaſant, ac am yr holl groeſau a'r ammharch a oddefaſant er mwyn Criſt.* Luc xiv. 14. Mat. v. 12. Eph. vi. 8.

7. Hwy a gyfodir yn gyntaf, ac a ddodir ar Ddeheulaw Criſt.

Criſt. *Ac a wahoddir gyd ag ef i deyrnas nefoedd.* Ma
xxv. 34.

Cw. Pa fodd y bydd ar yr annuwiol yn y Farn?

Att. Fe'u gelwïr hwynt i gyfrif. 1. Am eu heſgeuluſia
o'r holl Ddyledſwyddau a'r Gweithredoedd da a orchymyn
nodd Duw iddunt. *Mat.* vii. 19.

2. Am eu camgyflawniad o'r Dyledſwyddau a'r Gweith
redoedd da a wnaethant. *Diar.* xv. 8.

3. Am eu camarferiad o'u holl Dalentau. Sef, yr ho
Ddoniau, y Meddiannau, Sabbothau, a Moddion Jechydw
iaeth, a roddes Duw iddunt. *Mat.* xxv. 25—30.

4. Am yr holl bechodau aneirif, cyhoedd a dirgel, a wnaeth
ant, mewn meddwl, gair, a gweithred. *Preg.* xii. 14.

5. Am y rhwyſtrau a roddaſant ar ffordd Jechydwriaeth
rhai eraill, a'u heſamplau drwg yn llygru eu teuluoedd, y
lle eu hyfforddio mewn Crefydd. *Mat.* xviii. 7. *Luc* xvii. 1, 2

6. Eu cyfeillion, a'u cydwybod, a'r temtiwr, a'u condemn
iant, heb ſymryn o Gyſur na Gobaith yn un ffordd. *Rhu*
ii. 15, 16.

7. Hwy a fyddant yn *wylofain ac yn rhincian dannedd*
pan welont eraill yn nheyrnas nefoedd, a hwythau wed
eu barw allan; a'r Barnwr a ddywed wrthynt, Ewch odd
wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, a barottôwy
i ddiafol a'i angylion. Luc xiii. 28. Mat. xxv. 41.

Cw. Pa ddefnydd a wnewch o Ddyfodiad Criſt i'r Farn

Att. 1. Mi ddylwn edifarhâu. *O herwydd i Dduw oſo*
diwrnod yn yr hwn y barna efe'r byd mewn cyfiawnder
trwy Jeſu Griſt. Act. xvii. 30, 31.

2. Mi ddylwn edrych am Ffydd yng Nghriſt, a glyn
wrtho. *Fel pan ymddangoſo efe, y byddo hyder gennym; a*
na chywilyddiom ger ei fron ef yn ei ddyfodiad. — Canys
pan fo'r nefoedd a'r ddaear yn crynu, yr Arglwydd fyd
hyder ei bobl. 1 Joan ii. 28. Joël iii. 16.

3. Mi ddylwn fod yn ddieſgeulus ac yn ddyfal yn
Ngwaſanaeth Dduw. *Gwyn ei fyd y gwas hwnnw, yr hw*
y caiff yr Arglwydd ef, pan ddêl, yn gwneuthur fell
Luc xii. 43.

4. Mi ddylwn edrych na fyddo byth yn gywilydd genny
i arddel Criſt. *Canys, pwy bynnag* (medd Criſt ei hun) a
y ſo gywilydd ganddo fi a'm geiriau, hwnnw fydd cywilyd
gan Fab y dyn, pan ddelo yn ei ogoniant. Luc ix. 26.

5. Mi ddylwn fod yn amyneddgar mewn trallod ac ad
fyd

Fel y caffer profiad fy ffydd, er mawl, ac anrhydedd, gogoniant, yn ymddangofiad Jefu Grift. 1 Pedr i. 7.

6. Ni a ddylem *edrych arnom ein hunain, rhag i'n canau un amfer drymhâu trwy lythineb, a meddwdod, a falon y bywyd hwn, a dyfod y dydd hwnnw arnom yn ifymmwth.* Luc xxi. 34.

7. Mi ddylwn ddyfal-gofio'r Rhybudd fy'n dywedud wrth b un a ddilyno ei rwyfg ei hun; *Gwybydd y geilw Duw i'r farn am hyn oll.* Preg. xi. 9.

8. Ni a ddylem ddangos ein Cariad yn helaeth i'r Tlodi-. Canys Crift a ddywaid yn y Farn, *Yn gymmaint a'i neuthur o honoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi gwnaethoch.* Mat. xxv. 2 Cor. ix. 6.

9. Mi ddylwn garu Ymddangofiad Crift yn y Farn. Canys ydd Priodas y Seintiau yw, a *Choron Cyfiawnder* a roddir dunt hwy yn y Dydd hwnnw. *Dat.* xix. 7, 8. 2 *Tim.* iv. 8. *Mat.* iii. 18. *Sal.* cxxvi. 5.

Cw. Beth yw'r wythfed Pwngc o'r *Gredo*?

Att. Credaf yn yr Yfpryd Glân.

Cw. Beth a yftyriwch yn y Pwngc hwn?

Att. Tri pheth. 1. Pwy yw'r *Yfpryd Glân*; fef, trydd Perfon y Duwdod. 1 *Joan* v. 7.

2. Ei Enw ef; fef *Yfpryd Glân*; hynny yw, Yfpryd anctaidd.

3. Fy Nyled i gredu yn yr *Yfpryd Glân.*

Cw. Pa'm y gelwch ef yn Yfpryd *Glân*, neu *Sanctaidd*?

Att. Am ei fod yn fanctaidd ynddo ei hun, ac yn ein ncteiddio ni.

Cw. Beth a gredwch am yr Yfpryd Glân?

Att. Mi ddylwn gredu, nid yn unig *fod* Yfpryd Glân; thr hefyd gredu *yn* yr Yfpryd Glân.

Cw. Paham y dylech gredu yn yr Yfpryd Glân?

Att. Am fod yr Yfpryd Glân *yn Dduw.*

Cw. Pa fodd y gwyddoch fod yr Yfpryd Glân yn Dduw?

Att. 1. O blegid ei fod yn deillio oddi wrth Dduw Dad. *Joan* xv. 26.

2. O blegid ei fod yn un a'r Tad a'r Mab. Canys, *y tri yn un ydynt.* 1 Joan v. 7.

3. Fe'i gelwïr yn Dduw, ac yn Yfpryd Duw. *Act.* v. 3, 4.

4. Yn Enw'r Yfpryd Glân y'n bedyddir ac y'n bendithir ni, l yn Enw'r Tad a'r Mab. *Mat.* xxviii. 19. 1 *Cor.* xiii. 13.

5. Y mae Priodoliaethau a Gweithredoedd priodol Duw n perthyn iddo.

Cw.

Cw. Pa rai yw Priodoliaethau'r Yſpryd Glân ſel Duw?

Att. 1. Mae eſe yn Dragywyddol. *Heb.* ix. 14.

2. Mae eſe yn Hollwybodol. 1 *Cor.* ii. 10.

3. Mae eſe yn Hollbreſennol. *Sal.* cxxxix. 7.

4. Mae eſe yn Hollalluog. 1 *Cor.* xii. 11.

Cw. Pa rai yw Gweithredoedd yr Yſpryd Glân ſel Duw?

Att. 1. Yr Yſpryd Glân a'm gwnaeth i, ac a addurnodd y Neſoedd. *Job* xxvi. 15. xxxiii. 4.

2. Trwy Adnewyddiad yr Yſpryd Glân yr achubir ni *Tit.* iii. 5.

3. Trwy'r Yſpryd Glân y rhoddir i ni bob Doniau. 1 *Cor.* xii. 11.

4. Trwy'r Yſpryd Glân y cyfodwyd Criſt o feirw; ac a cyfodir ninnau hefyd. *Rhuf.* viii. 11.

5. Yr Yſpryd Glân ſy'n cymmorth Pobl Dduw ym mhob peth. *Rhuf.* viii. 26.

Cw. Ymha beth mae'r Yſpryd Glân yn eich cymmorth?

Att. 1. Yngwaith ein Celfyddyd; ac yn rhoi i ni ddoniau addas i'n galwäd. *Eceſod.* xxxv. 30—35. *Eſay* xxvii. 24—26.

2. Yngwaith ein Jechydwriaeth. Canys ni allwn ni ddim hebddo ef. 2 *Cor.* iii. 5.

Cw. Pa Gymmorth a rydd yr Yſpryd Glân yngwaith Jechydwriaeth?

Att. 1. Trwy'r Yſpryd Glân y rhoddwyd i ni Athrawiaeth y 'Sgrythurau. 2 *Tim.* iii. 16.

2. Trwy'r Yſpryd Glân y cymhwyſir Gweinidogion i'r dyſgu. 2 *Cor.* iii. 6.

3. Trwy'r Yſpryd Glân y gwneir Gweinidogaeth y Gair yn effeithiol i ni. 2 *Cor.* x. 4.

4. Trwy'r Yſpryd Glân yr argyoeddir ni o'n Pechod, a droi at Dduw. *Joan* xvi. 7, 8.

5. Trwy'r Yſpryd Glân y'n ſanctëiddier ni yn Enw'r Arglwydd Jeſu. 1 *Cor.* vi. 11.

6. Trwy'r Yſpryd Glân y nerthir ni i rodio yn Ffordd Chyfraith Dduw. *Ezec.* xxxvi. 27.

7. Trwy'r Yſpryd Glân y'n dyſgir i wir-weddïo ac addoli Duw. *Zec.* xii. 10. *Rhuf.* viii. 26.

8. Trwy'r Yſpryd Glân y'n gwneir ni yn ffrwythlon ymhob Daioni. *Gal.* v. 22.

9. Trwy'r Yſpryd Glân y tywelldir Cariad Duw ynnom er Cyſur i ni ymhob gorthrymder. *Rhuf.* v. 3, 5.

10. Yr Yſpryd Glân, ſy'n tyſtiolaethau Mabwyſiad Plant uw, eſe yw Sêl ac Ernes eu Hetiſeddiaeth. *Rhuf.* viii. 16. *ph.* i. 13, 14.

Cw. Pa ddefnydd a wnewch o ſod yr Yſpryd Glân yn ymmorth i chwi?

Att. 1. Ni ddylai neb falchïo yn eu Rhagoriaeth. *Pwy n gwneuthur rhagor rhyngot ti ac arall? a pha beth dd gennyt, ar na's derbyniaiſt?* 1 Cor. iv. 7.

2. Mi ddylwn geiſio Cymmorth a Chyfarwyddyd Yſpryd uw ymhob peth. *Nac ymddiried i'th ddyall dy hun; yn holl ffyrdd cydnebydd ef, ac efe a hyffordda dy lwybrau.* iar. iii. 5, 6.

3. Mi ddylwn ymdrech yn erbyn hudoliaeth y byd yng- mmorth yr Yſpryd Glân. Canys Criſt a ddywedodd, *wy yw'r hwn ſydd ynnoch chwi, nâ'r hwn ſydd yn y byd.* Joan iv. 4.

4. Mi ddylwn wylio rhag gwrthwynebu Yſpryd Duw, pan ſyddo eſe yn gweithio Argyoeddiad ynnof i wellhâu ſy uchedd. *Na ddiffoddwch yr Yſpryd.—Na thriſtêwch Lân ſpryd Duw.* 1 Theſ. v. 19. Eph. iv. 30.

5. Mi ddylwn chwilio pa Yſpryd ſydd ynnof. *Na chred- ch bob yſpryd, eithr profwch yr yſprydion ai o Ddduw y aent; o blegid y mae gau brophwydi lawer wedi myned lan i'r byd.* 1 Joan iv. 1.

Cw. Pa'm y dylech chwilio o ba yſpryd yr ydych?

Att. 1. Am fod llawer yn myned ar ol dychymmyg eu ſpryd eu hunain, yn lle Addyſg yr Yſpryd Glân. *A'r rythur ſydd yn dywedud, yr ymedu rhai yn y dyddiau weddaf oddi wrth y ffydd, gan roddi coel i yſprydion ſeiliornus.* 1 Tim. iv. 1.

2. Am fod y temtiwr yn hudo rhai i amryfuſedd dan rith uwioldeb, ſel ped fae oddi wrth yr Yſpryd Glân. *Ac nid yfedd; canys y mae Satan yn ymrithio weithiau yn angel goleuni.* 2 Cor. xi. 14.

3. Am fod llawer yn derbyn Doniau heb Raſau jachuſol Yſpryd Glân. *Rhai a brophwydent, ac a wnaethant rthiau lawer; ac er hynny yn golledig.* Mat. vii. 22, 23.

Cw. Pa fodd yr adwaenwch yr Yſpryd Glân oddi wrth ſpryd cyfeiliornus?

Att. 1. Wrth y Ffrwythau o hono. *Canys ffrwythau'r ſpryd Glân yw, Cariad, tangnefedd, cymmwynaſgarwch, ſtyngeiddrwydd, a phob daioni.* Gal. v. Eph. v. 9.

2. Wrth

2. Wrth yr Addyſg a roddir gan yr Yſpryd Glân yn Yſgrythur. Lle yn unig y ceir tyſtiolaeth gywir o Athraiaeth Yſpryd Duw. *Chwiliwch y 'ſgrythurau. — Hwyn hwy ſydd yn tyſtiolaethu am danaſi.* Joan v. 39. Eſay xx. Marc xii. 24.

3. Wrth ymgais am jawn-ddyall y 'Sgrythurau. *Y rh y mae yr annyſgedig a'r anwaſtad yn eu gwŷrdroi i'w dinyſ eu hunain. — Trwy wŷrdroi geiriau'r yſgrythur, y ceiſio Satan i demtio Criſt ei hun.* 2 Pedr iii. 16.

Cw. Beth a wnewch i gael Cymmorth yr Yſpryd Glân

Att. 1. Mi ddylwn weddïo am dano. *O's chwychwi, rhai ydych ddrwg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch pla chwi; pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r Nef yr Yſpry Glân i'r rhai a ofyno ganddo?* Luc xi. 13.

2. Mi ddylwn wrando Gair Duw yn barchus. *Tra'r oe Cornelius a'i dylwyth yn gwrando gair Duw, fel yn br ſennol ger bron Duw, yr Yſpryd Glân a ddaeth ar ba ag oedd yn clywaid y gair.* Act. x. 33, 34.

3. Mi ddylwn ymwrthod â phob meddyliau aflan llygredi Canys ni thrig yr Yſpryd Glân mewn calonnau aflan, halo edig. 1 *Cor.* iii. 16, 17.

4. Mi ddylwn edrych am fod bob amſer yn wir-oſtynge ig. *O herwydd fod Yſpryd Duw yn gwrthwynebu'r beilc ion, ac yn rhoddi gras i'r rhai goſtyngedig.* Jago iv. 6.

Cw. Beth-yw'r nawfed Pwngc o'r *Gredo*?

Att. Yr Eglwys Lân Gatholig; a *Chymmun y Saint.*

Cw. Beth a yſtyriwch yn y Pwngc hwn?

Att. Pedwar peth. 1. Beth yw Eglwys. 2. Ymha yſt y mae'n Eglwys Lân. 3. Ymha yſtyr y mae'n Gatholi 4. Beth yw Cymmun y Saint.

Cw. Beth yw Eglwys?

Att. Yr holl Bobloedd a elwïr ymhob man i Sancteid rwydd ac Addoliad Duw, yn ol ei Ewyllys ef. 1 *Cor.* i. 2.

Cw. Pa fodd y daeth, fod Eglwys gan Dduw yn y byd, ol i bawb ſyrthio yn *Adda*?

Att. 1. Trwy alw rhai i Sancteiddrwydd, yn ol Arfae Duw, a'i Ras. 2 *Tim.* i. 9.

2. Trwy'r Brynedigaeth ag ſydd yng Nghriſt Jeſu, yr h a roddodd ei hun droſtunt. *Tit.* ii. 14.

3. Trwy Sancteiddiad yr Yſpryd Glân, yn gweithio y ddunt Ffydd i'r Gwirionedd, ac Ufudd-dod. 2 *Theſ.* ii. 1 *Pedr* i. 2.

C

Cw. Pa'm y gelwïr hi yn Eglwys *Lân*?

Att. 1. Am ſod Criſt yn ei glanhâu oddi wrth bechod; ſef, yn ei ſanctciddio hi. *Eph.* ii. 25, 26.

2. Am ſod pawb a elwïr iddi, yn rhwymedig i ſyw'n ſanctaidd. 1 *Theſ.* iv. 7.

3. Am mai Dynion ſanctaidd, ſef rhai a lanhêir oddi wrth bechod, ſy'n wir Aelodau o honi.

Cw. Pa'm y gelwïr hi yn Eglwys *Gatholig*?

Att. 1. Fe'i gelwïr yn *Gatholig*, hynny yw, Eglwys Gyffredinol, o herwydd ei bod, nid o un genedl neillduol, fel yr *ſuddewön* gynt; eithr yn cynnwys ynddi holl Bobl Dduw yn gyffredinol, trwy holl wledydd ac oeſoedd y byd. *Rhuf.* x 12.

2. Fe'i gelwïr yn Eglwys Gyffredinol, am ei bod yn derbyn, nid rhyw Egwyddorion neu Rannau neillduol; eithr holl Athrawiaeth a phrif Byngciau ſylfaenol Ffydd Criſt yn gyffredinol.

3. Fe'i gelwïr yn Eglwys Gyffredinol, am nad yw'r holl Eglwyſydd neillduol, trwy holl wledydd ac oeſoedd y byd, ond un Eglwys Gyffredinol yng Nghriſt. *Un ydyw hi, fy ngholommen, fy nihalog.* Can. vi. 9.

Cw. Pa lun y mae holl Eglwyſydd y byd yn un?

Att. 1. Un Pen ſydd iddunt i gyd; ſef, Criſt. *Eph.* iv. 15.

2. Maent fel cyd-ganghennau o'r un gwraidd, a chydaelodau o'r un corph. *Rhuf.* xii. 4, 5.

3. Yr un yſpryd ſydd ynddunt oll; fel y mae'r un enaid yn yr holl aelodau. *Eph.* iv. 4.

4. Praidd yr un Gorlan ydynt; yn perthyn i'r un Bugail, Criſt Jeſu. *Joan* x. 6.

5. Maent yn perthyn i'r un Teulu, ac a ddygir ynghŷd i'r un lle. *Dat.* vii. 9.

Cw. O ba ſawl Rhan yw'r Eglwys Gatholig?

Att. Dwy Ran. 1. Yr Eglwys Orfoleddus yn y Neſoedd; ſef, y rhai ſydd yn gorfoleddu yno yn eu goruchafiaeth trwy Griſt dros eu gelynion. *Dat.* xii. 10—12.

2. Yr Eglwys Filwrus, ſydd etto ar y ddaear yn milwrio yn erbyn eu gelynion yſprydol. *Eph.* vi. 11.

Cw. Pa lun y gwahaniaethir yr Eglwys Filwrus?

Att. Dwy ffordd. 1. Yr Eglwys Weledig; ſef, pawb weler trwy Broffes yn Aelodau o'r Eglwys. *Mat.* v. 14.

2. Yr Eglwys Anweledig; ſef, gwir Aelodau Criſt, na wêl neb ond Duw pa rai ydynt. *Canys ti yn unig a adwaenoſt galonnau holl feibion dynion.* 1 Bren. viii. 39.

Cw. Beth yw Nodau gweledig Eglwys Dduw?

Att. 1. Gweinidogion a urddir yn gyfreithlon i draethu Gair Duw. *Heb.* v. 4.

2. Jawn-arferiad o Ordinhadau Jechydwriaeth, y rhai a ordeiniodd Criſt. *Act.* ii. 42.

2. Athrawiaeth jachus am Egwyddorion ſylfaenol y Ffydd. 1 *Tim.* iii. 15.

4. Diſgyblaeth Eglwyſig, i geryddu'r afreolus a'r aflan. *Neh.* xiii. 3. 1 *Cor.* v. 5.

5. Undeb heddychol, a Threfn weddus ymhob peth. 1 *Cor.* i. 10. xiv. 33, 40.

Cw. Beth yw Breintiau Eglwys, ſef Pobl Dduw?

Att. 1. Y maent yn werthfawr yngolwg Duw, ac yn Dryſor priodol iddo. *Ecſod.* xix. 5, 6. 1 *Pedr* ii. 9.

2. Y mae holl Addewïdion a Thryſorau'r Cyfammod Grâs yn perthyn iddunt. 2 *Pedr* i. 4.

3. Y mae Duw gyd â hwynt, ac yn gwarchod dros ei Eglwys, bob amſer. *Eſay* xxvii. 3. *Sal.* cv. 14.

4. Er mwyn ei Bobl, y mae Duw yn cyd-ddwyn cy'd â phobl eraill. *Pan aeth Noa i'r arch, yr hen fyd a foddwyd. A Sodom a loſgwyd, pan dynnwyd Lot allan. A phan gymmero Duw ei Bobl ei hun atto, y byd hwn a loſgir.*

5. Y maent yn Blant anwyl i Dduw, yn Frodyr ac yn Briod i Griſt: y mae efe yn eiriol droſtunt, yn eu golchi yn ei Waed, ac yn rhoi iddunt hawl o'i holl Feddiant. Canys Cyfammod Priodas ſydd rhyngthunt, na's derfydd byth. 2 *Cor.* xi. 2.

Cw. Pa Ddefnydd a wnewch o hyn?

Att. 1. Hiraethu am fod yn wir Aelod o Eglwys Dduw, ac i *drigo yn nhŷ'r Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd.* Sal. xxvii. 4.

2. Mi a ddylwn gyrchu'n ddibaid i holl Ordinhadau Eglwys Dduw. Canys, *Yno'r eſgyn llwythau'r Arglwydd, yn dyſtiolaeth i Iſräel, i foliannu Enw'r Arglwydd.* Sal. cxxii. 4.

3. Mi a ddylwn edrych am Sancteiddrwydd a Glendid Buchedd: ac onid ê, pa fodd y gallaf fod yn Aelod o'r Eglwys Lân Gatholig? 1 *Pedr* i. 15.

4. Mi a ddylwn fod yn heddychol yng Nghymmundeb yr Eglwys; yn ddirwygiad terfyſgus. *Dymunwch heddwch Jeruſalem: Llwydded y rhai a'i hoffant.* Sal. cxxii. 6.

5. M

5. Mi a ddylwn fod yn garuaidd tu ag fy Nghydaelodau o'r Eglwys, ac i fyw yn addas i Gymmundeb y Saint. *Perchwch bawb. Cerwch y brawdoliaeth.* 1 Pedr ii. 17.

Cw. Beth yw Cymmun y Saint?

Att. Bod y Seintiau, trwy Ffydd, yn un â Chriſt; a thrwy Undeb â Chriſt, yn un â'u gilydd. *Joan* xvii. 21, 23.

Cw. I ba beth mae Undeb â Chriſt yn gyffelyb?

Att. 1. I undeb y canghennau a'r pren; heb ba un ni's gallant dyfu, na ffrwytho. *Joan* xv. 5.

2. I undeb yr adeiladaeth a'r ſail, ag ſy'n cynnal yr adeilad i fynu. 1 *Cor.* iii. 11.

3. I undeb gwr a'i briod; trwy'r hyn y rhoddir iddi hawl yn ei holl feddiant ef. 1 *Cor.* iii. 22, 23.

4. I undeb yr aelodau a'r pen; heb yr hyn nid all fod grym na medr ynddunt. *Col.* i. 18.

5. I undeb yr enaid a'r corph; heb yr hyn nid all fod cynnydd na bywyd ynddo. 1 *Joan* v. 12.

Cw. Pa fath yw Cymmundeb y Seintiau â'u gilydd?

Att. 1. Maent yn gydgyfrannog o'r Breintiau mawrion meirif ſy'n dyfod oddi wrth eu Hundeb â Chriſt. 1 *Cor.* x. 16, 17.

2. Maent fel cyd-fwrdeiſiaid o'r un ddinas, yn gydgyfrannog o'r Manteiſion a berthyn i Dŷ ac Eglwys Dduw. Cadys Cyd-ddinaſyddion â'r Saint, a Theulu Duw, ydynt. *Eph.* ii. 19.

3. Maent yn Gydbroffeſwyr o'r un Gobaith, yn Blant i'r un Tad, yn Gydetifeddion o'r un Deyrnas: yr un Duw, yr un Ffydd, yr un Diben, ſydd ganddunt: yr un Athrawiaeth, yr un Ordinhadau, a roddwyd iddunt oll. *Eph.* iv. 4—6.

Cw. I bwy y perthyn y Cymmundeb hwn?

Att. Cymmundeb y Saint yw; ſef, y rhai a ſancteiddir, ac a rodiant yngoleuni Gair Duw. *O's dywedwn fod i ni gymdeithas ag ef, a rhodio yn y tywyllwch; celwyddog ydym.* 1 Joan i. 6.

Cw. Beth yw Dyled y Saint i'w gilydd, oddi wrth Gymmun y Saint?

Att. 1. Hwy a ddylent gydyſtyriaid bawb eu gilydd, i'w hannog i Gariad a Gweithredoedd da. *Heb.* x. 24, 25.

2. Fe ddylai Cydaelodau'r Cymmun hwn gyd-deimlo â'u gilydd. *Pa un bynnag a'i dioddef a wna un aelod, y mae'r holl aelodau yn cyd-ddioddef; ai anrhydeddu a wneir un aelod, y mae'r holl aelodau yn cydlawenhâu.* 1 Cor. xii. 26.

2. Hwy a ddylent weddïo dros eu gilydd, a chynhorthwyo naill y llall. *Gwnawn dda i bawb, ond yn enwëdig i'r rhai ſy o deulu'r ffydd.* Gal. vi. 10.

4. Hwy a ddylent fod yn gyttûn â'u gilydd. *Wedi eu cyſangyſylldu yn yr un meddwl, ac yn yr un farn.* 1 Cor. i. 10.

5. Fe ddylai pawb o honunt lafurio am wir Sancteiddrwydd; heb yr hyn, ni's dichon neb gael Cymmundeb â Duw. *Canys hyn yw gorchymmyn Duw. Byddwch ſanctaidd; canys ſanctaidd ydwyf fi.* 1 Pedr i. 16.

6. Fe ddylai dynion di-râs yſtyriaid, mor echrydus yw iddunt hwy, yn eu hyſgafnder, gellwair a gwawdio *Sancteiddrwydd*; heb ba un, ni's gallant byth gael Cymmundeb â Duw, ac â Chriſt, a'i Bobl; na bod yn gadwëdig. Priodoledd anwylaf Duw, a'i Ddelw, a Gwaith yr Yſpryd Glân y maent hwy yn watwor.

Cw. Beth yw'r degfed Pwngc o'r *Gredo*?

Att. Maddeuant Pechodau.

Cw. Beth a yſtyrïwch yn y Pwngc hwn?

Att. Dau beth; ſef Pechod, a'r Maddeuant o hono.

Cw. Beth yw Pechod?

Att. Anghyfraith yw pechod; ſef, pob peth ag ſydd yn anghyttun â Chyfraith Dduw. 1 *Joan* iii. 4.

Cw. Pa ſawl math o Bechod ſydd?

Att. Dau. 1. Pechod Gwreiddiol; ag ſydd yn dyfod ynom ni i'r byd oddi wrth ein Rhieni. *Job* xiv. 4.

2. Pechod Gweithredol; o'n gwneuthuriad ein hunain *Preg.* vii. 10.

Cw. Pa ſawl Rhan ſydd mewn Pechod Gwreiddiol?

Att. Tair Rhan. 1. Diffyg o'r Cyfiawnder Gwreiddiol ag oedd yn *Adda*, tra y parhaodd efe yn ei Berffeithrwydd cyn pechu. *Rhuf.* iii. 10.

2. Llygredigaeth pechadurus holl natur dyn. *Gen.* vi. 5, 6 *Rhuf.* vii. 23.

3. Daroſtyngiad holl ddynolryw i'r Trueni a ddygodd Pechod arnom; ſef, Trallod, Angau, a Barn. *Sal.* lxxxix. 48. *Heb.* ix. 27.

Cw. Pa fath yw Pechod Gweithredol?

Att. Dau fath. Pechod o Ommeddiad; a'r Pechod Wneuthuriad.

Cw. Beth yw'r Pechod o Ommeddiad?

Att. Eſgeuluſo gwneuthur, neu gam wneuthur, y peth ma

Duw yn orchymmyn; a chydſynio â Phechodau rhai eraill, a ddylem ni gasâu, a cheryddu. 1 *Tim.* v. 22.

Cw. Beth a feddyliwch am Bechodau o Ommeddiad?

Att. 1. Fod Pechodau o Ommeddiad yn arwain i Bechodau o Wneuthuriad. Pan na fwyttaodd ein Rhieni cyntaf o Bren y Bywyd, hwy a demtiwyd yn ebrwydd i fwytta'r ffrwyth gwaharddedig. Eſgeuluſo Addoliad Duw, ſy'n tywys i'r Pechodau mwyaf. *Heb.* x. 25—27.

2. Fod Pechodau o Ommeddiad yn dangos dyn yn wag o Ffydd a Gras Duw, pa broffes bynnag y ſo ganddo. *Jago* ii. 14—26.

3. Fod Pechodau o Ommeddiad yn dwyn Damnedigaeth a chrydus. Am na wnaethai'r gwas anfuddiol yn *dda* â'i dalent, y bwriwyd ef i'r tywyllwch eithaf, i wylofain a hingcian dannedd.—Am na wnaethai'r annuwiol drugaredd ar mwyn Criſt i'r tlawd, y mae Criſt yn eu danſon hwy ymaith gyd â melldith i'r tân tragywyddol, a barottôwyd i'r diafol a'i angylion. *Mat.* xxv. 30, 41—46.

Cw. Beth yw Pechod Gweithredol?

Att. Gwneuthur o honom, mewn meddwl, gair, neu weithred, y peth mae Duw yn ei wahardd. *Mat.* v. 22, 28. *Joan* iii. 15.

Cw. Beth a yſtyriwch am Bechod ychwaneg?

Att. Dau beth. 1. Amldra ein Pechodau ni: y maent yn aneirif. *Amlach ydynt nâ gwallt fy mhen.* Sal. xl. 12.

2. Y Drwg o Bechod; ag a leinw Bechaduriaid anedifeiriol, yn y diwedd, o ddychryn ac anobaith. Megis y llywedodd *Cain*; *Mwy yw fy mhechod nag y gellir ei faddeu.* Gen. iv. 13.

Cw. Pa ffordd yr ymddengys Drwg Pechod?

Att. 1. Fe ymddengys Drwg Pechod, yn yr awdwr o hono; ſef, yr yſpryd drwg. *Yr hwn ſy'n gwneuthur pechod, o'r ddiafol y mae.* 1 Joan iii. 8.

2. Yn ei wrthwynebiad i'r Daioni Pennaf; am ei fod yn erbyn Duw ei hun. *Gweithredoedd pechaduriaid ſydd yn erbyn yr Arglwydd, i gyffrôi llygaid ei ogoniant ef.* Eſay xxxix. ii. 8.

3. Yn Nioddefaint Criſt dros Bechod; gan nad oedd dim rhyfawn arall yn ddigon am y Drwg o hono. 1 *Pedr* i. 18, 19.

4. Yng Nghoſpedigaeth dragywyddol Pechaduriaid collfeddig yn Uffern.

5. Yn yr Effaith ddrwg o hono, yn drygu'n cyflyrau ni mewn modd druenus. *Diar.* viii. 36.

Cw. Pa ffordd y mae Pechod yn eich drygu?

Att. Trwy'r Llygredd a'r Coſp o hono.

Cw. Pa lun y mae Llygredd Pechod yn eich drygu?

Att. Mae'n dallu'r dyall; yn caledu'r galon; yn troi ëwyllys dyn yn erbyn Duw; yn llenwï'r meddwl o ddychymmygion ofer yn ddiorphwys; yn ſerio cydwybod rhai, ac yn ein twyllo beunydd i fagl y diafol.

Cw. Pa Goſp a ddug Pechod arnoch?

Att. 1. Yſgar rhyngom a Duw, a throi Trugareddau Duw oddi wrthym. *Jer.* v. 25.

2. Cyffrôi Duw, nid yn unig i droi oddi wrthym; eithr hefyd i droi yn ein herbyn. *Sal.* xxxiv. 16.

3. Cyffrôi dynion i ymryſon ac ymrafael â'u gilydd. *Jago* iv. 1.

4. Peri llawer o ymrafael gofidus yn yſpryd dyn ei hun. *Gal.* v. 17.

5. Tynnu melldith ar y cwbl a feddom. *Deut.* xxviii. 18, 19.

6. Cyſtuddiau corph ac enaid yn y bywyd hwn, a marwolaeth yn y dïwedd. *Sal.* cvii. 17. *Rhuf.* vi. 23.

7. Coſp dragywyddol yn y byd a ddaw, na dderfydd byth. 2 *Theſ.* i. 9.

Cw. Beth yw Maddeuant Pechod?

Att. Cyflawn Ryddhâd oddi wrth holl Goſp Pechod; ſef y byddom ddedwydd drachefn. *Rhuf.* iv. 7.

Cw. Pwy ſy'n maddeu Pechodau?

Att. Duw yn unig, o Olud ei Ras, ſy'n maddeu Pechod trwy Jeſu Griſt. *Marc* ii. 7. *Eph.* i. 7.

Cw. Ymha lun y mae Gras Duw yn ein dwyn i gael Maddeuant?

Att. 1. Trwy weithio ynnom i gredu yng Nghriſt Jeſu ein Harglwydd. *Act.* x. 43.

2. Trwy weithio ynnom Dröedigaeth edifeiriol oddi wrth Bechod at Dduw. *Act.* iii. 19.

3. Trwy weithio ynnom Ufudd-dod newydd i Efengyl Griſt. *Heb.* v. 9.

Cw. Pa fath Faddeuant a rydd Duw i ni?

Att. 1. Maddeuant a goſtiodd werthfawr Waed Criſt, ac a roddir yn rhad i ni. *Hoſ.* xiv. 4.

2. Maddeuant helaeth i'r Pechaduriaid mwyaf, ag a ddêl at yr Arglwydd Jeſu. *Eſay* i. 18.

3. Maddeuant llwyr; na bo i Bechod gael ei gofio, na'i gyfrif

gyfrif, na'i ddannod iddunt mwy. *Heb.* viii. 12. *Sal.* xxxii. 1, 2.

4. Maddeuant a ddug drachefn gyd ag ef yr holl Freintiau a gollaſom; ſef, Bywyd tragywyddol, a phob peth a berthyn iddo. *Act.* xxvi. 18.

5. Maddeuant a rydd Gyſur digonol ymhob cyflwr *adſydig* a drefno Duw i ni. *Mat.* ix. 2. *Eſay* xl. 1, 2.

Cw. Pa Sicrwydd ſydd gennych am Faddeuant, o's tröwch at Dduw?

Att. 1. Natur raſol Duw. *Canys Duw trugarog yw eſe, a graſlawn; hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd: yr hwn ſydd yn cadw trugaredd i filoedd; gan faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod.* Ecſod. xxxiv. 6, 7.

2. Ffyddlondeb Duw, a'i Gyfiawnder. *O's cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw eſe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder.* 1 Joan i. 9.

3. Cyfammod Duw. *Canys eſe a ddywaid, Dymma'r cyfammod a wnaf â hwynt; Mi a faddeuaf eu hanwireddau, a'u pechod ni chofiaf mwyach.* Jer. xxxi. 33, 34.

4. Eſamplau Pechaduriaid mawrion gynt; y rhai y maddeuwyd iddunt y cwbl, er annogaeth i eraill gredu yng Nghriſt rhag llaw. 1 *Tim.* i. 15, 16.

5. Y mae'r Arglwydd yn ein galw i gael Maddeuant. *Cyfod; cymmer galon: y mae eſe yn dy alw di.* Marc x. 49. Eſay i. 18.

6. Mae'r Arglwydd yn dangos ei Barodrwydd i faddeu, trwy orchymmyn i ni mor gaeth i faddeu i'w gilydd, *hyd ddengwaith a thrugain ſeithwaith* yn y dydd. *Mat.* xviii. 21, 22. vi. 14, 15.

7. Mae Criſt yn ſelio i ni Faddeuant yn ei Waed ei hun; yr hwn a dywalltwyd er Maddeuant Pechodau, ac a arwyddocêir yn Swpper yr Arglwydd. *Mat.* xxvi. 27, 28.

Cw. Pa'm y goſodir y Pwngc hwn yn y *Gredo*, ſef, *Maddeuant Pechodau*, yn neſaf ar ol yr *Eglwys Lân Gatholig*, a *Chymmun y Saint*?

Att. O herwydd mai i'r Seintiau, ac Aelodau'r Eglwys, y mae'r Maddeuant hwn yn perthyn. *Gwêl Sïon, dinas ein cyfarfod.—Maddeuir anwiredd y bobl a drigant ynddi.* Eſay xxxiii. 20, 24.

Cw. Pa Ddefnydd a wnewch o'r Pwngc hwn, *Maddeuant Pechodau*?

Att. 1. Mi a ddylwn o'm calon ymwrthod â Phechod, o herwydd y Drwg o hono. *Pa fodd y gallaf wneuthur y mawrddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw?* Gen. xxxix. 9.

2. Mi a ddylwn leſain yn ddeffrôus am Ymwared oddi wrth Bechod. *Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?* Act. ii. 37.

3. Mi a ddylwn glodfori Duw, am ei Drugaredd yng Nghriſt Jeſu, yn treſnu Maddeuant i ni. *Sal.* ciii. 1.

4. Mi a ddylwn yſtyriaid, p'un a ydyw'r Maddeuant hwn yn perthyn i mi; p'un a ydwyf yn wir Aelod o Eglwys Dduw, ac yn perthyn i Gymmun y Saint: rhag i mi dwyllo ſy hun. *Gal.* vi. 3, 4.

5. Mi a ddylwn ddiolch i Dduw, na ddarſu am danaſi cyn cael Maddeuant. *Galar.* iii. 22.

6. Fe ddylai holl Bobl Dduw ymgyſuro yn y Maddeuant hwn. *Canys efe ei hun a ddywaid, Cyſurwch fy mhobl; o herwydd dilëu eu hanwiredd.* Eſay xl. 1, 2.

Cw. Beth yw'r unfed Pwngc ar ddeg o'r *Gredo*?

Att. Cyſodiad y cnawd. Sef, Adgyfodiad y Meirw.

Cw. Pa ſawl math o Adgyfodiad ſydd?

Att. Dau fath. 1. Adgyfodiad Yſprydol, y rhai a fyw hêir o Bechod i Sancteiddrwydd. *Eph.* ii. 1. *Col.* iii. 1.

2. Adgyfodiad Corphorol; ſef, i Gyrph y Meirw gael eu cyfodi i fyw drachefn. *Joan* v. 28, 29.

Cw. Pa raid ſydd i'r Corph farw, o's cyfodir ef drachefn?

Att. Mae'n rhaid i'r Corph farw, 1. I ddangos Drwg Pechod. *Rhuf.* v. 12. *Jago* i. 15.

2. I ddangos Gallu Criſt yn ein Hadgyfodiad ni. 1 *Cor.* xv. 22.

3. I wneuthur pen o Lygredigaeth y Corph. *Y lleſtr pridd a halogid dan y gyfraith, a dorrid; a theiau'r gwa hanglwyf a dynnid i lawr, i'w taflu i le aflan.* Lef. xi. 33. xiv. 44, 45.

4. Goſodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hynny bod Barn. Sef, I Enaid dŷn gael Barn y pryd hwnnw. *Heb* ix. 27.

Cw. Pa'm mae'n rhaid adgyfodi ar ol Barn wrth farw?

Att. I'r Corph a'r Enaid gael eu barnu ynghŷd. *Am bob peth a wnaeth dŷn yn y cnawd, pa un bynnag fydd ai da, ai drwg.* 2 Cor. v. 10.

Cw. Pa fodd mae'n boſibl i'r Meirw gyfodi?

Att. 1. Gyd â dynion ammhoſibl yw hyn; ond gyd â Duw pob peth ſydd boſibl. *Mat.* xix. 26.

2. Ni

2. Nid yw yn anhawſach i Dduw gyfodi'r Meirw, nag oedd iddo grëu pob peth o ddim. *Jer.* xxxii. 17.

3. Ni a welwn gyffelybiaeth o'r Adgyfodiad beunydd. *Onid yw'r haul yn cyfodi bob bore? a ninnau'n cyfodi o'n cwſg, cyſgod angau? a llyſiau'r ddaear, a'i ffrwythau, yn cyfodi yn yr haf o'u beddau?* 1 Cor. xv. 36. Joan xii. 24.

Cw. Pa Dyſtiolaeth ſy gennych am Adgyfodiad y Meirw?

Att. 1. Amryw 'Sgrythurau, yn yr Hen Deſtament, a'r Newydd. *Sal.* xlix. 15. *Job* xix. 25—27. *Eſay* xxvi. 19. *Ezec.* xxxvii. 1—10. *Dan.* xii. 2. *Joan* v. 28, 29. *Mat.* xxii. 31. *Act.* xxiii. 6. 1 *Cor.* xv. 1 *Theſ.* iv. 14.

2. Mae yn yr Hen Deſtament, a'r Newydd, amryw Eſamplau o rai a gyfodwyd o Feirw eiſoes.

Cw. Pa Eſamplau o Adgyfodiad y Meirw ſy gennych yn yr Hen Deſtament?

Att. 1. *Enoc* ac *Elïas* a gymmerwyd i'r Neſoedd yn eu Cyrph; i ddangos mai felly yr â'r Duwiolion eraill yno, ar ol eu cyfodi o Feirw. *Gen.* v. 2 *Bren.* ii.

2. Mab y Weddw o *Sarepta*, a Mab y *Sunamites*, a'r Gwr marw a fwriwyd i Fedd *Eliſëus*, a gyfodwyd o Feirw. 1 *Bren.* xvii. 2 *Bren.* iv.

Cw. Pa Eſamplau o'r Adgyfodiad ſydd yn y Teſtament Newydd?

Att. Mab y Wraig o *Nain*, Merch *Jairus*, *Lazarus*, *Tabitha*, a Chriſt ei hun yn bennaf; a chyd ag ef y cyfododdd llawer eraill, ac a ymddangoſaſant i lawer. *Mat.* xxvii. 52, 53.

Cw. Pwy a gyfyd y Meirw i Fywyd?

Att. Duw, yr hwn a gyfododd yr Arglwydd Jeſu, a'n cyfyd ninnau trwyddo ef. 2 *Cor.* iv. 14.

Cw. Ymha Gyrph y cyfodir y Meirw?

Att. 1. Hwy a gyfodir i gŷd yn eu Cyrph eu hunain ag oedd ganddunt ymma yn y byd. *Canys bydd i bob hedyn ei gorph ei hun.* 1 Cor. xv. 38.

2. Yn yr un Cyrph ag oedd y Seintiau yn gwaſanaethu Duw, y cânt eu gwobrwyo; ac yn yr un Corph ag y mae'r Annuwiol yn pechu, y mae cyfiawn iddunt gael eu coſpi. *Ni wyra'r Hollalluog farn.* Job viii. 3.

3. Yr un Corph oedd gan Griſt ei hun, a *Lazarus*, ac eraill, ar ol eu cyfodi, ag oedd ganddunt o'r blaen. *Luc* xxiv. 39. *Joan* xx.

Cw. Pa bryd y bydd Adgyfodiad y Meirw?

Att. Yn nïwedd ŷ byd hwn, pan ddêl Criſt i'r Farn. *Dat.* xx. 11—14.

Cw. Pwy a gyfodir o Feirw?

Att. Pawb oll. *Y cyfiawn, a'r anghyfiawn hefyd.* Act. xxiv. 15.

Cw. Beth fydd i'r rhai byw, pan ddêl Criſt i'r Farn?

Att. Hwy a newidir oll mewn moment, wrth yr udgorn diweddaf. 1 Cor. xv. 51.

Cw. Pa wahaniaeth fydd rhwng y Cyfiawn a'r Anghyfiawn yn yr Adgyfodiad?

Att. 1. Y Cyfiawn a gyfodant yn gyntaf; a'r Anghyfiawn yn olaf. 1 *Theſ.* iv. 16.

2. Y Cyfiawn a gyfodant yn gwbl-lân oddi wrth eu pechodau; ond pechod yr Annuwiol a fydd ar eu heſgyrn hwy. *Ezec.* xxxii. 27.

3. Cyfarfod gorfoleddus a fydd rhwng Cyrph ac Eneidiau'r Cyfiawn. Canys, *Dydd prynedigaeth eu cyrph, y gelwir y dydd hwnnw.* Ond nid felly y bydd i'r Anghyfiawn. *Rhuf.* viii. 23.

4. Y Cyfiawn a gyfodir i Ogoniant a Bywyd tragywyddol; a'r Anghyfiawn i Warth a Dirmyg tragywyddol. *Dan.* xii. 2.

5. Y Cyfiawn a gippir i fynu, *i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr, ac i fod gyd ag ef byth.* Ond yr Anghyfiawn a adewïr ym meddiant y Diafol, i fyned gyd ag ef i'r Tân anniffoddadwy. 1 *Theſ.* iv. 17. *Mat.* xxiv. 31.

Cw. Pa fath Gorph fydd i'r Seintiau yn yr Adgyfodiad?

Att. 1. Corph cannaid a diſglair. Canys, *Yna y lleſwyrcha y rhai cyfiawn fel yr haul, yn nheyrnas eu Tad.* Mat. xiii. 43.

2. Corph cwbl-berffaith, heb anaf, na dim anharddwch, cyffelyb i Gorph Criſt. *Yr hwn a gyfnewidïa ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf â'i gorph gogoneddus ef.* Phil. iii. 21. Eſay xxvi. 19.

3. Corph pur oddi wrth lygredigaeth, a fydd i'r Seintiau. Canys, *Hwy a gyfodir mewn anllygredigaeth.* 1 Cor. xv. 42.

4. Y Corph nychlyd preſennol, a wneir yn Gorph jachus, heb glefyd na marw byth. Canys, *Rhaid i'r marwöl hwn wiſgo anfarwöldeb.* 1 Cor. xv. 53.

5. Y Corph fudr, aflan, a difrî, pan gleddir allan o'r olwg, a fydd Gorph gogoneddus yn yr Adgyfodiad. *Efe a heuir mewn ammharch, ac a gyfodir mewn gogoniant.* 1 Cor. xv. 43.

6. Y

6. Y Corph gwannaidd, parod i leſgâu ar bob achos, a fydd gryf i gydweithredu â'r Enaid, heb flino byth. *Efe a heuir mewn gwendid, ac a gyfodir mewn nerth.* 1 Cor. xv. 43.

7. Y Corph trwmmaidd anianol, ag ſydd raid ei feithrin a'i ſwcro ymma, a fydd yn yr Adgyfodiad mor ſywiog, ac o'r un fywioliaeth, ag Yſprydion. *Efe a heuir yn gorph anianol, ac a gyfodir yn gorph yſprydol.* 1 Cor. xv. 43. Mat. xxii. 30.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth Adgyfodiad y Meirw?

Att. 1. Mi a ddylwn ddiolch am hanes o'r Adgyfodiad, trwy Griſt Jeſu. *Yr hwn a ddug fywyd ac anfarwöldeb i oleuni trwy'r efengyl.* 2 Tim. i. 10.

2. Mi a ddylwn lafurio am Adgyfodiad yſprydol oddi wrth bechod i Sancteiddrwydd. *Gwynfydedig a ſanctaidd yw'r hwn ſydd â rhan iddo yn yr adgyfodiad cyntaf.* Dat. xx. 6.

3. Mi a ddylwn gadw Cydwybod ddirwyſtr tu ag at Dduw a dynion, yn waſtadol. *O blegid y bydd adgyfodiad i'r cyfjawnion, a'r anghyfiawnion hefyd.* Act. xxiv. 16. Joan v. 29.

4. Fe ddylai pawb fod yn haelionus i'r Tlodion. *O blegid fe a dêlir iddunt* (medd yr Arglwydd) *yn adgyfodiad y rhai cyfiawn.* Luc xiv. 14.

5. Ni ddylid triſtâu yn anghymmedrol, pan fyddo'n Cyfeillion anwyl yn marw: canys ni a gawn gyfarfod â hwynt dracheſn yn yr Adgyfodiad. *Y rhai a hunaſant yn yr Jeſu, a ddwg Duw hefyd gyd ag ef. Diddenwch eu gilydd â'r ymadroddion hyn.* 1 Theſ. iv. 14, 18.

6. Mi a ddylwn ddïodde'n ufudd er mwyn Criſt. *Fel y rhai gynt a ddirdynnwyd, heb dderbyn ymwared; fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.* Heb. xi. 35.

Cw. Beth yw'r Pwngc olaf o'r *Gredo*?

Att. Bywyd tragywyddol. Amen.

Cw. Beth yr ydych yn gredu am Fywyd tragywyddol?

Att. Y bydd holl ddynolryw fyw yn dragywydd, ar ol eu cyfodi o feirw.

Cw. Ymha le y byddant hwy fyw yn dragywyddol?

Att. Yr anghyfiawn a ânt i goſpedigaeth dragywyddol: a'r cyfiawn i fywyd tragywyddol. Mat. xxv. 46.

Cw. Pa fath Fywyd tragywyddol a fydd i'r Cyfiawn?

Att. 1. *Duw a ſych ymmaith bob deigr oddi wrth eu llygaid*

llygaid hwynt; a marwölaeth ni bydd mwyach, na thriſtwch, na llefain, na phoen. Dat. xxi. 4.

2. Eu holl ammherffeithrwydd a dynnir ymmaith, a'u natur a berffeithir yn gwbl. *Canys, pan ddelo yr hyn ſydd berffaith; yna yr hyn ſydd o ran, a ddilêir.* 1 Cor. xiii. 10.

3. Fe eſyd Criſt arnunt Anrhydedd mawr yngŵydd yr holl fyd. *Canys efe a ddaw i'w ogoneddu yn ei ſaint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll ſydd yn credu.* 2 Theſ. i. 10.

4. Hwy a gânt Gymdeithas gyflawn â'r holl Nefoedd, a'r Seintiau, a'r Angylion; ac â Duw ei hun, a'i Fab yr Arglwydd Jeſu; ac i fod gyd ag ef yn waſtadol. *Dat.* xxi. 3. *Heb.* xii. 22—24. 1 *Theſ.* iv. 17.

5. Fe ſydd eu Gwynfyd yn fawr. Canys, *Ni welodd llygad, ac ni chlywödd cluſt, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef.* 1 Cor. ii. 9.

Cw. Ymha ffordd yr ymddengys fod Gwynfyd y Seintiau yn fawr yn y Nefoedd?

Att. 1. O blegid mai'r Duw mawr yw'r Awdwr o hono. *Y mae iddunt ddinas ag iddi ſylfaeni, Saer ac Adeiladydd yr hon yw Duw.* Heb. xi. 10.

2. O blegid y Pris mawr a goſtiodd. Sef, *Nid aur ac arian, na phethau llygredig; eithr gwerthfawr waed Criſt.* 1 Pedr i. 18, 19.

3. O blegid cymmaint y mae'r Seintiau yn brofi weithiau o Lawenydd y Nefoedd yn y byd hwn. Y Salmydd a ddywaid, *Rhoddaiſt lawenydd yn ſy nghalon, mwy nâ'r amſer yr amlhaodd eu hŷd a'u gwin hwynt. — Megis â mêr ac â braſder y digonaiſt ſy enaid.* Sal. iv. 7. lxiii. 5.

4. O blegid y Pethau mawr ag ſydd ar eu medr. Sef, *Teyrnas Nefoedd, Coron Cyfiawnder, Trigfannau gogoneddus, ac Etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflannedig, ſydd ynghadw iddunt.* 1 Pedr i. 3, 4.

5. O blegid Naturiaeth briodol y Gwynfyd hwn.

Cw. Beth yw Natur y Gwynfyd hwnnw?

Att. 1. Mae Gwynfyd y Seintiau, yn y Bywyd tragywyddol, yn gwbl-gyflawn, heb ddim yn ddiffyg ynddo. *Digonolrwydd llawenydd ſydd ger dy fron. — Hwynthwy oll a gyflawnir â holl gyflawnder Duw.* Sal. xvi. 11. Eph. iii. 19.

2. Mae Gwynfyd y Seintiau yn briodol addas i bob un o honunt. Canys, *Pob un a dderbyn ei briod wobr ei hun, yn ol ei lafur ei hun.* 1 Cor. iii. 8. Dat. xxii. 12.

3. Mae

3. Mae eu Gwynfyd yn ddigymmyſg, yn ddifeſur, yn ddiddïwedd, ac yn ddiberygl o'i golli byth. *Joan* xvi. 22.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth Fywyd tragywyddol y Seintiau?

Att. 1. Mi a ddylwn garu Duw; *am ddanfon o hono ei uniganedig Fab i'r byd, fel y byddem ni fyw trwyddo ef.* Joan iv. 9.

2. Mi a ddylwn geiſio Rhan ym Mab Duw, uwchlaw pob peth. Canys, *Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo: a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd.* 1 Joan v. 12.

3. Mi a ddylwn, wrth yſtyriaid gymmaint yw Gwynfyd y Bywyd tragywyddol, ymrôi yn awyddus i bob Daioni ag Ilwyf. *Yn gwneuthur daioni na ddïogwn: canys yn ei hawn bryd y medwn, oni ddiffygiwn.* Gal. vi. 9.

Cw. Beth a fydd i'r Anghyfiawn ar ol yr Adgyfodiad?

Att. 1. Hwynthwy a geuir allan o Deyrnas Nefoedd. *Yno bydd wylofain a rhingcian dannedd, pan weloch Abraham, ac Iſaac, a Jacob, a'r holl brophwydi, yn nheyrnas Dduw; a chwithau wedi eich bwrw allan.* Luc xiii. 28.

2. Criſt *a ddywaid wrth y rhai a fyddant ar y llaw ſwy, Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragyyddol, yr hwn a barottôwyd i ddiafol a'i angylion.* Mat. xv. 41.

3. Coſpedigaeth yr Anghyfiawn, o hynny allan, a fydd n fawr ac yn echrydus jawn.

Cw. Pa lun y bydd Coſp yr Anghyfiawn yn fawr?

Att. 1. Mae Coſp yr Anghyfiawn yn echrydus jawn eithiau yn y byd hwn. *Yr hen fyd a foddwyd â dwfr; odom a Gomorra a loſgwyd â thân; y ddaear a agorodd ei fn, ac a lyngcodd Cora a Dathan, a'u holl ddynion hwy, fyw i uffern.* Gen. vii. 19. Num. xvi.

2. Mae eu Coſp yn echrydus. Canys, *Ar yr annuwiolion glawia efe faglau, tân a brwmſtan, a phoethwynt yſtorm: dymma ran eu phiol hwynt.* Sal. xi. 6.

3. Mae Coſp yr Anghyfiawn yn echrydus. *O blegid y bwymir hwy draed a dwylaw, a hwy a fwrir i'r tywyllch eithaf: ac yno y bydd eu llef yn wylofus jawn.* Mat. xii. 13.

4. Mae eu Coſp yn llym angerddol, trwy bob rhan o honnt, heb fymryn o Gyſur na Gobaith am ben eu Poen. Canys, *Hwy a yſant o win digofaint Duw, yr hwn yn ddi-*

gymmyſg

gymmyſg a dywalldwyd yn phiol ei lid ef. Dat. xiv. 10

5. Mae eu Coſp hwy yn ddiorphwys, yn ddigŵyn, ac y ddiddïwedd, byth. *Mŵg eu poenedigaeth hwy ſydd y myned i fynu yn oes oeſoedd: ac nid ydynt hwy yn cae gorphwyſdra ddydd na nos.* Dat. xiv. 11. Mat. xxv. 46 Marc ix. 48.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth Goſp yr Anghyfiawn

Att. 1. Ni ddylai neb gynfigennu wrth Lwyddiant y Anghyfiawn yn y byd hwn. *Canys, y troſeddwyr a gyd-ddi ſtrywïr: dïwedd yr annuwiolion a dorrir ymmaith.* Sal xxxvii. 38.

2. Fe ddylai'r Annuwiol weled eu Perygl. *Canys, o byw yr ydych yn ol y cnawd, meirw fyddwch.* Rhuf viii. 13.

3. Mi a ddylwn garu Duw. *Am roddi ei uniganedig Fab fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael c bono fywyd tragywyddol.* Joan iii. 16.

4. Mi a ddylwn ofni Duw; nid y rhai a ddrygant ei cyrph. *Eithr ofnwch yr hwn a ddichon ddiſtrywïo enaid chorph yn uffern.* Mat. x. 28.

5. Dyled pawb yw, clodfori Duw. *Canys, nid appwynt iodd Duw ni i ddigofaint, ond i gaffael jechydwriaeth trwy'r Arglwydd Jeſu Griſt.* 1 Theſ. v. 9.

Cw. Beth yw yſtyr *Amen*, yn nïwedd y *Gredo*?

Att. Yſtyr *Amen*, yn nïwedd y *Gredo*, yw, *Felly y cred af:* ac felly dylem ni gredu, a dywedud *Amen* o'n calon nau yn gywir, o's mynnwn fod yn gadwëdig. *Canys â' galon y credir i gyfiawnder, ac â'r genau y cyffeſir i jech ydwriaeth.* Rhuf. x. 10.

Dïwedd yr Ail Ran.

ESPONIAD
BYR O'R
DEG GORCHYMMYN.

Y DRYDEDD RAN.

Cweſtiwn.

BETH yw Rheol eich Hufudd-dod chwi i Dduw?

Atteb. Cyfraith Dduw; a gynhwyſir, yn fyr, yn y *Deg Gorchymmyn.*

Cw. Pa'm y dylech ufuddhâu i Gyfraith Dduw?

Att. 1. Am mai 'r Arglwydd yw ein Barnwr, yr Arglwydd yw ein Deddfwr, yr Arglwydd yw ein Brenhin, efe a'n ceidw. *Eſay* xxxiii. 22.

2. Am fod Digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufuddod. *Eph.* v. 6.

3. O herwydd y Lles a fydd i'r rhai a ufuddhânt. *Jer.* vii. 23.

Cw. Pa Les a fydd i'r rhai a ufuddhânt?

Att. 1. Hwy a fyddant Dryſor priodol i Dduw, o flaen yr holl bobloedd. *Ecſod.* xix. 5.

2. Mae Duw yn eu bendithio hwy, a'u holl feddiant. *Deut.* xxviii. 2, 6.

3. Mae Duw yn gwrando eu Gweddïau. 1 *Joan* iii. 22. *Diar.* xxviii. 9.

4. Maent hwy yn anwyl i Griſt, a thrwyddo ef yn gadwedig. *Mat.* xii. 50. *Dat.* xxii. 14.

Cw. A ellwch ufuddhâu yn berffaith i Gyfraith Dduw?

Att. 1. Nid allaf ufuddhâu yn berffaith, yn ol gofyniad y Cyfammod Gweithredoedd. *Canys mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro.* Jago iii. 2.

2. Nid

2. Nid Ufudd-dod perffaith, yn ol gofyniad y Cyfammod Gweithredoedd, eithr Ufudd-dod Ffydd, yw gofyniad y Cyfammod Gras; ſef, Ufudd-dod yn tarddu oddi wrth Ffydd, a thrwy Ffydd yn gymmeradwy, er ei ſod yn ammherffaith. *Rhuf.* i. 5. xvi. 26.

Cw. Pa ffordd y rhoddwyd Cyfraith Dduw i ni?

Att. 1. Fe 'ſgrifenodd Duw ei Gyfraith ar y cyntaf yng halon dyn, cyn pechu o hono. *Rhuf.* ii. 14, 15.

2. Fe 'ſgrifenodd Duw ei Gyfraith ar ol hynny ar lechau o gerrig, ac a'i rhoddodd trwy law *Moſes* i'r *Juddewön*. Ecſod. xx.

3. Fe 'ſgrifenwyd y Gyfraith ar ol hynny, yn helaeth, trwy Yſpryd Duw yn y 'Sgrythurau. *Hoſ.* viii. 12.

Cw. Pa ſawl Cyfraith a roddodd Duw i'r *Juddewön*?

Att. Tair. 1. Y Gyfraith Foeſol; ſef, y Deg Gorchymmyn, yn Rheol o Ufudd-dod i bawb. *Deut.* v. 1. *Mat.* v. 27. *Rhuf.* iii. 31.

2. Y Gyfraith Farnedigaethol; yn Rheol o Farn wladol rhwng yr *Juddewön* a'u gilydd. *Leſ.* xxvi. 46.

3. Y Gyfraith Ddefodol; yn Rheol o Addoliad Duw yn yr Eglwys *Juddewïg*, hyd pan ddeuai Criſt, Sylwedd yr holl Gyſgodau hynny. *Col.* ii. 14.

Cw. Pa bryd y rhoddwyd y Gyfraith i bobl *Iſräel*?

Att. 1. Yn y trydydd mis, ar ol eu gwaredu o'r *Aipht*. Canys y mae Duw yn diſgwyl Ufudd-dod oddi wrth y rhai a waredir. *Ezra* ix. 13, 14.

2. Pan yr oedd Duw yn adnewyddu ei Gyfammod â hwynt, efe a roddodd Reol o Ufudd-dod iddunt. *Ecſod.* xix. 5—8.

Cw. Ymha le y rhoddwyd y Gyfraith i bobl *Iſräel*?

Att. Ar fynydd uchel, ſef ar ben mynydd *Sinai*; fel y byddai yn amlwg i bawb. *Ecſod.* xix. 20.

Cw. Ymha fodd y rhoddodd Duw y Gyfraith?

Att. 1. Fe orchymynnodd Duw i'r bobl ymſancteiddio. Canys pa fodd y nesâ y rhai halogedig at Dduw? *Ecſod.* xix. 9—11.

2. Fe orchymynnodd Duw fod ffin o amgylch y mynydd; ac na chyffyrddai neb ag ef, rhag cael eu llabyddio. Canys peryglus yw rhuthro dros derfynau'r Gyfraith. *Ecſod.* xix. 12, 13.

3. Fe gymmerodd Duw *Moſes* atto ei hun i'r mynydd; ac wedi iddo ymprydio ddeugain niwrnod a deugain nos, fe

roddodd

ddodd Duw y Gyfraith iddo, wedi ei 'ſgrifenu ar ddwy
ch gan Dduw ei hun. *Ecſod.* xxxiv.

4. Fe roddwyd y Gyfraith mewn modd dychrynadwy.
anys, *Yr oedd taranau, a mellt, a chwmmwl tew ar y*
ynydd, a llais udgorn yn gryf jawn; fel y dychrynodd yr
oll bobl. A'r holl ſynydd a grynodd, a'i fŵg fel mŵg
wrnais yn eſgyn i ſynu; am ddiſgyn o'r Arglwydd arno
l tân. Ecſod. xix. 16, 18.

Cw. Pa'm y rhoddwyd y Gyfraith yn y fath fodd dy-
rynadwy?

Att. 1. I'n dyſgu ni i *waſanaethu Duw wrth ei fodd,*
d â gwylder a pharchedig ofn. Canys ein Duw ni ſydd
n yſol. Heb. xii. 28, 29.

2. I'n dyſgu ni i barchu Cyfraith Dduw. Canys, *Efe a*
wrhâ ei gyfraith, ac a'i gwna yn anrhydeddus. Eſay
ii. 21.

3. I'n dyſgu i geiſio Criſt yn Gyfryngwr, *Megis y ceiſi-*
d yr Iſraëliaid Moſes i ſefyll rhyngthynt a Duw, pan
elſant y dychryniadau hyn. Ecſod. xx. 18, 19.

4. I ddangos mor ddychrynllyd fydd Dydd y Farn i droſ-
ddwyr y Gyfraith. *Pwy a ſaif o flaen ei lid ef! a phwy*
gyfyd ynghynddaredd ei ddigofaint ef! ei lid a dywelltir
l tân, a'r creigiau a fwrir i lawr ganddo. Nah. i. 6.

5. I ddyſgu pawb i wrando Gorchymynnion Duw gyd ag
ſwyd a pharch. Megis pe byddent yn clywaid Duw yn
lleſaru wrthunt â'i Enau ei hun, o ganol y tân ar ſynydd
inai. Deut. iv. 12.

Cw. Beth a yſtyrïwch yn flaenaf am y Gorchymynnion?

Att. 1. Awdwr y Gorchymynnion. Canys, *Genau'r Ar-*
lwydd a'u lleſarodd; a Bys Duw a'u 'ſgrifenodd. Ecſod.
xxi. 18. xxxii. 16.

2. Helaethrwydd y Gorchymynnion yn yr yſtyr o honunt.
Dy orchymynnion di ſydd dra ehang. Sal. cxix. 96.

Cw. Beth a yſtyrïwch am Natur y Gorchymynnion?

Att. 1. Maent yn rhwymo holl gynhyrfiadau'r enaid oddi
ewn; ac nid ein gweithredoedd oddi allan yn unig, fel cyf-
ith dynion. *Ni a wyddom fod y ddeddf yn yſprydol.*
Rhuf. vii. 14.

2. Maent yn gorchymmyn pob Dyledſwydd y fo'n wrthwy-
ebol i'r pechodau a waherddir ynddunt; ac yn gwahardd
ob pechod gwrthwynebol i'r dyledſwyddau a orchymynnir
nddunt.

3. Maent

3. Maent yn gorchymmyn *pob peth* a berthyn i'r Dyle ſwyddau a enwïr, ac yn gwahardd *pob peth* a berthyn i pechodau a enwïr, ynddunt.

4. Mae'r Gorchymynnion yn gydgyſylltedig â'u gilydd na's gellir torri un, heb dorri'r lleill i gyd. *Yr hwn a bai mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl.* Jago ii. 10

5. Fe lefarir y Gorchymynnion yn y Nifer Unigol; ddwyn ar gof i ni, eu hyſtyriaid fel pe faem yn clywai Duw yn eu llefaru wrth bob un o honom ar ei ben ei hun.

Cw. Beth yw Trefn y Gorchymynnion hyn?

Att. Mae'r rhan fwyaf o'r Gorchymynnion yn naccaol ſef, i wahardd pechodau.

Cw. Pa'm mae'r rhan fwyaf o'r Gorchymynnion yn nac caol?

Att. 1. O herwydd ein tueddrwydd ni i bechu.

2. O herwydd na fydd y Dyledſwyddau a orchymynnir y gymmeradwy, heb ochelyd y pechodau a waherddir.

Cw. Ymha Drefn y 'ſgrifenwyd hwy ar y cyntaf?

Att. Ar ddwy Lech. Sef, ein Dyled i Dduw ar y Llec gyntaf, yn y pedwar Gorchymmyn blaenaf; a'n Dyled Ddynion ar yr ail Lech, yn y chwech Gorchymmyn olaf.

Cw. Pa'm y goſodwyd ein Dyled i Dduw yn y Llec gyntaf?

Att. O blegid mai i Dduw yn flaenaf y mae'n ho Ufudd-dod yn ddyledus; ac mai o Ufudd-dod i Dduw dylem gyflawnu ein Dyled i Ddynion.

Cw. Ymha Drefn yr yſtyrïwch y Gorchymynnion?

Att. Mi ddylwn yſtyriaid, 1. Pa Bechodau a waherddi 2. Pa Ddyledſwyddau a orchymynnir ym mhob un o honun 3. Pa Eſamplau ſy'n yr Yſgrythur o Farn Duw ar Droſedd wyr y Gorchymynnion.

Cw. Pa nifer ſydd o honunt?

Att. Deg.

Cw. Pa rai ydynt?

Att. Y rhai hynny a lefarodd Duw yn yr ugeinfe bennod o *Ecſodus*; gan ddywedud, *Myfi yw'r Arglwyd dy Dduw, yr hwn a'th ddug di allan o wlad yr Aipht, dſy caethiwed.*

Cw. Ai Rhan o'r Gorchymynnion yw hyn?

Att. Nag ê; eithr Rhagymadrodd Dduw ei hun o flae y Gorchymynnion, ydyw.

Cw. Beth a yſtyriwch yn y Rhagymadrodd?

Att. Tri pheth. 1. Pwy a lefarodd y Gorchymynnion yn; ſef, mai'r Arglwydd a'u llefarodd yn yr ugeinfed bennod o *Ecſodus.*

2. Perthynas Duw i'w Bobl; ſef, ei fod ef yn Dduw iddynt. Canys efe a ddywaid, *Myfi yw'r Arglwydd dy Dduw.*

3. Y dylaſ Daioni Duw yn ein Gwaredigaethau, ein hymneuthur yn ufudd iddo. Canys y mae Duw, wrth roddi'r gyfraith i bobl *Iſräel*, yn dwyn ar gof iddunt, mai efe a'u hwaredodd hwynt allan o wlad yr *Aipht*, ac o dŷ y caethiwed.

Cw. Beth yw'r Gorchymmyn cyntaf?

Att. Na fydded it' dduwiau eraill ger fy mron i.

Cw. Am beth y mae'r Gorchymmyn cyntaf?

Att. Am y Gwrthddrych a ddylem addoli; ſef, Duw.

Cw. Pa ſawl Rhan ſydd yn y Gorchymmyn cyntaf?

Att. Dwy Ran. 1. Y Gorchymmyn ei hun; Na fyddo ennyf dduwiau eraill, ond Duw ei hun yn unig.

2. Yr Yſtyriaeth, i'm deffrôi i gadw'r Gorchymmyn; ſef, fy mod *ger bron Duw. Canys ffyrdd dyn ſydd yngolwg yr Arglwydd; ac y mae efe yn dal ar ei holl lwybrau ef.* Diar. v. 21.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn y Gorchymmyn cyntaf?

Att. 1. Byw yn ddi-Dduw; fel yr ynfydion a ddywedaſant yn eu calonnau, *Nid oes un Duw.* Sal. xiv. 1.

2. Arddel duw, neu dduwiau eraill, heb y Gwir Dduw. *Canys efe a ddywedodd, Ni chai gydnabod Duw ond myfi.* Hoſ. xiii. 4.

3. Gweddïo ar y Seintiau, neu'r Angylion. Canys, *Ang o'r nef a ddywedodd, Gwel na wnelych.* Dat. xxii. 8, 9.

4. Dal ar Ofer-goelion Paganaidd, ac ymofyn â Chonſurwyr, Swynwyr, a Brydwyr. *Onid â'u Duw yr ymofyn iddbl?* Eſay viii. 19. Lef. xix. 31. 2 Bren. i. 3. Hoſ. iv. 12.

5. Anghredu Rhagluniaeth Dduw, neu ymddiried mewn peth arall, yn lle ymddiried yn Nuw. *Jer.* xvii. 5. *Eſay* xxi. 1.

6. Dirmygu Addoliad Duw, neu arddel Duw yn rhagrithiol. *Tit.* i. 16.

7. Ceiſio'n canmoliaeth a'n gogoniant ein hunain, yn lle gogoniant Duw. Ag ſy'n cadw dyn rhag credu yng Nghriſt. *Ioan* v. 44.

8. Rhoddi

8. Rhoddi i eraill y cyfryw glod, ag ſy ddyledus i Ddu ei hun. *Sal.* cxlviii. 13. cxv. 1.

9. Tyngu i bethau nid ydynt dduwiau. Canys, felly mae llawer yn gwadu'r Gwir Dduw. *Deut.* vi. 13. *Jer.* v.

10. Byw mewn Anwybodaeth o Dduw. Fel pe na fydd un Duw i gael. *Eph.* ii. 12.

Cw. Pa Ddyledſwyddau a erchir yn y Gorchymmyn cyntaf?

Att. 1. Bod i ni geiſio'r Arglwydd yn Dduw i ni; ſef y Gwir Dduw yn unig. 1 *Cor.* viii. 6.

2. Bod gennym Wybodaeth am Dduw, a Ffydd ynth Ac onid ê, yr ŷm *heb obaith gennym, ac heb Dduw yn byd.* Eph. ii. 12.

3. Bod i ni wir-addoli Duw, a'i ogoneddu, fel yr uni wir Dduw. *Joan* iv. *Sal.* xxix. 2.

4. Bod i ni roddi ein hunain i Dduw, a'i gymmeryd yn Dduw i *ni*, hyd byth. *Jer.* l. 5.

5. Bod i ni ymoſtwng i Drefn Rhagluniaeth Dduw, ymddiried ynddo. 1 *Sam.* iii. 18.

6. Bod i ni ofni yr Arglwydd, a'i garu ef, a'i waſanaeth â'n holl galon, ac â'n holl enaid. *Deut.* x. 12.

7. Bod gennym Zêl dros Ogoniant Duw, gyd ag Edifeir wch am ein pechodau yn ei erbyn ef. *Dat.* iii. 19.

Cw. Pa Eſamplau ſydd yn y 'Sgrythur o Farn Duw Droſeddwyr y Gorchymmyn cyntaf?

Att. 1. *Pharao* a'i lu mawr a foddwyd yn y Môr Coch am wrthod Cyngor Duw, a'i ddirmygu. *Ecſod.* v. a xiv.

2. Chwe chan mil o 'r *Juddewön* a ddiſtrywïd yn yr a ialwch, am duchan yn erbyn Rhagluniaeth Dduw. *Num* xiv. *Sal.* lxxviii. 19—22.

3. *Saul*, brenhin *Iſräel*, a ymgynghorodd â Dewines; a diafol a'i temtiodd ef i ladd ei hun drannoeth. 1 *Cro* x. 13. 1 *Sam.* xxviii. a xxxi.

4. *Aſa* a fu farw o'i glefyd, am ymddiried yn y Meddy on, heb geiſio'r Arglwydd. 2 *Cron.* xvi.

5. Y brenhin *Nabucodonoſor* a yrrwyd allan o'i frenhi iaeth, i gyd-fyw ag anifeiliaid y maes dros ſaith mlyned a'r brenhin *Herod* a drengodd gan bryfed yn ei yſu; a eu gwag-ogoniant eu hunain, yn lle gogoneddu Duw. *Da* iv. *Act.* xii.

Cw. Beth yw'r ail Orchymmyn?

Att. Na wna it' ddelw gerfiedig, na llun dim a

ſydd yn y nefoedd uchod, nac a'r y ſydd yn y ddaear od, nac a'r ſydd yn y dwfr tan y ddaear. Nac ymymma iddunt, ac na waſanaetha hwynt: o blegid yfi yr Arglwydd dy Dduw wyf Dduw eiddigus; yn nwêled ag anwiredd y tadau ar y plant, hyd y dryedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm casânt; ac gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, a gadwänt fy Ngorchymynnion.

Cw. Am beth y mae'r ail Orchymmyn?

Att. Am y Modd y dylem addoli Duw; ſef, nid trwy delwau.

Cw. Pa ſawl Rhan ſydd yn yr ail Orchymmyn?

Att. Dwy Ran. 1. Y Gorchymmyn ei hun; Na wneln Ddelwau i'w haddoli.

2. Y Rheſymmau am ein Hufudd-dod iddo.

Cw. Pa Reſymmau ſydd yn yr ail Orchymmyn am ein ufudd-dod iddo?

Att. 1. Fod yr Arglwydd yn Dduw i ni. Am hynny na ylem ni addoli Delwau. *Na wna it' ddelw gerfiedig: o egid myfi yw'r Arglwydd dy Dduw.*

2. Eiddigedd Duw am ei Addoliad. Fe ddywaid, *Myfi yf Dduw eiddigus.* Am hynny ni oddef Duw i'w Bobl ddoli Eilunod, na Delwau. *Ecſod.* xxxiv. 14.

3. Coſp Delwäddolwyr, a'u Heppil ar eu hol. *Canys y ue Duw yn ymweled ag anwiredd y tadau ar y plant, d y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth.*

4. Fod Eilunaddolwyr yn casâu Duw; ac yn cyffrôi Duw casâu hwy, a'u heppil.

5. *Trugaredd Dduw i filoedd o'r rhai a'i carant ef, ac gadwänt ei Orchymynnion.* Ag y ddylai annog pawb i ru Duw, a chadw ei Orchymynnion ef.

Cw. A ddylai neb wneuthur Llun, neu Ddelw?

Att. 1. Ni ddylai neb wneuthur Llun na Delw o Dduw. *rwy y cyffelybwch Dduw? a pha ddelw a oſodwch iddo?* ſay xl. 18—25.

2. Ni ddylai neb wneuthur unrhyw Lun, na Delw, i'w ddoli, ac ymgrymmu iddo. *Canys ffiaidd gan yr Arwydd, a melldigedig, yw'r neb a wnelo felly.* Deut. xvii. 15.

3. Nid yw Lluniau cerfiedig er Harddwch, megis y rhai

a

a wnaeth *Moſes* i'r Drugareddfa, a *Salomon* yn y Deml, yn anghyfreithlon. *Ecſod.* xxv. 1 *Bren.* vi.

Cw. A ydyw'n gyfiawn i ymweled ag Anwiredd y Tadau ar y Plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd Genhedlaeth?

Att. 1. Ni wna Duw yn anghyfiawn â neb. Canys, *Cyfiawn yw Duw yn ei holl ffyrdd, a ſanctaidd yn ei holl weithredoedd.* Sal. cxlv. 17.

2. Nid yw Duw yn ymweled ag Anwiredd y Tadau ar y Plant, ond y rhai a barhânt yn Anwiredd eu Tadau. *Y plant ni wnant felly, ni byddant hwy feirw am anwiredd eu tadau.* Ezec. xviii. 14, 17.

Cw. Pa'm y mae Duw yn addaw *Trugaredd i filoedd o'r rhai a'i carant*; ac nad yw yn ymweled ag Anwiredd ond hyd y drydedd a'r bedwaredd Genhedlaeth?

Att. Am fod Duw yn hoffi Trugaredd yn fwy nâ Chof Canys, *Duw, cariad yw.* 1 Joan iv. 16.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn yr ail Orchymmyn?

Att. 1. Gwneuthur Llun neu Ddelw o Dduw, neu Lun rhyw beth arall, i'w addoli. *Deut.* iv. 23, 24

2. Ymgrymmu neu ymoſtwng i Luniau a wnelo erai *Deut.* v. 9.

3. Dychymmygu Llun o Dduw yn ein Meddyliau. Can Eilunaddoliad yſprydol yw. *Act.* xvii. 29. 1 *Cron.* xxviii.

4. Eſgeuluſo addoli y Gwir Dduw. Canys i'r diben addoli Duw, y gwaherddir i ni addoli Delwau. *Dat.* xiv.

5. Amrywio oddi wrth y Rheol o Addoliad a roddo Duw ei hun i ni. *Deut.* v. 32 xii. 32.

6. Gwrthwynebu Addoliad Duw yn y Drefn weddaidd oſodir i ni yn gyttun â'i Air ef. 1 *Cor.* xiv 40. *Heb.* xiii.

7. Ymgyfathrachu ag Eilunaddolwyr; gan fyned i gare nydd a chyfeillach â hwynt. *Neh.* xiii. 25.

8. Ceiſio a hoffi rhyw Greaduriaid, neu Feddiant y By yn fwy nâ Duw. Am hynny y dywaid yr Apoſtol, fod *byddod yn eilunaddoliad.* Col. iii. 5. Rhuf. i. 25. Eze xiv. 3.

Cw. Pa Ddyledſwyddau a erchir yn yr ail Orchymmyn

Att. 1. Bod i ni addoli Duw yn unig; ac nid neb aral *Yr Arglwydd dy Dduw a addoli; ac ef yn unig a wa naethi.* Mat. iv. 10.

2. Bod i ni addoli Duw yn ol y Rheol a ordeiniodd Du ac nid yn ol ein dychymmyg ein hunain. *Joſ.* i. 7. *Heb.* iii.

3. Bod i ni addoli Duw yn gyflawn ymhob un o'i h

Ordinhada

rdinhadau; heb eſgeuluſo neb o honunt. *Mat.* xxviii. 20.

4. Bod i ni addoli Duw yn gyſſon bob amſer; ac nid mbell waith yn unig. *Deut.* v. 29.

5. Bod i ni addoli Duw mewn Purdeb, heb fod ein calonau yn putteinio yn eilunaddolgar ar ol pethau eraill. *Sal.* xiii. 27.

6. Bod i ni addoli Duw â'n hyſpryd ac â'n cyrph hefyd; n ymgrymmu yn barchus o flaen Duw: megis y'n gwaerddir i wneuthur felly i eilunod. 1 *Cor.* vi. 20. *Sal.* xcv. 6. *eb.* viii. 6.

7. Bod i ni ddïoddef, yn hytrach nag addoli neb ond Duw. *el y tri llangc a roddaſant eu cyrph i'w lloſgi, yn hytrach g addoli delw aur y brenhin.* Dan. iii.

8. Bod i ni roi, a gwneuthur yn ol ein gallu, tu ag at ddoliad y Gwir Dduw. *Ecſod.* xxv. 2. xxxvi. 5.

Cw. Pa Eſamplau ſydd yn yr Yſgrythur o Farn Duw ar roſeddwyr yr ail Orchymmyn?

Att. 1. Tair mil o bobl *Iſräel* a laddwyd, am wneuthur o tawdd i'w addoli. *Ecſod.* xxxii.

2. Dinyſtr a ddaeth ar holl dŷ *Gedeon*, am wneuthur hod i addoli Duw o'i ddychymmyg ei hun, yn wrthwyb i Orchymmyn Duw. *Barn.* viii. 27.

3. Am Eilunaddoliad *Manaſſe*, y dygodd Duw ar y bobl *dwar rhywögaeth o farn; y cleddyf i ladd, a'r cwn i rpio, ac adar y nefoedd ac anifeiliaid y ddaear i yſu ac difa.* Jer. xv. 3, 4.

4. Digoſaint Duw a ennynodd yn erbyn pobl *Iſräel*, ac a odd grogi eu holl bennaethiaid hwynt, am ymgyfeillachu Eilunaddolwyr *Baalpeor*. Num. xxv. 3, 4.

5. Coluddion *Jehoram* a aethant allan o'i gorph ef, ac a farw o glefydau drwg, am iddo dynnu'r bobl gyd ag ef i teinio yn ol Delwäddoliad. 1 *Cron.* xxi. 11—20.

6. *Amon*, brenhin *Juda*, a laddwyd gan ei weiſion yn ei ei hun, am ymadael oddi wrth Addoliad Duw ei dadau. *ren.* xxi. 22, 23.

7. *Nadab* ac *Abihu*, meibion *Aaron*, a laddwyd â thân o'r ger bron Duw yn yr Addoliad, am offrymmu â thân di-. *Lef.* x. 1, 2.

8. Yr *Iuddewön* a dynnaſant Felldith Dduw ar eu pen, am gadw rhan o'r Offrymmau a'r Degwm, ag oedd yn hyn i Addoliad Duw. *Mal.* iii. 8, 9.

w. Beth yw'r trydydd Gorchymmyn?

Att.

Att. Na chymmer Enw yr Arglwydd dy Dduw ofer: canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn gymmero ei Enw ef yn ofer.

Cw. Am beth y mae'r trydydd Gorchymmyn?

Att. Am y Parch ſy ddyledus i Enw Duw.

Cw. Beth a yſtyriwch yn y trydydd Gorchymmyn?

Att. Tri pheth. 1. Beth yw *Enw* Duw.

2. Beth yw cymmeryd Enw Duw *yn ofer.*

3. Y *Perygl* o gymmeryd Enw Duw yn ofer.

Cw. Beth a feddylier wrth *Enw* Duw?

Att. 1. Enwau a Thitlau Duw yn y 'Sgrythur. 2. P odoliaethau Duw. 3. Gair Duw. 4. Addoliad Duw, Ordinhadau. 5. Gweithredoedd Duw, a'i Ragluniaeth

Cw. Beth yw cymmeryd Enw Duw *yn ofer?*

Att. 1. Eſgeuluſo Duw, a'r Pethau ſanctaidd a berth iddo.

2. Arferu Enw Duw, a'r Pethau ſanctaidd a berthyn id yn ddiles ac yn yſgafn.

Cw. Beth yw'r *Perygl* o gymmeryd Enw Duw yn ofe

Att. Mae, *Nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gy mero ei Enw ef yn ofer.* Sef, bod ei bechod yn ddieſg ac na chaiff ddiangc yn ddigoſp.

Cw. Pa ffordd y cymmerir Enw Duw yn ofer?

Att. 1. Trwy enwi Duw yn gwſtymmol, ac yn yſgafn ein hymadrodd cyffredin. *Lef.* xxii. 32.

2. Trwy chwedleua yn anyſtyriol, neu yn gellweirus, Bethau a berthyn i Sancteiddrwydd.

3. Trwy arferiad yſgafn ac ofer o Addoliad Duw, a ledſwyddau Creſydd. *Mat.* xv. 8, 9.

4. Trwy bob math o lwon ofer ac afreidiol. *Pob u dyngo, a dorrir ymmaith gan felldith Dduw.—Hwy a ſy iant i farnedigaeth.* Zec. v. 3. Jago v. 12.

Cw. A ydyw pob llwon neu dyngu'n bechod?

Att. 1. Mae tyngu'n anudon, a phob tyngu ofer ac afr iol, yn bechodau 'ſgeler. *Y neb a wnelo felly, a lenw anwiredd; ac nid ymedy dial â'i dŷ ef.* Eclus. xxiii. 9—

2. Mae'n gyfreithlon i dyngu'r Gwirionedd yn barc pan fyddo'n angenrheidiol, o flaen ein Llywiawdwyr. vi. 16. *Ecſod.* xxii. 11.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn y trydydd Gorchymm

Att. 1. Diyſtyru Gwaſanaeth ac Addoliad Duw, fel dileſiant. *Mal.* iii. 4. *Job* xxi. 14, 15.

2. Troi oddi wrth Wasanaeth Dduw ar ol ei arddel, er
abledd i Enw Duw. *Jer.* xv. 6.

3. Arferiad ysgafn twyllodrus o Ddyledswyddau Crefydd.
Canys yn ofer y cymmerant hwy Enw Duw yn eu genau.
Mat. xv. 8, 9. Jer. xlviii. 10.

4. Pob rhegfeydd a melldithion. *Ar ben y melldithiwr*
i hun y deuant. Sal. cix. 17.

5. Pob llwon anghywir ac anudon. *Duw ei hun a fydd*
n dyst cyflym yn eu herbyn. Mal. iii. 5.

6. Pob math o lwon ofer am ben ein geiriau cyffredin.
r hwn a dyngo, a dorrir ymmaith; a melldith Dduw
dd yn ei dŷ ef. Zec. v. 3.

7. Pob arferiad ysgafn ammharchus o Enw Duw yn ein
ymadroddion cyffredin. *Gelynion yr Arglwydd a gymmer-*
nt ei Enw ef yn ofer. Sal. cxxxix. 20.

8. Pob arferiad o Enw Duw mewn swyngyfaredd neu gon-
riaeth. *Ffiaidd gan yr Arglwydd yw pawb a wnelo felly.*
eut. xviii. 10—12.

9. Gwawdio Pobl Dduw, a elwïr ar ei Enw ef. *Canys*
awdio a difenwï Duw ei hun y maent. 1 Thes. iv. 8.
l. lxxiv. 18.

10. Torri'r Addunedau a wnaethom yn Enw Duw; neu
euthur addunedau pechadurus yn ei Enw ef. *O herwydd*
n y gwylia Duw arnom er nïweid, ac nid er daioni. Jer.
iv. 24, 25. Preg. v. 4, 5.

11. Ceisio anrhydedd i'n henwau'n hunain, yn lle gogon-
du Duw. *Sal.* cxv. 1. *Esay* xlviii. 11.

12. Bucheddau drwg dan broffes o Grefydd, er achlysur i
ill gablu Enw Duw o'n plegid ni. *Rhuf.* ii. 23, 24.

Cw. Pa Ddyledswyddau a erchir yn y trydydd Gor-
ymmyn?

Att. 1. Bod i ni lefaru'n barchus am Enw Duw, a myne-
ei Foliant ef â'n geneuau. *Sal.* li. 15.

2. Bod i ni feddwl yn barchus am Enw gogoneddus Duw
ein calonnau. *Mal.* iii. 16.

3. Bod i ni swriadu gogoneddu Enw Duw ymhob gwaith
nelom â'n dwylaw. 1 *Cor.* x. 31. *Mat.* v. 16.

4. Bod i ni ogoneddu Enw Duw â'n cysoeth, ac â'r peth
naf o'n holl ffrwyth. *Diar.* iii. 9.

5. Bod i ni ogoneddu Enw Duw, ynghyflawniad parchus
holl Addoliad ef. *Lef.* x. 3. *Sal.* lxvi. 2.

6. Bod i ni gyflawni'r Adduned ddibechod a wnaethom yn Enw Duw. *Sal.* l. 14.

7. Bod ein Llwon cyfreithlon, pan ein gelwïr i roi Tyſtiolaeth, yn gywir ac yn barchus yn Enw Duw. *Jer.* iv, 2.

8. Bod i ni yſtyriaïd Gweithredoedd Duw, a lleſaru amdanunt yn barchus, er Gogoniant iddo. 1 *Cron.* xvi. 8, 9.

9. Bod i ni jawn arferu a pharchu pob peth cyſſegredig a berthyn i Enw Duw. *Sal.* xcvi. 8. *Eſay* xii. 4.

10. Bod i ni ddyrchafu Enw dyrchafadwy Duw yn benaf o bob peth. *Canys ei arddèrchowgrwydd ef ſydd uwch law daear a nefoedd.* Sal. cxlviii. 13.

Cw. Pa Eſamplau ſydd o Farn Duw ar Droſeddwyr trydydd Gorchymmyn?

Att. 1. *Sennacerib*, brenhin *Aſſyria*, a laddwyd gan ei blant ei hun, a phump a phedwar ugain a chant o filoedd a laddwyd yn ei werſyll ef yn yr un nos, am iddo ef gablu Enw Duw. 2 *Bren.* xix.

2. Mab i wraig o *Iſräel* a labyddiwydd gan y gynnulleidfa, trwy Orchymmyn Duw, am iddo felldigo a chablu Enw'r Arglwydd. *Lef.* xxiv. 14.

3. Meibion *Sedecia*, brenhin *Jeruſalem*, a laddwyd flaen ei wyneb; ac yna y tynnwyd ei lygaid ef o'i ben, ac a rhwymwyd yn garcharor â gefynnau pres; am dorri 'r llw wnaethai efe. *Ezec.* xvii. 18, 19. 2 *Bren.* xxv. 7.

4. Y ddaear a ofidiodd, a'i thirion leoedd a ſychodd, a llwon ofer a halogedig ei thrigolion. *Jer.* xxiii. 10. *Hoſ.* iv. 2, 3.

5. Tair blynedd o newyn à ddaeth ar bobl *Iſräel*, a ſai o feibion *Saul* a grogwyd, am dorri 'r adduned a wnaethwyd yn Enw Duw, â 'r *Gibeoniaid*, lawer blwyddyn o'r blaen. 2 *Sam.* xxi.

6. Y brenhin *Saul* a gollodd ei frenhiniaeth a 'i fywyd am fyned at ddewines yn ei gyfyngder, er cabledd i Enw Duw. 1 *Cron.* x. 13, 14.

7. Llaw *Jeroboam* a ddiffrwythodd; a'r *Juddewon* a roddwyd i gleddyfau'r *Caldeald* i'w lladd; yn hen ac jeuaingc, a'u teml a'u dinas i'w lloſgi, am wrthod Gair Arglwydd. 1 *Bren.* xiii. 4. 2 *Cron.* xxxvi.

8. *Eutycus* a ſyrthiodd i lawr yn farw, am gyſgu o Air Duw. Ac *Elymas* a darawyd â dallineb, am wrthnebu Gweinidogaeth *Paul* a *Barnabas*, ag oedd yn lleſa yn Enw'r Arglwydd. *Act.* xx. 9. xiii. 8—11.

9. Lla

9. Llawer o'r *Corinthiaid* a fuont feirw, ac eraill a darawyd â chlefydau, am eu hymddygiad anweddus yn Swpper yr Arglwydd. 1 *Cor.* xi. 29, 30.

10. Bradwriaeth a gododd yn erbyn *Amaſia*, brenhin *Judda*, ac efe a laddwyd; am droi oddi wrth Dduw, er ammharch iddo, ar ol dechreu yn dda. Plentyn y Brenhin *Dafydd* a fu farw, a'r cleddyf nid ymadawödd â'i dŷ ef; am iddo roi achos i elynion yr Arglwydd i gablu. 2 *Cron.* xxv. 27. 2 *Sam.* xii. 10, 14.

Cw. Beth yw'r pedwerydd Gorchymmyn?

Att. Cofia y Dydd Sabboth, i'w ſancteiddio ef. Chwe' diwrnod y gweithi, ac y gwnai dy holl waith; ond y ſeithfed Dydd yw Sabboth yr Arglwydd dy Dduw. Na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th waſanaethwr, na'th waſanaethferch, na'th anifail, na'th ddieithr ddyn a fyddo o fewn dy yrth. O herwydd mewn chwe' diwrnod y gwnaeth r Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y môr, a'r hyn ll ſydd ynddunt, ac a orphwyſodd y ſeithfed Dydd: m hynny y bendithiodd yr Arglwydd y Dydd Sabboth, ac a'i ſancteiddiodd ef.

Cw. Am beth y mae y pedwerydd Gorchymmyn?

Att. Am Gadwraeth y Sabboth.

Cw. Beth a yſtyriwch yn y pedwerydd Gorchymmyn?

Att. Dau beth. 1. Pa beth a orchymynnir.

2. Y Rheſymmau am gadw'r Sabboth.

Cw. Pa beth a orchymynnir ymma?

Att. Pum peth. 1. Bod i ni gofio y Dydd Sabboth; id bod yn ddioſal am dano.

2. Bod i ni gadw'r Sabboth yn ſanctaidd; nid ei halogi.

3. Bod i ni dros chwe' diwrnod weithio (nid ſeguro) a wneuthur ein holl waith.

4. Bod i ni orphwys ar y ſeithfed Dydd; ac na wnelom ddo ddim gwaith.

5. Bod i ni, a'n holl ddynion, a'n dâ, orphwys ar y Sabboth.

Cw. Pa Reſymmau ſydd ymma am gadw'r Sabboth?

Att. Pedwar. 1. Am i Dduw roddi i ni chwe' diwrnod weithio, ac ond un yn unig i orphwys.

2. Am fod Duw yn cadw'r Dydd hwn iddo ei hun. Y

ſeithſed dydd yw Sabboth yr Arglwydd dy Dduw. Ac ni ddylem ni yſpeilio Duw o'i Ddydd ei hun.

3. Am i Dduw, ynghreadigaeth y byd, orphwys ar y ſeithſed Dydd, er eſampl i ni orphwys hefyd.

4. Am i Dduw ſendithio'r ſeithſed Dydd, a'i ſancteiddio. Ac ni ddylai neb halogi'r Dydd a gyſſegrodd Duw.

Cw. Beth yw Sabboth?

Att. Gorphwyſfa. Am y dylid cadw'r Dydd hwnnw yn Orphwyſfa ſanctaidd i'r Arglwydd.

Cw. I ba Ddiben yr ordeiniwyd y Sabboth?

Att. 1. I Bobl Dduw ymgynnull i gydaddoli Duw yn gyhoeddus.

2. I gynnal Coffadwriaeth o Weithredoedd gogoneddus Duw.

3. I ddyn ac anifail orphwys oddi wrth ludded eu gwaith; ac i fod yn gyffelybiaeth o'r Orphwyſfa ſydd ettto yn ol i Bobl Dduw yn y Nef. *Heb.* iv.

Cw. Pa bryd yr ordeiniwyd y Sabboth?

Att. 1. Fe ordeiniwyd y Sabboth o'r dechreuad, yn 'ſtad diniweidrwydd dŷn, yn Goffadwriaeth o Greadigaeth y Byd. *Gen.* ii. 2, 3.

2. Fe ordeiniwyd y Sabboth megis o'r newydd drachefn, yn Goffadwriaeth o Warediad Pobl *Iſräel* o wlad yr *Aipht*. Deut. v. 15.

3. Fe ordeiniwyd y Sabboth dan yr Efengyl, yn Goffadwriaeth o Adgyfodiad Criſt, wedi gorphen Gwaith ei Prynedigaeth ni.

Cw. Pa Ddydd o'r wythnos yw'r Sabboth?

Att. 1. Y ſeithſed Dydd, ſef y Dydd olaf o'r wythnos oedd Sabboth yr *Juddewön*, yn Goffadwriaeth o Greadigaeth y Byd.

2. Y Dydd cyntaf o'r wythnos yw 'n Sabboth ni, yn Goffadwriaeth, nid yn unig o Greadigaeth, eithr yn benaf o Brynedigaeth y Byd trwy Griſt.

Cw. Pa fodd y profwch, newid y Sabboth o'r Dydd olaf i'r Dydd cyntaf o'r wythnos?

Att. 1. Mae'n ddiammeu, fod Awdurdod gan Griſt i wneuthur hynny. *Canys efe a ddywedodd, Y mae Mab dyn yn Arglwydd ar y ſabboth.* Marc ii. 8.

2. Ar y Dydd cyntaf o'r wythnos y cyfododd Criſt. *Mat.* xvi. 9.

3. Ar y Dydd cyntaf o'r wythnos yr ymddangoſodd gynt

gyntaf, ac amryw o weithiau, i'w Ddiſgyblion ar ol ei gyſodi. *Mat.* xxiii. 1—6. *Joan* xx. 19, 20, 26.

4. Ar y Dydd cyntaf o'r wythnos yr oedd yr Eglwys yn ymgynnull, yn bennaf, i addoli Duw. *Act.* i. 1, 2, 3. xx. 7.

5. Ar y Dydd cyntaf o'r wythnos y diſgynodd yr Yſpryd Glân ar yr Apoſtolion. Ac ar y Dydd hwnnw yr oedd *Joan* yn yr yſpryd, ac y datguddiwyd iddo bethau rhyfedd. *Act.* ii. 1—4. *Dat.* i. 10.

6. *Dydd yr Arglwydd* y galwyd y Dydd cyntaf o'r wythnos; ac a gadwyd o hynny allan yn ſanctaidd i'r Arglwydd gan yr Apoſtolion, a'r holl Eglwyſi Criſtionogol. *Dat.* i. 10.

Cw. Pa faint o'r Sabboth ſydd i'w ſancteiddio i Dduw?

Att. Y Dydd Sabboth, nid rhan o hono, a enwïr yn y Gorchymmyn. Sef, *Moliannu'r Arglwydd bob bore, ac elly hefyd brydnhawn.* 1 Cron. xxiii. 30.

Cw. Pa beth ſydd i'w wneuthur ar y Sabboth?

Att. Tri pheth. 1. Addoliad Duw, a'r Pethau a berthyn iddo yn yr Eglwys a'r Teulu.

2. Gwaith angenrheidiol, na ellir ei wneuthur bryd arall.

3. Gweithredoedd o Drugaredd i ddyn ac anifail. *Am fod Duw yn ewyllyſio trugaredd o flaen aberth.* Mat. xii. 7.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn y pedwerydd Gorymmyn?

Att. 1. Gweithio, ſiwrneia, a negeſeua. *Canys y mae Duw yn bwgwth torri ymmaith yr enaid a wnelo felly ar ſabboth.* Lef. xxiii. 30.

2. Chwareuon a diotta, diſyrrwch a geiriau ofer, ac ymddanion am bethau ammherthynaſol i Sancteiddiad y Sabboth. *Eſay* lviii. 13, 14.

3. Rhodienna'n ſegur oddi amgylch, a chyſgu yn ſwrth, a yn lle treulio'r Dydd yn ſanctaidd. *Diar.* vi. 9.

4. Abſennu'n ddiachos oddi wrth Addoliad Duw yn ei Eglwys; gan ddiyſtyru'r peth a ordeiniodd Duw i'n benthio. *Sal.* cix. 17.

5. Dyfod i Addoliad Duw yn ei Eglwys i wneuthur neſau bydol; gan wneuthur Tŷ Dduw yn dŷ marchnad. *Ian* ii. 16.

6. Ymddŵyn yn anyſtyriol ac yn anyſprydol yn Addoliad Duw. *Gan nesâu atto â'r genau, ac yn y galon ymbellhau oddi wrtho.* Mat. xv. 8.

7. Gweled y Sabboth yn faich, a blino ar y Dydd arbennig a drefnodd Duw er Jechydwriaeth i ni. *Amos* v. 8.

8. Anghofio ymbarottôi yn ofalus ar fedr y Sabboth ym- laen-llaw, a'i ddefnyddio ar ol ei ddarfod. *Ecſod.* xx. 8.

9. Goddef i'n plant a'n teulu, neu pwy bynnag y fo dan ein llywödraeth, halogi'r Sabboth. *Ecſod.* xx. 10.

Cw. Pa Ddyledſwyddau a erchir yn y pedwerydd Gorchymmyn?

Att. 1 Bod i ni orphwys oddi wrth ein gwaith ein hunain ar y Sabboth. *Deut.* xvi. 8.

2. Bod i'n holl eiddo, ſef ein dynion a'n hanifeiliaid, orphwys ar y Sabboth. *Ecſod.* xxiii. 12.

3. Bod i ni roddi heibio ein geiriau a'n difyrrwch ein hunain, i anrhydeddu'r Sabboth, ac i ymhyfrydu ynddo. *Eſa.* xlviii. 13. *Sal.* cxviii. 24.

4. Bod i ni ddyfod, yn gyſſon, ar y Sabboth, i Addoliad Duw. *O ſabboth i ſabboth* (y bydd) *i bob cnawd ddyfod i addoli ger fy mron i, medd yr Arglwydd.* Eſay lxvi. 23.

5. Bod i ni ddyfod mewn pryd i Addoliad Duw; ac nid ddïweddar. *Ar y ſeithfed dydd y codaſant yn fore i godiad y wawr.* Joſ. vi. 15.

6. Bod i ni nesâu yn barchus at Addoliad Duw ar y Sabboth. *Gwylia ar dy droed, pan fyddech yn myned i dŷ Ddu* Preg. v. 1.

7. Bod i ni ymaflyd yng Nghyfammod Duw, megis newydd, ar y Sabboth. *Gwyn ei fyd y dŷn a wnelo hy a mab y dŷn a ymafio ynddo.* Eſay lvi. 2, 4.

8. Bod i ni barodi ar fedr y Sabboth, a'i ddefnyddio dda; fel y bo yn arwydd Cyfammod rhyngom a Duw. *Ez* xx. 20.

9. Bod i Bennauteuluoedd beri i'w plant a'u tylwy gadw'r Sabboth, a dyſgu iddunt Wybodaeth o Dduw. *S* lxxviii. 5.

10. Bod i bob Swyddogion edrych am Gadwraeth Sabboth. *Nehemia* a geryddodd yr halogwyr y Sabboth, a oſododd ei weiſion i wylio na wnaent felly dracheſn. *N* xiii. 15—21.

Cw. Pa Eſamplau ſydd yn yr Yſgrythur o Farn Duw Droſeddwyr y Sabboth?

Att. 1. Fe orchymynnodd Duw i bobl *Iſräel* ladd yn fa y neb a halogai'r Sabboth. *Ecſod.* xxxi. 14, 15.

2. G

2. Gŵr o *Iſräel* a labyddiwyd â cherrig, gan yr holl gynnulleidfa, am gynnutta ar y Sabboth. *Num.* xv. 32—36.

3. Duw a dywalltodd ei Lid ar *Iſräel* yn yr anialwch, i'w difetha hwynt, am halogi'r Sabboth. *Ezec.* xx. 13.

4. Duw ei hun a gynneuodd dân ym mhyrth *Jeruſalem*, ac a yſodd ei phalaſau, na's gellyd ei ddiffoddi; am nad oedd ei phreſwylwyr yn ſancteiddio'r Sabbothau. *Jer.* xvii. 27.

5. Duw a dywalltodd ei Ddigoſaint ar Offeiriaid yr *Iuddewön*, ac â thân ei Lidiowgrwydd y difethodd eſe hwynt; *am guddio eu llygaid oddi wrth y Sabbothau*, ac na edrychent yn ofalus am Sancteiddiad y Sabboth. *Ezec.* xxii. 26, 31.

Cw. Beth yw y pummed Gorchymmyn?

Att. Anrhydedda dy Dâd a'th Fam; ſel yr eſtyner y ddyddiau ar y ddaear, yr hon y mae yr Arglwydd y Dduw yn ei rhoddi i ti.

Cw. Am ba beth y mae'r pummed Gorchymmyn?

Att. Am yr Anrhydedd ſydd ddyledus i'm Rhieni, ac bawb yn ol eu graddau.

Cw. Pa'm y goſodir y Gorchymmyn hwn yn flaenaf, yn ail Lech?

Att. Am mai fy Nyled pennaf, neſaf at ogoneddu Duw, ſad ein hyſprydoedd, yw, anrhydeddu fy Rhieni.

Cw. Beth a yſtyriwch yn y pummed Gorchymmyn?

Att. Dau beth. 1. Y Ddyledſwydd a orchymynnir; ſef, *anrhydeddu* fy Rhieni.

2. Addewid Duw i'm hannog i'w hanrhydeddu hwynt: *ſel yr eſtyner dy ddyddiau ar y ddaear, yr hon y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti.*

Cw. Pa lun yr eſtynir dyddiau'r rhai a anrhydeddant eu Rhieni?

Att. 1. Ni thorrir hwy ymmaith cyn eu hamſer, trwy farn Duw. *Canys ofn yr Arglwydd a eſtyn ddyddiau: ond blynyddoedd y drygionus a fyrhêir.* Diar. x. 27.

2. Y neb a anrhydeddo Dduw a'i Rieni, a gaiff Ddaioni, a byw yn ddigon hir i fwynhâu Bywyd tragywyddol. *Dinaf ef* (medd yr Arglwydd) *â hir ddyddiau, a dangoſaf iddo fy jechydwriaeth.* Sal. xci. 16. Eph. vi. 2, 3.

Cw. Pa Rieni a ddylech anrhydeddu?

Att. 1. Ein *Rhieni gwladol*; ſef, y Brenhin, a'n Llywiawdwyr dano. *Ymddaroſtynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel.— Ofnwch Ddduw, ac anrhydeddwch y brenhin.* Rhuf. xiii. 1—6. 1 Pedr ii. 13, 14, 17.

2. Ein *Rhieni yſprydol*; ſef, Gweinidogion Gair Duw, a'n Hathrawön. *Gan wneuthur cyfrif mawr o honunt mewn cariad, er mwyn eu gwaith.* 1 Theſ. v. 12, 13. 1 Tim. v. 17.

3. Ein *Rhieni naturiol*; ſef, ſy Nhad a'm Mam.

4. Ein *Rhieni teuluol*, a phawb yn ol eu graddau. *Perchwch bawb. — A byddwch bawb yn oſtyngedig i'w gilydd.* 1 Pedr ii. 17. v. 5.

Cw. Beth yw'ch Dyled i'ch *Rhieni gwladol*; ſef, y Brenhin, a'r Llywïawdwyr?

Att. 1. Ufudd-dod i'w Hordinhadau cyfiawn hwynt. 1 *Pedr* ii. 13, 14.

2. Llefaru'n barchus ac yn ddigabl am danunt. *Ecſod.* xxii. 28.

3. Talu'r Deyrnged a fo'n ddyledus iddunt. *Rhuf.* xiii. 7.

4. Cadw yn ffyddlon ein Llw iddunt. *Preg.* viii. 2.

5. Ymoſtwng i'r Farn a roddont. *Diar.* xxix. 26.

6. Gweddïo droſtunt. 1 *Tim.* ii. 1.

Cw. Beth yw'ch Dyled i'ch *Rhieni yſprydol*, a'ch Athrawön?

Att. 1. Gweddïo am Weinidogion ffyddlon. *Mat.* ix. 38.

2. Gweddïo Duw am eu Llwyddiant. 1 *Theſ.* v. 25.

3. Ymoſtwng i'w Haddyſg jachuſol hwynt. *Heb.* xiii. 17.

4. Byw yn addas i'w Gweinidogaeth, fel na feier arni. 2 *Cor.* vi. 3.

5. Dangos Parch a Chariad iddunt er mwyn eu Gwaith. 1 *Tim.* v. 17. 1 *Theſ.* v. 13. 2 *Cor.* viii. 24.

6. Cynnorthwyo'n Gweinidogion, a'u cynnal yn eu Gwaith. 3 *Joan* 8. *Phil.* iv. 3. *Gal.* vi. 6.

7. Ymwrthod â phob Anghydfod ac Ymbleidiau, ag y fo'n Rhwyſtr ac yn Ddigalondid iddunt. *Rhuf.* xvi. 17. 1 *Cor.* i. 10. *Phil.* ii. 2. *Heb.* xiii. 9.

Cw. Beth yw'ch Dyled i'ch *Rhieni naturiol*; ſef eich Tad a'ch Mam?

Att. 1. Ymddŵyn yn oſtyngedig ac yn barchus tu ag attunt. *Fel yr eſtyner fy nyddiau, ac y byddo'n dda i mi ar y ddaear.* — *Ruth* a fu garuaidd i Fam ei Gŵr; a Duw a roddes iddi lwyddiant ac anrhydedd mawr. *Deut.* v. 16. Llyfr *Ruth.*

2. Ufudd-

2. Uſuddhâu i'm Rhieni ymhob peth (cyfreithlon.) *Ce*
ys hyn ſydd yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda.—Duw
a fendithiodd dylwyth y Recabiaid, am gadw gorchym-
yn Jonadab eu tad. Col. iii. 20. Jer. xxxv. 18, 19.

3. Mawrhâu a chymmorth ein Rhieni, yn eu Hangen a'u Henaint. *Gan dalu'r pwyth iddunt: canys hyn ſydd dda a chymmeradwy ger bron Duw. — Cynnorthwya dy dad yn ei henaint, ac na thriſtâ ef yn dy fyw: o's palla ei ſyn-wyr, cyd-ddwg ag ef.* 1 Tim. v. 4. Eclus. iii. 12, 13.

4. Perſwadio'n Rhieni yn ſerchogaidd i'r hyn y ſo da. *Na cherydda hynafgwr, eithr cynghora ef megis tad.* 1 Tim. v. 1.

5. Derbyn a chadw Addyſg dda fy Rhieni. *Fy mab, gwrando addyſg dy dad; ac nac ymado â chyfraith dy fam.* Diar. i. 8.

6. Ymoſtwng mewn ofn parchus i Geryddon ein Rhieni. *Ofnwch bob un ei fam a'i dad. — Dŷn ffol a ddiyſtyra addyſg ei dad: ond y neb a ddïoddefo gerydd, ſydd gall.* Lef. xix. 3. Diar. xv. 5.

7. Byw yn ddoeth ac yn dduwiol, er cyſur i'n Rhieni. *Tad y cyfiawn a orfoledda yn fawr; a'r neb a genhedlo mab doeth, a lawenhâ o'i blegid. — Mab doeth a wna dad lawen; a mab ffol a driſtâ ei fam.* Diar. xxiii. 24 x. 1.

8. Gweddïo dros ein Rhieni. *Canys fe ddylai fod ymbiliau, gweddïau, deiſyfiadau, a thalu diolch, dros bob dyn.* 1 Tim. ii. 1.

9. Priodi yn ol Cyngor a Chydſyniad ein Rhieni. *Iſaac briododd yn ol ëwyllys ei dad; a Duw a'i bendithiodd ef yn helaeth jawn.* Gen. xxiv.

Cw. Pa Bechodau yn erbyn eich Rhieni a waherddir yn pummed Gorchymmyn?

Att. 1. Diyſtyru Cerydd ein Rhieni. *Dau fab Eli ni wrandawënt ar lais eu tad; a hwy ill dau a laddwyd yn un dydd.* 1 Sam. ii. a iv.

2. Cymmeryd Meddiant ein Rhieni, heb eu Cennad. *Tŵ neb a yſpeilia ei dad, neu ei fam, ac a ddywaid, Nid yw yn gamwedd; ſydd gymmar i ddinyſtriwr.* Diar. xxviii. 24.

3. Anufudd-dod i'n Rhieni. *Duw a orchymynnodd i'r holl ddinas ddwyn allan y mab cyndyn, ni wrandawai ar lais ei dad neu ei fam, a'i labyddio yn farw â meini.* Deut. xxi. 18, 21.

4. Dirmygu neu wawdio ein Rhieni. *Melldigedig yw'r*

hwn a ddirmygo ei dad, neu ei fam: a dyweded yr holl bobl, Amen.— Cigfrain y dyffryn a dyn ei lygaid, a chywion yr eryrod a'i bwytty. Deut. xxvii. 16. Diar. xxx. 17. Ezec. xxii. 7.

5. Taro neu felldithio ein Rhieni. *Y neb a darawö ei dad, neu ei fam; rhodder ef i farwölaeth.—O's bydd neb a felldigo ei dad, neu ei fam; lladder ef yn farw.* Exod. xxi. 15. Lef. xx. 9.

6. Trachwantu Etifeddiaeth ein Rhieni. *Abſalom a chwennychodd frenhiniaeth Dafydd ei dad; ac efe a ddaliwyd ynghrôg ym mrig derwën wrth wallt ei ben, hyd oni laddwyd ef.* 2 Sam. xviii.

7. Cyhoeddi gwaradwydd ein Rhieni. *Cam, mab Noa, a ſynegodd am noethni ei dad; a'i fab yntef a felldithiwyd, ac a wnaed yn was gweiſion ei frodyr.* Gen. ix.

8. Priodi heb Gyngor ein Rhieni. *Eſau a briododd yn erbyn ëwyllys ei dad a'i fam; ac efe a gollodd y fendith a'i enedigaethfraint.* Gen. xxvii.

Cw. Beth yw Dyled Rhieni tu ag at eu Plant?

Att. 1. Dwyn eu Plant i Deyrnas Dduw, ſef ei Eglwys ef trwy Griſt yn y Bedydd. *Canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw.* Marc x. 14.

2. Dyſgu eu Plant yng Ngair Duw. *Fel y gwybyddo'r oes a ddêl, ſef y plant a enir: a phan gyſodont, y mynegont hwy i'w plant hwythau.* Sal. lxxviii. 5,6. Diar. xxii. 6.

3. Lleſaru wrth eu Plant am Weithredoedd Duw; ſef Creadigaeth a Phrynedigaeth y Byd. *Hyſpyſa hwynt i'w feibion, ac i feibion dy feibion.* Deut. iv. 9. Joël i. 3.

4. Ceryddu eu Plant er Lles iddunt. *Yr hwn a arbedo'r wïalen, ſydd yn casâu ei fab: ond yr hwn a'i câr, a'i cerydda mewn amſer.* Diar. xiii. 24. xix. 18. xxii. 15. xxiii. 13, 14. xxix. 15, 17.

5. Rhoddi Eſampl dda i'w Plant. *Y cyfiawn a rodia yn ei uniondeb: gwyn eu byd ei blant ar ei ol ef.* Diar. xx. 7.

6. Dwyn eu Plant i fynu i Alwëdigaeth oneſt. *Un o blant Adda oedd laſurwr; a'r llall oedd fugail defaid.* Gen. iv. 2. 1 Cor. vii. 20.

7. Gweddïo beunydd dros eu Plant. *Job a gyſodai yn fore, i offrymmu dros ei blant, yn ol eu rhifedi hwynt oll.* Job i. 5.

8. Priodi eu Plant â Theulu y Ffydd; fel na jauer hwynt yn anghymharus gyd â'r rhai digrêd. *Ni ſynnai Abraham wrth*

wraig i'w ſab, ond o'deulu'r ffydd. 2 Cor. vi. 14. Gen. xxiv.

9. Ymddŵyn yn garuaidd tu ag at eu Plant. Nid yn afreſymmol mewn dim. *Eithr eu maethu hwynt yn addyſg ac athrawiaeth yr Arglwydd.* Eph. vi. 4. Col. iii. 21.

10. Dangos eu Hanfoddlonrwydd i'w Plant anhyweth. *Jacob wrth farw a felldigodd greulondeb Simeon a Leſi. Ac a ddietifeddodd Reuben o'i enedigaethfraint, am ei anlladrwydd.* Gen. xlix. 5—7. 1 Cron. v.

Cw. Pa rai yn bennaf yw Pechodau Rhieni?

Att. 1. Eſgeuluſo Magwraeth eu Plant. *Y dreigiau a dynnant allan eu bronnau, ac a roddant ſugn i'w cenawön.* Galar. iv. 3.

2. Gadael eu Plant i gyfeiliorni, o eiſiau eu dyſgu yng Ngair Duw. *Pa fodd y glanhâ llangc ei lwybr? wrth ymadw yn ol gair Duw.* Sal. cxix. 9. Diar. xxii. 6.

3. Goddef Beiau eu Plant yn ddigerydd. *Am na cheryddodd Eli yr offeiriad ei feibion, yr offeiriadaeth a dorrwyd oddi wrtho ef a'i eppil; a'i ddau fab a laddwyd yn yr un dydd; ac yntef ei hun a gwympodd o'i 'ſtol, ac a dorrodd ei wddf.* 1 Sam. ii, iii, a iv.

4. Gormod Serch i'w Plant. *Hoff jawn oedd gan y brenhin Dafydd am Abſalom ac Alonija; a hwynthwy ill dau a wrthryfelaſant yn erbyn Dafydd eu tad.* 2 Sam. xv. 1 Bren. i.

5. Dwyn i fynu eu Plant yn ddïwaith. *Pan oedd Dafydd yn ſegur ar nen ei dŷ, y temtiwyd ef i odineb a galanaſtra. — Pan oedd Dina, merch Jacob, yn rhodio oddi amgylch, y treiſiwyd hi gan Sicem.* 2 Sam. xi. Gen. xxxiv.

6. Eſamplau drwg, er rhwyſtr i'w Plant i fod yn gadwedig. *Gwell fyddai iddo pe crogid maen melin oddi amgylch ei wddf ef, a'i daflu i'r môr, nag iddo rwyſtro un o'r rhai bychain hyn.* Luc xvii. 1, 2.

Cw. Beth ydyw eich Dyled i'ch Meiſtraid; ſef, eich *Rhieni teuluol?*

Att. 1. Dewis Meiſtraid duwiol; fel na lygrer ni yn eu teiau hwynt. *Canys, y mae ymddiddanion drwg yn llygru moeſau da. — Joſeph a ddyſgodd dyngu yn llys Pharao.* 1 Cor. xv. 33. Gen. xlii. 15.

2. Ufuddhâu yn ddinâg i'n Meiſtraid. *Y gweiſion, ufuddhêwch i'r rhai ſydd arglwyddi i chwi yn ol y cnawd, gyd ag ofn a dychryn, yn ſymlrwydd eich calon, megis i Griſt.* Eph. vi. 5—7.

3. Perchi

3. Perchi ein Meiſtraid. *Tybiant eu meiſtraid eu hun yn deilwng o bob anrhydedd; fel na chabler Enw Duw, a'i Athrawiaeth ef.* 1 Tim. vi. 1.

4. Bod yn oneſt, yn ffyddlon, ac yn oſtyngedig, i'n Meiſtraid. *Nid yn gwrthddywedud, nid yn darnguddio, ond yn dangos pob ffyddlondeb da; fel yr harddont Athrawiaeth Dduw ein Jachawdwr ym mhob peth.* Tit. ii. 9, 10. 1 Pedr ii. 18.

5. Bod yn Genhadon ffyddlon yn Negeſau ein Meiſtraid. *Megis oerder eira yn amſer cynhauaf, yw cennad ffyddlon i'r rhai a'igyrrant: canys efe a lawenycha enaid ei feiſtraid.* Diar. xxv. 13.

6. Ceiſio Lles, a rhagflaenu Niweid ein Meiſtraid. *Trwy gyfarwyddyd ei forwyn, a chyngor ei was, y cafodd Naaman lanhâd oddi wrth ei wahanglwyf yn y Jorddonen. A thrwy fynegaeth gwas Abigail yr achubwyd hi, a'i gŵr, a'i thylwyth, rhag eu diſtrywio gan Ddafydd.* 2 Bren. v. 1 Sam. xxv.

7. Gweddïo am Lwyddiant ein Meiſtraid. Gwas *Abraham* a weddïodd, ac a lwyddodd, yn achos ei Feiſtr. A phob peth a lwyddai dan law *Joſeph* yn nhŷ *Putiphar.* Gen. xxiv. 12. xxxix. 3, 23.

Cw. Pa rai yn bennaf yw Pechodau Gwaſanaethwyr yn erbyn eu Meiſtraid?

Att. 1. Anufuddhâu a gwrthddywedud ein Meiſtraid, a fiarad yn gyndyn yn eu herbyn. *Dŷn i'r fall, a gŵr anwir, a rodia â genau cyndyn.* Diar. vi. 12. Tit. ii. 9.

2. Anffyddlondeb yn Achoſion ein Meiſtraid. *Daw Arglwydd y gwas hwnnw mewn dydd nad yw efe yn gwybod; ac a'i gwahana ef, ac a eſyd ei ran ef gyd â'r anffyddloniaid.* Luc xii. 46.

3. Celu'r Gwir, a dywedud Anwiredd. *Gehezi, gwas Eliſëus, a ddywedodd gelwydd wrth Naaman y gwahanglwyfus; a gwahanglwyf Naaman a lynodd wrtho ef a'i had yn dragywydd.* 2 Bren. v.

4. Dïofalwch a Syrthni yngwaith ein Meiſtraid. *Y gwas drwg a diog a fwrir i'r tywyllwch eithaf; lle bydd wylofain a rhingcian dannedd.* Mat. xxv. 26—30.

5. Gwrthwynebu Cyngor a Cheryddon ein Meiſtraid. *Gŵr a gerylder yn fynych, ac a galeda ei war, a ddryllir yn ddiſymmwth, fel na byddo meddyginiaeth.* Diar. xxix. 1.

Cw. Beth yw Dyled Pennauteuluoedd i'w Gwaſanaethwyr?

Att. 1. Edrych am iddunt hwy a'u Teulu wafanaethu
uw. *Joſua a ddywedodd, Myfi a'm tylwyth a wafanaeth-*
n yr Arglwydd.—A Chornelius oedd wr defoſiynol, yn ofni
Duw, ynghŷd â'i holl dŷ. Joſ. xxiv. 15. Act. x. 2.

2. Dewis iddunt Deulu duwiol, fel y llwyddont. *Laban*
welodd fod Duw yn ei fendithio, tra fu Jacob yn was
ldo.—A Duw a fendithiodd dŷ Putiphar, er mwyn Jo-
ph. Gen. xxx. 27. xxxix. 4, 5.

3. Gyrru'r drygionus oddi wrthunt, na fynno ddïwygio.
Ti thrig o fewn fy nhŷ yr un a wnelo dwyll: ni thrig yn
ngolwg yr un a ddywedo gelwydd. Sal. ci. 7.

4. Edrych am i'w Teulu gadw y Sabboth. *Na wna yn-*
do ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th waſ-
naethwr, na'th waſanaethferch. Ecſod. xx. 10.

5. Darparu i'w Teulu Gynhaliaeth gyfaddas iddunt. *Od*
s neb heb ddarbod dros yr eiddo, ac yn enwïdig ei deulu;
fe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw nâ'r di-ffydd. 1 Tim.
8.

6. Delio yn gyfiawn â'u Teulu. *Y meiſtraid, gwnewch*
ch gweiſion yr hyn ſydd gyfiawn ac unjawn; gan wybod
d i chwithau Feiſtr yn y neſoedd. Col. iv. 1.

7. Ymddŵyn yn dirion, nid yn draws, tu ag attunt. *A*
rchymmyn iddunt, fel Abraham, i gadw ffordd yr Ar-
lwydd. Gen. xviii. 19.

Cw. Pa rai yn bennaf yw Pechodau Pennauteuluoedd yn
byn y pummed Gorchymmyn?

Att. 1. Gorchymmyn i'w Gwaſanaethwyr y peth fo'n
ghyfreithlon. *Rhaid yw ufuddhâu i Dduw yn fwy nag*
ddynion. Act. v. 29.

2. Delio yn galed â'u Gwafanaethwyr. *Pharao a fyn-*
i briddfeini heb wellt gan ei weiſion; a'i ddïwedd oedd,
ddi yn y Môr Coch. Ecſod. v. a xiv.

3. Attal Cyflogau eu Gwaſanaethwyr. *Duw ei hun a*
dd dyſt cyflym yn erbyn camattalwyr cyflog y cyflogedig.
al. iii. 5. Jago v. 4.

4. Gadael eu Teulu heb Addoliad Duw a Gweddi. *Ty-*
ilit dy lid ar y cenhedloedd ni'th adnabuant, ac ar y
uluoedd ni alwäſant ar dy Enw. Jer. x. 25.

Cw. Beth yw'ch Dyled i bawb o'ch Gwell?

Att. 1. Mi ddylwn ymddŵyn yn barchus tu ag attunt.
ydded yr jeuainge yn oſtyngedig i'r henuriaid.—Cyſod

ger

ger bron penwynni, a phatcha wyneb henuriad. 1 Pe
v. 5. Lef. xix. 32.

2. Mi ddylwn fod yn bwyllog yn fy Ymadrodd; ac n
yn awyddus i ddywedud fy Rhefwm o flaen fy Ngwe
Elihu a arhofai nes darfod i Job a'i gyfeillion lefaru;
blegid eu bod hwy yn hyn nag ef. Job xxxii. 4—7. Jago i.
Diar. xvii. 27.

3. Mi ddylwn roddi 'r blaen iddunt. *Pan y'th wahodd*
gan neb i neithior, nac eiſtedd yn y lle uchaf; rheg bod
anrhydedduſach nâ thi wedi ei wahodd ganddo. Luc xiv.
Rhuf. xii. 10.

4. Mi ddylwn eu cynghori megis Tadau, ac nid eu cerydd
fel eraill, pan welwyf Fai ynddunt. 1 *Tim.* v. 1, 2.

5. Mi ddylwn dybied fy Nghydraddau yn well nâ mi
naill ai yn fwy gwybodus, neu'n fwy doniol, neu'n fwy gra
ol; neu wedi pechu llai, neu wneuthur mwy o Ddaion
Mewn goſtyngeiddrwydd tybiwch eu gilydd yn well nâ ch
eich hunain. Phil. ii. 3.

Cw. Beth yw'ch Dyled tu ag at y rhai iſel Radd?

Att. 1. Mi ddylwn ddangos Parch dyledus i'r rhai i
Radd. *O blegid ein Harglwydd a ddywedodd, Edrychw*
na ddirmygoch un o'r rhai lleiaf hyn. Mat. xviii. 10. 1 Sa
ii. 3.

2. *Ni a ddylem gynnal gwendid y rhai gweiniaid;*
nid rhyngu ein bodd ein hunain.— Na chaeda dy galon,
na chau dy law oddi wrth dy frawd tlawd. Rhuf. xv.
Deut. xv. 7, 8. Jago i. 27.

3. Mi ddylwn geryddu eu Beiau hwynt yn ddiarbed.
chasâ dy frawd yn dy galon: gan geryddu ceryddа
gynnmydog, ac na ddioddef bechod ynddo. Lef. xix. 17.

4. Mi ddylwn fod, nid yn frochus, eithr *mewn cari*
brawdol yn garedig iddunt. Heb roi 'n meddwl ar uch
bethau; eithr yn gydoſtyngedig â'r rhai iſel radd. Rh
xii. 10, 16.

5. Mi ddylwn ymddŵyn tu ag attunt hwy, a phawb
ol Cyngor Crift. *Pa bethau bynnag oll a ëwyllyſioch*
gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithe
iddunt hwy.— Gwneler eich holl bethau chwi mewn cari
Mat. vii. 12. 1 Cor. xvi. 14.

Cw. Beth yw y chweched Gorchymmyn?

Att. Na ladd.

Cw. Am ba beth y mae'r Gorchymmyn hwn?

Att. Am Ddiogelwch Einioes pob Dŷn: ſef, na bo i neb ddd na drygu Bywyd undyn.

Cw. Onid yw yn gyfreithlon i roddi rhai i Farwölaeth?

Att. 1. Mae'n gyfreithlon i Farnwyr roddi Drwgweithredyr i Farwölaeth. *Deut.* xix. 21.

2. Mae'n gyfreithlon i ladd ein Gelynion mewn Rhyfel, yn Amddiffynniad ein Heinioes ein hunain. *Num.* x. 9. *Ecſod.* xxii. 2, 3.

3. Pan ddigwyddo i neb ladd un arall yn ddi-fwriad, y mae efe, wrth Gyfraith Dduw, yn ddieuog. *Deut.* xix. 5.

Cw. A ydyw'n Bechod i Ddyn ddiſtrywïo ei hun?

Att. Ydyw yn ddiammeu yn Bechod 'ſgeler jawn. Canys, Mae'r neb a ddiſtrywïo ei hun, yn diſtrywïo Delw Duw, Theml Dduw, ac yn torri Gorchymmyn Duw. *Gen.* i. 27. *Cor.* iii. 17.

2. Mae'r neb a ddiſtrywïo ei Gorph ei hun, yn damnio Enaid ei hun; trwy farw yn y Pechod o Fwrdra, heb Amſer i edifarhâu. *Luc* xiii. 3.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn y chweched Gorchymmyn?

Att. Pob peth ag ſydd nïweidiol i Einioes Dŷn. Sef, Pob Anghymmedroldeb, ac Anfoddlonrwydd gofidus; ſy'n nïweidiol i Jechyd ac Einioes Dŷn ei hun.

2. Dïofalwch am ein Calonnau. *Canys o'r galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, a drygau eirif.* Mat. xv. 19.

3. Llid a Chaſineb. Canys, *Pob un a'r y ſydd yn casâu ei frawd, lleiddiad dŷn yw.* 1 Joan iii. 15.

4. Cynſigennu wrth eraill. *Hyn a barodd i Gain ladd Abel ei frawd.* 1 Joan iii. 12.

5. Cam-farn a Cham-dyſtiolaeth. *Trwy'r hyn y lladdwyd Criſt ei hun, a llawer eraill.*

6. Pob rhyw Gynhennau, Poethder, a Balchder, Cybyddod, a Meddwdod; ag y fuont achos o Lofruddiaeth ynnych. 1 *Bren.* xix. a'r xxi. *Eſter* iii.

7. Mae diſetha Baban yn y Groth, a pheri i Feichiogi enyw fyned oddi wrthi, yn euog o Farwölaeth. *Ecſod.* xi. 23.

Cw. Pa Ddyledſwyddau a erchir yn y chweched Gorymmyn, tu ag at Ddiogelwch ein Bywyd ein hunain?

Att.

Att. 1. Arferiad cymhedrol o'r Moddion angenrheidiol i gynnal ein Bywyd. *Diar.* xxv. 16.

2. Gweddïo am Fendith ar Foddion Bywyd; ac ar i Dduw ein cadw rhag pob Peryglon. 1 *Tim.* iv. 3, 5.

3. Bod yn gyfurus yn ein Blinderau. *Canys y mae trift-wch y byd yn gweithio angau.* 2 Cor. vii. 10. Diar. xvii. 22.

4. Ymgadw yn Ofn Duw; rhag i Satan ein temtio i ladd ein hunain; fel *Ahitophel*, *Saul*, a *Judas*.

5. Ymadrodd pwyllog; rhag i Eiriau ſarrug gyffrôi Llid eraill i'n lladd ni, fel y cyffrôdd *Nabal Ddafydd.* 1 Sam. xxv. Diar. xiii. 3.

6. Ffoi o ŵydd y Digllon, nes cilio eu Digofaint; fel *Jacob* oddi wrth ei frawd *Eſau.* Gen. xxvii.

Cw. Pa Ddyledſwyddau a orchymynnir ymma tu ag at gadw Bywyd eraill?

Att. 1. Agor ein Genau dros y Mud, yn Achos Plant Di-nyſtr, pan ſont yn dïoddef ar gam. *Diar.* xxxi. 8.

2. Rhagflaenu Perygl eraill. *Megis y perſwadiodd Reuben ei frodyr rhag lladd Joſeph. A'r bobl Saul, rhag lladd Jonathan ei fab.* Gen. xxxvii. 1 Sam. xiv.

3. Anturio'n Bywyd dros Fywyd eraill o'n gwell ni. *Fel Obadïa dros y Prophwydi. A Phriſcila ac Acwila dros Paul.* 1 Bren. xviii. Rhuf. xvi. 3, 4.

4. Na adawöm Dramgwydd ar Ffordd neb, er Niweid iddunt; rhag i'w Gwaed ſod arnom ni. *Megis camfa ſerth ar lwybr, neu bwll heb ei gau, neu bont heb ganllaw.* Deut. xxii. 8 Ecſod. xxi. 33, 34.

5. Bod yn eluſengar i'r Tlodion; rhag i neb farw a nych o Ddiffyg. *Job* xxxi. 17—22.

Cw. Pa Eſamplau ſydd yn y 'Sgrythur am Farn Duw ar Fwrddrwyr?

Att. 1. *Y Brenhin Dafydd a ddyfeiſiodd i ladd Uria: o thri o'i feibion ef a laddwyd ar ol hynny; ac un o honun a laddodd ei frawd, ac a fwriadodd i ladd Dafydd ei dad.* 2 Sam. xii. 9, 10.

2. *Joas brenhin Juda a barodd ladd Zecaria, am ei ry buddio ef o'i bechod: a Duw a ddygodd arno lu o elynion a chleſydau mawr; a'i weiſion ei hun a'i lladdaſant ef a ei wely.* 2 Cron. xxiv.

3. *Pharao brenhin yr Aipht a barodd foddi plant gwr ryw iaid pobl Iſräel: yntef ei hun a'i holl lu a foddwyd yn y Môr Coch.* Ecſod. xi. 22. iv. 26—28.

4. Zimri

4. *Zimri*, gwas *Asa* brenhin *Juda*, a laddodd ei feistr yn ddw, i gael y frenhiniaeth iddo ei hun; ond, ymhen wythos, dychryn a chyfyngder a'i gyrrodd ef i lofgi ei hun yn hŷ'r brenhin. 1 *Bren.* xvi.

Cw. Beth yw y feithfed Gorchymmyn?

Att. Na wna Odineb.

Cw. Am ba beth y mae'r feithfed Gorchymmyn?

Att. 1. Am Ffyddlondeb Gwŷr a Gwragedd i'w gilydd.

2. Am y Dïweirdeb a ddylai fod ym mhawb.

Cw. Pa'm y gorchymynnir, *Na odineba*, yn nefaf at, *Na ladd*?

Att. 1. Am mai'r Pechod mwyaf nefaf at *Ladd*, yw *Godineb*. 2. Am y dylai'n Dïweirdeb fod mor anwyl gennym n Bywyd.

Cw. Pa Bechodau a waherddïr yn y feithfed Gorchymmyn?

Att. 1. Y Godineb a wneler pan fyddo'r ddau, neu'r naill honunt, yn briod. *Lef.* xviii. 20.

2. Putteindra rhwng dau a fo'n fengl. *Deut.* xxiii. 17.

3. Llofgach ffiaidd Gwrrywgydwyr â'u gilydd. *Lef.* xx. 13.

4. Priodafau anghyfreithlon. *Lef.* xviii. 6, 29.

5. Ymadael â'u gilydd ar ol priodi. 1 *Cor.* vii. 2.

6. Cymmyfgedd halogus ag Anifeiliaid. *Lef.* xx. 15.

7. Trais ar un o anfodd. *Deut.* xxii. 25.

8. Hunan-halogiad; neu Bechod *Onan*. Gen. xxxviii. 10.

9. Chwennychiad aflan; fef, Godineb y Galon. *Mat.* v.

10. Chwedlau, Caneuau, Gwifgadau, ac Ymddygiad anweddaidd; Segurdra, a phefgi'r Cnawd; a phob peth y fo ennyn Chwantau godinebus. *Eph.* v. 3, 4. *Efay.* iii. 16, 17. *Ezec.* xvi. 49, 50. xxiii. 14, 16.

Cw. Beth a ddywaid y 'Sgrythur am Odineb?

Att. 1. Mae'n Bechod yfgeler; fel tân yn yfu hyd oni rheithio, ac yn dadwreiddio holl ffrwyth y neb a'i gwnelo. *Job* xxxi. 11, 12.

2. Yr Arglwydd a ddywaid am *yr hwn a odinebo gyd â wraig ei gymmydog, Lladder yn farw y godinebwr a'r godinebwraig.—A'r llangces* (ni chaffer yn forwyn pan briodhi) *a ddygant at ddrws ty ei thad; a dynion y ddinas a'i llabyddiant hi â meini, nes iddi farw.* Lef. xx. 10. Deut. xxii. 20, 21.

3. Mae

3. Mae Godineb yn troi holl ferch dŷn oddi wrth Dduw a phob Daioni. *Godineb a gwin newydd a ddwg y galon ymaith.* Hos. iv. 11.

4. Mae Godineb yn halogi *Teml Ddûw*; ac *yn gwneuthur Aelodau Crist yn aelodau puttain.* 1 Cor. iii. 16, vi. 15.

5. *O blegid y fenyw butteinig y daw dŷn i dammaid fara.—Archoll a gwarth a gaiff efe, a'i gywilydd ni ddileir.—Hyd oni ddryllio'r saeth ei afu ef.* Diar. vi. 26, 33. vii.

6. Mae Godineb yn damnio dau Enaid ar unwaith. Hudo iaeth y Buttain a rwystra iddunt ddychwelyd. *Pwy bynnag a elo i mewn atti hi, ni ddychwelant, ac nid ymaflant o llwybrau'r bywyd.—Fforddi uffern yw ei thŷ hi, yn disgyn i'ſtafelloedd angau.* Diar. ii. 19. vii. 27.

7. Mae Duw ei hun yn *Dyſt cyflym yn erbyn y godinebwyr.—A Melldigedig yw eu rhandir hwy ar y ddaear.* Mal. iii. 5. Job xxiv. 15, 18.

Cw. Pa Eſamplau ſydd yn yr Yſgrythur o Farn Duw ar Odinebwyr?

Att. 1. *Duw a darawòdd Pharao â'i deulu â phlâu mawrion, am gymmeryd Sarai, gwraig Abraham, i'w wneuthur na halogwyd hi.* Gen. xii.

2. *Sichem, mab Hemor, a laddwyd, a phob gwrryw a oedd yn perthyn iddo, am dreiſio Dina.—Ac Amnon a laddwyd am dreiſio Tamar.* Gen. xxxiv. 2 Sam. xiii.

3. *Samſon, trwy hudoliaeth ei ordderchwraig, a gollodd ei nerth, a'i lygaid, a'i fywyd.* Barn. xvi.

4. *Pedair mil ar hugain a laddwyd â'r pla mewn un dydd, am odineb Zimri a Chosbi; a thwyntau eu hunain a wanwyd â gwaywffon trwy eu ceudod, yngweithred eu godineb.* Num. xxv. 6—9.

5. *Deugain mil o wŷr Juda, a phum mil o wŷr Benjamin, a laddwyd â'r cleddyf, o achos godineb un noſwaith.* Barn. xix. a xx.

6. *Nabucodonoſor brenhin Babilon a roſtiodd wrth y tân ddau gau brophwyd, am eu godineb.* Jer. xxix.

7. *Sodom a Gomorra, am eu putteindra, a oſodwyd yn eſampl; gan ddioddef dialedd tân tragywyddol.* Jud. Gen. xix.

Cw. Pa Ddyledſwyddau a erchir yn y ſeithfed Gorchymyn?

Att. Pob peth a berthyn at gadw'n Dïweirdeb. Sef,

1. Rhoc

1. Rhoddi ein hunain i Dduw, megis rhai o feirw yn fyw; nid i Aflendid a Godineb. *Rhuf.* vi. 13, 19.

2. Dilyn Sancteiddrwydd; ag fy'n wrthwyneb i chwantau an. *Canys hyn yw ëwyllys Duw; ſef, eich ſanctaiddiad ai, ar ymgadw o honoch rhag godineb.* 1 Theſ. iv. 3.

3. *Coſpi'r corph, a'i ddwyn yn gaeth* (trwy Gymmedrol- a Sobrwydd, Dyfalwch yn ein Gwaith, ac Ymprydiau) *ag i ni fod yn anghymmeradwy.* 1 Cor. ix. 27.

4. Dyfal-fyfyrio ar Bethau yſprydol, a ddyſgir i ni yng gair Duw. *Rhodiwch yn yr Yſpryd, ac na chyflawnwch achwant y cnawd.* Gal. v. 16.

5. Cilio oddi wrth bob Profedigaethau a fo yn ennyn wantau cnawdol. *Chwantau jeuengctid, ffo oddi wrth- t.—Chwant, wedi ymddŵyn, a eſgor ar bechod; pechod fyd, pan orphener, a eſgor ar farwölaeth.* 2 Tim. ii. 22. go i. 15.

6. Bod i'r rhai ni allant ymgadw yn ddïwair, briodi. *wys gwell yw priodi nag ymloſgi.* 1 Cor. vii. 2, 9.

7. Bod i'r rhai a briodant, gyflawni eu Dyled i'w gilydd. ſ, y Gwŷr i'w Gwragedd, a'r Gwragedd i'w Gwŷr.

Cw. Beth yw Dyled Gwŷr i'w Gwragedd?

Att. 1. Mawrhâu eu Gwragedd, a'u caru. *Y gwŷr, cerwch h gwragedd, megis y carodd Criſt ei eglwys, ac a'i rhoddes hun droſti. Felly y dylai y gwŷr garu eu gwragedd, megis cyrph eu hunain.* Eph. v. 25, 28. Col. iii. 19.

2. Cadw yn ddïwair i'w Gwragedd. *Anrhydeddus yw iodas ym mhawb, a'r gwely dihalogedig: eithr pu- inwyr a godinebwyr a farna Duw.* Heb. xiii. 4.

3. Cydfyw â'u Gwragedd. *Y peth a gyſſylltodd Duw, yſgared dŷn.* Marc x. 2—9.

4. Parchu eu Gwragedd, *megis y lleſtr gwannaf, fel rhai gydetifeddion gras y bywyd; rhag rhwyſtro eich gweddïau.* Pedr iii. 7.

5. Arferu eu Gwragedd mewn Sancteiddrwydd a Pharch. *d mewn gwŷn trachwant, megis y cenhedloedd nid ad- aenant Dduw.* 1 Cor. vii. 3—5. 1 Theſ. iv. 4, 5.

6. Cyſuro eu Gwragedd dan eu Blinderau. *Pan oedd anna yn ofidus, am nad oedd mab iddi; Elcana ei gŵr a ywedodd, Hanna, paham yr wyli? a phaham na fwyttâi? haham y mae yn flin ar dy galon? onid wyfi yn well i ti deg o feibion?* 1 Sam. i. 6, 8.

7. Dyled y Gwŷr a'r Gwragedd hefyd, yw, cynghori eu gilydd

gilydd yn Achos eu Heneidiau. *Beth a wyddoſt ti, wr, a gedwï di dy wr? beth a wyddoſt tithau, wr, a gedwi dy wraig?* 1 Cor. vii. 16.

8. Dyled y Gwŷr yw, gwrthod Cyngor drwg eu Gwr edd. *Gwraig Job a ddywedod wrtho* (yn ei ofid chwer *Melldithia Ddiww, a bydd farw. Ond efe a ddywed wrthi, Llefaraiſt fel y llefarai un o'r ynfydion.* Job 2, 10.

Cw. Beth yw Dyled Gwragedd i'w Gwŷr?

Att. 1. *Ymoſtwng i'w gwŷr priod, megis i'r Arglwy O blegid y gŵr yw pen y wraig, megis y mae Criſt yn i'r eglwys.* Eph. v. 22—24.

2. *Edryched y wraig ar iddi berchi ei gŵr.—Megis ufuddhaodd Sara i Abraham, gan ei alw ef yn arglwy* Eph. v. 33. 1 Pedr iii. 6.

3. Ymddŵyn yn ſwynaidd tu ag at eu Gwŷr a'u Tylwy *Gwell yw aros yn yr anialwch, nâ chyd â gwraig anym ddigllon.* Diar. xxi. 19. xxvii. 15.

4. Rhoddi Eſampl dda i Wragedd eraill. *I fod yn buw og, i garu eu gwŷr, i garu eu plant; yn ſobr, yn bur: gwarchod gartref; yn ddaroſtyngedig i'w gwŷr priod; na chabler gair Duw.* Tit. ii. 4, 5.

5. Ymarweddiad gweddaidd a dïwair tu ag at eu Gw *Fel, od oes neb heb gredu i'r gair, y galler, trwy ym weddiad y gwragedd, eu hynnill heb y gair, wrth edry ar eich ymarweddiad dïwair chwi ynghŷd ag ofn.* 1 P iii. 1—4.

6. Cynghori a chyſuro eu Gwŷr yn eu Blinderau, yn o ag allont. *Rahel a roes gyngor da i Jacob ei gŵr, p oedd Laban ei thad yn draws iddo. — Gwraig Manoa gyſurodd ei gŵr, pan oedd efe dan lawer o frew ac e* Gen. xxxi. Barn. xiii.

7. Cadw eu Gwŷr yn hardd; ac ymddŵyn fel y Wr rinweddol. *Hynod yw ei gŵr hi yn y porth, pan eiſted gyd â henuriaid y wlad. Hi a egyr ei genau yn ddoeth; chyfraith trugaredd ſydd ar ei thafod hi. Hi graffa ffyrdd tylwyth ei thy: ac ni fwytty hi fara ſeguryd.* Di xxxi. 23, 26, 27.

8. Na bo i'r Gwragedd gyffrôi, na chydſynio â'u Gw i bechu. *Ananïas a'i wraig Saphira a gyttunaſant ddywedud celwydd; a ſyrthiaſant ill dau yn farw.—Jeze bel, gwraig Ahab, a'i hannogodd ef i ddrygioni; a diſtry*

greſyn

ſynus a ddaeth arnunt ill dau, a'u heppil gyd â hwynt. v. 1 Bren. xxi.

Cw. Beth yw'r wythfed Gorchymmyn?

Att. Na ladratta.

Cw. Am ba beth y mae'r Gorchymmyn hwn?

Att. Am ein Dyled i fod yn oneſt; ac na bo Colled i ddiant neb o'n plegid ni.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn yr wythfed Gorchymn?

Att. Pob Pechodau a fo'n tueddu i golledu neb yn eu ddiant. Sef, 1. Pob math o Ladradau ac Yſpeiliad, a wiwiatta, er lleied a fyddo. *Luc* xvi. 10.

2. Delio'n hoccedus a gorthrymmus wrth Brynu a Gwerthu. f. xxv. 14.

3. Pob Anghyfiawnder a Chamwedd, neu gelu'r Camdd a wnelo neb arall. *Sal.* l. 18.

4. Cam Feſurau, a cham Bwyſau. Canys, *Ffiaidd gan yr lwydd bob un o'r ddau.* Diar. xx. 10.

5. Pob Anwiredd, neu gam Dyſtiolaeth, ag y fo'n Achos olled i neb yn eu Meddiant. *Diar.* xii. 17.

6. Gadael Dyled neb heb ei dalu. A'r peth a fenthyccir, ei roi yn ol drachefn. *Lef.* xix. 13. *Sal.* xxxvii. 21.

7. Pob Ocreth, neu Dâlment anghyfreithlon am Echwyn. od. xxii. 25.

8. Symmud Ffiniau rhwng Tiroedd. *Canys melldigedig r neb a wnelo felly.* Deut. xxvii. 17.

9. Syrthni a Segurdra; trwy'r hyn y mae llawer yn bwytta a lladradaidd. 2. *Theſ.* iii. 10.

10. Gloddeſtau a Meddwdod, Diſyrrwch ofer a Chwaon, neu fyw yn uwch na'u Moddion; trwy'r hyn y mae i yn yſpeilio eu Gofynwyr, a'u Tylwyth eu hunain hefyd. ar. xxi. 17.

Cw. Pa Ddyledſwyddau a erchir yn yr wythfed Gormmyn?

Att. Pob peth ag ſydd ddyledus tu ag at i bob dŷn gael ynhâu ei Feddiant ei hun. Sef, 1. Rhagflaenu Colled i eraill yn eu Moddion, hyd ag allom ni. *Deut.* xxii. 3.

2. Ceiſio Llwyddiant i eiddo eraill, ac nid i'r eiddo ein hain yn unig. *Phil.* ii. 4.

3. Talu

3. Talu'n Dyled yn ddigymmell. Canys Lladrad cadw eiddo neb oddi wrthunt. *Rhuf.* xiii. 7, 8.

4. Rhoddi yn ol y Gwyſtl a roddo'r Anghenus i ni Fenthyg. *Deut.* xxiv. 12.

5. Dyfalwch yn ein Galwëdigaeth, am Gynhaliaeth on fel na themtier ni i ladratta. *Eph.* iv. 28. *Diar.* xxviii.

6. Cynnal y Gweiniaid; fel na themtier hwy i ladratt Newyn. 1 *Joan* iii. 17.

7. Delio mor gyfiawn a chymmwynaſol ag eraill, ag ëwyllyſiem i eraill ddelio â ni. *Mat.* vii. 12.

Cw. Pa Eſamplau ſydd yn yr Yſgrythur o Farn Duw Droſeddwyr yr wythfed Gorchymmyn?

Att. 1. Mae'r rhai chwannog i Elw anghyfiawn, t Farn Duw, *yn cynllwyn am eu gwaed eu hun: am eu nioes eu hun y maent yn llechu.* Diar. i. 18, 19.

2. *Fel petris yn eiſtedd, ac heb ddeor, yw'r hwn a gyfoeth yn annheilwng: yn hanner ei ddyddiau y hwynt, ac yn ei ddiwedd ynfyd fydd.* Jer. xvii. 11.

3. Y bobl gynt a orthrymmaſant y Truan a'r Tlawd anghyfiawn. *Am hynny* (medd yr Arglwydd) *y tywell fy nigofaint arnunt*; *â thân fy llidiowgrwydd y defet hwynt.* Ezec. xxii. 29, 31.

4. *Acan* a'i Deulu, a'r cwbl ag y ſeddai, a loſgwy thân, am iddo ladratta rhan o Yſpail *Jerico.* Joſ. vii.

5. *Balaam* a laddwyd â'r cleddyf, am ei Drachwa Elw anghyfiawn. *Joſ.* xiii.

6. Dinyſtr ddychrynllyd a ddaeth ar *Ahab*, a'i Wraig, Eppil, am ddwyn Gwinllan *Naboth* oddi arno. 1 *Bren.*

7. Mae Trachwant i Elw'r Byd *yn boddi dynion i di a cholledigaeth. Ni chaiff y cybyddion na chribddeil etifeddu teyrnas Dduw.* 1 Tim. vi. 9. 1 Cor. vi. 9, 10.

Cw. Beth yw y nawfed Gorchymmyn?

Att. Na ddwg gam dyſtiolaeth yn erbyn dy G mydog.

Cw. Am ba beth y mae'r nawfed Gorchymmyn?

Att. Am fy Nyled i roddi Tyſtiolaeth gywir am Fod ac Enw da, a phob peth a berthyn i'm Cymmydog.

Cw. Pwy a feddylier ymma wrth Gymmydog?

Att. Nid yn unig y rhai a fo yn byw yn agos at eithr pob Dŷn arall hefyd. *Mat.* xxii. 39.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn y nawfed Gorch myn?

Att. 1. Pob math o Gelwydd ac Anwiredd. *Ffiaidd gan Arglwydd wefuſau celwyddog.—O'u tad diaſol y maent* *y.* Diar. xii. 22. Joan viii. 44.

2. Pob cam Lw, a thyngu yn anudon. *Melldith Ddaw* *ydd ar ben y neb a dyngo ar gam: hi a erys ynghanol ei* *ac a'i difa ef, a'i goed, a'i gerrig.* Zec. v. 4.

3. Gwobrwyo eraill i gamdyngu; megis y gwnaeth raig *Ahab*, i'w dinyſtr ei hun. 1 *Bren.* xxi.

4. Camdrôi a gŵyro Geiriau Dynion eraill. *Megis yr* *erodd yr Juddewön i Griſt ddywedud, y diſtrywiai efe y* *ml, ac y cyfodai hi mewn tridiau; pan na ddywedaſai* *iſt ond am deml ei gorph.* Joan ii. 19. Marc xiv. 58.

5. Camfarnu Gweithredoedd Dynion eraill. *Megis y* *wedodd yr Juddewön, mai trwy Feelzebub yr oedd Griſt* *bwrw allan gythreuliaid.* Mat. xii. Act. ii. 13.

6. Cablu Enwau da Dynion eraill; megis y dywedodd yr *ddewön* am Griſt. *Mai dyn glwth, yſwr gwin, ac mai* *faill publicanod a phechaduriaid, oedd efe.* Mat. xi. 19.

7. Pob cam Achwynion. *Fel y dygodd yr Juddewön* *xwynion trymion yn erbyn Paul, y rhai ni allent ei* *ſi.* Act. xxv. 7.

8. Cyhuddo peth dinïweid, i Ddiben drwg. *Megis y* *uddodd Döeg Ahimelec yr offeiriad; ac a barodd lanaſ-* *greulon jawn ar lawer.* 1 Sam. xxii. Diar. xxiv. 28.

9. Enllibio Dynion yn eu Cefnau. *Y rhagrithiwr â'i* *u a lygra ei gymmodog.— Eithr Duw a'u ſaetha* *ynt: â ſaeth ddiſymmwth yr archollir hwynt.* Diar. 9. Sal. lxiv. 7. Deut. xxvii. 24.

10. *Dywedud am y da, mai drwg yw; ac am y drwg,* *ida yw; cyfiawnhâu 'r drygionus, a chondemnio'r gwir-* *: gwae hwy! ffiaidd gan yr Arglwydd ydynt.* Eſay v. Diar. xvii. 15. xxiv. 24.

Cw. Pa Ddyledſwyddau a erchir yn y nawfed Gorchym- n?

Att. 1. Tyſtiolaethu'r Gwirionedd yn gywir, ac yn ddidu- . *Y neb a ddywedo'r gwir, a ddengys gyfiawnder:* *gau dyſt a draetha dwyll.* Diar. xii. 17. xix. 5.

2. Na chyfodom ni Enllib yn erbyn neb; na dodi llaw l â'r Annuwiol i fod yn Dyſt anwir. *Ecſod.* xxiii. 1.

3. Na dderbyniom ni'r Enllib a gyfodo eraill yn erbyn ; *gan bwyſo yn ol llaweroedd i wyro barn.* Sal. xv. 3. od. xxiii. 1, 2.

4. Chwilio allan y Gwirionedd, i ſarnu am bob Tyſli laeth yn gywir. *Na ſarnwch wrth y golwg, eithr barnw ſarn gyfiawn.* Joan vii. 24. Sal. lxxxii 2. Deut. xix. 18, 1

5. Ymddiffyn eraill, pan wypom eu bod yn dioddef tr gam Dyſtiolaeth. *Megis yr ymddiffynnodd Jonathan Dd ſydd, pan oedd Saul ei dad yn dywedud ar gam yn ei erb ef.* 1 Sam. xix. 4—6. Jer. xxii. 3.

6. Dywedud y gwir yn ddidwyll, heb abſen ddrwg i ne *Cadw dy dafod rhag drwg, a'th weſuſau rhag adrodd twy* Sal. xxxiv. 13.

Cw. Pa Eſamplau ſydd yn yr Yſgrythur o Farn Duw Droſeddwyr y nawfed Gorchymmyn?

Att. 1. *Trwy dderbyn cam-dyſtiolaeth y ſarph am y ffrw gwahardddedig, y cwympodd ein Rhieni cyntaf, a'u h Hiliogaeth, i gyflwr colledig.* Gen. iii.

2. *Yſpïwyr a ddanfonodd Moſes i chwilio gwlad Cana a laddwyd â'r pla yn y diffeithwch, am roddi gair drwg i wlad.* Num. xiv.

3. *Meibion Ammon a boenydiwyd yn chwerw dan lifia ac ogau heiyrn, a hwyill heiyrn, ac a fwriwyd i'r odyn calch; am ddywedud yn enllibiog am genhadau Dafy* 2 Sam. x. 1—5. xii. 26—31.

4. *Jezebel, gwraig Ahab, a ddamſeiniwyd dan drae farwölaeth; a'r cwn a fwyttaſant o'i chnawd hi; a gyflogi gau dyſtion yn erbyn Naboth.* 1 Bren. xxi. 2 Bren. i

5. *Haman a grogwyd ar y crogpren a gyfodaſai efe hun, am gamachwyn ar yr Judaewön wrth Ahasferus brenhin.* Llyfr *Eſter.*

6. *Gwraig Amazia, offeiriad Bethel, a aeth yn butta a'i blant a laddwyd, ac yntef a fu farw mewn caethiwe am lyfelu anwiredd ar Amos y prophwyd.* Amos vii. 10—1

7. *Yr Juddewön a ddiſtrywiwyd yn echrydus, a'u hep ydynt dan farn a melldith Dduw hyd heddyw, am eu c dyſtiolaeth yn erbyn Criſt a'i Apoſtolion.*

Cw. Beth yw y degfed Gorchymmyn?

Att. Na chwennych dŷ dy Gymmydog, na chwe nych wraig dy Gymmydog, na'i waſanaethwr, n waſanaethferch, na'i ŷch, na'i aſyn, na dim a'r y ſy eiddo dy Gymmydog.

Cw. Am ba beth y mae'r degfed Gorchymmyn?

Att. Am ein Dyled i edrych na chwennychom yn ein Calonnau ddim o eiddo neb yn anghyfreithlon.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn y degfed Gorchymmyn?

Att. Pob peth a fo'n magu Chwennychiad pechadurus. Sef, 1. Anfoddlonrwydd i'n Cyflyrau ein hunain. *Ag fy'n nemtio llawer, fel Ahab, i chwennych eiddo eraill.* 1 Bren. xxi.

2. Balchder, a chwennych mwy o Ddyrchafiad, fel *Haman. Y balch a helaetha ei feddwl fel uffern: y mae fel angau, ac ni's digonir.* Hab. ii. 5, 6.

3. Cynfigen, ag fy'n chwennychu Drwg i eraill. *Fel y chwennychodd plant Jacob i ddiſtrywio Joſeph; a Saul i lad Dafydd.* Gen. xxxvii. Act. vii. 9. 1 Sam. xviii. 5—11.

4. Serch awyddus i Elw'r Byd; ag fy'n magu mwy o Drachwant. *Y neb a garo arian, ni ddigonir ag arian; na'r neb a hoffo amldra, â chynnyrch.—A gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch.* Preg. v. 10. 1 Tim. vi. 10.

5. Chwantau trythyll a moethus; ag y barodd i *Eſau* werthu ei enedigaethfraint am un ſaig o fwyd. *Gen.* xxvii. *Heb.* xii. 16.

6. Cynnwys Chwant yn y Meddwl. *Canys chwant, wedi meddŵyn, a eſgor ar bechod.* Jago i. 15.

7. Pob math o Annuwioldeb. Canys, *Enaid yr annuwiol a chwennych ddrwg.* Diar. xxi. 10.

Cw. Pa Ddyledſwyddau a erchir yn y degfed Gorchymmyn?

Att. Pob peth a berthyn i wrthwynebu Chwennychiad pechadurus. Sef, 1. Ymfoddloni i'r hyn a drefno Duw i ni. *Os bydd gennym ymborth a dillad, ymfoddlonwn ar hynny.* 1 Tim. vi. 8.

2. Diddyfnu ein Serch oddi wrth y Byd. Canys, *Y mae'r byd yn myned heibio, a'i chwant hefyd.—Y ddaear, a'r holl waith a fydd ynddi, a loſgir.* 1 Joan ii. 17. 2 Pedr iii. 10.

3. Cymmeryd yr Arglwydd yn Rhan i ni. Canys, *Yna mae'n heneidiau a ddigonir megis â mer ac â braſder*: fel na bo raiff chwennychiad anghyfiawn le ynnom. *Sal.* lxiii. 5.

4. Gweddïo Duw am *oſtwng fy nghalon at ei dyſtiolaethau ef, ac nid at gybydd-dra.* Sal. cxix. 36.

5. Marwhâu Chwantau cnawdol, ag fy'n magu Chwennychiad pechadurus. Canys, *Y rhai ſy'n eiddo Criſt, a groeſhoeliaſant y cnawd, a'i wŷniau, a'i chwantau.* Gal. v. 24.

6. Llafurio am ein Cyfreidiau'n hunain; fel na themtie ni i chwennych eiddo arall. *Act.* xx. 33, 34.

Cw. Pa Eſamplau ſydd yn yr Yſgrythur o Farn Duw ar Droſeddwyr y degfed Gorchymmyn?

Att. 1. *Chwennychiad Efa o'r ffrwyth gwaharddedig, ddygodd bob drygau i'r byd; ac a dynnodd farn marwolaeth ar holl ddynolryw.* Rhuf. v.

2. Chwennychiad cynfigennus *Cain* a barodd iddo lad *Abel* ei frawd; ac ar ol hynny yr aeth efe fel gwibiad chrwydrad ar wyneb y ddaear. *Gen.* iv.

3. *Chwennychiad Acan o'r llafn aur, a'r fantell Babi lonig dâg, a'i dygodd ef a'i holl eiddo i gael eu lloſgi â thân* Joſ. vii.

4. *Chwennychiad yr Juddewön am gig, a dynnodd ddi nyſtr arnunt. Tra'r oedd y bwyd yn eu ſafnau, y lladd wyd hwynt.* Sal. lxxviii. 30, 31.

5. *O chwennychiad pechadurus y galon, y mae po drygau yn dyfod; ag ſy'n tynnu digofaint Duw ar blan yr anufudd-dod.* Marc vii. 21—23. Col. iii. 5, 6.

Cw. Beth yr wyt ti yn ei ddyſgu yn bennaf wrth Gorchymynnion hyn?

Att. Yr ydwyf yn dyſgu dau beth: fy nyled tu a at Dduw, a'm dyled tu ag at fy Nghymmydog.

Cw. Pa beth yw dy ddyled tu ag at Dduw?

Att. Fy nyled tu ag at Dduw yw, 1. Credu ynddo ei ofni; ei garu â'm holl galon, â'm holl feddwl, â'm holl enaid, ac â'm holl nerth. 2 *Cron.* xx. 20. *Pre* xii. 13. *Luc* x. 27.

2. Ei addoli ef; diolch iddo; rhoddi fy holl ym ddiried ynddo; galw arno. *Mat.* iv. 10. 1 *Theſ.* v. 1 *Diar.* iii. 5. *Eph.* vi. 18.

3. Anrhydeddu ei Enw ſanctaidd ef, a'i Air. xxix. 2. cxxxviii. 2. lvi. 10. cxix. 161.

4. Ei waſanaethu yn gywir holl ddyddiau fy mywy *Heb.* xii. 28. *Luc* i. 74, 75.

Cw. Pa beth yw dy ddyled tu ag at dy Gymmy og?

Att. Fy nyled tu ag at fy Nghymmydog yw, 1.

garu fel fi fy hun; a gwneuthur i bob dŷn, megis y chwennychwn iddo wneuthur i minnau. *Mat.* xxii. 39. vii. 12.

2. Caru o honof, anrhydeddu, a chymmorth, fy Nhad a'm Mam. Anrhydeddu, ac ufuddhâu i'r Brenhin, a'i Swyddogion. Ymddaroſtwng i'm holl Lywiawdwyr, Dyſgawdwyr, Bugeiliaid yſprydol, ac Athrawon. Ymddŵyn o honof yn oſtyngedig, gan berchi pawb o'm gwell. *Mat.* xv. 4. 1 *Pedr* ii. 17. *Heb.* xiii. 17. 1 *Pedr* ii. 18. v. 5. ii. 17.

3. Na wnelwyf niweid i neb, ar air, na gweithred. Bod yn gywir ac yn unjawn ym mhob peth a wnelwyf. *Phil.* ii. 15. iv. 8. *Heb.* xiii. 18.

4. Na bo na chas na digaſedd yn fy nghalon i neb. Cadw o honof fy nwylaw rhag chwilenna a lladratta; 'm tafod rhag dywedud celwydd, cabl-eiriau, na drwg abſen. *Col.* iii. 8. *Eph.* iv. 28. *Col.* iii. 9. *Tit.* ii. 2. *Sal.* ci. 5. *Jago* i. 26.

5. Cadw fy nghorph mewn cymhedroldeb, ſobrwydd, a diweirdeb. *Luc* xxi. 34. *Rhuf.* xiii. 13. *Tit.* i. 12. 1 *Theſ.* iv. 3, 4.

6. Na chybyddwyf ac na ddeiſyfwyf ddâ na golud neb arall; eithr dyſgu a llafurio yn gywir, i geiſio mnill fy mywyd, ac i wneuthur a ddylwyf, ym mha yw fuchedd bynnag y rhyngo bodd i Dduw fy ngalw. *Heb.* xiii. 5. 1 *Theſ.* iv. 11. 1 *Cor.* vii. 20.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth Eſponiad y Deg Gorymmyn?

Att. 1. Mor fawr yw Cariad Duw; yn rhwymo pawb, na nelo neb Niweid i Feddiant, na Bywyd, nac Enwau da, gilydd: ac nad yw yn gwahardd, ond yr hyn ſy drwg; ac yn erchi, ond yr hyn ſy dda i ni. *Felly yn wir y mae'r deddf a'r gorchymmyn yn ſanctaidd, ac yn gyfiawn, ac a dda.* Rhuf. vii. 12.

2. Mor aneirif yw'n Pechodau, ag y dylem ni lefain ar Dduw am Edifeirwch a Maddeuant o'u plegid. *Canys yw'r ddeddf y mae adnabod pechod.* Rhuf. iii. 20.

3. Mor fawr y dylai fod ein Diolch ni am Griſt. *Trwy'r hwn y cyfiawnhêir pob un ſydd yn credu, oddi wrth yr holl bethau, y rhai nid allech trwy gyfraith Moſes gael eich cyfiawnhâu oddi wrthunt.* Act. xiii. 39.

4. Wrth yſtyriaid mor aml yw'n Troſeddau, a chymmaint yw'n Cyndynrwydd, y mae achos da i ni leſain ar ddïwedd pob Gorchymmyn, pan ddarllenir hwynt, *Arglwydd, trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw y Gyfraith hon.*

5. Ni a ddylem ddiolch i Dduw am 'ſgrifenu'r Gyfraith hon yn ei Air yn Rheol i ni; ac i ddeiſyf arno ei 'ſgrifenu hi, yn ol ei Addewïd, yn ein Calonnau. *Arglwydd, trugarhâ wrthym, a 'ſgrifena yr holl ddeddfau hyn yn ein calonnau, ni a attolygwn i ti.* Heb. viii. 10. *Amen.*

Dïwedd y Drydedd Ran.

ESPONIAD
BYR O
WEDDI'R ARGLWYDD.

Y BEDWAREDD RAN.

Cweſtiwn.

I Ba Ddiben y rhoddwyd *Gweddi'r Arglwydd*?

Att. I'n dyſgu pa fodd, ac am ba beth, i weddïo.

Cw. Beth yw Gweddi?

Att. Tywallt Deiſyfiad ein Calonnau ger bron Duw, am Bethau angenrheidiol, yn ol ei Ewyllys ef. *Sal.* lxii. 8. 1 *Joan* v. 14.

Cw. Pa ſawl math o Weddi ſydd?

Att. Pedair. 1. Gweddi Bublic, yn yr Eglwys. 2. Gweddi Deuluol, Gartref. 3. Gweddi Breifat, yn y Dirgel. 4. Gweddi'r Meddwl, heb Leferydd y Genau. *Gan weddïo bob amſer â phob rhyw weddi a deiſyfiad yn yr yſpryd.* Eph. vi. 18.

Cw. Ar bwy y dylech weddïo?

Att. 1. Nid ar Eilunod meirwön, a Delwau. *Y rhai y mae clußiau iddunt, ond ni chlywänt.* Sal. cxxxv. 17.

2. Nid ar y Seintiau, y rhai ni wyddant oddi wrthym. *Nid eduyn Abraham ni, ac Iſräel ni'n cydnebydd.* Eſay lxiii. 16.

3. Ar Dduw yn unig y dylem weddïo. *Onid â'u Duw yr ymofyn pobloedd?* Eſay viii. 19.

Cw. Pa'm y dylech weddïo ar Dduw yn unig?

Att. 1. Am mai Duw yn unig ſy'n Hollbreſennol, ac yn agos at bawb a weddïant arno. *Sal.* cxlv. 18.

2. Am mai Duw yn unig ſydd yn Hollwybodol. Ni

ŵyr neb ond Duw Ddeiſyfiad ein Calon. 1 *Bren.* viii. 39.

3. Am mai Duw yn unig ſy'n Hollalluog, ac yn abl i gyflawnu ein Deiſyfiad. *Eph.* iii. 20.

4. Am mai Rhan o'r Addoliad ſy'n ddyledus i Dduw yn unig, yw Gweddi. *Yr Arglwydd dy Ddauw a addoli; ac ef yn unig a waſanaethi.* Mat. iv. 10.

Cw. Yn Enw a Chymmorth pwy y gweddïwch?

Att. 1. Trwy Ffydd yn Enw Criſt. *Canys efe a ddywedodd, Os goſynwch ddim yn fy Enw i, mi a'i gwnaf.* Joan xiv. 14.

2. Trwy Gymmorth Yſpryd Duw. *Mae'r Yſpryd yn cynhorthwyo ein gwendid ni: canys ni wyddom ni beth a weddïom, megis y dylem.* Rhuf. viii. 26.

Cw. Dros bwy y dylech weddïo?

Att. Fe ddylai ſod *ymbiliau, gweddïau, deiſyfiadau, a thalu diolch, dros bob dyn.* 1 Tim. ii. 1.

Cw. Pa'm y dylech weddïo?

Att. 1. Am ſod Criſt yn erchu hynny. *Rhaid gweddïo yn waſtad, ac heb ddiffygio.—Gweddïwch yn ddibaid.* Luc xviii. 1. 1 Theſ. v. 17.

2. Am ſod Yſpryd Mabwyſiad yn lleſain, *Abba, Dad,* yng halonnau Plant Duw, fel na fynnant hwy fyw yn ddiweddi. *Gal.* iv. 6.

3. Am ſod Duw yn dywedud, *Galw arnaf yn nydd trallod; a mi a'th wrandawäf.* Sal. l. 15.

4. Am ſod Duw yn addaw Calon newydd ac Yſpryd newydd i'r rhai a'i ceiſiant ef. *Ezec.* xxxvi. 26, 37.

5. Am mai dynion di-Dduw yw dynion di-weddi. *Am hyn y gweddïa pob duwiol arnat, yn yr amſer y'th geffir.* Sal. xxxii. 6.

6. Am ſod Duw yn tywallt ei Lid ar y teuluoedd ni alwänt ar ei Enw ef. *Jer.* x. 25.

7. Ni a ddylem weddïo, o herwydd y Lles o honi. *Canys llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn.* Jago v. 16.

Cw. Pa lun y mae gweddïo'n gymmeradwy?

Att. 1. Trwy Ffydd, heb ammeu dim. *Beth bynnag a ofynoch mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i derbyniwch.* Mat. xxi. 22.

2. Yn wirioneddus o'r Galon, ac nid â'r genau yn unig. *Ceiſiwch fi, a chwi a'm cewch, pan y'm ceiſioch â'ch holl galon.* Jer. xxix. 13.

3. Gyd â llawer o Ymoſtyngiad o herwydd ein Gwaeledd.

ſ mae Duw yn gwrthwynebu'r beilchion; ond yn rhoddi gras i'r rhai goſtyngedig. Jago iv. 6.

4. Gyd â Dyfalwch yngwaith ein Jechydwriaeth; ac nid yn ſyrthlyd. *Enaid y diog a ddeiſyf, ac ni chaiff ddim: ond enaid y dïwyd a wneir yn fras.* Diar. xiii. 4.

5. Gyd â Bwriad i adael ein pechodau, ac i ddilyn Addoliad ac Ewyllys Duw. *Ni a wyddom nad yw Duw yn gwrando pechaduriaid: ond o's yw neb yn addolwr Duw, ac yn gwneuthur ei ëwyllys ef, hwnnw y mae yn ei wrando.* Jago ix. 31.

6. Ni a ddylem weddïo, nid weithiau, ac yn yſgafn; eithr yn yſtyriol, yn gyſſon, ac yn barchus, yn Ofn Duw. *Efe a wna ëwyllys y rhai a'i hofnant: gwrendy heſyd eu llefain, ac a'u hachub hwynt.* Sal. cxlv. 19. Eph. vi. 18. 1 Cor. xiv. 15.

Cw. Pa Sicrwydd ſydd gennych y gwrendy Duw eich Gweddïau?

Att. 1. Addewïdion Duw. *Goſynwch, a rhoddir i chwi; ceiſiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi.* Mat. vii. 7.

2. Ffyddlondeb Duw. *Nid dŷn yw Duw, i ddywedud celwydd; na mab dŷn, i edifarhâu: a ddywedodd efe, ac ni's cyflawna? a lefarodd efe, ac oni chywira?* Num. xxiii. 19.

3. Trugarowgrwydd Duw, a'i Raſlondeb. *Trugarog a raſlawn yw'r Arglwydd.—Efe a edrych ar weddi'r gwael; ac ni ddiyſtyra eu dymuniad.* Sal. ciii. 8. cii. 17.

4. Gorchymmyn Duw i ni weddïo arno; o blegid na ddichon y peth a archodd Duw, fod yn ddiles i ni. *Ni ddywedais* (medd Duw) *wrth had Jacob, Ceiſiwch fi yn ofer.* Eſay xlv. 19.

5. Eiriolaeth Criſt droſom. *Am hynny awn yn hyderus at orſeddfaingc y gras; fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymmorth cyfamſerol.* Heb. iv. 16.

6. Eſamplau eraill a lwyddaſant yn eu Gweddïau o'n blaen ni. *Ar Dduw y llefaſant, ac achubwyd hwynt.* Sal. xxii. 4, 5.

Cw. Pa Eſamplau ſydd o Lwyddiant Gweddi?

Att. 1. Trwy weddïo, wrth gerdded ar hŷd y ffordd, y cafodd Gwâs *Abraham* Lwyddiant yn ei Daith. *Gen.* xxiv.

2. Trwy Weddi *Jacob*, y tröwyd digllonedd *Eſau* ei frawd yn garedigrwydd, pan oedd yn bwriadu i ladd *Jacob*. Gen. xxxii. a xxxiii.

3. Trwy Weddi ddiſtaw *Hanna* yn ei meddwl, y cyfurwyd hi yn ei gorthrymder, fel na bu hi athriſt mwy, 1 *Sam.* i.

4. Trwy Weddi y gwaredwyd Pobl *Iſräel* oddi wrth Farnau trymmion yn fynych. 2 *Cron.* xv. 4.

5. Trwy Weddi *Jabes*, y cafodd efe ei lwyr-fendithio, ac y derbyniodd yr hyn oll a geiſiodd gan Dduw. 1 *Cron.* iv.

6. Gweddi *Dafydd* yn yr Ogof, Gweddi *Eliſëus* ynghanol ei Elynion, Gweddi *Jeremia* o Waelod y Pydew, Gweddi *Daniel* o Ffau'r Llewöd, Gweddi *Jona* o Fol Uffern, a Gweddi *Paul* a *Silas* yn y Carchar, a ddygodd Ymwared iddunt. *Sal.* lvii. a cxlii. 2 *Bren.* vi. *Jer.* xxxviii. *Dan.* vi. *Jona* ii. *Act.* vi.

Cw. Pa Reol ſy gennych i gyfarwyddo eich Gweddïau?

Att. Holl Air Duw; yn enwëdigol, *Gweddi'r Arglwydd*, a ddyſgodd Criſt i'w Ddiſgyblion. *Mat.* vi. 9—15.

Cw. P'un ai Ffurf i weddïo yn yr *un* Geiriau, neu Batrwn i weddïo yn gyffelyb iddi, yw *Gweddi'r Arglwydd*?

Att. Mae yn bob un o'r ddau. 1. Mae'n Batrwn i'n dyſgu ni i weddïo yn gyffelyb iddi. Canys yr Arglwydd a ddywedodd, *Gweddïwch chwi fel hyn.* Mat. vi. 9.

2. Mae yn *Ffurf* hefyd, i'w harferu yn yr un Geiriau. Canys yr Arglwydd a ddywedodd bryd arall, *Pan weddïoch, dywedwch, Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd.* Luc xi. 2.

Cw. Pa fath Ffurf yw *Gweddi'r Arglwydd*?

Att. 1. Ffurf ragorol; yn fyr mewn Geiriau, ac yn helaethjawn yn yr Yſtyr o honi.

2. Mae'n Ffurf ragorol, o herwydd yr Awdwr o honi. Canys Criſt, *Doethineb Duw*, a roddodd y Ffurf hon i ni.

Cw. Pa fawl Rhan fydd yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Tair Rhan. Sef, 1. Y Rhagymadrodd. 2. Y Deifyfiadau. 3. Y Diweddglo.

Cw. Beth yw y Rhagymadrodd?

Att. Ein Tad, yr hwn wyt yn y Nefoedd.

Cw. Beth a yſtyrïwch yn y Rhagymadrodd hwn?

Att. Tri pheth. 1. Teitl, neu Enw Duw; ſef, *Tad*. 2. Tad i bwy yw; ſef *ein* Tad *ni*. 3. Tad yn mha le ydyw; ſef, ein Tad yn y *Nefoedd*.

Cw. Pa ffordd y mae Duw yn Dad i chwi?

Att. Trwy Griſt Jeſu. *Cynnifer ag a'i derbyniaſant ef, efe a roddes iddunt allu i fod yn feibion i Dduw; ſef i'r fawl a gredant yn ei Enw ef.* Joan i. 12.

Cw.

Cw. Pa'm eich dyſgit i alw Duw yn *Dad*, wrth weddïo?

Att. 1. I chwanegu ein Ffydd ynddo. *Canys, fel y toſturia tad wrth ei blant, felly y toſturia'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.* Sal. ciii. 13.

2. I'n dyſgu i nesâu yn barchus at Dduw. *Mab a anrhydedda ei dad, a gweinidog ei feiſtr.* Mal. i. 6.

3. I'n hannog i daer-ymbil â Duw mewn Gweddi, fel plant ar eu tad. *Felly y gwnaeth y mab afradlon; a'i dad a doſturiodd wrtho.* Luc xv.

Cw. Pa'm eich dyſgir i ddywedud, *Ein* Tad, ac nid, *Fy* Nhad?

Att. 1. Am y dylai pawb weddïo, nid droſtunt eu hunain yn unig, eithr dros eu gilydd hefyd. *Jago* v. 16.

2. Am y dylai Pobl Dduw weddïo'n fynych gyd â'u gilydd. *Sal.* xxxiv. 3.

3. Am y dylai pawb ſy'n addoli Duw, ymddŵyn tu ag at eu gilydd fel brodyr, a phlant i'r un Tad. *Mal.* ii. 10. *Act.* vii. 26.

Cw. Pa'm eich dyſgir i ddywedud, Ein Tad, yr hwn wyt yn y *Nefoedd*?

Att. 1. I'n dyſgu i nesâu at Dduw gyd â Gwylder a pharchedig Ofn. Canys, Tad gogoneddus yn y *Nefoedd* yw Duw; ac nid fel ein tadau daearol. *Gwylia ar dy droed, pan fyddech yn myned i dŷ Dduw. Canys Duw ſydd yn y nefoedd, a thithau ar y ddaear.* Preg. v. 1, 2.

2. I'n dyſgu, fod Duw goruwch pawb, ac ar ei law i wneuthur a fynno. *Ein Duw ni ſydd yn y nefoedd: efe a wnaeth yr hyn a fynnodd oll.—Yn ei law y mae nerth a chadernid nid oes a ddichon ei wrthwynebu ef.* Sal. cxv. 3. 2 Cron. xx. 6.

3. I'n dyſgu i ymddŵyn fel dieithriaid ar y ddaear; am mai'r Nefoedd yw Ty ein Tad, a'n Cartref ni. *Gan wybod, tra yr ydym yn gartreſol yn y corph, ein bod oddi cartref oddi wrth yr Arglwydd.* 2 Cor. v. 6.

Cw. Ai yn y Nefoedd yn unig y mae Duw?

Att. 1. Ni ddichon y Nefoedd, na Nefoedd y Nefoedd, ei gynnwys ef. Canys, y mae Duw yn Hollbreſennol. 1 *Bren.* viii. 27.

2. Yn y Nefoedd yn bennaf y mae Duw yn amlygu Mawredd ei Ogoniant. *Y nef yw ei orſeddfaingc, a'r ddaear yw lleithig ei draed.* Eſay lxvi. 1.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth fod Duw'r Nefoedd yn Dad i chwi?

Att. 1. Mi ddylwn *weled, pa fath Gariad a roes y Tad arnom, fel y'n gelwïd yn feibion i Dduw.* 1 Joan iii. 1.

2. Mi ddylwn ogoneddu Duw yn fy holl Weithredoedd. *Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn ſydd yn y nefoedd.* Mat. v. 16.

3. Mi ddylwn ymoſtwng yn ufudd ac yn barchus i holl Geryddon Duw. *Ni a gawſom dadau ein cnawd i'n ceryddu, ac a'u parchaſom hwy: onid mwy o lawer y byddwn ddaroſtyngedig i Dad yr yſprydoedd, a byw?* Heb. xii. 9.

4. Mi ddylwn ddilyn, hyd y mae ynnof, Sancteiddwydd a Chariad, Daioni ac Amynedd Duw ein Tad. *Byddwch ddilynwyr Duw, fel plant anwyl.* Eph. v. 1. Mat. v. 48.

5. Mi ddylwn gymmeryd Cyngor Gair Duw ymhob peth. *Gwae'r meibion cyndyn, medd yr Arglwydd, a gymmerant gyngor, ond nid gennyf fi.* Eſay xxx. 1.

6. Mi ddylwn ymddiried yn gyſurus yn fy Nhad o'r Nef, ar bob Achos. *Sal.* ix. 10.

Cw. Ar ba Achoſion y dylech ymddiried yn gyſurus yn eich Tad o'r Nef?

Att. 1. Am bob peth da a geiſiwyf ganddo. *O's chwychwi, a chwi yn ddrwg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant; pa faint mwy y rhydd eich Tad yr hwn ſydd yn y nefoedd bethau da i'r rhai a ofynant iddo!* Mat. vii. 11.

2. Am Gynhaliaeth y Bywyd hwn. *Na ofelwch, gan ddywedud, Beth a fwyttâwn? neu, Beth a yfwn? o blegid gwŷr eich Tad nefol ſod arnoch eiſiau'r holl bethau hyn.* Mat. vi. 31, 32.

3. Am Eriſeddiaeth dragywyddol yn y Byd a ddaw. *O blegid o's plant, etifeddion hefyd; ſef, etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Criſt.* Rhuf. viii. 17.

4. Am Gyſur, pan wyf yn amddifad yn y byd hwn. *O herwydd ynnot ti y caiff yr amddifad drugaredd.—Pan yn fy nhad a'm mam yn fyngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyn.* Hoſ. xiv. 3. Sal. xxvii. 10.

5. Am Doſturi, pan wyf yn ofni o blegid fy nghyflwr. *Canys, fel y toſturia tad wrth ei blant, felly y toſturia'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.* Sal. ciii. 13. Mat. vii. 17.

Cw. Pa ſawl Arch neu Ddeiſyfiad ſydd yng *Ngweddi'r Arglwydd?*

Att. Chwech. Y tair flaenaf am Ogoniant Duw; a'r tair olaf am bethau ſydd raid i ni.

Cw.

Cw. Am beth y gweddïwch yn y tair Arch flaenaf?

Att. 1. Am Sancteiddio Enw Duw. 2. Am Ddyfod Teyrnas Dduw. 3. Am Wneuthur Ewyllys Duw ar y ddaear.

Cw. Am beth y gweddïwch yn y tair Arch olaf?

Att. 1. Am ein Bara beunyddiol. 2. Am Faddeu ein Dyledion. 3. Am ein Gwared rhag Profedigaeth, a phob Drygau.

Cw. Beth yw'r Arch gyntaf yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Sancteiddier dy Enw.

Cw. Am beth y gweddïwch yn yr Arch hon?

Att. Am i Enw Duw gael ei ſancteiddio a'i ogoneddu, gennym ni, a phawb eraill. *Joan* xii. 28. *Sal.* cxv. 1.

Cw. Beth a yſtyrïwch am Sancteiddio Enw Duw?

Att. Tri pheth. 1. Pa'm y goſodir yr Arch hon yn flaenaf. 2. Beth a feddylier wrth *Enw Duw.* 3. Pa lun y mae i ni ei Sancteiddio ef.

Cw. Pa'm y goſodir yr Arch hon, am Sancteiddio Enw Duw, yn flaenaf?

Att. 1. Am fod i ni Sancteiddio Enw Duw yn bennaf, ymhob peth a wnelom. *Gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw.* 1 Cor. x. 31.

2. Am mai Gogoniant ei Enw, oedd Diben Duw yn y cwbl a wnaeth eriôed; ac am hynny a ddylai fod yn bennaf o bob peth yn ein golwg ni. *Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun.* Diar. xvi. 4.

3. Am fod Duw yn eiddigus o Ogoniant ei Enw. *Canys efe a ddywedodd, Oni yſtyrïwch, i roddi anrhydedd i'm Henw i; yna mi a anfonaf felldith arnoch chwi, ac a felldigaf eich bendithion chwi.* Mal. ii. 2.

Cw. Beth a feddylier wrth Enw Duw?

Att. Duw ei hun, ei Deitlau, a'i Briodoliaethau; Gair, Ordinhadau, a Gweithredoedd Duw, a'r Pethau cyſſegredig a berthyn iddo.

Cw. Pa lun y mae i chwi Sancteiddio Enw Duw?

Att. 1. Ni's gall ei Sancteiddrwydd ef fod yn fwy nac yn llai nag yw; am ei fod yn anfeidrol: fel na's gellir chwanegu atto, na thynnu oddi wrtho.

2. Mi ddylwn gydnabod Sancteiddrwydd Duw, gan ymddŵyn yn barchus tu ag atto ymhob peth.

Cw. Pa'm y dywedir, *Sancteiddier* dy Enw, ac nid, *Parcher*, neu, *Ogonedder* dy Enw?

Att.

Att. Am mai *Sancteiddrwydd* Duw, yn bennaf, yw Gogoniant a Pherffeithrwydd gwynfydedig ei Natur ef. *Pwy fel tydi yn ogoneddus mewn ſancteiddrwydd!* Ecſod. xv. 11.

Cw. Ymha ffordd, yn neillduol, y dylech Sanctteiddio Enw Duw?

Att. 1. Trwy Ymddygiad parchus yn Addoliad Duw. *Mi a ſanctteidder* (medd Duw) *yn y rhai a nesânt attaf; a cher bron yr holl bobl y'm gogoneddir.* Lef. x. 3.

2. Trwy fod yn ffrwythlon ymhob Gweithred dda. *Yn hyn y gogoneddwyd fy Nhad; ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer: a diſgyblion a fyddwch i mi.* Joan xv. 8.

3. Trwy Ffyddlondeb yngwaith ein Galwäd. *O's gweini y mae neb, gwnaed megis o'r gallu y mae Duw yn-ei roddi; ſel ym mhob peth y gogonedder Duw trwy Jeſu Griſt.* 1 Pedr iv. 11.

4. Trwy feddwl a dywedud yn barchus am Dduw. *Sanctteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonnau.—Llanwër fy ngenau â'th foliant, ac â'th ogoniant beunydd.* 1 Pedr iii. 15. Sal. lxxi. 8.

5. Trwy Ffydd ddiamheuol yn Addewïdion Duw. *Abraham a nerthwyd yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw.* Rhuf. iv. 20.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth eich Dyled i Sanctteiddio Enw Duw?

Att. 1. Y dylai pawb fod yn ſanctaidd, ac ëwyllyſio fod yn Bobl i Dduw. *Byddwch ſanctaidd: canys ſanctaidd ydwyf fi yr Arglwydd eich Duw.* Lef. xix. 2.

2. Ei fod yn beryglus jawn, i barhâu yn ddi-zêl dros Ogoniant neu Sanctteiddrwydd Enw Duw; y peth a ddyſger i ni yn flaenaf ac yn bennaf i weddïo yn ei gylch. *Dan.* iii. 16.

3. Fod y rhai fy'n halogi Enw Duw, yn lle ei Sanctteiddio, mewn Cyflwr echrydus. *Ezec.* v. 11.

Cw. Beth yw'r ail Arch yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Deued dy Deyrnas.

Cw. Beth a yſtyrïwch yn yr Arch hon?

Att. Dau beth. 1. Beth yw Teyrnas Dduw. 2. Am beth y dylem weddïo, fel y delo Teyrnas Dduw.

Cw. Beth yw Teyrnas Dduw?

Att. Mae Teyrnas Dduw o ddau fath. 1. Teyrnas Gyffredinol Duw dros bob peth. 2. Teyrnas Neillduol Duw dros ei Bobl ei hun.

Cw.

Cw. Beth yw Teyrnas Gyffredinol Duw?

Att. Teyrnas Rhagluniaeth Dduw; ſef, ei Lywödraeth benarglwyddïaethol ef dros bob peth. *Canys yn ol ei ëwyllys ei hun y mae'n gwneuthur â llu'r nefoedd, ac â thrigolion y ddaear.* Dan. iv. 35.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth Deyrnas Rhagluniaeth Dduw?

Att. 1. Ofni Duw, y Brenhin mawr ſy'n llywödraethu ar bob peth. *Pwy ni'th ofna di, Brenhin y cenhedloedd? canys i ti y gweddai.* Jer. x. 7.

2. Ymgyſuro yn Nuw ymhob Peryglon ac Ofnau. *Yr Arglwydd ſydd yn teyrnaſu; gorfoledded y ddaear, a llawenyched ynyſoedd lawer.* Sal. xcvii 1.

3. Gweddïo yn ddyfal am i Ragluniaeth Dduw fod er Llwyddiant i'w Eglwys ef. *Na adêwch ddiſtawrwydd iddo, hyd oni ſicrhao, ac hyd oni oſodo Jeruſalem yn foliant ar y ddaear.* Eſay lxii. 7.

Cw. Beth yw Teyrnas Neillduol Duw dros ei Bobl ei hun?

Att. 1. Teyrnas yr Efengyl; ſef, Llywödraeth Dduw dros ei Eglwys a'i Bobl, a elwïr yn *Deyrnas Dduw.* Marc i. 15.

2. Teyrnas Grâs; ſef, Llywödraeth Grâs Duw yng Nghalonnau ei Bobl, i'w gwneuthur yn ufudd iddo. *Canys wele, teyrnas Dduw, o'ch mewn chwi y mae.* Luc xvii. 21.

3. Teyrnas Gogoniant yn y Nefoedd, i'r rhai a ſancteiddir gan Râs Duw ar y ddaear. 1 *Cor.* xv. 50.

Cw. Pa'm y dodir yr Arch hon, *Deued dy Deyrnas,* yn aeſaf at, *Sancteiddier dy Enw?*

Att. Am na allwn ni ſancteiddio Enw Duw, heb i Râs Duw deyrnaſu droſom ni.

Cw. Am beth y dylech weddïo, fel y dêl *Teyrnas* Dduw?

Att. 1. Am Lwyddiant Eglwys Dduw ar y ddaear. *Er mwyn Sion ni thawäf, ac er mwyn Jeruſalem ni oſtegaf, hyd onid êl ei chyfiawnder hi allan fel diſgleirdeb, a'i jechydwriaeth hi fel lamp yn lloſgi.* Eſay lxii. 1.

2. Am ſathru i lawr Satan a'i holl angylion, ſy'n milwrio yn erbyn Eglwys Dduw; megis y mae Duw yn addaw gwneuthur ar frys. *Rhuf.* xvi. 20.

3. Am i Dduw anfon Gweinidogion ffyddlon i adeiladu ei Eglwys. *Canys y cynhauaf yn ddiau ſydd fawr; ond y gweithwyr yn anaml. Am hynny attolygwch i Arglwydd y cynhauaf anfon gweithwyr i'w gynhauaf.* Mat. ix. 37, 38.

4. Am

4. Am Lwyddiant yr Efengyl i droi Pechaduriaid dywyllwch i Deyrnas yr Arglwydd Jeſu, ac i ddwyn teyrn aſoedd y byd hwn yn eiddo ef. *Col.* i. 13. *Dat.* xi. 15 2 *Theſ.* iii. 1.

5. Am i Dduw ein cadw ni, a'i holl Bobl, yn Nheyrnas ei Râs; a'n dwyn o'r diwedd i Deyrnas ei Ogoniant.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth hyn?

Att. 1. Mai Rhagrith atgas yw i ni ddywedud, *Deued dy Deyrnas*, gan fyw yn ol y cnawd, a gwrthwynebu teyrnaſiad Grâs Duw droſom. *Canys ſyniad y cnawd ſydd elyniaeth yn erbyn Duw.* Rhuf. viii. 7.

2. Mai Dyled Pobl Dduw yw, gwneuthur a allon ymhlaid Teyrnas Dduw yn y byd. Canys yr Arglwydd a ddywaid, *Y neb nid yw gyd â mi, ſydd yn ſy erbyn.* Mat. xii. 30.

3. Mae 'n ſicr y daw Teyrnas, ſef Eglwys Dduw, i Berffeithrwydd gogoneddus o'r diwedd: canys nid yn ofer ein dyſgir i weddïo droſti. *Dywedais* (medd Duw) *a mi a'i dygaf i ben; mi a'i lluniais, a mi a'i gwnaf.* Eſay xlvi. 11. xlv. 19.

Cw. Beth yw y drydedd Arch yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Gwneler dy Ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd.

Cw. Pa 'm y mae 'r Arch hon yn neſaf at, *Deued dy Deyrnas*?

Att. Am mai trwy Ufudd-dod i Ewyllys Duw, ac ymwadu â'n hëwyllys ein hunain, y mae Teyrnas Dduw yn dyfod i mewn ynnom, ac yn teyrnaſu droſom.

Cw. Beth a yſtyriwch am wneuthur Ewyllys Duw?

Att. Dau beth. 1. Bod i ni ymoſtwng i Ewyllys dirgelaidd Rhagluniaeth Dduw, yn ein holl flinderau.

2. Bod i ni, hyd eithaf ein gallu, ufuddhâu i Ewyllys datguddiedig Dduw yn ei Air.

Cw. Pa'm y gelwch Ewyllys Duw yn ei Ragluniaeth, yn *Ewyllys ddirgelaidd*?

Att. Am na wyddom beth y mae Rhagluniaeth Dduw yn ei wneuthur, nes ei ddyfod i ben. *Cymhylau a thywyllwch ſydd o'i amgylch ef. Mor anchwiliadwy yw ei ſarnau ef! a'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt!* Sal. xcvii. 2. Rhuf. xi. 33.

Cw. Pa fath yw Ewyllys ddirgelaidd Rhagluniaeth Dduw?

Att.

Att. 1. Ewyllys *priodol* i Oruchafiaeth Dduw. *Canys y mae efe yn trefnu pob peth yn ol cyngor ei ëwyllys ei hun.* Eph. i. 11.

2. Ewyllys cyfiawn a ſanctaidd. *Canys cyfiawn yw'r Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a ſanctaidd yn ei holl weithredoedd.* Sal. cxlv. 17.

3. Ewyllys ſicr o ddyfod i ben. *Arglwydd y lluoedd a'i gwriadodd; a phwy a'i diddymma?—Yr hyn y mae ei enaid ef yn chwennychu, efe a'i gwna.* Eſay xiv. 27. Job xxiii. 13.

Cw. Pa'm y dylech ymoſtwng i Ewyllys Rhagluniaeth Dduw yn eich holl flinderau?

Att 1. Am mai Duw ſydd yn eu trefnu. *Yr Arglwydd yw efe: gwnaed yr hyn a ſyddo da yn ei olwg.—Y cwppan a roddes y Tad i mi, onid yſaf ef?* 1 Sam. iii. 18. Joan xviii. 11.

2. Am fod blinderau yn dyfod yn fynych, o achos ein pechodau ni. *Dïoddefaf ddig yr Arglwydd; canys pechais yn ei erbyn.* Mica vii. 9. Galar. iii. 39.

3. Am fod ein blinderau i'r diben i'n tynnu oddi wrth ein pechodau. *Trwy hyn y glanhêir anwiredd Jacob: a dymma'r holl ffrwyth; tynnu ymmaith ein pechodau.* Eſay xxvii. 9. Heb. xii. 11.

4. Am y dylem ni, yn ol Eſampl Criſt, ddyſgu Ufuddodd trwy'r pethau a ddïoddefom. *Heb.* v. 8.

5. Am fod Daioni yn dyfod i'r Duwiol ar ol eu blinder. *Fe ddaeth yn dda i Ddafydd ar ol i Simei ei regu ef. Fe gafodd Job, ar ol ei gyſtudd, y dau cymmaint ag oedd ganddo o'r blaen.* 1 Pedr v. 6.

6. Am fod Eſamplau 'r holl Seintiau yn dyſgu Amynedd i ni mewn blinder.—A'r *Juddewön* a rwgnachodd dan Geryddon Duw, a ddinyſtriwyd gan y dinyſtrydd. *Jago* v. 10, 11. 1 *Cor.* x. 10.

7. Am fod Dïoddefaint yn profi ein Ffydd ni, er Mawl, ac Anrhydedd, a Gogoniant, yn Ymddongofiad Jeſu Criſt. 1 *Pedr* i. 6, 7.

Cw. Beth yw'ch Dyled i Ewyllys datguddiedig Duw yn ei Air?

Att. 1. Mi ddylwn laſurio am Wybodaeth o Ewyllys Duw yn ei Air; rhag i mi gyfeiliorni. *Onid am hyn yr ydych yn cyfeiliorni, am nad ydych yn gwybod yr yſgrythurau?* Marc xii. 24.

2. Mi ddylwn ymwadu â'm hëwyllys lygredig fy hun, i ufuddhâu

ufuddhâu o'r galon i Ewyllys Duw ymhob peth. *Ezra* vii. 28. *Mat.* xxvi. 39.

Cw. Pa'm y dylech ymwadu â'ch hëwyllys eich hun?

Att. 1. Am mai ëwyllys dŷn ei hun a'i taflodd i bechod a dinyſtr ar y cyntaf oll. *O Iſräel, ti a ddinyſtriaiſt dy hun.* Hoſ. xiii. 9.

2. Am fod ein hëwyllys llygredig ni yn wrthwyneb i Ewyllys Duw. *Mae'r cnawd yn chwennych yn erbyn yr Yſpryd.* Gal. v. 17.

3. Am mai ein hëwyllys ein hunain ſy'n rhwyſtro ein Jechydwriaeth. Canys Criſt a ddywedodd, *Ni fynnwch chwi ddyfod attaf fi, fel y caffoch fywyd.* Joan v. 40. Mat. xxiii. 37.

4. Am fod Eſampl Criſt yn ein dyſgu i ymwadu â'n hëwyllys ein hunain. Canys efe a ddywedodd, *Nid ydwyf yn ceiſio fy ëwyllys fy hunan, ond ëwyllys y Tad, yr hwn a'm hanfonodd i.* Joan v. 30.

5. Am mai hyn yw Gofyniad Criſt oddi wrth bawb a fynno fod yn Ddiſgyblion iddo. *Efe a ddywedodd wrth bawb, O's ëwyllyſia neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded ag efei hun, a choded ei groes beunydd, a dilyned fi.* Luc ix. 23.

Cw. Ymha lun y dylech wneuthur Ewyllys Duw?

Att. Yn yr un *gyffelyb* ag y mae'r Angylion yn ei wneuthur yn y Nefoedd; er na allwn ni ei wneuthur *cyſtal* a hwy. *Mat.* vi. 9.

Cw. Ymha yſtyr y dylech wneuthur Ewyllys Duw yn gyffelyb i'r Angylion?

Att. 1. Yn *awyddus.* Canys y mae Zel Angylion fel *fflamdân.* Heb. i. 7. Eph. vi. 6. Sal. cxix. 20.

2. Yn *ddioed.* Canys y mae'r Angylion yn ehedeg yn fuan wrth Arch Duw. *Dan.* ix. 21. *Sal.* cxix. 60.

3. Yn *ddyfal.* Canys nid yw'r Angylion yn gorphwys ddydd na nos; eithr yn gwneuthur Ewyllys Duw yn ddibaid. *Dat.* iv. 8. *Sal.* cxix. 4.

4. Fel *yngŵydd Duw.* Canys y mae'r Angylion bob amſer yn gweled ei Wyneb ef. *Mat.* xviii. 10. *Sal.* xvi. 8.

5. Gyd â chymmaint ag allom o Waſanaeth i Bobl Dduw. Canys y mae'r Angylion yn gweini i'r rhai a etifeddant Jechydwriaeth. *Heb.* i. 14.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth eich Dyled o wneuthur Ewyllys Duw ar y ddaear, megis y gwneir yn y Nefoedd?

Att. 1. Mi ddylwn alaru o blegid y gwrthryfel ſydd yn fy ëwyllys fy hun yn erbyn Ewyllys Duw. *Yſ truan o ddyn*

wyf ſi! pwy a'm gwared oddi wrth gorph y farwolueth hon! Rhuf. vii. 23, 24.

2. Mi ddylwn weled, mai nid yn ol eſampl annuwiol y byd, eithr yn gyffelyb i Angylion y Nefoedd, y dylai fod fin Hufudd-dod ni i Dduw. *Ecſod.* xxiii. 2.

3. Mi ddylwn weddïo yn ddyſal â'm holl galon, am Ewyllys a Gallu, i mi, ac eraill, i ufuddhau ymhob peth i Ewyllys Duw. *Phil.* ii. 13.

Cw. Beth yw y bedwaredd Arch yng *Ngweddi'r Arglwydd*?

Att. Dyro i ni heddyw ein Bara beunyddiol.

Cw. Beth a yſtyrïwch yn yr Arch hon?

Att. Tri pheth. 1. Beth ydym yn geiſio; ſef, *ein Bara beunyddiol.*

2. Gan bwy yr y'm yn ei geiſio; ſef, gan ein *Tad yn y Nefoedd.*

3. I bwy yr ydym yn ei geiſio; ſef, *i ni*; i mi fy hun, ac eraill hefyd.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth hyn?

Att. 1. Mai trwy Rodd Duw y mae ein holl Gynhaliaeth yn dyfod. *Efe ſydd yn rhoddi i bawb fywyd ac anadl, a phob peth oll.* Act. xvii. 25.

2. Y dylai pawb ddymunaid Cynhaliaeth i eraill, ac nid eu Cynhaliaeth eu hunain yn unig. *Nac edrychwch bob un ar yr eiddo eich hunain; eithr pob un ar yr eiddo eraill hefyd.* Phil. ii. 4.

Cw. Pa'm y dylech *weddïo* am eich Bara beunyddiol, yn ſ'och yn *llafurio* am dano?

Att. 1. Ni a ddylem *weddïo* am ein Bara beunyddiol, i ddeſ, nad ŷm yn ei haeddu, er i ni lafurio am dano. *Jacob a ddywedodd, Ni ryglyddais y lleiaf o'th holl drugareddau di.* Gen. xxxii. 10.

2. Ni a ddylem weddïo am ein Bara beunyddiol, am mai eiddo Duw ydyw; ac ni ddylai neb ei gymmeryd, heb ei geiſio ganddo. *Beth bynnag ſydd dan yr holl nefoedd* (medd yr Arglwydd) *eiddo fi yw.* Job xli. 11. Deut. x. 14.

3. Ni a ddylem weddïo am ein Bara beunyddiol, fel y caffom Fendith arno, yn ol Addewid Duw. *Gan fendithio mi a bendithiaf eu lluniaeth.* Sal. cxxxii. 15. 1 Tim. iv. 5.

Cw. Pa'm y'ch dyſgir i weddïo am *Fara*, ac nid am bethau eraill?

Att.

Att. 1. Am ſod Bara yn arwyddocâu *Criſt*, a phob pet
a berthyn i Fywyd yſprydol yr Enaid. *Joan* vi. 51.

2. Am ſod Bara yn arwyddocâu pob peth angenrheidio
i Fywyd naturiol y Corph. *Lef.* xxvi. 26.

3. Fe'n dyſgir i weddïo am *Fara*, i'n gwneuthur ni y
foddlongar wrth y ſo raid at ein Cynhaliaeth, er na bo llawe
gennym. *O's bydd gennym ymborth a dillad, ymfoddlonw
ar hynny.* 1 Tim. vi. 8.

Cw. Pa'm y'ch dyſgir i weddïo, Dyro i ni *heddyw* ei
Bara beunyddiol; megis dros un dydd, ac nid dros lawer
amſer?

Att. 1. I'n dyſgu i weddïo'n ſeunyddiol; ſef, bob dyd
o'n bywyd. *Gan barhâu mewn ymbiliau a gweddïau n
a dydd.* 1 Tim. v. 5.

2. I'n dyſgu i ſoddloni i'n Cyfraid preſennol; ac nid
ymdrafferthu yn ofidus dros yr amſer i ddyfod. *Na ofelw
dros drannoeth; canys trannoeth a ofala am ei bethau e
hun: digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun.* Mat. vi. 34.

3. I'n dyſgu i yſtyriaid Anſertenrwydd ein Bywyd: cany
ni ŵyr neb a fydd raid iddo wrth Fara, ond dros heddyw
*Nac ymffroſtia o'r dydd y fory: canys ni wyddoſt beth
ddigwydd mewn diwrnod.* Diar. xxvii. 1.

Cw. Pa'm y'n dyſgir i weddïo am *ein* Bara; ſef, ei
Bara *ni*?

Att. 1. I'n dyſgu i fyw yn oneſt; fel y bwyttao pob u
ei Fara ei hun, ac nid cymmeryd Bara na Chynhaliaeth ne
arall yn anghyfiawn. *Darperwch bethau oneſt yngolwg p
dŷn.* Rhuf. xii. 17.

2. I'n dyſgu, na fyddom ſuſgrell na ſegur; eithr yn ddïwy
yn ein Galwëdigaeth: heb yr hyn ni ddichon neb fwytta
Fara ei hun yn gyfiawn. *Canys felly yr ordeiniwyd; o'
bydd neb na fynnai weithio, na chai fwytta chwaith.—
Trwy chwŷs dy wyneb y bwyttai fara.* 2 Theſ. iii. 10
Gen. iii. 19.

Cw. Pa'm y mae llawer yn ddïweddi ac yn ſegur, ac y
meddu er hynny Fara eu gwala, a gweddill; ſef, Golud maw
o bob peth?

Att. Am ſod Duw yn diſgwyl i *Olud ei ddaioni ef, a'
Ddïoddefgarwch, eu tywys hwynt i Edifeirwch.* Ac oni
ê, *maent yn tryſori iddunt eu hunain ddigofaint erby
dydd digofaint, a datguddiad cyfiawn farn Duw.* Rhu
ii. 4, 5.

Cw

Cw. Pa'm y mae llawer yn dlawd, ac mewn eiſiau Bara eunyddiol?

Att. 1. Am fod llawer yn ſegur, na fynnant weithio; ac n gyndyn, na fynnant weddïo ychwaith. *Nid ydych yn el, am nad ydych yn gofyn.* Jago iv. 2.

2. Y mae'r Arglwydd weithiau yn gadael ei Bobl ei hun rth ychydig, er llai o rwyſtr i'w Jechydwriaeth. *Canys anhawdd yr â goludog i deyrnas nefoedd.* Mat. xix. 23.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth yr hyn a ddywedaſoch m yr Arch hon; ſef, *Dyro i ni heddyw ein Bara beunyddiol?*

Att. 1. Y dylem ni bob dydd yn waſtadol weddïo Duw bob peth angenrheidiol. *Gweddïwch yn ddibaid.—A briſt a ddywedodd, fod yn rhaid gweddïo yn waſtad, ac eb ddiffygio.* 1 Theſ. v. 17. Luc xviii. 1.

2. Na ddylai neb geiſio porthiant eu chwantau pechadus: canys pethau angenrheidiol i'n Cyrph a'n Heneidiau, dd i ni weddïo am danunt. *Na wnewch ragddarbod dros cnawd, er mwyn cyflawnu ei chwantau ef.* Rhuf. xiii. 14.

3. Fe ddylai pawb arferu Moddion ynghŷd â'u Gweddïau, gael y pethau ſo'n angenrheidiol: canys rhaid i ni weddïo a aſurio hefyd am ein Bara beunyddiol. *Enaid y diog a leifyf, ac ni chaiff ddim.* Diar. xiii. 4.

4. Fe ddylai pawb roi Diolch i Dduw am bob Pryd o'u ara beunyddiol: canys Rhodd Duw ydyw. *Pan fwyteych, th ddigoni, yna y bendithi'r Arglwydd dy Dduw.* Deut. ii. 10.

Cw. Beth yw y bummed Arch yng *Ngweddi'r Arglwydd?*

Att. Maddeu i ni ein Dyledion, fel y maddeuwn i'n Dyledwyr.

Cw. Pa'm y mae'r Arch hon yn neſaf at yr Arch am ein *ara beunyddiol?*

Att. 1. Am y dylem weddïo am Faddeuant beunyddiol, egis am ein Bara beunyddiol. *Preg.* vii. 10.

2. Am na ddichon ein Bara beunyddiol, na dim arall, neuthur i ni ddim lles, tra fo'n Pechodau heb eu maddeu. *a lesâd i ddyn, o's ynnill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid hun?* Mat. xvi. 26.

3. Am fod Pechod heb ei faddeu, yn rhwyſtro ein Gweliau. *Eich pechodau a guddiaſant wyneb Duw oddi thych, fel na chlywö.* Eſay lix. 2.

Cw.

Cw. Beth a yſtyrïwch yn yr Arch hon; ſef, *Maddeu ni ein Dyledion, fel y maddeuwn ni i'n Dyledwyr?*

Att. Pedwar peth. 1. Beth ŷm yn geiſio; ſef, *Maddeu ein Dyledion*; hynny yw, *ein Pechodau.*

2. Gan bwy yr ŷm yn ceiſio Maddeuant; ſef, gan Dduw *Pwy a ddichon faddeu pechodau, ond Duw yn unig?* Luc v. 21.

3. I bwy yr ŷm yn ceiſio Maddeuant; ſef, *i ni*; nid mi fy hun yn unig, eithr i eraill hefyd. *Canys yr Apoſtol a ddywaid, Gweddïwch dros ei gilydd.* Jago v. 16.

4. Ymha gyffelyb yr ŷm yn deiſyf ar Dduw i faddeu ein Dyledion ni; ſef, *Fel y maddeuwn ni i'n Dyledwyr.* Canys Criſt a ddywaid, *Oni faddeuwch i ddynion eu camweddau ni faddeu eich Tad eich camweddau chwithau.* Mat. vi. 15.

Cw. Pa fath Ddyledion yw eich Pechodau chwi?

Att. 1. Mae'n heſgeuluſiad ni o'r Dyledſwyddau y mae Duw yn orchymmyn, yn Ddyledion mawrion; a Chyfiawnder Duw yn ein goſyn o'u plegid: *na's gallwn atteb iddo am un peth o fil.* Job ix. 3.

2. Mae'r Pechodau a wnaethom mewn Meddwl, Gair, a Gweithred, yn Ddyledion aneirif; a Choſp dragywyddol yn ddyledus am danunt. *Pa faint o gamweddau ac o bechodau ſydd ynnof?* Job xiii. 23.

3. Mae'r holl Dalentau, a'r cwbl a roddwyd i ni, heb ni eu defnyddio i waſanaethu Duw, yn Swm mawr jawn Ddyled, na's gallwn byth fyned yn rhydd oddi wrthunt heb Faddeuant. *Mat.* xxv. 24—30.

Cw. Ymha ffordd y cewch chwi Faddeuant?

Att. Trwy Griſt yn unig. Canys, 1. Criſt a ddïoddefodd Goſp ein Pechodau. *Eſay* liii. 5.

2. Criſt a offrymmodd ei hun yn Aberth dros ein Pechodau ni. *Eph.* v. 2.

3. Criſt a dywalltodd ei Waed, i'n glanhâu ni oddi wrth Bechod. 1 *Joan* i. 7.

4. Trwy Griſt y'n cymmoder ni â Duw, fel na chyfrifo ein Pechodau i ni. 2 *Cor.* v. 18, 19.

5. Trwy Griſt y prynwyd yr holl Freintiau ag ſy'n cydgerdded a Maddeuant.

Cw. Pa Freintiau ſy'n cydgerdded â Maddeuant?

Att. 1. Heddwch â Duw, ac Ymwared oddi wrth ei Ddigofaint ef, a Choſp Pechod. *Rhuf.* v. 10. viii. 1.

2. Cy

2. Cyfiawnhâd. Sef, cael ein derbyn, trwy Grift, fel rhai yfiawn yngolwg Duw. *Act.* xiii. 39.

3. Mabwyfiad i fod yn Blant i Dduw, ac yn Frodyr i'r rglwydd Jefu. *Joan* i. 12. xx. 17.

4. Dyfodfa hyderus, trwy Grift, ger bron Duw, mewn weddi. *Eph.* iii. 12.

5. Cyfur yfprydol ymhob Cyflwr trallodus. *Mat.* ix. 2. *Rhuf.* v. 1—3.

6. Hyder cyfurus yn erbyn Ofn Angau a Barn. 1 *Cor.* xv. 5—57. *Rhuf.* viii. 35—39.

7. Etifeddiaeth ogoneddus, ar ol Angau, yn y Byd arall. *Rhuf.* viii. 17. 1 *Pedr* i. 3, 4.

Cw. Pa fath un fydd raid i chwi fod, fel y caffoch addeuant?

Att. 1. Y mae yn rhaid i mi edifarhâu, a gadael fy Mhechodau. Ac onid ê, *ni a ddifethir oll.* Luc xiii. 3.

2. Mae'n rhaid i mi feddu gwir Ffydd yng Nghrift. Ac onid ê, ni's gallaf fod yn gadwëdig. *Act.* xvi. 31.

3. Mae'n rhaid i mi gymmeryd Cyfammod yr Arglwydd arnaf. Ac onid ê, ni's gallaf fod yn eiddo Crift. *Mat.* xi. 29.

4. Mae'n rhaid i mi ddilyn Heddwch â phawb, a Sanctddrwydd. Ac onid ê, ni chaf weled yr Arglwydd. *Heb.* xii. 14.

5. Mae'n rhaid i mi faddeu i bawb a wnant ar fai yn fy erbyn. Ac onid ê, ni chaf fi Faddeuant byth gan Dduw. *Mat.* vi. 15.

Cw. Pa lun y dylech faddeu i bawb a wnant ar fai yn eich erbyn?

Att. 1. Mi ddylwn wylio rhag chwennych ymddial arnynt, a gorfoleddu yn eu drygfyd. *Rhuf.* xii. 19. *Diar.* xxiv. 17, 18.

2. Mi ddylwn weddïo am eu Tröedigaeth; ac am i Dduw roddeu iddunt. *Mat.* v. 44.

3. Mi ddylwn ddangos Cariad a Chymmwynafgarwch iddunt yn eu Hangen. *Mat.* v. 44. *Rhuf.* xii. 20.

Cw. Beth a ddylech yftyriaid i'ch cymmell i faddeu i'r rhai a wnant ar fai yn eich herbyn?

Att. 1. Mi ddylwn gofio geiriau *Salomon. Synwyr dyn a oeda ei ddigofaint; a harddwch yw iddo fyned dros gamwedd.* Diar. xix. 11,

2. Mi ddylwn yftyriaid, fod fy Mhechodau i yn erbyn Duw, yn fwy nâ Beiau neb yn fy erbyn i; o gymmaint ag

yw

yw deng mil o Dalentau yn fwy nâ chan Ceiniog. *Mat.* xviii. 23—35.

3. Mi ddylwn yſtyriaid, mor dueddol wyf fi fy hun bechu yn erbyn eraill. *Na oſod dy galon ar bob gair a ddy weder; rhag it' glywed dy was yn dy felldithio. Can llawer gwaith y gŵyr dy galon, ddarfod i ti dy hun fel dithio eraill.* Preg. vii. 21, 22.

4. Mi ddylwn yſtyriaid Faddeuant Duw i mi. *Gan gy ddwyn â'u gilydd, a maddeu i'w gilydd, o's bydd gan ne gweryl yn erbyn neb: megis ag y maddeuodd Criſt i chw felly gwnewch chwithau.* Col. iii. 13.

5. Mi ddylwn yſtyriaid, fy mod yn gweddïo am na fa ddeuo Duw i mi, o's ni faddeuaf fi i eraill, pan ddywedwy *Maddeu i ni ein Dyledion, fel y maddeuwn ni i'n Dyledwyr*

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth yr Arch hon; *Maddeu i ni ein Dyledion, fel y maddeuwn ni i'n Dyledwyr*?

Att. 1. Mi ddylwn gydnabod yn athriſt, fy mod yn pech yn feunyddiol; o blegid ſod achos i mi weddïo yn feunyddio am Faddeuant. 1 *Joan* i. 8.

2. Mi ddylwn ddiolch i Dduw, am ſod Maddeuant y ſicr i'w gael trwy Griſt. O blegid ſod Criſt ei hun yn ei dyſgu i weddïo am dano. 1 *Joan* ii. 1, 2.

3. Mi ddylwn edrych am Gariad maddeugar i bawb Canys yr un ffunud y maddeu Duw i ni, ag y maddeuw ni i'w gilydd. *A pha feſur y meſuroch, yr adfeſurir i chw thau.* Mat. vii. 2.

4. Mi ddylwn weddïo am Ffydd. *Pan orchymynnod Criſt i'r diſgyblion faddeu i'r neb a bechai yn eu herby ſeithwaith yn y dydd, hwy a ddywedaſant wrtho, Arglwyd chwanega ein ffydd ni.* Luc xvii. 3—5.

Cw. Beth yw y chweched Arch yng *Ngweddi yr Ar glwydd*?

Att. Nac arwain ni i Brofedigaeth; eithr gwared rhag Drwg.

Cw. Pa'm y'ch i weddïo yn erbyn Profedigaeth, yn neſ at yr Arch am Faddeuant?

Att. Am y dylai y rhai a faddeuwyd, wylio rhag pech drachefn. *Wele, ti a wnaethpwyd yn jach: na phech mwyach.* Joan v. 14.

Cw. Pa ſawl Rhan ſydd yn yr Arch hon?

Att. Dwy Ran. 1. *Nac arwain ni i Brofedigaeth.* 2. *Gwared ni rhag Drwg.*

C

Cw. Beth yw Profedigaeth?

Att. 1. Y Profedigaethau trwy ba rai y mae Duw yn ein rofi ni, i amlygu beth ſydd ynnom. *Y mae ei lygaid ef n gweled, a'i amrantau yn profi meibion dynion.* Sal. xi. 4.

2. Y Profedigaethau trwy ba rai y mae Satan yn ein temtio Bechod.

Cw. Pa ffordd y mae Duw yn profi ei Bobl?

Att. 1. Fe brofodd Duw bobl *Iſräel* yn fynych â Chyſtudd-au; i wybod yr hyn oedd yn eu Calon, a gadwënt hwy Or-hymmynnion Duw, ai na's cadwënt. *Deut.* viii. 2.

2. Fe brofodd Duw bobl *Iſräel* yn yr Anialwch, â'i Drugar-ddau; gan lawio Manna arnunt o'r Nefoedd. *Ecſod.* xvi. 4.

3. Fe brofodd Duw *Iſräel* ar ol hynny, trwy adael y *Canaaneaid* i fod yn Wrthwynebwyr iddunt. *Barn.* i. a ii.

4. Y mae Duw weithiau yn profi Ymlyniad ei Bobl wrth Gwirionedd, trwy adael i gau Athrawön godi yn eu plith. *Deut.* xiii. 3.

5. Fe brofodd Duw *Hezecia*, trwy adael ef iddo ei hun ros amſer. 2 *Cron.* xxxii. 31.

6. Fe brofodd Duw *Abraham*, trwy orchymmyn iddo th caled jawn; ſef, bod iddo aberthu ei fab *Iſaac.* Gen. xxii.

7. Y mae Duw yn profi ei Bobl weithiau trwy Garcharau Erledigaethau. *Dat.* ii. 10.

Cw. Trwy ba ffordd y mae Satan yn temtio Dŷn i Bechod?

Att. 1. Trwy ddenu Meddyliau Dŷn. *Felly yr hudodd atan Ddafydd i rifo'r bobl. Ac a ddododd ynghalon Judas fradychu Criſt.* 1 Cron. xxi. Joan xiii. 2.

2. Trwy Chwantau'r Cnawd. *Canys yna y temtir pob n, pan y tynner ef, ac y llythier gan ei chwant ei hun.* go i. 14.

3. Trwy Hudoliaeth y Byd. *Canys felly y ceiſiodd Satan demtio Criſt ei hun.* Mat. iv.

4. Trwy Segurdra a Syrthni. *Pan oedd Dafydd yn ſegur, temtiodd Satan ef i Odineb a Mwrdd-dra.* 2 Sam. xi.

5. Trwy Gyfeillach drwg. *Canys felly yr hudwyd Jeho-phat i ryfel, yn erbyn Cyngor Duw.—Trwy gyfeillach drwg y dyſgodd Joſeph dyngu. Ac y temtiwyd Pedr i adu Criſt.* 2 Cron. xviii. Gen. xlii. Mat. xxvi.

6. Trwy Ddichell Satan, yn trefnu ei Brofedigaethau yn fattebol i Raddau, Swyddau, a Galwëdigaethau, ac i yſtyrau, a Thymberau, ac Amgylchiadau, pob Dŷn. *Nid ym ni heb wybod ei ddichellion ef.* 2 Cor. ii. 11.

Cw.

Cw. Pa'm y mae Duw yn goddef ei Bobl i gael eu temti ag amryw Brofedigaethau?

Att. 1. I brofi eu Ffydd. *Gan wybod fod profiad eich ffyd yn gweithredu amynedd.* Jago i. 3.

2. I gadw ei Bobl yn oftyngedig. *Fel na'm tradyrchafe gan odidowgrwydd y datguddiedigaethau* (medd yr Apoftol) *rhoddwyd i mi fwmbwl yn y onawd, cennad Satan, i'm cernodio, fel na'm tradyrchefid.* 2 Cor. xii. 7.

3. Er mwyn puro ei Bobl yn fwy. Megis y dywedodd *Job*, *Wedi iddo fy mhrofi, myfi a ddeuaf allan fel aur.* Job xxiii. 10.

4. Fel y perffeithier Nerth Duw yn ein Gwendid ni, orchfygu Profedigaethau. *Er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant, yn ymddangofiad Jefu Grift.* 2 Cor. xii. 9. 1 Pedr i.

5. Mae'r Annuwiol yn fyrthio i Brofedigaethau dinyftrio trwy gyfiawn Farn Duw. *Am na dderbyniafant gariad gwirionedd, fel y byddont gadwëdig.* 2 Thef. ii. 10.

Cw. Am beth y gweddïwch, wrth ddywedud, *Nac arwain ni i Brofedigaeth?*

Att. Am i Dduw ein cadw rhag pob Profedigaethau a fo'n tywys i Bechod. *Canys yr Arglwydd a fedr ware'd y duwiol rhag profedigaeth.* 2 Pedr ii. 9.

Cw. Rhag pa Ddrygau yr y'ch yn gweddïo am gael eich gwaredu?

Att. 1. Rhag pob Peryglon a Digwyddiadau drwg. 2 Rhag Satan, yr Yfpryd drwg, a Phechod, y gwaethaf o bob Drygau.

Cw. Pa fodd y mae Pechod yn waethaf o bob Drygau?

Att. 1. Am fod Pechod yn wrthwyneb i Dduw, y Daioni Pennaf.

2. Am ei fod yn ein 'fpeilio ni o bob Daioni, ac yn dwyn arnom bob Trueni. Sef, Cofpedigaethau trymmion yn y Byd hwn, a Phoenau tragywyddol yn y Byd a ddaw.

3. Am fod Pechod yn drygu holl Greaduriaid y Byd hwn o blegid iddo dynnu Melldith Dduw ar yr holl Ddaear. *Gen.* iii.

4. Am fod Pechod yn waeth nâ'r holl Ddrygau a fydd yn y Byd. Ac yn waeth nâ holl Boenau Uffern. Canys Pechod yw'r Achos o honunt i gŷd. *Drwg anllywödraeth fu us ydyw, llawn o wenwyn marwöl.* Jago iii. 8.

5. Am mai Pechod yw Drwg y Diafol, a 'i trodd ef yn Yfpryd drwg; ac yn cynnws mwy o Ddrwg ynddo, nag dichon dim wneuthur Jawn am dano, ond Gwaed Crift yn unig. *Rhuf.* iii. 25.

Cw.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth yr Arch hon?

Att. O's, a mi yn gweddïo yn erbyn Profedigaethau, y bydd i mi fyned iddunt o'm gwir-fodd; yr wyf yn rhagrithio ger bron Duw, ac yn ei gyffrôi ef i'm gadael i ſyrthio i Bechod.

Cw. Pa Eſamplau ſydd gennych o hyn?

Att. Eſa a wrandawödd o'i gwir-fodd ar y Sarph; ac a ſyrthiodd. *Dina* a aeth allan i weled Merched y Wlad; ac a dreiſiwyd cyn dychwelyd. A *Phedr* a aeth i Lys yr Archoffeiriad; ac a wadodd Griſt cyn dyfod allan.

Cw. Beth ychwaneg a ddyſgwch oddi wrth yr Arch hon?

Att. 1. O's mynnaf fi gael fy ngwaredu rhag Drwg Pechod, mi ddylwn ochelyd pob Profedigaeth. Megis y cynghora *Salomon* i ochelyd Tŷ'r Buttain. *Cadw dy ffordd ymhell oddi wrthi hi: na nesâ at ddrws ei thŷ hi.—Ffô oddi wrth bechod, megis rhag wyneb ſarph: o blegid o's deui di yn agos atto, efe a'th frath di.* Diar. v. 8. Eclus. xxi. 2.

2. Mi ddylwn wneuthur Cyngor Criſt, a ddywaid ſel hyn: *Gwyliwch a gweddïwch, fel nad eloch i brofedigaeth.* Mat. xxvi. 41.

3. Mi ddylwn gofio, mai nid o honof fy hun, ond trwy Nerth Duw, y'm cedwïr rhag Profedigaethau, a phob Drygau; yr hwn hefyd a'n ceidw, o's gweddïwn arno. *Canys ffyddlon yw Duw, yr hwn ni âd eich temtio uwchlaw yr hyn a allŏch.* 1 Cor. x. 13.

4. Mi ddylwn geiſio Eiriolaeth Criſt droſof yn erbyn Profedigaethau Satan. Megis y dywedodd Criſt wrth *Bedr*; *Wele, Satan a'ch ceiſiodd chwi, i'ch nithio fel gwenith: eithr mi a weddïais droſot, na ddiffygiai dy ffydd di.* Luc xii. 31, 32.

Cw. Beth yw y drydedd Ran; ſef, *Dïweddglo Gweddi'r Arglwydd*?

Att. Canys eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r Gallu, a'r Gogoniant, yn oes oeſoedd. Amen.

Cw. Beth yw Meddwl y Cload hwn?

Att. Ein Cyfaddefiad parchus ni o'r uchel Freintiau gogoneddus, ac Ardderchowgrwydd y Mawrhydi anfeidrol, ſy'n eddo'r Duw ag ŷm ni yn gweddïo arno.

Cw. I ba Ddiben y mae hynny?

Att. 1. I weithio ynnom i ymddiried ynddo yn ddiamhëus.

Canys rhaid i ni nesâu at Dduw â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd. Heb. x. 22.

2. I'n deffrôi i foliannu Duw, a'i glodfori. Canys rhaid i Fawl a Gweddiau fod yn cydgerdded. *Phil.* iv. 6.

Cw. Pa lun y dylai'r Cload hwn eich deffrôi i ymddiried yn Nuw, a'i glodfori?

Att. 1. Ni a ddylem ymddiried yn Nuw, a'i foli; canys eiddo ef yw'r *Deyrnas:* ſef, mai Duw yw'r Brenhin mawr, ſy'n teyrnaſu dros yr holl nefoedd a'r ddaear, ac yn llywodraethu dros bob peth, er cyſur i ni. *Yr Arglwydd ſydd yn teyrnaſu; gorfoledded y ddaear; llawenched ynyſoedd lawer.* Sal. xcvii. 1.

2. Ni a ddylem ymddiried yn Nuw, a'i foli; canys eiddo ef yw'r *Gallu:* nid oes Nerth na Gallu ond oddi wrtho ef. Y mae yn Hollalluog, i wneuthur droſom *tu hwnt i bob peth ag ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl.* Eph. iii. 20.

3. Ni a ddylem ymddiried yn Nuw, a'i foli; canys eiddo ef yw'r *Gogoniant:* ac i'w Ogoniant ef, gan hynny, y dylem ni wneuthur a cheiſio pob peth, fel y llwyddom. *Cynhorthwya ni, O Dduw ein jechydwriaeth! er mwyn gogoniant dy Enw.* Sal. lxxix. 9.

4. Ni a ddylem ymddiried yn Nuw, a'i foli *yn oes oeſoedd*, canys ei Oruchafiaeth ef ſydd eriôed, ac yn dragywydd; heb ddechreu, na diwedd, na chyfnewidiad. *Y Duw hwn yw ein Duw ni byth: efe a'n tywys hyd angau. — Pa Dduw mor fawr a'n Duw ni!* Sal. xlviii. 14. lxxvii. 13.

Cw. Pa Werſau da a ddyſgwch oddi wrth *Weddi'r Arglwydd* i gŷd?

Att. 1. Pan ddywedom, *Ein Tad, yr hwn wyt yn y Nefoedd*; ſe ddylai hyn fagu ynnom fwy o Barch a Chariad, ac o Ffydd ac Ufudd-dod, i Dduw; ac i edrych na bom yn parhâu yn blant ac yn weiſion i'r diaſol.

2. Pan ddywedom, *Sancteiddier dy Enw*; ni a ddylem edrych, am i ni, a phawb o'n teulu, barchu Enw Duw, phob peth ſanctaidd a berthyn iddo; ac na bo i ni gymeryd Enw Duw yn ofer, na'i hologi trwy Lwon na Rhegau.

3. Pan ddywedom, *Deued dy Deyrnas*; ni a ddylem edrych am wneuthur a allom ni dros Lwyddiant Teyrnas Dduw, a Chrefydd; ac na bom ni yn gwrthwynebu Gras Duw i deyrnaſu droſom ni.

4. Pan ddywedom, *Gwneler dy Ewyllys, megis yn y nef felly ar y ddaear hefyd*; ni a ddylem edrych am ymwrth

â

d'n hëwyllys llygredig ein hunain, i ufuddhau ac ymoftwng i Ewyllys Duw ymhob peth.

5. Pan ddywedom, *Dyro i ni heddyw ein Bara beunyddiol*; ni a ddylem edrych am fyw yn oneft, i fwytta ein Bara ein hunain; ac yftyriaid, mai o Rodd Duw y mae ein Cynhaliaeth yn dyfod, trwy weddïo arno ynghyftawniad dïwyd ein Galwëdigaeth.

6. Pan ddywedom, *Maddeu i ni ein Dyledion* (fef, ein Pechodau) *fel y maddeuwn ni i'n Dyledwyr*; ni a ddylem edrych am droi oddi wrth ein Pechodau, ac i faddeu 'n ëwyllyfgar i bawb a bechant yn ein herbyn ni.

7. Pan ddywedom, *Nac arwain ni i Brofedigaeth; eithr gwared ni rhag Drwg*; ni a ddylem edrych, nad elom o'n Bodd ein hunain i Brofedigaethau a Phechod; ac nad oes neb ddichon ein gwaredu rhagddunt, ond Duw yn unig.

8. Pan ddywedom, *Eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r Nerth, a'r Gogoniant, yn oes oefoedd*; ni a ddylem ymddiried yn yderus ynddo, ac ymddwyn yn barchus ac yn ufudd iddo, chlodfori ei Fawredd gogoneddus ef, yn waftad. *Sal.* cxv. 1.

Cw. Beth yw yftyr *Amen*, yn nïwedd y Weddi hon?

Att. Mae *Amen* yn dyftiolaeth o'n Cydfyniad â 'r Deifyfiadau hyn, ac o'n Ffydd a'n Dymuniad am danunt: fel pe dywedem, Yr y 'm yn gobeithio ac yn deifyf i gael y pethau yn er mwyn Crift. *Amen. Poed felly y byddo.*

Cw. Pa 'm y dylech ddywedud, *Amen*, ar ddïwedd eich Gweddi?

Att. 1. Mae efgeuluf *Amen*, yn dangos diyftyrwch o 'r Weddi; ac nad ydym yn cydfynio nac yn chwennych i gael Bendithion a geifier ynddi.

2. Mae efgeuluf *Amen*, yn groes i Ddefod dduwiol yr holl Dduwiolion gynt. *Pan oedd Ezra yn bendithio'r Arglwydd, 'r Duw mawr, yr holl bobl a attebafant, Amen, Amen; an ddyrchafu eu dwylaw.* Neh. viii. 6.

3. Mae efgeuluf *Amen*, yn anufudd-dod dirmygus i 'r Arglwydd Jefu; yr hwn a orchymynnodd i ni 'r holl Weddi on, ac i ddywedud *Amen*, yn ei dïwedd hi. *A'r hwn a allo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl.* Jago 10.

Cw. Beth ychwaneg a ddyfgwch oddi wrth fod Crift yn fod *Amen*, i ni ddywedud, ar ddïwedd ein Gweddi?

Att. 1. Y dylai ein Gweddïau fod mewn Jaith a allo wb ddyall: ac onid ê, pa fodd y dichon yr anwybodus

ddywedud *Amen* yn ddyallus, *gan na's gŵyr beth yr wyt yn ei ddywedud?* 1 Cor. xiv. 16.

2. Y dylai ein Meddyliau ni fod yn gweddïo ar Dduw, ac onid y Genau yn unig: ac ond ê, pa fodd y gall neb ddywedud *Amen* o'r Galon, ac yn ddiragrith? *Mat.* xv. 8.

3. Y dylai ein Gweddïau fod yn gyttun ag Ewyllys Duw: onid ê, pa fodd y gall neb ddywedud *Amen*, trwy Ffydd? 1 *Joan* v. 14.

Cw. Pa beth yr wyt ti yn erchi ar Dduw yn y Weddi hon?

Att. 1. Yr ydwyf yn deisyf ar fy Arglwydd Dduw ein Tad nefol, yr hwn yw Rhoddwr pob daioni, ddanfon ei Rad arnaf, ac ar yr holl bobl; fel y gallom ei anrhydeddu ef, a'i wasanaethu ac ufuddhâu iddo megis y dylem.

2. Yr wyf yn gweddïo ar Dduw, ddanfon i ni bob peth angenrheidiol, yn gystal i'n heneidiau ag i'n cyrph; a bod yn drugarog wrthym, a maddeu i ni ein pechodau.

3. Am ryngu bodd iddo ein cadw a'n hymddiffyn ym mhob perygl, ysprydol a chorphorol; a chadw ein hono nyni rhag pob pechod ac anwiredd, a rhag ei geiyn ysprydol, a rhag angau tragywyddol.

A hyn, 4. yr ydwyf yn ei obeithio y gwna efe o'i Drugaredd a'i Ddaioni, trwy ein Harglwydd Jesu Grist. Ac am hynny yr wyf yn dywedud, Amen. Poed gwir. *Neu*, Felly y byddo.

Dïwedd y Bedwaredd Ran.

ESPONIAD
BYR O'R
SACRAMENTAU.

Y BUMMED RAN.

Cweſtiwn.

BETH yw Sacramentau?

Att. Arwyddion, neu Seliau o Gyfammod Duw, a Phethau yſprydol, a ordeiniodd Duw ei hun.

Cw. Pa'm yr ordeiniodd Duw Sacramentau?

Att. 1. I fod yn Arwyddion o Bethau yſprydol, i'w gwneuthur yn eglurach i'n dyall ni. *Ecſod.* xxiv. 8.

2. I gadw Coffa o honunt yn Eglwys Dduw yn waſtadol. 1 *Cor.* xi. 20.

3. I ſicrhâu i'n Ffydd ni y pethau y mae Duw yn addaw. *Iob* vi. 27.

4. I'n rhwymo ni i fod yn ffyddlon yng Nghyfammod Duw. *Ezec.* xx. 37. *Rhuf.* iv. 11.

5. I rwymo Pobl Dduw i fyw mewn Cariad ac Undeb heddychol â'u gilydd. 1 *Cor.* x. 17. xii. 13.

6. I wahaniaethu rhwng Pobl Dduw ac eraill, ag ſydd yn ei wrthod ef. *Gen.* xvii 10, 14. *Ecſod.* xii.

Cw. Beth ychwaneg a yſtyriwch am Sacramentau?

Att. 1. Nad oes i neb ordeinio Sacramentau, ond Duw ei hun, a Chriſt. *Eſay* vii. 14. *Gen.* xvii. *Ecſod.* xii. 1 *Cor.* xi. 23—25.

2. Nad oes i neb weini y Sacramentau, ond y rhai a alwyd i Swydd y Weinidogaeth. *Heb.* v. 4.

3. Mai trwy Gyſſegriad Duw o honunt, y mae'r Sacramentau yn ſuddiol i ni. *Nid yw'r hwn ſydd yn plannu, ddim,*

ddim, na'r hwn ſydd yn dyfrhâu; ond Duw, yr hwn ſydd yn rhoddi y cynnydd. 1 Cor. iii. 7.

4. Nad yw'r Sacramentau yn effeithiol er Jechydwriaeth i neb a barhao yn annuwiol. *Luc* xiii. 26, 27. *Act.* viii. 13, 21.

Cw. Pa fodd nad yw'r Sacramentau yn effeithiol i Jechydwriaeth pawb a'u harferant?

Att. 1. Am nad yw pawb yn eu harferu yn yſprydol: eithr yn ffurfiol, oddi allan yn unig. *Mat.* xv. 8, 9. *Rhuf.* ii. 29.

2. Am nad yw pawb yn cadw'r Cyfammod, ag yw'r Sacramentau yn Seliau o hono. *Rhuf.* ii. 25.

Cw. Pa Sacramentau oedd yn Seliau o'r Cyfammod yn y dyddiau gynt, cyn dyfod Criſt i'r byd?

Att. 1. Fe ordeiniodd Duw Arwyddion cyffelyb i Sacramentau, i'n Rhieni cyntaf ym Mharadwys; ſef, Pren y Bywyd, a Phren Gwybodaeth Da a Drwg.

2. Fe ordeiniodd Duw, ar ol hynny, ddau Sacrament, yn yr Eglwys *Juddewïg*; ſef, *Enwaediad*, ac *Oen y Paſg*. Gen. xvii. Ecſod. xii.

Cw. Pa ſawl Sacrament a ordeiniodd Criſt yn ei Eglwys?

Att. Dau yn unig, megis yn gyffredinol yn anghenrhaid i Jechydwriaeth; ſef, Bedydd, a Swpper yr Arglwydd.

Cw. Beth a yſtyriwch am y Sacramentau hyn?

Att. Pum peth. 1. Yr Awdwr, a ordeiniodd y Sacramentau hyn; ſef, Criſt. Y rhai gan hynny a'u dibriſiant, a ddirmygant yr Arglwydd Jeſu. 1 *Theſ.* iv. 8.

2. Nifer y Sacramentau; ſef, Dau. Ac am hynny, Cyfeiliorni cywilyddus yw ſaith Sacrament y Pabyddiaid.

3. Enwau y Sacramentau; ſef *Bedydd*, a *Swpper yr Arglwydd*.

4. Angenrheidrwydd y Sacramentau tu ag at Jechydwriaeth. Ac, am hynny, y mae y rhai a'u dibriſiant, yn dibriſio Jechydwriaeth.

5. Ym mha yſtyr y maent yn angenrheidiol i Jechydwriaeth; ſef, *yn gyffredinol*: nid am na ellir bod yn gadwedig hebddunt, pan na ellir eu cael, ſel y Lleidr edifeiriol ar y Groes.

Cw. Pa wahaniaeth ſydd rhwng Sacramentau yr Eſengyl a Sacramentau yr Hen Deſtament?

Att.

Att. 1. Nid yr un yw eu Defnydd. *Enwaediad*, ac *Oen y Paſg*, oedd gynt; eithr *Bedydd Dwfr*, a *Bara a Gwin*, yw y Sacramentau yn awr.

2. I Genedl yr *Juddewön* y rhoddwyd y Sacramentau gynt; eithr Sacramentau yr Efengyl a roddir i bob Cenedl a gyfammodant â Duw.

3. Y Sacramentau gynt oeddynt yn Arwyddion o Grift *i ddyfod*; eithr Sacramentau yr Efengyl ydynt Arwyddion o Grift *wedi dyfod* i'r byd.

Cw. Pa wahaniaeth ſydd rhwng Gair Duw a'r Sacramentau?

Att. 1. Mae Gair Duw i'w weini i bawb; eithr y Sacramentau ſydd i'w gweini yn unig i Deulu y Ffydd.

2. Y mae Gair Duw yn mynegu pethau yſprydol i'n Cluſtiau; ond y mae'r Sacramentau yn portreiadu pethau yſprydol, trwy Arwyddion gweledig, o flaen ein Llygaid ni.

3. Mae Gair Duw yn hyſpyſu i ni Gyfammod ac Addewidion Duw; eithr y mae'r Sacramentau yn eu ſicrhâu fel Seliau.

Cw. Pa beth yr wyt ti yn ei ddyall wrth y Gair hwn, *Sacrament*?

Att. Yr wyſi yn dyall Arwydd gweledig oddi allan o Ras yſprydol oddi fewn, a roddir i ni; yr hwn a ordeiniodd Criſt ei hun, megis modd i ni dderbyn y Gras hwnnw trwyddo, ac i fod yn wyſtl i'n ſicrhâu ni o'r Gras hwnnw.

Cw. Beth a yſtyriwch ymma?

Att. Tri pheth. 1. Yſtyr y Gair *Sacrament*. 2. Pwy a'i hordeiniodd; ſef, Criſt. 3. I ba Ddiben.

Cw. Beth yw yſtyr y Gair *Sacrament*?

Att. 1. *Sacrament* oeddyd gynt yn galw *Lifrai* Gweiſion Arglwyddi, i wahaniaethu rhyngthunt hwy a dynion eraill. Ac felly mae y Sacramentau yn gwahaniaethu rhwng Gweiſion Criſt ac eraill.

2. *Sacrament* oeddyd gynt yn galw y *Gwyſtl* i atteb Cwyn mewn Cyfraith ger bron Barnwr: felly y mae i ni ymma Wyſtl am Ffyddlondeb Criſt i atteb droſom ger bron Duw.

3. *Sacrament* a elwid *Llw Milwr*, am fod yn ffyddlon i'w Bentywyſog mewn Rhyfel. A thrwy y Sacramentau yr ydym ni yn myned dan *Lw y Cyfammod*, am fod yn Filwyr ffyddlon

ffyddlon dan Faner Criſt, yn erbyn Pechod, y Byd, a'
Cythraul.

Cw. Beth a yſtyriwch ynghŷlch mai Criſt yw'r Awdwr
ordeiniodd y Sacramentau hyn?

Att. Tri pheth. 1. Mai Criſt ſydd Ben uwchlaw pob
peth, i ordeinio'r Drefn a welo efe ſod yn dda yn ei Eglwys
ei hun. *Eph.* i. 22.

2. Mai gan Criſt y mae pob Awdurdod a Gallu, i ſendithio
ei Ordinhadau ei hun, er Lles i ni. *Mat.* xxviii. 18.

3. Nad oes i neb lyſelu Ordinhadau Crefydd o'u Dychymmyg eu hunain; nac eſgeuluſo y rhai a ordeiniodd Criſt.
Dat. xxii. 18.

Cw. I ba Ddiben yr ordeiniodd Criſt y Sacramentau?

Att. 1. I ſod yn Arwyddion gweledig oddi allan o Ra
yſprydol oddi fewn; fel na byddom hwyrfrydig i gredu
Addewïdion Duw. *Joan* xx. 27. *Jago* i. 6, 7.

2. I ſod yn Foddion i dderbyn Gras trwyddunt. Canys
yr Ordinhadau a gyſſegrodd Criſt, a fyddant leſol i bawb
a'u harferant yn barchus. *Eſay* xii. 3.

3. I ſod yn Wyſtl o Ras Duw; fel y neſaom at Ordinhadau
Criſt mewn llawn Sicrwydd Ffydd. *Heb.* x. 22, 23.

Cw. Pa ſawl Rhan y ſydd mewn Sacrament?

Att. Dwy: yr Arwydd gweledig oddi allan, a'
Gras yſprydol oddi fewn.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth hyn?

Att. 1. Nad oes i mi orphwys ar yr Ordinhadau odd
allan yn unig: canys, Arwyddion, neu Foddion o Ras, nid
y Gras ei hun, ydynt.

2. Nid oes i mi ddiſgwyl am Ras, tra yr eſgeuluſwy
Foddion Gras. *Canys, ni ddylai neb wahanu y pethau*
gyſſylltodd Duw.

Cw. Pa beth yw'r Arwydd gweledig oddi allan, neu'
Ffurf, yn y Bedydd?

Att. Dwfr: yn yr hwn y bedyddir un, *Yn Enw y*
Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd Glân.

Cw. Beth a ddylech yſtyriaid am Fedydd?

Att. 1. Mai y Sacrament cyntaf o'r Teſtament Newydd,
yw Bedydd, a ordeiniodd Criſt ei hun; na ddylid ei aſeru
yn yſgafn, na'i eſgeuluſo. *Mat.* xxviii. 19.

2. Mai

2. Mai yn y Bedydd y'n derbynir ni i Eglwys Grift. *Canys, yr Arglwydd a chwanegodd beunydd at yr eglwys y rhai fyddent gadwëdig.* Act. ii. 47.

3. Nad oes i neb gael eu bedyddio ychwaneg nag unwaith. *Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad oll,* Eph. iv. 6, 7.

4. Nad oes i neb fedyddio, ond Gweinidogion Gair Duw. Canys i'r cyfryw y rhoddodd Crift yr Awdurdod hwn. *Mat.* xxviii. 16, 18, 19.

5. Fod Bedydd yn *gyffredinol* yn angenrheidiol i Jechydwriaeth. Canys ni ordeiniodd Crift un Ordinhâd yn afreidiol. *Joan* iii. 5.

6. Fod Bedydd, megis yr Enwaediad (yn lle pa un y daeth Bedydd) yn Sel ac yn Arwydd o'r Cyfammod Gras. *Rhuf.* iv. 11.

Cw. Ai yn lle yr Enwaediad yr ordeiniodd Crift Fedydd?

Att. 1. Megis yr ordeiniodd Crift Swpper yr Arglwydd yn lle Oen y Pafg; felly yr ordeiniodd efe Fedydd yn lle'r Enwaediad.

2. Nid ordeiniwyd un Arwydd weledig arall o Gariad a Chyfammod Duw i Blant ei Bobl yn awr, megis yr oedd yr Enwaediad gynt, ond Bedydd yn unig.

3. Mae y Bedydd i'r un gyffelyb wafanaeth a'r Enwaediad; fef, i dderbyn y rhai a gredant, a'u holl deulu, i Gyfammod ac Eglwys Duw. *Gen.* xvii. 26, 27. *Act.* xvi. 15, 33.

4. Mae yr Yfpryd Glân yn galw Bedydd dan enw Enwaediad; fef, *Enwaediad Crift:* o blegid mai Bedydd a ordeiniodd Crift dan yr Efengyl, yn lle yr Enwaediad dan y Gyfraith. *Col.* ii. 11, 12.

5. Mae yr Enwaediad dan y Gyfaith, a'r Bedydd dan yr Efengyl, yn arwyddocâu yr un gyffelyb bethau.

Cw. Pa gyffelyb bethau y mae y ddau yn arwyddocâu?

Att. 1. Fel yr oedd yr Enwaediad, felly mae Bedydd, yn arwyddocâu, Llygredigaeth y Cnawd. *Jer.* iv. 4. 1 *Pedr* i. 21.

2. Fel yr oedd Enwaediad, felly mae Bedydd, yn arwyddocau, yr Adenedigaeth, neu Enwaediad y Galon. *Deut.* xxx. 6. *Tit.* iii. 5.

3. Fel yr oedd Enwaediad, felly mae Bedydd, yn Sel o'r Cyfammod Gras. *Canys, Infel Cyfiawnder y Ffydd, oedd yr Enwaediad.* Rhuf. iv. 11.

4. Fel yn yr Enwaediad, felly yn y Bedydd, y mae Derbyn-

iad i mewn i'r Eglwys Weledig, a than Oruchwyliaeth y Cyſammod Gras.

5. Fel yr oedd yr Enwaediad, ſelly mae Bedydd, yn goſod Rhwymedigaeth ar bawb, i ddioſg Corph Pechod, ac i arwain Buchedd newydd. *Col.* ii. 11. *Rhuf.* vi. 4, 6.

6. Fel yr oedd yr Enwaediad, ſelly mae Bedydd, yn Nôd o Wahaniaeth rhwng Aelodau yr Eglwys Weledig a dynion eraill.

Cw. I ba Ddiben yr ordeiniwyd Bedydd?

Att. 1. I arwyddocâu a ſelio y Breintiau a addewïr i ni.

2. I arwyddocâu a ſelio ein Rhwymedigaeth i gyflawnu'r Dyledſwyddau a ofynir.

Cw. Pa Freintiau a arwyddocêir yn y Bedydd?

Att. 1. Derbyniad i fod yn Aelodau o Gorph Eglwys Griſt. *Yn gyd-ddinaſyddion â'r ſaint, a theulu Duw.* Eph. ii. 19.

2. Maddeuant, trwy Griſt, o'n holl Bechodau. *Bedyddir pob un o honoch yn Enw Jeſu Griſt, er maddeuant pechodau.* Act. ii. 38, 39.

3. Golchiad ymmaith Ammhuredd ein Pechodau. *Cyfod, bedyddier di, a golch ymmaith dy bechodau.* Act. xxii. 16.

4. Sancteiddiad ein Natur ni. *Trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yſpryd Glân.* Tit. iii. 5.

5. Hawl, trwy Griſt, i fod yn Blant i Dduw, a'n gwiſgo â Gwiſgoedd Jechydwriaeth. *Gal.* iii. 26, 27. *Eſay* lxi. 10.

6. Hawl yn Haeddiant Marwölaeth Criſt droſom. *Oni wyddoch chwi am gynniſer o honom ag a fedyddiwyd i Griſt Jeſu, ein bedyddio ni i'w farwölaeth ef?* Rhuf. vi. 3.

Cw. Pa Ddyledſwyddau y mae Bedydd yn eich rhwymo i gyflawnu?

Att. 1. Ymwrthod â Gweithredoedd y Diafol, a Gwagedd y Byd, a Chwantau pechadurus y Cnawd. *Rhuf.* vi. 12.

2. Marw i Bechod, a chyfodi i Fuchedd newydd, trwy Ffydd yng Nghriſt Jeſu. *Col.* ii. 12.

3. *Ymatteb Cydwybod dda tu ag at Dduw. Gan groeſhoelio'r hen ddyn, er mwyn dirymmu corph pechod; fel rhagllaw na waſanaethom bechod.* Rhuf. vi. 4, 6. 1 Pedr iii. 21.

4. Byw yn gariadol â'u gilydd, fel Cydaelodau o Griſt. *O herwydd trwy un Yſpryd y bedyddiwyd ni oll yn un corph.* 1 Cor. xii. 13.

5. Ymddwyn yn addas i Athrawiaeth yr Efengyl ym mhob peth.

peth. *A chynnifer ag a rodiant yn ol y rheol hon, tangnefedd arnunt a thrugaredd.* Gal. vi. 16. v. 3.

Cw. A raid i 'r Cynheddfau hyn fod ym Mhlant y Criſtionogion pan y bedyddir hwy?

Att. Na raid, mwy nag yr oedd yn rhaid i Enwaediad y Gaion fod ym Mhlant yr *Iuddewön* pan enwaedwyd hwynt: eithr y mae Bedydd, fel yr oedd yr Enwaediad, yn rhwymo Plant i gwblhau y Dyledion hyn yn ol llaw.

Cw. Beth a Yſtyriwch am yr Arwydd oddi allan, yn y Bedydd?

Att. 1. Yr Arwydd ei hun; ſef, Dwfr, â pha un y 'n bedyddir.

2. Y Weithred o Fedyddio; ſef, cyfaddaſu Dwfr, trwy Air Duw a Gweddi, at Gorph y neb a fedyddir.

3. Yn Enw pwy y 'n bedyddir; ſef, yn Enw y Tad, a 'r Mab, a 'r Yſpryd Glân.

Cw. Pa lun y profwch y dylyd bedyddio â Dwfr?

Att. 1. Yr oedd yr Apoſtolion yn bedyddio â Dwfr, wrth Arch Criſt, tra 'r oedd efe yn y byd gyd â hwy. *Joan* iv. 1, 2.

2. Yr oedd yr Apoſtolion yn bedyddio â Dwfr, ar ol Ymadawiad Criſt oddi wrthunt. *Act.* ii. a x.

3. Mae y rhai a wadant Fedydd Dwfr, yn gwadu Swpper yr Arglwydd heſyd. *Diar.* xix. 27.

Cw. Pa'm yr ordeiniwyd Dwfr yn Arwydd yn y Bedydd?

Att. Am mai ſelly y rhyngodd bodd i 'r Arglwydd Jeſu: ac o herwydd fod Yſpryd Duw a 'i Ras yn cael eu cyffelybu yn fynych i Ddwfr, yn yr Yſgrythur.

Cw. Ymha lun y mae Yſpryd Duw a 'i Ras yn gyffelyb i Ddwfr?

Att. 1. Dwfr ſy 'n glanhau Ammhuredd y Corph; a thrwy Yſpryd Duw y ſancteiddir ein Natur ni.

2. Dwfr a dyrr ein Syched ni; ac Yſpryd Duw all ddoſi ein holl Drachwant ni. *Joan* iv. 14.

3. Dwfr ſy 'n ffrwythloni 'r craſdir; a thrwy Yſpryd Duw y gwneir ni 'n ffrwythlon ymhob Daioni. *Joel* iii. 18.

4. Ni allwn ni fyw 'r Bywyd naturiol hwn, heb Ddwfr; na byw yn ddduwiol, heb Yſpryd Duw.

Cw. Beth y mae bedyddio â Dwfr yn arwyddocâu?

Att. Glanhâd oddi wrth Bechod trwy Waed Criſt, a 'n Sancteiddiad trwy 'r Yſpryd Glân.

Cw. Beth y mae Bedyddio, *Yn Enw 'r Tad, a 'r Mab, a 'r Yſpryd Glân,* yn arwyddocâu?

Att.

Att. 1. Y Cyſſegriad o honof, mewn ffordd o Gyfammod, i'r Tad, a'r Mâb, a'r Yſpryd Glân, i fod yn eiddo Duw hyd byth. *Canys y Tri hyn, Un ydynt.* 1 Joan v. 7.

2. Fy Nyled i gredu ac addoli Perſonau bendigedig y Drindod, yn Undod y Duwdod. Canys fe'm bedyddiwyd i bob un o honunt fel eu gilydd, yn ol Gorchymmyn Criſt ei hun. *Mat.* xxviii. 19, 20.

Cw. Beth yw'r Gras yſprydol oddi fewn *(yn y Bedydd)?*

Att. Marwölaeth i Bechod, a genedigaeth newydd i Gyfiawnder: canys, gan ein bod ni wrth naturiaeth wedi ein geni mewn Pechod, ac yn blant Digofaint, trwy Fedydd y gwnair ni yn blant Gras.

Cw. Beth a yſtyriwch yn yr Atteb hwn?

Att. Pedwar peth. 1. Marwölaeth i Bechod; ſef, trwy Ras Duw, na fyddom ni ſyw ynddo mwyach. *Rhuf.* viii. 10.

2. Genedigaeth newydd i Gyfiawnder. Canys Criſt a ddywedodd, *Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.* Joan iii. 3.

3. Pa'm y mae Genedigaeth newydd yn angenrheidiol; ſef, am ein bod *wrth naturiaeth wedi ein geni mewn pechod, ac yn blant digofaint.* Sal. li. 5. Eph. ii. 3.

4. I ba Ddiben y'n genir o'r newydd; ſef, fel ein gwneler yn *Blant Gras*, ac yn Blant i Dduw, lle'r oeddem yn *Blant Digofaint.*

Cw. Pa'm y gelwïr y Gras hyn, yn Enedigaeth *newydd*?

Att. 1. Am ei fod yn ein ſymmud i 'Stad newydd o Jechydwriaeth, lle'r oeddym yn 'Stad o Golledigaeth. *Luc* xv. 32.

2. Am fod y Gras hwn yn gweithio Tymherau newydd, a Buchedd newydd, ymhawb a'i derbynio. 2 *Cor.* v. 17.

3. Am ei fod yn dwyn aneirif o Freintiau newydd; ſef, Rhyddhâd oddi wrth Felldithion y Ddeddf, a Hawl yn holl Ddoniau'r Prynedigaeth. *Gal.* iii. 13, 14.

Cw. Trwy ba fodd y mae'r Gras hyn yn dyfod?

Att. Trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Yſpryd Glân. A Chriſt a ddywedodd, *Na ddichon neb, heb ei eni o ddwfr ac o'r Yſpryd, fyned i mewn i deyrnas Dduw.* Tit. iii. 5. Joan iii. 5.

Cw.

Cw. Beth a ddiſgwylir gan y rhai a fedyddier?

Att. (Dau beth yn bennaf.) 1. Edifeirwch; trwy'r hon y maent yn ymwrthod â Pechod. 2. Ffydd; trwy'r hon y maent yn ddiyſgog yn credu Addewïdion Duw, y rhai a wnair iddunt yn y Sacrament hwnnw.

Cw. Pa'm y diſgwylir Edifeirwch gan y rhai a fedyddiwyd?

Att. 1. Am fod Gair Duw yn condemnio'r Anedifeiriol. *Onid edifarhêwch, chwi a ddifethir oll.* Luc xiii. 3.

2. Heb Edifeirwch, ni ddichon neb feddu ar wir Ffydd. Canys Criſt a ddywaid, *Edifarhêwch, a chredwch yr efengyl.* Marc i. 15.

Cw. Pa'm y diſgwylir am Ffydd yn y rhai a fedyddiwyd?

Att. 1. Am mai trwy Ffydd yng Nghriſt Jeſu, y mae iddunt hawl yn holl Addewïdion Duw. 2 *Cor.* i. 20.

2. Am na thâl Edifeirwch ddim, heb Ffydd. *Judas Iſcariot a aeth yn golledig o eiſiau credu, er iddo edifarhâu.* Mat. xxvii. 3—5.

3. Am fod yn ammhoſibl i ryngu bodd Duw, heb Ffydd. *Heb.* xi. 6.

4. Am mai Ffydd ſy'n gorchſygu'r byd, ac yn diffoddi holl biccellau tanllyd y Fall. 1 *Joan* v. 4. *Eph.* vi. 16.

5. Am mai'r neb ſy'n credu ym Mab Duw, ſydd ganddo Fywyd tragywyddol. *A'r hwn ſydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.* Joan iii. 36.

Cw. Paham wrth hynny y bedyddir Plant bychain, pryd na's gallant, o herwydd eu jeuengctid, gyflawnu y pethau hyn?

Att. O blegid eu bod yn addaw pob un o'r ddau trwy eu Mechnïau: yr hwn Addewïd, pan ddelont i oedran, y maent hwy eu hunain yn rhwym i'w gyflawnu.

Cw. A oes Gorchymmyn pennodol am Fechnïau yn y Bedydd?

Att. 1. Er nad oes Gorchymmyn pennodol am bob un o Amgylchion Crefydd, y mae Gorchymmyn cyffredinol i'r Eglwys, *wneuthur pob peth er adeiladaeth, ac yn drefnus.* 1 Cor. xiv. 26, 40.

2. Mae'n ddyledus i ymoſtwng i Drefn Eglwys Dduw, yn y peth ni ſo Duw yn wahardd. Canys Criſt a ddywaid, *Yr hwn ni wrandawö ar yr eglwys, bydded i ti megis yr ethnig a'r publican.—A'r neb ſydd yn dirmygu, nid dyn y mae yn ei ddirmygu, ond Duw.* Mat. xviii. 17. 1 Theſ. iv. 8. Rhuf. xvi. 17. Diar. i. 8.

3. Y mae er Adeiladaeth yn ddiammeu i Fechnïau wneuthur eu Dyled; ac nid yw eſgeuluſiad rhai, yn gwneuthur peth adeiladus yn anghyfnerthlon. *Beth o's anghredodd rhai? a wna eu hanghrediniaeth hwy ffydd Duw yn ofer?* Rhuf. iii. 3. 1 Cor. xiv. 26.

Cw. Pa'm y dylyd bedyddio Plant y Criſtionogion?

Att. 1. Fe ddylyd eu dodi yn y Bedydd dan Oruchwyliaeth y Cyfammod; megis y gorchymynnodd Duw am blant yr *Iuddewön* gynt. Canys ni alwödd Duw yn ol y Rhagorfraint fawr hon a roddes efe gynt i Blant ei Bobl. *Gen.* xvii. *Deut.* xxix. *Rhuf.* xi. 29.

2. Fe ddylyd eu dwyn yn y Bedydd i Deyrnas Dduw; ſef, ei Eglwys ef. Megis y dywedodd Criſt, *Mai eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw.* Ac am hynny, ni ddylyd eu cau hwynt allan. *Marc* x. 14.

3. Fe ddylyd eu bedyddio, o herwydd fod yr Addewïdion a arwyddocêir yn y Bedydd, yn perthyn iddunt. *Canys i chwi y mae'r addewïd, ac i'ch plant.* Act. ii. 39.

4. Fe ddylyd eu bedyddio, o herwydd eu geni mewn Pechod, a'u bod wrth naturiaeth yn Blant Digoſaint; ac na's gallant fod yn gadwëdig, heb yr Ailenedigaeth, a arwyddocêir yn y Bedydd; yr hyn y mae Yſpryd Duw yn ddiammeu yn ei weithredu yn yr holl Fabanod cadwëdig. Canys Criſt a ddywaid, *Yn wir, yn wir, meddaf i ti, Oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r Yſpryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Duw.* Joan iii. 5.

Cw. Ymha le y dylyd bedyddio?

Att. Yn wyneb yr Eglwys. Fel, 1. Y bo i'r holl Gynnulleidfa atgofio Addunedau eu Bedydd eu hunain.

2. Fel y bo i'r holl Gynnulleidfa uno'n ddifrifol yn eu Gweddïau dros y neb a fedyddier.

Cw. Beth yw Dyled Rhieni'r Plant a fedyddir?

Att. 1. Hwy a ddylent alaru yn bruddaidd am y Llygredd a dderbyniodd eu Plant oddi wrthunt.

2. Hwy a ddylent gyflwyno eu Plant i Gyfammod â Duw yn ddefoſiynol, gan weddïo droſtunt.

3. Hwy

3. Hwy a ddylent ddiolch i Dduw, am gymmeryd eu Plant yd â hwynt i'w Gyfammod a'i Eglwys ef, dan Obaith ylurus am eu Cadwëdigaeth, o's byddant farw yn Fabanod.

4. Hwy a ddylent ddyſgu eu Plant yn Egwyddorion y Ffydd; gan weddïo droſtunt, a rhoddi Eſampl dda iddunt, 'u dwyn yn ddyſal dan Foddion Gras.

5. Hwy a ddylent oſod eu Plant i gyd-fyw â Theulu'r Ffydd, pan font yn myned oddi wrthunt hwy.

Cw. Beth yw eich Dyled chwi oddi wrth y Bedydd a gawſoch?

Att. 1. Mi a ddylwn alaru am Lygredd fy Natur, a'i Golledigaeth a berthyn i mi, heb Ran yng Nghriſt, a'r Cyfammod Gras.

2. Mi a ddylwn ddiolch i Dduw, am y Breintiau a arwyddoceir yn y Bedydd; ac edrych na fforffettwyf y Breintiau hyn byth.

3. Mi a ddylwn gymmeryd Cyfammod fy Medydd arnaf fy hun, yn *Swpper yr Arglwydd*; ac ymrôi i barhâu yn *Filwr ffyddlon, ac yn Was i Griſt, holl ddyddiau fy mywyd.*

Cw. Beth yw *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Yr ail Sacrament a ordeiniodd Criſt yn ei Eglwys, yn lle *Oen y Paſg* yn yr Eglwys *Juddewïg.*

Cw. Wrth ba Enwau y gelwïr y Sacrament hwn?

Att. Cwppan y Fendith, Cymmun Corph a Gwaed Criſt, Bwrdd yr Arglwydd, Torri Bara, Gwaed y Teſtament Newydd, a *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pa wahaniaeth ſydd rhwng *Swpper yr Arglwydd* a *Bedydd*?

Att. 1. *Dwfr* yw'r Arwydd weledig yn y *Bedydd*; eithr *Bara a Gwin* ſydd yn *Swpper yr Arglwydd.*

2. Arwydd o'n Derbyniad ni i Eglwys Criſt, yw *Bedydd*; eithr o'n Cynnydd a'n Sefydliad ni ynddo, yw *Swpper yr Arglwydd.*

3. Ni ddylyd *bedyddio* neb ond unwaith; eithr ſe ddylyd derbyn *Swpper yr Arglwydd* yn fynych.

4. Nid yw *Swpper yr Arglwydd* yn perthyn i Blant, ond i'r rhai a ſedrant *jawn-farnu Corph yr Arglwydd.*

Cw. Pa wahaniaeth ſydd rhwng *Swpper yr Arglwydd* ac *Oen y Paſg*?

Att. 1. Yn Goffadwriaeth o Waredïad yr *Juddewïn* o'r *Aipht*, yr ordeiniwyd *Oen y Paſg*; eithr i goffhâu Prynedigaeth y Byd trwy Griſt, y mae *Swpper yr Arglwydd.*

2. Yr

2. Yr oedd *Oen y Paſg* yn Arwydd o Griſt i ddyfod; eith Arwydd o Griſt wedi dyfod, yw *Swpper yr Arglwydd.*

3. Nid oedd *Oen y Paſg* i barhau ond hyd Ddyfodia Criſt; eithr y mae *Swpper yr Arglwydd* i barhâu hyd ddïwed y byd.

4. *Oen y Paſg* oedd yr Ordinhâd bennaf gynt; eith *Swpper yr Arglwydd* yw 'r Ordinhâd fwyaf rhagorol buddiol a ordeinïodd Duw eriôed.

Cw. Paham yr ordeinïwyd Sacrament *Swpper yr Arglwydd?*

Att. Er mwyn tragywyddol gof am Aberth Dïoddefaint Marwölaeth Criſt, a 'r llesâd yr ydym ni yn ei dderbyn oddi wrtho.

Cw. Beth a gofiwch yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. 1. Dïoddefaint Marwölaeth Criſt. Canys efe a ddywedodd, *Gwnewch hyn er coffa am danaf.* 1 Cor. xi. 24.

2. Yr Aberth a offrymmodd Criſt. *Canys Criſt ein Paſg ni a aberthwyd drosom.* 1 Cor. v. 7.

3. Llesâd yr Aberth honno i ni. *Canys Criſt a ddileuodd ein pechodau ni trwy aberthu ei hun.* Heb. ix. 26.

Cw. Beth a yſtyrïwch am Aberth Dïoddefaint Marwölaeth Criſt?

Att. 1. Mai Aberth Dïoddefaint Marwölaeth Criſt yn unig, a ſoddlonodd Gyfiawnder Duw drosom. Nid oedd yr Aberthau gynt ond Cyſgodau o Griſt. *Heb.* ix. 9. x. 1.

2. Mai Aberth Dïoddefaint Marwölaeth Criſt yn unig, ſy'n lleſol tu ag at ein Jechydwriaeth ni. *Act.* iv. 12.

Cw. Pa Les ſydd oddi wrth Aberth Dïoddefaint Marwolaeth Criſt?

Att. 1. Cael ein rhyddhâu o law ein Gelynion, *i wasanaethu Duw yn ddiofn.* Luc i. 74.

2. Maddeuant diddannod o 'n holl Bechodau, *trwy Waed yr Arglwydd Jeſu.* Heb. viii. 12.

3. Yſpryd Duw i 'n ſancteiddïo ni, a 'n cymmorth yng Ngwaſanaeth Dduw. *Joan* xvi. 7.

4. Heddwch a Duw, a Mabwyſiad i fod yn Blant anwyl iddo. *Gal.* iii. 26.

5. Dyfodfa hyderus ger bron Duw, yn ein Gweddïau. *Eph.* iii. 12.

6. Ymwared ſicr oddi wrth holl Felldithion echrydus y Ddeddf. *Gal.* iii. 13.

7. Hawl

7. Hawl ficr yn holl Addewïdion y Cyfammod Gras, a'r Doniau a brynodd Criſt. 1 *Cor.* iii. 22.

Cw. Pa'm yr ordeiniwyd ſod Coffa am Aberth Dïoddefaint Criſt?

Att. 1. Am nad oes un peth teilyngach i gofio am dano, na Chariad Criſt yn marw drosom. Megis y dangoſir ei Farwolaeth ef o flaen ein llygaid, yn yr Ordinhâd hon. 1 *Cor.* xi. 26.

2. Am ein bod yn chwannog i anghofio 'r Pethau rheitiaf. Megis yr anghofiodd yr *Juddewön* eu Gwarediad o'r *Aipht*; ag a barodd i Dduw eu ffieiddio hwynt o blegid hynny. *Deut.* xxxii. 18—20.

3. Am y dylem gofio 'r Pethau ag ſydd i'w hyſtyried yn Aberth Dïoddefaint Criſt; ſef, Cariad a Chyfiawnder Duw, Drwg Pechod, a'r Jechydwriaeth fawr a bwrcaſodd Criſt i ni. *Gal.* iii. 1.

Cw. I ba Ddiben ychwaneg yr ordeiniwyd *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. I ſod yn Arwydd weledig o Gyfammod Duw â ni; ac i 'n rhwymo i ſod yn ffyddlon ynddo. Canys, *Gwaed y Teſtament Newydd*, a *Gwaed y Cyfammod*, y gelwïr Gwaed Criſt; am ei ſod yn Sel o'r Cyfammod newydd rhwng Duw a'i Bobl. *Luc* xxii. 20. *Ecſod.* xxiv. 8.

2. I ſod yn Arwydd o Gyffes ein Ffydd, ac o Wahaniaeth rhwng Diſgyblion Criſt ac eraill. *Canys ni ddylai neb o'i ddiſgyblion ef gymmeryd yn gywilydd i gyffeſu Ffydd Griſt a groeſhoeliwyd.* Rhuf. i. 16.

3. I 'n cynnyddu mewn Gras i waſanaethu Duw; a'n nerthu yn erbyn Profedigaethau. 2 *Tim.* ii. 1.

4. I 'n ſicrhâu yng Nghymmundeb â Chriſt; ac mewn Undeb brawdol â'u gilydd. 1 *Cor.* x. 16, 17.

5. I 'n deffrôi i ſod yn ddiolchgar am Gariad Duw a Chriſt, yn ein Prynedigaeth ni. *Mat.* xxvi. 30.

Cw. Pa beth yw y Rhan oddi allan, neu 'r Arwydd, yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Bara a Gwin; y rhai a orchymynnodd yr Arglwydd eu derbyn.

Cw. Beth a yſtyriwch ymma?

Att. Dau beth. 1. Yr Arwyddion a ordeiniodd Criſt; ſef, *Bara a Gwin.*

2. Gorchym-

2. Gorchymmyn Criſt i'w derbyn; ſef, i fwytta o'r Bara, ac i yfed o'r Gwin.

Cw. Ymha gyffelyb y mae Bara a Gwin yn Arwyddion o Griſt yn y Sacrament?

Att. 1. Yn y Parottoad o honunt. Yr *Yd* a ddyrnïr, a ſalïr, ac a bobïr â thân, a'r *Grawnwin* a friwïr ac a waſgïr, cyn y gwneler hwy yn *Fara* a *Gwin*. Ac nid heb ddïoddef llawer y daeth Criſt yn Waredwr i ni. *Eſay* liii. 5.

2. Yn yr Angenrheidrwydd o honunt i gynnal a llonni'n Bywyd ni: ac nid oes Fywyd tragywyddol ond trwy Griſt yn unig. *Joan* vi. 53—55.

3. Yn y Rhinwedd a'r Lles o honunt i 'n Cyrph ni: ac yng Nghriſt y mae pôb beth lleſol i 'n Heneidiau ni.

Cw. Pwy a orchymynnïr i dderbyn y Bara a'r Gwin yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Nid oes i neb ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, heb eu bedyddio; megis nad oedd i neb fwytta *Oen y Paſg*, heb eu henwaedu. *Ecſod* xii. 48.

2. Nid oes i neb ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, heb ſedru coffio Marwölaeth Criſt, holi eu hunain, ac jawn-farnu Corph yr Arglwydd. 1 *Cor.* xi. 29.

3. Diſgyblion Criſt ſydd i fwytta o'r Bara, ac yfed o'r Gwin, yn *Swpper yr Arglwydd*. Sef, y rhai a dderbyniant ei Athrawiaeth ef, ac a ymroant i fod yn Ddilynwyr iddo. *Mat.* xxvi. 26, 27.

Cw. Pa beth yw y Rhan oddi fewn, neu y peth a arwyddocêir?

Att. Corph a Gwaed Criſt; y rhai y mae'r Ffyddloniaid yn wir ac yn ddiau yn eu cymmeryd ac yn eu derbyn, yn *Swpper yr Arglwydd*.

Cw. Beth a yſtyrïwch ymma?

Att. Dau beth. 1. Mai *Corph a Gwaed Criſt* a arwyddocêir wrth *Fara a Gwin*, yn *Swpper yr Arglwydd*.

2. Mai y Ffyddloniaid, ac nid neb arall, ſy'n derbyn Corph a Gwaed Criſt, *yn wir ac yn ddiau*, yn *Swpper yr Arglwydd*.

Cw. Ymha yſtyr y mae *Bara a Gwin* yn arwyddocâu *Corph a Gwaed Criſt*, yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Maent yn arwyddocâu Dïoddefaint Marwölaeth Criſt, pan y croeſhoelïwyd ei Gorph, ac y tywalltwyd ei Waed ef; megis y torrir y Bara, ac y tywelltir Gwin, yn *y Swpper hon*.

2. Maent

2. Maent yn arwyddocâu Lles yſprydol Dïoddefaint Criſt i'r Ffyddloniaid.

Cw. Pa'm mai y Ffyddloniaid yn unig ſy'n derbyn Corph a Gwaed Criſt, yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Am fod yr Anffyddloniaid yn gwrthod Criſt. *Hwy a ddywedant yn eu calonnau, Ni fynnwn ni hwn i deyrnaſu arnom.* Luc xix. 14, 27.

2. Am fod yr Anffyddloniaid yn anufudd. Ac i'r rhai'ny yn unig a ufuddhânt iddo, y mae Criſt yn Awdwr Jechydwriaeth dragywyddol. *Heb.* v. 9.

3. Am na ddichon yr Anffyddloniaid dderbyn Criſt, er iddunt dderbyn y Bara a'r Gwin. Canys, Trwy Ffydd yn unig y mae derbyn Criſt. *Joan* i. 12.

Cw. Ymha yſtyr y mae'r Ffyddloniaid yn derbyn Corph a Gwaed Criſt, *yn wir ac yn ddiau*?

Att. 1. Nid yn yr yſtyr lythyrennol; fel pe bai y Bara a'r Gwin yn troi yn Gorph a Gwaed Criſt. Eithr,

2. Mae'r Ffyddloniaid yn derbyn Corph a Gwaed Criſt yn yſprydol, yn fywyd tragwyddol iddunt, *yn wir ac yn ddiau.* Canys Criſt a ddywedodd, *Oni fwyttêwch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, nid oes gennych fywyd ynnoch. Yr hwn ſydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, ſydd ganddo fywyd tragywyddol.* Joan vi. 53, 54.

Cw. Pa lun y gwyddoch, nad yw'r Bara a'r Gwin yn troi yn Gorph a Gwaed Criſt wrth eu cyſſegru, fel y dywaid y *Pabyddiaid*?

Att. 1. Mae'n holl Synhwyrau yn tyſtio, nad ydynt yn newid eu Sylwedd: yr y'm yn gweled, yn profi, ac yn teimlo, mai Bara a Gwin ydynt, ar ol eu cyſſegru, fel o'r blaen.

2. Mae'r Yſpryd Glân yn eu galw yn Bara, a'r Cwppan ag oedd y Gwin ynddo, pan ſydder yn bwytta ac yn yfed o honunt yn y Sacrament. 1 *Cor.* xi. 26 – 28.

Cw. Pa lesâd yr ydym ni yn ei gael wrth gymmeryd y Sacrament hwn?

Att. Cael cryfhâu a diddanu ein heneidiau trwy Gorph a Gwaed Criſt, megis y mae ein cyrph yn cael trwy'r Bara a'r Gwin.

Cw.

Cw. Beth a yſtyrïwch ymma?

Att. 1. Bod ein Heneidiau yn cael eu cryfhâu trwy Gorph a Gwaed Criſt, yn *Swpper yr Arglwydd.*

2. Bod ein Heneidiau yn cael eu diddanu trwy Gorph a Gwaed Criſt, yn *Swpper yr Arglwydd.*

3. Ymha gyffelyb; ſef, megis y mae'n Cyrph yn cael eu cryfhâu a'u diddanu trwy'r Bara a'r Gwin. Canys Criſt a ddywedodd, *Fy nghnawd i ſydd fwyd yn wir, a'm gwaed i ſydd ddiod yn wir.* Joan vi. 55.

Cw. Pa'm y dylech chwi ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Mi ddylwn ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, 1. O herwydd Gorchymmyn ſy Mhrynwr. *Canys eſe a ddywedodd, Gwnewch hyn er coffa am danaf.* 1 Cor. xi. 24.

2. Mi ddylwn ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, am fod yn diyſtyrwch o honi yn digio Duw yn echrydus. *Y rhai a wahoddwyd, ac ni fynnent ddyfod i'r Ginio Briodas, a'r Brenhin a anfonodd i'w diſtrywïo hwynt, ac a loſgodd eu dinas.* Mat. xxii. 2—7.

3. Mi ddylwn ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, i fod yn ddiolchgar iddo am ſy Mhrynedigaeth. *Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau eſ? Phiol iechydwriaeth a gymmeraf, ac ar Enw yr Arglwydd y galwäf.* Sal. cxvi. 12, 13.

4. Mi ddylwn ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, fel y'm cryfhêir ac y 'm diddenir, i fyned yn gyſurus trwy drallodion a phroſedigaethau'r byd hwn. *Rhuf.* v. 2—5.

5. Mi ddylwn ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*; ac onid ê yr wyf yn gwneuthur fy rhan, i adael Dïoddefaint Criſt fyned yn ofer ac yn anghof yn y byd: canys i gadw Coffa o hono, ac i fod yn ſuddiol i ni, yr ordeiniodd Criſt *y Swpper hon.* 2 Cor. vi. 1.

6. Mi ddylwn ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, i roddi fy hun iddo ef trwy Gyfammod. Ac onid ê, mi a fyddaf yn *eſtron i ammodau'r addewïd, heb obaith gennyſ, ac heb Dduw yn y byd.* Eph. ii. 12.

Cw. Pa'm y dylech ddyfod i gyfammodi â Duw, yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Am fod Criſt yn ſy ngalw i gymmeryd ei *jau ef arnaf, ac i ddyſgu ganddo.* Mat. xi. 20.

2. Am fod yr Arglwydd yn dywedud, mai *melldigedig fyddo'r gŵr ni wrandawö ar eiriau'r cyfammod hwn.* Jer. xi. 3.

3. Am

3. Am mai Diben Gair a Cheryddon Duw yw, dyfod â i Gyfammod ag ef. *Canys fel hyn y dywaid Duw: Gwnaf iwch' fyned dan y wïalen; a dygaf chwi dan rwym y cyfammod.* Ezec. xx. 37.

4. Am fod yr hwn a ballo gyfammodi â Duw, yn *Swpper yr Arglwydd*, yn gwadu Cyfammod ei Fedydd. *A'r Arglwydd a ddywaid, Fel mai byw fi, fy nghyfammod yr hwn a dorrodd efe, hwnnw a roddaf fi ar ei ben ef.* Ezec. xvii. 19.

5. Am mai yng Nghyfammod Duw y mae Cyffur Pobl Dduw yn eu Cyfyngderau; fel y Brenhin *Dafydd*, yn yr oriau olaf o'i fywyd. 2 *Sam.* xxiii. 1, 5.

6. Am mai y rhai a gyfammodant â Duw, a arddel Duw yn Bobl iddo yn Nydd y Farn. Gan ddywedud, *Ceſglwch fy ſaint ynghŷd attafi, y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth.* Sal. l. 5.

7. Am mai yn y Cyfammod a ſelir yn yr Ordinhâd hon, y ſicrhêir i ni yr holl Freintiau cyfammodol a bwrcaſodd Criſt.

Cw. Pa Freintiau cyfammodol a ſicrhêir ac a ſelir i chwi, yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Criſt ei hun yn Jawn ac yn Aberth droſof; a Duw ei hun yn Dduw ac yn Dad heddychol i mi, trwy Griſt. *Eph.* v. 2. 2 *Cor.* v. 18.

2. Maddeuant a Dirymmiad fy Mhechod; ac Ymwared ddi wrth Golledigaeth a Melldith y Ddeddf; ac Adnewyddiad fy Natur lygredig, trwy Râs Duw. *Eph.* i. 7. *Gal.* iii. 13. *Rhuf.* vi.

3. Cyfiawnhâd a Mabwyſiad, a Dyfodfa hyderus ger bron Duw, trwy Eiriolaeth Criſt droſof. 1 *Cor.* i. 30. *Eph.* iii. 12. *Heb.* vii. 25.

4. Addewïd am Yſpryd Duw i'm cymmorth a'm cyſuro, ac o Warchodaeth Rhagluniaeth ac Angylion Duw droſof, ym hob cyflwr. *Ezec.* xxxvi. 27. *Heb.* i. 14.

5. Pob Bendithion tymhorol ac yſprydol angenrheidiol i mi yn y Bywyd hwn, a Sicrwydd gobeithiol am Adgyfodiad gogoneddus i Fywyd tragywyddol. 1 *Pedr* i. 3, 4.

Cw. A ddylech chwi ddyfod yn fynych i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Mae Gorchymmyn Criſt yn dangos y dylem ni ddyfod yn fynych i'w *Swpper ef.* 1 Cor. xi. 26.

2. Mae Eſampl y Seintiau gynt yn dyſgu hyn. Canys yr oeddynt

oeddynt hwy yn derbyn *Swpper yr Arglwydd* bob Sabboth *Act.* xx. 7.

3. Fe ddylai ein Cariad i Grist ein cymmell i goffhâu fynych am ei Gariad ef yn marw drosom. 2 *Cor.* v. 14.

4. Fe orchymynnodd Duw i dorri ymmaith y neb eſgeuluſai *Oen y Paſg* yn ddiachos: ac nid yw'r Pechod na Perygl yn llai, i eſgeuluſo *Swpper Criſt.* Num. ix. 13.

5. Mae'r neb a eſgeuluſo *Swpper Criſt* yn ddiachos, yn debyg o dynnu'n ol i Golledigaeth. *Heb.* x. 25, 39.

6. Mae'r neb a eſgeuluſo, yn colli, hyd a wyr efe, yn Odfa olaf o dderbyn *Swpper yr Arglwydd* byth, o herwydd Anſertenrwydd ei Fywyd. *Diar.* xxvii. 1.

7. Ni a ddylem ddyfod yn fynych i *Swpper yr Arglwydd* o herwydd yr Eiſiau ſydd arnom yn fynych am Les oddi wrtho.

Cw. Pa Eiſiau ſydd arnoch yn fynych am Les oddi wrth Grist, yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Mae'n Calonnau yn fynych yn gelyd, a'n Serchiadau yn ſynych yn oerllyd, a'n Ffydd yn fynych yn wan; ac arnom fynych Eiſiau ein cryfhâu a'n hadfywio trwy Ras Duw, a'n glanhâu trwy Waed Criſt.

Cw. O ba Oedran y dylech fod, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Nid Oedran ſy ddigon i'n cymhwyſo i *Swpper yr Arglwydd:* canys y mae rhai yn gwybod mwy am Grist yn ddeng mlwydd oed, nag eraill yn ddeg a deugain.

2. Mi ddylwn gofio fy Nghreawdwr, a cheiſio fy Mhrynwr hefyd, yn Nyddiau fy Jeuengctid. A'r Arglwydd a ddywaid, *Y ſawl a'm ceiſiant i yn fore, a'm cânt.* Diar. viii. 17.

3. O's ydwyf yn meddu Gras a Gwybodaeth i gymmuno'n deilwng, mi ddylwn roddi fy hun i Grist, yn *Swpper yr Arglwydd*, yn ddioed.

Cw. Beth yw Perygl y rhai a ddeuant i *Swpper yr Arglwydd* yn annheilwng?

Att. 1. Maent yn euog o Gorph a Gwaed Criſt, fel pe baent yn ei ail-groeſhoelio ef. 1 *Cor.* xi. 27.

2. Maent yn bwytta ac yn yfed Barnedigaeth iddunt eu hunain. *Llawer o'r Corinthiaid a fuant glaf, ac eraill a fuant farw, am ddyfod yn annheilwng i Swpper yr Arglwydd.* 1 Cor. xi. 29, 30.

3. Maent yn rhoddi lle i'n Diafol i'w temtio yn fwy.

Gy

Gyd â'r tammaid a fwyttaodd Judas Iſcariot yn anheilwng ar Fwrdd Criſt, yr aeth Satan i mewn i'w alon ef i fradychu Criſt; ac wedi hynny, i ymgrogi. Joan iii. 27. Mat. xxvii. 5.

Cw. Pwy ſy'n dyfod i *Swpper yr Arglwydd* yn anheilwng?

Att. 1. Y rhai a ddiyſtyrant Wybodaeth i jawn-farnu Corph yr Arglwydd, ac i ddyfod o jawn Ddiben i'w *Swpper ef.* Diar. xix. 2. 1 Cor. xi. 29.

2. Y rhai a ballant gyflawnu Dyledſwyddau eraill; ſef, Gwrando Gair Duw, a'i addoli yn gyſſon ar y Sabbothau, a gweddio Duw beunydd yn eu Teiau. *Jago* ii. 10.

3. Y rhai ſy mewn Digoſaint, heb heddychu; ac yn anwneuthur Camwedd, heb ei gyfiawnu. *Mat.* v. 23, 24.

4. Y rhai a gyſammodant â Duw yn *Swpper Criſt*, heb Ddiofryd yn erbyn pob Pechod adnabyddus iddunt; ag ſydd el Llw anudon yngolwg Duw. *Hoſ.* x. 4.

Cw. A ddylech chwi eſgeuluſo *Swpper yr Arglwydd*, rhag ofn dyfod yn anghymmwys iddi?

Att. 1. Mae cymmaint Perygl i eſgeuluſo *Swpper yr Arglwydd*, ag ſydd o ddyfod iddi yn anghymmwys; fel na's gallaf ddiangc rhag Barn Duw, ond trwy lafurio am Gymhwyſder i Gymmuno.

2. Mi ddylwn lafurio am Gymhwyſder yn glau, rhag llarfod am danaf heb Ran yng Nghriſt: canys, tra fyddwyf yn anghymmwys i Gymmuno, yr wyf yn anghymmwys i farw, ac i Deyrnas Nefoedd.

3. Y rhai difraw, rhyfygus, a rhagrithiol, ſy'n dyfod yn anheilwng; eithr y mae Duw yn annog y rhai ofnus goſtyngedig i ddyfod atto ef. *Marc* x. 49.

Cw. Pa lun y mae Duw yn annog y rhai ofnus goſtyngedig i ddyfod atto ef?

Att. 1. Fe ddywaid wrthunt, *Pe byddai eich pechodau fel 'ſgarlad, ânt cyd wynned a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan.* Eſay i. 18.

2. Mae Gair Duw yn tyſtiolaethu iddunt, *Fod Gwaed Jeſu Griſt ei Fab ef yn ein glanhâu ni oddi wrth bob pechod.* 1 Joan i. 7.

3. Mae Criſt yn eu galw atto. *Deuwch attaſi, bawb ag ydd yn flinderog ac yn llwythog; a mi a eſmwythâf arnoch.* Mat. xi. 28.

4. Fe ddywaid yr Yſpryd Glân wrth yr Eglwys am eu derbyn.

derbyn. *Yr hwn ſydd wan yn y ffydd, derbyniwch attoch* Rhuf. xiv. 1.

5. Fe ddywaid Criſt, *Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond y rhai cleiſion.—Ac y mae Duw yn gorchymyn i'r rhai ſydd mewn oſn a thywyllwch, i obeithio yn Enw yr Arglwydd, ac ymdiried yn eu Duw.* Luc v. 31. Eſay l. 10.

6. Fe ddywaid Criſt am y rhai ſo'n gweled eu gwaeledd, *Gwyn eu byd y tlodion yn yr yſpryd: canys eiddunt y teyrnas neſoedd.* Mat. v. 3.

7. Y mae Criſt yn gwahawdd pawb a ëwyllyſio, i ddyſod atto ef. *Yr hwn ſydd â ſyched arno, deued; a'r hwn ſydd yn ëwyllyſio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhad.* Dat. xxii. 17.

Cw. Pa beth ſydd raid i'r rhai a ddêl i *Swpper yr Arglwydd*, ei wneuthur?

Att. Eu holi eu hunain, a ydynt hwy yn wir edifeiriol am eu pechodau a aeth heibio, ac yn ſicr amcanu dilyn buchedd newydd; a oes ganddunt ffydd fywiol yn Nhrugaredd Dduw trwy Griſt, gyd â dir olchus gof am ei Angau ef; ac a ydynt hwy mewn cariad perffaith â phob dŷn.

Cw. Beth a yſtyrïwch ymma?

Att. Dau beth. 1. Ein Dyled i holi ein hunain, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd.*

2. Ynghylch pa beth y dylem holi ein hunain.

Cw. Pa 'm y dylech holi eich hun, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd*? Onid yw yn ddigon i'ch Gweinidog eich holi?

Att. 1. Mi ddylwn fod yn ufudd i'm Gweinidog fy holi; ond fe orchymynnir i mi holi fy hun hefyd. *Holed dyn ei hun; ac felly bwyttaed o'r bara, ac yfed o'r cwppan.* 1 Cor. xi. 28.

2. Mi ddylwn holi fy hun: canys ni ddichon y Gweinidog wybod fy Nghalon, *ſydd fwy ei thwyll nâ dim.* Jer. xvii. 9.

Cw. Ynghŷlch pa beth y dylech holi eich hun, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Ynghŷlch y pum peth hyn. 1. P'un a ydwyf *yn wir edifeiriol am fy Mhechodau a aeth heibio.*

2. P'un a ydwyf *yn ſicr amcanu dilyn Buchedd newydd.*

3. P'un a oes *gennyf Ffydd fywiol yn Nhrugaredd Dduw trwy Griſt.*

4. P'un

4. P'un a ydwyf yn dyfod *gyd â diolchus Goffa am ei*
ngau ef.

5. P'un a ydwyf *mewn Cariad perffaith â phob Dyn.*

Cw. Pa rai yw'r Nodau 'fgrythurol o wir Edifeirwch?

Att. 1. Triftwch duwiol am Bechod. *Canys duwiol*
riftwoh fydd yn gweithio edifeirwch er jechydwriaeth.
2 Cor. vii. 10.

2. Cyfaddefiad o Bechod, ac Ymadawiad oddi wrtho. *Y*
neb a guddio ei bechodau, ni lwydda: ond y neb a'u haddefo,
ac a'u gadawo, a gaiff drugaredd. Diar. xxviii. 13.

3. Gweddio yn amgen nag o'r blaen. Megis y dywedwyd
m *Paul* ar ei Dröedigaeth; *Wele, y mae yn gweddio.*
Act. ix. 11.

4. Ymofyniad difrifol am Jechydwriaeth. Fel y rhai a
ddywedafant, *Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?* Ac fel
dywedodd *Job: Myfi a bechais; beth a wnaf?* Act. ii. 37.
Job vii. 20.

5. Parodrwydd i drugarhâu wrth y Tlodion, ac i gyf-
awnhâu pob Camwedd. *Zaccëus, pan ddaeth Jechydwr-*
iaeth i'w dŷ ef, a roddodd hanner ei ddâ i'r tlodion, ac a
dalodd ar ei bedwerydd bob cam a wnaethai. Luc xix. 8, 9.

6. Ymroad dioed i gyfammodi â Duw, a'i addoli. 2 *Cron.*
xxix. 10.

7. Ffrwythau addas i Edifeirwch; fef, Cafineb i Bechod,
c Awydd i bob Daioni; Cariad i Dduw, a phob Dyn; a
wir Oftyngeiddrwydd. *Luc* vi. 44.

Cw. Pa Nodau fydd o Fuchedd newydd?

Att. 1. Egwyddor newydd; fef, *Cariad Criſt yn ein cym-*
nell ni i fyw iddo ef. 2 Cor. v. 14.

2. Natur a Thymmer newydd; fef, Calon ac Yfpryd
ewydd, yn ol Addewid Duw. *Ezec.* xxxvi. 26.

3. Rheol newydd o'n Hufudd-dod; fef, Ewyllys Duw yn
i Air; nid ein hëwyllys ein hunain mwyach. *Gal.* vi. 16.

4. Diben newydd yn y cwbl a wnelom; fef, Gogoniant
Duw. 1 *Cor.* x. 31.

5. Cynheddfau a Moefau newydd; Cas a Chariad, Trift-
wch a Llawenydd newydd; Cyfeillion, Arferion, a Diben
ewydd. *Ŵr hen bethau a aethant heibio; wele, gwnaeth-*
wyd pob peth yn newydd. 2 Cor. v. 17.

Cw. Pa Nodau fydd o wir Ffydd?

Att. 1. Ufudd-dod dinâg i Dduw ymhôb peth; fel *Noe*
c *Abraham.* Heb. xi. 7, 8, 17.

2. Ymwrthod â phob Elw bechadurus; fel y Conſurwyr y rhai, pan gredaſant, a loſgaſant eu llyfrau, o werth deng mil a deugain o ddarnau arian. *Act.* xix. 18, 19.

3. Hiraeth am Dduw, fel *Dafydd. Fel y brefa'r hydd am yr afonydd dyfroedd, felly'r hiraetha ſy enaid am danat ti, O Dduw.* Sal. xlii. 1.

4. Dibriſio pob peth, fel *Paul*, mewn cymhariaeth i Ardderchowgrwydd Gwybodaeth Criſt Jeſu ein Harglwydd. *Phil.* iii. 8.

5. Gorfodaeth dros Broſedigaethau'r Byd, a Satan. *Canys ffydd ſydd yn gorchfygu'r byd, ac yn diffoddi holl biccellau tanllyd y fall.* 1 Joan v. 4. Eph. vi. 16.

6. Awyddfryd wreſog i bob Gweithred dda. *Canys ffydd heb weithredoedd, marw yw.* Jago ii. 26.

Cw. Pa Nodau ſydd o ddïolchus Goffa am Farwölaeth Criſt?

Att. 1. Deffroad ein Heneidiau i fendithio yr Arglwydd; a chwbl ag ſydd ynnom, ei Enw ſanctaidd ef. *Sal.* ciii. 1.

2. Ymddaroſtyngiad mawr ynnom, wrth yſtyriaid Daioni Duw i ni. *Arglwydd, beth yw dyn, pan gydnabyddit ef? neu fab dyn, pan wnait gyfrif o hono?* Sal. cxliv. 3.

3. Mae dïolchus Goffa o Farwölaeth Criſt, yn gweithio ynnom ei glodfori ef, a'i garu, hyd eithaf o'n gallu. *Am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.* 1 Joan iv. 19.

Cw. Beth yw Nodau Cariad perffaith tu ag at bob Dyn?

Att. 1. Na wnelom, ac na fwriadom, Ddrwg i neb, *Zec.* viii. 17.

2. Ceiſio Lles a Daioni Dynion eraill, fel yr eiddo ein hunain: canys felly y gorchymynnir i ni. *Phil.* ii. 4.

3. Cyd-deimlo ag eraill yn eu Blinderau. *Cofiwch y rhai ſydd yn rhwym, fel pettaech yn rhwym gyd â hwynt.* Heb. xiii. 3.

4. Ymddygiad goſtyngedig tu ag at eraill. *Perchwch bawb.—Gan dybiaid eu gilydd yn well nâ chwi eich hunain.* 1 Pedr ii. 17. Phil. ii. 3.

5. Cymmwynaſgarwch i bawb. *O's dy elyn a newyna portha ef â bara; ac o's ſycheda, dôd iddo ddiod i'w yſed.* Diar. xxv. 21.

6. Gwneuthur i eraill megis y dymunem i eraill wneuthur i ni. *Luc* vi. 31.

Cw. Wedi holi eich hun, a chael Dechreuad gobeithio o'r Graſau hyn ynnoch; beth ychwaneg a wnewch?

Att.

Att. Mi ddylwn ymbarottôi i nesâu at Dduw, yn *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pa'm y dylech barottôi, i ddyfod i *Swpper yr Arglwydd?*

Att. 1. Am fod Duw yn erchu hynny. *Parottêwch eich calon at yr Arglwydd.* 1 Sam. vii. 3.

2. Am ei fod yn beryglus jawn ac yn Rhyfyg, i nesâu yn anmharod ger bron Wyneb y Duw mawr a ſanctaidd. 1 *Sam.* vi. 20. *Lef.* x. 3.

3. Am mai felly y bydd Duw gyd â ni. *Llaw'r Arglwydd oedd gyd ag Ezra, o herwydd iddo barottôi ei galon i geiſio cyfraith yr Arglwydd.* Ezra vii. 9, 10. 2 Cron. xxvii. 6.

4. Am fod Parottoad mawr ar ein medr, a Gwaith mawr o'n blaen ni, yn yr Ordinhâd hon; ag y *fydd yn arogl o fywyd, neu o farwölaeth, i bob un.* 2 Cor. ii. 16.

5. Am fod Calon ammharod i geiſio Duw, yn tywys Dyn i Ddrwg. *Rehoboam a wnaeth yr hyn oedd ddrwg: canys ni pharottôdd ei galon i geiſio'r Arglwydd.* 2 Cron. xii. 14.

Cw. Pa lun (heb law holi eich hun) y dylech ymbarottôi i *Swpper yr Arglwydd?*

Att. 1. Mi ddylwn weddïo am Gymmorth Duw yn yr Ordinhâd hon, ac am Fendith Dduw arni. *Sal.* cxvi. 13. cxviii. 25.

2. Mi ddylwn yſtyriaid fy Nghyflwr truenus, a'm Colledigaeth dragywyddol, trwy Bechod; fel y tynero fy Nghalon, ac y delwyf yn bruddaidd ac yn wir-oſtyngedig ger bron fy Arglwydd. *Mat.* v. 4.

3. Mi ddylwn chwilio allan fy holl Bechodau; ſef, fy Mhechodau anwylaf a'm Pechodau dirgelaf, holl ddrwg Arfer fy Muchedd, a drwg Anwydau fy Natur; i addunedu yn eu herbyn, ac i lefain ar Dduw am Gymmorth i ymadael â hwynt dros byth. *Galar.* iii. 40. *Job* xiii. 23.

4. Mi ddylwn yſtyriaid Lleſgedd ac Angen fy Enaid; mor wan yw fy Ffydd, mor oer yw fy Nghariad, mor galed yw fy Nghalon, mor dywyll yw fy Nyall, ac mor gryf yw fy Anwydau pechadurus: fel y bo ynnof fwy o Newyn a Syched am Ras Duw. *Mat.* v. 6. *Eſay* lv. 1.

5. Mi ddylwn edrych yn ofalus am ddyfod o Ddiben unawn i *Swpper yr Arglwydd*; rhag iddo eſ fy nghael yn Rhagrithiwr ger ei fron.

Cw. I ba Ddiben y deuwch chwi i *Swpper yr Arglwydd?*

Act. 1. Mi ddeuaf i *Swpper yr Arglwydd*, i goffhâu yn ddïolchgar am ei Ddïoddefaint ef a'i Gariad, o Ufudd-dod i'w Orchymmyn ef; ac oniid ê, mi fyddaf yn un o'r Anufuddion melldigedig, ar ba rai y daw Digofaint Duw. *Luc* xxii. 19. 1 *Cor.* xi. 24. *Eph.* v. 6.

2. Mi ddeuaf i *Swpper yr Arglwydd*, i gyfammodi o'r newydd â Duw, trwy Grift; fel y'm gwareder oddi wrth ei Ddigofaint ef. 2 *Cron.* xxix. 10.

3. Mi ddeuaf i *Swpper yr Arglwydd*, i gael Sicrwydd am Ran o'r *Bryniedigaeth fydd trwy waed Crift; fef, maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef.* Eph. i. 7.

4. Mi ddeuaf i *Swpper yr Arglwydd*, i ymborth, trwy Ffydd, ar Gnawd a Gwaed Crift. Canys Efe a ddywaid, *Yr hwn fydd yn bwytta fy nghnawd i, ac yn yfaid fy ngwaed i, fydd ganddo fywyd tragywyddol.* Joan vi. 53, 54.

5. Mi ddeuaf i *Swpper yr Arglwydd*, i gael fy mendithio â phob Gras angenrheidiol i mi; yn ol Addewid Duw. *Ym mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm Henw, y deuaf attat, ac y'th fendithiaf.* Ecfod. xx. 24.

GWEDDIAU

GWEDDIAU

I'w harfer gan

FEISTRAID ac YSGOLHEIGION YR ELUSEN-YSGOLION.

NODIR yma, 1. Heblaw Dyled pob Meiſtr i fod yn ddyfal a gofalus, i ddyſgu eu Hyſgolheigion bob dydd, i atteb y Gweinidog yn bwyllog, yn ddyallus, ac yn barchus, yng Ngwaſanaeth yr Eglwys; hwy a ddylent hefyd daer-weddio'n berthynaſol gyd â hwynt, a throſtunt, bob Bore a Hwyr.

2. Ni ddylai neb rhyw ddyn eſgeuluſo Gweddi, dros gymmaint ag un Dydd; rhag i ryw Ddrwg mawr ei orddiwes, a digwydd iddo Groes, Aflwydd, a Melldith, neu ſyrthio o hono i Berchod ſgeler a Pherygl, ac i Farn Duw ac Angau ei gymmeryd ef ymmaith y Dydd hwnnw.

3. Fe berthyn i bob dyn yſtyriaid, fod tragywyddol Bwys ei Jechydwriaeth ef (dan Dduw) yn ſefyll ar Lwyddiant ei Weddïau, trwy Ffydd yng Nghriſt; ſel y bo iddo ymegnïo, ynghymmorth yr Yſpryd Glân, i addoli Duw mewn Yſpryd a Gwirionedd. Canys Rhagrith atgas yw, neſâu at Dduw â'r Genau, ac yn y Galon ymhell oddi wrtho; ac fe ddywedir yn y 'Sgrythur Lân, *Mai melldigedig yw'r hwn a wnelo waith yr Arglwydd yn dwyllodrus.* Jer. xlviii. 10. Mae'n cyfryw un yn cymmeryd Enw Duw yn ofer ar ei finiau, ac ni ddiangc efe ddim yn ddigôſp.

BOREOL WEDDI

I FEISTRAID Y 'LUSEN-YSGOLION

Ynghŷd â'u

YSGOLHEIGION.

Y Duw mawr gogoneddus, yr hwn wyt goruwch yr holl Nefoedd, yn anfeidrol ym Mherffeithrwydd gogoneddus dy holl Briodoliaethau; yn Hollalluog, i wneuthur yr hyn oll a fynnech; yn Hollwybodol, nad oes dim na's gwyddoſt; ac yn Hollbreſennol, yn llenwi pob man; O llanw ein Calonnau ni yr awrhon â'r cyfryw Yſtyriaeth barchedig o'th Fawredd, a'n deffro ni i'th addoli mewn Yſpryd a Gwirionedd; ac na ddelom o flaen dy Orſedd fel Twyllwyr a nefânt attat á'u Genau, a'u Calonnau ymhell oddi wrthyt! Yr ydym yn deiſyf Cymmorth i alw arnat gyd ag Ymddaroſtyngiad mawr a Difrifwch: canys llwch a lludw ydym; ac o herwydd ein Camweddau, ni's gallwn ſefyll ger dy fron, ond yng Nghyfryngdod ein Harglwydd Jeſu; trwy'r hwn y mae i ni Hyfdra, a Dyfodfa mewn hyder o'th flaen, er maint ein Hannheilyngdod. Glanhâ ni trwy Waed Crift oddi wrth ein holl Bechodau, chwanega ein Ffydd ni ynddo'e, a bendithia ni â gwir Edifeirwch.

Cynhorthwya ni i alw i gof ein Ffyrdd drygionus, a'n Gweithredoedd nid oeddynt dda; fel y byddo yn flaidd gennym ein hunain am ein Hanwireddau, ac am ein Ffieidd-dra: tro ni oddi wrthunt, a gwared ni oddi wrth yr Euogrwydd a'r Llywodraeth o honunt; fel, lle y gwnaethom ar lai, na wnelom ni felly mwyach.

Caniattâ, trwy'r Addewidion mawr jawn a gwerthfawr a roddaiſt, i ni gael ein gwneuthur yn Gyfrannogion o'r Duwiol Anian, ac i ddiange oddi wrth y Llygredigaeth ag ſydd yn y Byd trwy Drachwant. Dyſg a chymmorth ni i ddilyn Heddwch â phawb, a Sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd. Cynhorthwya bob un o honom, yn ol ei

ei ddydd, i ſod yn waſanaethgar yn ein Cenhedlaeth, ac yn ffyddlon yngwaith ein Galwäd, er Gogoniant i'th Enw.

Yn enwëdigol, yr attolygwn arnat, i'n cyſarwyddo a'n cymmorth, ac i roddi dy Fendith i'n llwyddo, yn ein Gwaith preſennol; fel y byddo i ni allu rhoddi Cyfrif cyſurus o'i blegid ger bron Brawdle Criſt. Cynhydda y rhai bychain hyn yn dy Râs, a Gwybodaeth jachuſol o'th Ewyllys, i gael o honunt eu hyfforddio ymhen y Ffordd i Fywyd tragywyddol; fel, pan yr heneiddiont, nad ymadawönt â hi. Dyſg Di hwynt, trwy dy Air a'th Yſpryd, i'th gofio, a'th garu, a'th geiſio Di eu Creawdwr, yn Nyddiau eu Jeuengctid: canys y ſawl a'th geiſiant yn fore, a'th gânt; a Thi a geri y ſawl a'th garant Di.

Tydi, Arglwydd Goruchaf, wyt unig Roddwr pob Gras a Daioni; par Lwyddiant i'r holl Yſgolion lle dyſger Gwybodaeth jachuſol o honot, ac yn enwëdig i'r *Eluſen Yſgolion*, i jawn-hyfforddio'r Anwybodus. Bendithia'r ſawl a'u coſtiant; ymddiffyn hwynt rhag pob Gwrthwynebiad; cadw'r rhai a ddyſgir ynddunt rhag pob ffals Ddyſgeidiaeth, 'Pinrwn annuwiol, a Siſm, a phob drwg Fuchedd; fel y bönt yn Aelodau hardd a ffrwythlon o'th Eglwys ſefydledig: cynhwyſa hwy i dderbyn Adeiladaeth oddi wrth dy Air di, a Gweinidogaeth yr Eglwyſwyr, er mwyſwy Cynnydd o Wybodaeth grefyddol a Rhinwedd dda yn ein plith.

Bendithia ni oll â'th Gymmorth graſuſol: canys hebot Ti ni allwn ni wneuthur dim ſydd dda. Llawn ydym o Gyndynrwydd, Dallineb, a Gwaeledd; Llygredigaeth ac Anhrefn lawer ſy yn ein Meddyliau oddi mewn, ac yn ein Bucheddau oddi allan, yn anabl i helpu ein hunain, ac yn annheilwng o'th Gymmorth di. Er mwyn Criſt, maddeu ein holl Feiau, goleua ein Dyalltwriaeth, cryfhâ ein Co-, ſan, eiddia ein Calonnau, a chyfarwydda ein Bucheddau yn ol dy Air; fel ein cydffurfier ymhôb peth â'th Ewyllys di. Cynhorthwya ni oll i jawn-ddefnyddio'r Manteiſion hyn a drefnodd dy ddaionus Ragluniaeth i ni; fel y dyſgom y cyfryw Bethau da, a'n gwnelo, trwy dy Ras di, yn wir Griſtionogion, ac yn lleſol i bawb o'n cylch, er Clod ac Anrhydedd i'th Enw mawr, Llawenydd i'r ſawl a goſtiant ein dyſgu, ac er Lles annhraethol i ni ein hunain, yn awr, ac yn dragywydd ar ol hyn.

O Arglwydd, bendithia ac ymddiffyn ein Brenhin yn ei Deyrngadair, ynghŷd â'r holl Deulu Frenhinol, a phawb ag

ſydd mewn Awdurdod droſom yn yr Eglwys a'r Deyrnas, Bendithia ein Carennydd a'n holl Gymmwynaſwyr, yn enwëdig Cynhalwyr eluſengar yr Yſgol hon, a phawb ag ſy'n gofalu droſti; llwydda Di Laſur eu Carïad, O Arglwydd, llwydda Di Waith eu Dwylaw.

Ynghŷd â'n Gweddïau, y mae'n ddyled arnom i offrymmu i Ti Fawl a Diolch, am Olud anchwiliadwy dy Ddaioni a'th Drugareddau aneiriſ i ni. Moliannus fyddo dy Enw, O Arglwydd, o godiad yr haul hyd ei machludiad. Tydi yw ein Duw; ni a'th glodforwn, ac a ddïolchwn i Ti hyd byth. Ti a'n gwnaethoſt ar ol dy Ddelw dy hun; ac, er i ni wrthgilio a phechu i'th erbyn, ni chaeaiſt dy Doſturi oddi wrthym. Beunydd yr wyt yn ein cadw, ac yn darparu i ni: Ti a'n prynaiſt â gwerthſawr Waed dy anwyl Fab: Ti a roddaiſt in' dy ſanctaidd Air i'n hyfforddi, ac a addewaiſt dy Lân Yſpryd yn Gynhorthwy i ni: Ti a godaiſt i ni Gymmwynaſwyr haelionus, i gynhorthwyo ein Dygiad i fynu yn Addyſg ac Athrawiaeth dy Air; a Thi a'n dygaiſt enghŷd drachefn y Bore hwn, i chwanegu ein Hadeiladaeth oddi wrtho. Bydded dy Fendith arnom, a'th Yſpryd gyd â ni.

Am y rhai hyn, a'th holl Drugareddau tymhorol ac Yſprydol i ni, y dymunwn fendithio a mawrygu dy ſanctaidd Enw; gan attolygu yn oſtyngedig arnat, i ddarbyn o honot ein Haberth Boreol hyn o Fawl a Diolch: ac, megis ein cedwaiſt yn ddiangol hyd ddechreu'r Dydd heddyw; ymddiffyn nyni ynddo â'th gadarn Allu, a chaniattâ na ſyrthiom y Dydd hwn mewn un Pechod, ac nad elom mewn neb rhyw Berygl; eithr bod ein holl Weithredoedd wedi eu trefnu a'u llywiaw wrth dy Lywödraeth, i wneuthur yn waſtad y peth ſydd gyfiawn yn dy Olwg di, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd: yn ei Enw bendigedig ef, a'r Ffurf berffaith o Weddi a ddyſgodd efe i ni, y goſodwn attat yn oſtyngedig ein holl Ddeiſyfiadau; gan ddywedud,

Ein Tad, yr hwn wyt yn y Nefoedd, &c.

Gras ein Harglwydd, &c.

PRYDNHAWNOL WEDDI I'R UNRHYW.

O Arglwydd, unig Ddduw y Nefoedd uchod, a'r ddaear isod, nid oes neb fel Tydi yn ogoneddus mewn Sancteiddrwydd, yn ofnadwy mewn Moliant, yn gwneuthur Rhyfeddodau; Cyfeiria'n Meddyliau tu ag attat gyd â Gwylder a pharchedig Ofn: canys mawr wyt Ti a chanmoladwy iawn; dy Fawredd fydd anchwiliadwy; eiſtedd yr ydwyt ar ongylchoedd y ddaear, a'i Thrigolion fydd fel Locuſtiaid o'th flaen.

Er i ni oll grwydro fel defaid, a throi o honom bob un i'w ffordd ei hun, yr wyt yn ein galw attat mewn llawn Hyder Efydd, trwy dy Fab Jeſu, er annheilyngedd ydym. Attat Ti y deuwn; can's gyd â Thydi yn unig y mae Bywyd tragywyddol, a phob peth a berthyn iddo. Ti a glywi Ddymuniad y Tlodion; parottoa ein Calonnau ni; gwrandawed dy Gluſt arnom.

Derbyn, ni a attolygwn i Ti, O Arglwydd, ein Haberth Brydnhawnol hyn o Foliant a Diolch am dy holl Ddaioni a'th Drugareddau aneirif i ni; yn arbennig am Fendithion y Dydd hwn, am dy raſufol Nodded a'n Cadwraeth, am y Cyfle a fwynhaſom am Addyſg ac Adeiladaeth ein Meddyliau, am holl Gyſuron y Bywyd hwn, a Gobaith Bywyd tragywyddol, trwy Jeſu Grift ein Prynwr.

Yr ydym yn oſtyngedig yn cydnabod, O Arglwydd, ein bod yn llwyr annheilwng o'r lleiaf o'th holl Drugareddau, ein bod yn waſtad yn ſyrthio yn fyr o'n Dyledſwydd, ac i ni yn rhy fynych droſeddu dy Ddeddfau ſanctaidd, trwy eſgeuluſo'r Pethau a orchymynnaiſt, a gwneuthur y Pechodau a waherddaiſt.

Maddeu, O drugaroccaf Dad, ni a attolygwn yn oſtyngedig arnat, yr holl Feiau a Throſeddiadau a ganfuoſt ynnom y Dydd a aeth heibio; a chynnorthwya ni i ddangos ein Triſtwch diffuant am y fu ar gam, trwy ein Gofal i'w wellhau.

Y peth na wyddom, dyſg Di i ni: addyſga ni ymhob rhan o'n Dyledſwydd attat Ti, ac at Ddynion hefyd; a

dyro i ni Ras i wneuthur yn waſtad y Pethau ſy dda a chymmeradwy yn dy Olwg di, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd.

Pa Athrawiaethau da bynnag a roddwyd ymma heddyw, caniattâ ſod iddunt gael eu coſio yn ofalus, a'u dilyn yn gymmwys; a' pha Ddeiſyfiadau da bynnag a beraiſt i'n Meddyliau, caniattâ allu o honom, trwy Gymmorth dy Ras, eu dwyn i Berffeithrwydd cyflawn; fel y caffo dy Enw Anrhydedd, ac i ninnau, ynghŷd â'r rhai ſy 'n Gymmorthwywyr i ni yn y Gorchwyl hwn o'n Hathrawiaeth, gael Cyſur yn y Dydd Cyfrif; trwy ein Harglwydd a'n Jachawdwr Jeſu Griſt.

Goleua ein Tywyllwch, ni a attolygwn i Ti, O Arglwydd, a thrwy dy fawr Drugaredd ymddiffyn ni rhag pob Perygl ac Enbydrwydd y Nos hon. Parhâ i ni 'r Bendithion yr ydym yn eu mwynhâu, a chynhorthwya ni i ddangos ein Diolchgarwch am danunt, trwy eu hiawn arferyd, a gwneud Deunydd da o honunt.

O Arglwydd, bendithia ac ymddiffyn ein Brenhin yn ei Deyrngadair, ynghŷd â'r holl Deulu Frenhinol, a phawb ag y ſydd mewn Awdurdod droſom yn yr Eglwys a 'r Deyrnas. Bendithia ein Carennydd, a'n holl Gymmwynaſwyr, yn enwëdig Cynhalwyr eluſengar yr Yſgol hon, a phawb ag ſy'n gofalu droſti; y rhai yr ydym yn rhwym mewn modd enwëdigol i weddio droſtunt. Bendithia hon, a phob Yſgolion eraill, er Dygiad graſol i fynu, ac Adeilad Griſt'nogol i bawb ynddunt. Hyfforddia, attolwg, a llwydda bob duwiol Ymgais a Moddion, i dannu'r Efengyl ar led yn ei Grym a'i Goleuni, ac i gynhyddu Gwybodaeth Griſt'nogol yn y Byd, i ddwyn ei Drigolion i 'th adnabod Di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaiſt Ti, Jeſu Griſt; canys hyn yw'r Bywyd tragywyddol; ac i lenwï'r ddaear â Gwybodaeth dy Ogoniant, fel y toa'r dyfroedd y môr, un ol dy Addewid di.

Tydi, Arglwydd haelionus, ſy'n rhoddi i *ni* ſodd i fyw yn y Byd hwn, ac a roddaiſt hefyd i *ni*, yn amgen nâ Gwledydd eraill, Foddion y Bywyd tragywyddol: bydded, Arglwydd, dy Ras di a'th Fendith yn cyd-gerdded â'th holl Drugareddau hyn, a gwna ni yn ddiffuant yn ddiolchgar am danunt; fel y mynegom dy Foliant, nid â'n Gwefulau yn unig, eithr yn ein Bucheddau; trwy rodio ger dy fron mewn Sancteiddrwydd ac Undeb dros ein holl ddyddiau.

Ein

Ein holl Fawl, a'n Gweddïau hyn, yr ydym yn oſtyngedig yn eu hoffrwm i'th Dduwiol Fawrhydi, trwy Gyfryngdod dy Fab Jeſu Griſt ein Harglwydd: yn Enw ſanctaidd a Geiriau pa un y bwriwn ynghŷd ein holl Ddeiſyfiadau; gan ddywedud,

Ein Tad, yr hwn wyt yn y Neſoedd, &c.

Gras ein Harglwydd, &c.

Boreol Weddi

I Yſgolheigion y 'Luſen - Yſgolion, a Dynion Jeuaingc eraill.

GOgoniant a fo i Ti, O Arglwydd, yr hwn a'm cedwaiſt rhag Peryglon y Nos a aeth heibio, yr hwn a'm llonnaiſt â Chwſg, ac a'm cyfodaiſt i fynu dracheſn i ſoliannu dy Enw ſanctaidd. Megis y'm cyfodaiſt yn awr o'm Gwely, par i mi gofio'r Dydd y'm cyfodir i a'r holl Feirwön o'n Beddau, wrth Lef yr Archangel, ac Udgorn Duw, i'n dwyn ger bron Brawdle Criſt yn y Farn olaf: par i mi gofio'r Cyfrif ſy raid i mi roddi, ac yſtyried ymha Gyflwr y byddaf pan ddel y Dydd hwnnw.

Yr wyf yn oſtyngedig yn deiſyf Cymmoth dy Ras i'th addoli Di, O Dduw fy Nhad nefol, trwy Jeſu Griſt fy Mhrynwr; ac yr ydwyf heddyw dracheſn, megis o'r newydd, yn cyſſegru fy hun i Ti, gan ddymuno dy waſanaethu Di yn ffyddlon y dydd hwn, a holl ddyddiau fy Mywyd.

Myfi, ag oeddwn wrth naturiaeth yn Blentyn Digoſaint, fel eraill, a wnaethpwyd yn Blentyn i Ti, ac yn Ddiſgybl i'th Fab Jeſu, trwy Griſt, yn fy Medydd, ac a dderbyniais y pryd hwnnw Addewid dy Lân Yſpryd; bydded i'r Yſpryd daionus hwnnw fy nglanhâu yn gyfangwbl oddi wrth holl Lygredd fy Natur.

Cynnorth-

Cynnorthwya fi i'th gofio Di, fy Nghreawdwr, yn Nyddiau fy Jeuengctid. Fy Nuw, fy Mhrynwr, a'm Ceidwad, eaniatta i mi dy Ras i'th addoli Di yn unig, yr unig wir Dduw, yn ol Rheol jachufol dy Air; ac na bo i mi byth gymmeryd dy Enw mawr yn ofer, na dyfgu Ymadroddion llygredig y rhai a dyngant, a regant, ac a arferant ofer Lwon a Melldithion: canys ni ddiangant hwy yn ddigôfp; cinhr, yn ol dy Fygythion di, onid edifarhânt, hwy a dorrir ymmaith oddi wrth dy Drugaredd, dy Ddigofaint a'th Ddial di a ddaw arnunt, a'th Felldith a'u hyfa fel tân.

Mi a attolygaf i Ti fy mendithio â'th Ras i gadw yn fanctaidd y Dydd Sabboth; na fyddo i mi, trwy Chwareuonfful, neu Ddifyrrwch ofer a Segurdra, nac yn unrhyw foddarall, ei halogi; na fyddwyf yn abfennol oddi wrth dy Addoliad, na bod yn ddiofal, yn yfgafn, ac yn anyftyriol, yn dy Addoliad di; eithr yn ddifrifol â'm holl Egni, fel am fy Mywyd, yn difgwyl ac yn deifyf dy Fendith ar y Dydd a fendithiaift Di: canys Bywyd ac Angau, Bendith a Melldith, a afodir o'n blaen yn dy fanctaidd Air ar y Dydd fanctaidd hwnnw.

Gwna fi i ymddŵyn yn ufuddgar, yn garedigol, a gwafanaethgar, i bawb o'm Rhieni Naturiol, Eglwyfol, a Gwladol; fel y dêl i mi y Fendith a addewaift i'r rhai a anrhydeddant eu Rhieni.

Gwared fi, Arglwydd, oddi wrth y Balchder, y Poethder, y Gynfigen, a'r Digllonedd, a'r holl Anwydau drwg fydd ynnof; rhag Llofruddiaeth, Godineb, a Lladrad; rhag cam Dyftiolaeth, a Chwennychiad pechadurus o eiddo neb; a rhag dywedud Anwiredd: canys o'r Diafol y mae y Celwyddwyr, ac efe yw eu Tad; a'u rhan a fydd yn y Llyn fydd yn llofgi â Thân a Brwmftan.

Cadw fi, Arglwydd, rhag yr *holl* Gyfeiliornadau a'r Ffolineb, ag y mae Llygredd fy Natur, a Breuolder fy Oedran, yn fy ngwneuthur yn fwyaf tueddol iddunt; a chadw fi yn ddiniweid oddi wrth bob rhyw Ddrwg, a rhag pob Profedigaeth a Pherygl.

Tuedda fy Nghalon at bob peth fy dda; fel y byddwyf yn oneft, yn gywir, ac yn unjawn, mewn Meddwl, Gair, a Gweithred; yn gymhedrol ac yn fobr, yn ffyddlon ac yn ddiwyd yn fy holl Waith a'm Negefeuon; yn amyneddus, yn bwyllog, yn hawddgar, ac yn oftyngedig yn fy holl Ymddygiad; yn rhoi Parch ac Ufudd-dod i'm Huwch-radd,

yn

yn addfwyn a charedig i bawb; fel yr ofnwyf ac y carwyf Dd uwchlaw pob peth, ac y carwyf fy Nghymmydog fel fi fy hun, ac y gwnelwyf i bawb fel y chwennychwn iddunt hwythau wneuthur i minnau.

Bydded i'th Ragluniaeth ddaionus fy ymddiffyn y Dydd heddyw rhag pob drwg; bydded i Ras dy Lân Yſpryd fy rhagflaenu a'm cynnorthwyo yn waſtadol.

Attolygaf i Ti fy mendithio yn fy Nyſg; a nertha fi beunydd i gynnyddu mewn Gwybodaeth, a Doethineb, a phob Rhinweddau da.

O Arglwydd, bendithia ein Brenhin, a'r Deulu Frenhinol, a phawb a'r y ſydd mewn Awdurdod droſom; yn enwedigol ein holl Pugeiliaid Yſprydol, fy Athrawön a'm Rhieni, fy holl Berthynaſau a'm Cyſeillion, a phob un yn y Fy hun, a phawb oll a ddylwyf weddïo droſtunt: caniattâ yr hyn a ſo er Daioni iddunt yn y Bywyd hwn, ac arwain hwynt i Fywyd tragywyddol.

Yr wyf yn oſtyngedig yn gorchymmyn fy hun i Ti, O Arglwydd, yn Enw Jeſu Griſt fy Jachawdwr, ac yn y Geiriau a ddyſgodd eſe ei hun i'w Ddiſgyblion; gan ddywedud,

Ein Tad, yr hwn wyt yn y Neſoedd, &c.

Grâs ein Harglwydd, &c.

PRYDNHAWNOL WEDDI

I'R UNRHYW.

GOgoniant a ſo i Ti, O Arglwydd, yr hwn a'm cedwaiſt y Dydd a aeth heibio, yr hwn a'm hymddiffynaiſt, rhag yr holl Ddrygau, y Proſedigaethau, a'r Peryglon, i ba rai yr wyf yn waſtad yn ddaroſtyngedig yn y Bywyd anſicr hwn; yr hwn a barheaiſt fy Jechyd, yr hwn a roddaiſt i mi

bob

bob perh angenrheidiol at fy Nghynhaliaeth yn y Bywyd hwn, a phob Bendithion a Moddion angenrheidiol i Dduwioldeb a Bywyd tragywyddol.

Yr wyf yn oſtyngedig yn attolwg arnat Ti, O nefol Dad, i faddeu pa beth bynnag a welaiſt ar fai ynnof y Dydd hwn, yn fy Meddyliau, fy Ngeiriau, a'm Gweithredoedd. Mynych yr anghofiais fy mod yn dy wŷdd, a cher bron dy Wyneb di, ac ni bu Coffa gwaſtadol o honot yn fy holl Feddyliau. Tydi a wyddoſt am yr holl Bechodau y mae fy Nghydwybod yn fy argyoeddi o honunt yn fy Ymarweddiad neillduol wrthyf fy hun, ac yn fy Nghydſiarad ag eraill: Arglwydd, maddeu hwynt oll, fel na'm condemnir yn Nydd y Farn o'u plegid.

Gwna fi, Arglwydd, yn gwbl-deimladwy o fawr Wendid a Llygredd fy Natur, ac amryw Gyfeiliornadau fy Mywyd; fel y llenwïr fy Enaid o Driſtwch duwiol a gwïr Edifeirwch o'u plegid, ac y'm gwnelir yn dlawd yn yr Yſpryd, i deimlo fy Angen, ac i lefain arnat am Ras a Thrugaredd, er mwyn Criſt dy Fab.

Cynnorthwya fi, mi a attolygaf arnat, i wreuthur Ymroad gwaſtadol, trwy Ras a Chymmorth dy Yſpryd di, i wrth'nebu a gorchfygu pob Tueddiad drwg oddi fewn i mi, a phob Profedigaethau oddi allan, ac i allu o honof i wrth'nebu a gorchfygu holl Ddichellion cyfrwys y Gwrthwynebwr Diaſol, ag fy megis Llew rhuadwy yn rhodio oddi amgylch, gan geiſio y neb a allo ei lyngcu.

Nertha fi beunydd i gynnyddu yn yr Wybodaeth a'r Cariad o honot Ti fy Nuw, a'm Jachawdwr Jeſu Criſt; fel, trwy'r Wybodaeth hon, y meddiannwyf Fywyd tragywyddol, ac i'r Cariad hwn fy nghymmell i fyw ac i farw yn ufuddgar i'th Ewyllys di, fel yn fyw ac yn farw y byddwyf yn eiddot ti.

Dangos i mi y Ffordd ym mha un y dylwn rodio, tra fyddwyf yn y Byd; a chaniatta nad ymadawyf byth â hi, na byddo i mi ddïweddu yn y Cnawd, ar ol dechreu yn yr Yſpryd, nac i'm Dïwedd i fod yn waeth na'm Dechreuad.

Megis yr addewaiſt i roddi Doethineb i'r ſawl a ofyno gennyt; llwydda fy Nymuniad o gael y cyfryw Addyſg Criſt'nogol, ag a'm dygo i'th wir adnabod a'th addoli Di; gwna fi yn gwbl-awyddus i dderbyn yr Addyſg hon, yn

ddïolchgar

ddiolchgar am dani, yn well o'i phlegid tra fyddwyf byw yn y Byd, we yn gymmeradwy ger dy fron pan yr elwyf allan o hono: par i mi adnabod *fy hun*, mor dywyll a thruan o Bechadur ydwyf, heb Lewyrch dy Air a'th Ras di; a phur i mi beiio'r Wybodaeth hon uwchlaw holl Dryſorau'r Ddaear.

Bendithia, attolwg, pa Addyſg dda bynnag a roddaiſt i mi Gyfle i dderbyn y Dydd hwn; nertha fi i'w chofio yn ofalus, a'i jawn-ddefnyddio, fel y byddwyf bob amſer yn cynhyddu yng Ngras a Gwybodaeth ein Harglwydd a'n Jachawdwr Jeſu Griſt.

O Arglwydd, bendithia ein Brenhin, y Deulu Frenhinol, a phawb y ſydd mewn Awdurdod droſom.

Bendithia ſy Rhieni a'm Hathrawön, ſy holl Berthynaſau a'm Cyfeillion, pob un yn y Ty hwn, a phawb oll a ddylwyf weddïo droſtunt. Gwel ſod yn dda ein cyfarwyddo ni bawb yn y Bywyd hwn, a'n harwain i'th nefol Deyrnas yn y Byd a ddaw.

Ac yn awr, O Arglwydd, a mi yn myned i orwedd, par i mi gofio'r Pryd yr hunwyf yn Angau, ac i orwedd yn llwch y Bedd; ac i yſtyried pa Leſiant a fydd i mi yn y Dydd hwnnw oddi wrth holl Orfoledd a Golud y Byd hwn. O Arglwydd, llwyr-ddiddyſna fy Enaid oddi wrtho, i lwyr-roddi fy hun i Ti. Par i mi dy gofio, a myſyrio am danat, yngwyliadwriaethau'r Nos; ac i'm Hyſpryd i ſod gyd â Thi yn waſtadol, pan ddeffrowyf yn y Bore. Ac dy Law di y mae yn ſefyll, p'un a gaf fi gyſodi byth mwy ymhlith y rhai byw yn y Byd hwn. Ni wn i pa gynnifer o filoedd a hunant Heno, heb ddihuno mwy, nes i Lef yr Archangel ac Udgorn Duw ddihuno'r Meirwön o'u Beddau: a phwy a ŵyr pa nifer o Annuwiolion a godant eu golwg mewn Poenau cyn y Bore neſaf?

O Arglwydd, bydded i'r Yſtyriaethau hyn fy ngwneuthur yn ddoeth i Jechydwriaeth: goleua fy Nyall, ſancteiddia fy Natur, chwanega fy Ffydd, dyſg i mi jawn-dreſnu fy Muchedd, a maddeu fy holl Feiau; fel y byddo fy Niwedd yn Dangnefedd.

Achub, Arglwydd, dy Was annheilwng, a chadw fi bob amſer rhag pob Enbydrwydd a Pherygl; ac yn awr, gorch'mynnaf yn oſtyngedig fy Enaid a'm Corph i'th Ofal di y Nos hon, gan ddeiſyf dy Gadwraeth raſlawn

di

di a'th Fendith: Ceidwad *Iſräel*, gwylia droſof, fel na ddigwyddo i mi unrhyw Ddrwg na Dychryn; gwna fy Nghwſg yn fuddiol i gynnal Jechyd a Bywyd ynnof, ac i minnau dreulio fy Mywyd er Gogoniant i'th Enw, trwy Jeſu Griſt ein hunig Arglwydd a'n Jachawdwr: yng Ngeiriau pa un y dibennaf fy Ngweddïau; gan ddywedud,

Ein Tad, yr hwn wyt yn y Neſoedd, &c.

Gras ein Harglwydd, &c.

GWEDDI, *yn cynnwys Swm y* Cateciſm; *i'w harfer yn fynych, yr amſer a fyner, ag y fydd fuddiol i gadw ar gof Athrawiaeth y* Cateciſm.

O Drugaroccaf Dduw, a'm Tad graſlawn, Di a weli'r Llygredigaeth ſydd yn Natur pob Dyn a genhedlir yn naturiol o Hil *Adda*, trwy'r hyn yr ydwyf wedi myned yn dra-phell oddi wrth Gyfiawnder gwreiddiol, ac o'm Tueddiad fy hun yn chwannog i'r hyn ſy ddrwg, yn llawn o Syniad y Cnawd, a Llygredd pechadurus, a haeddais Ddamnedigaeth wrth dy Gyfraith di; canys mewn Pechod y'm ganed, yn Blentyn Digoſaint wrth Naturiaeth, megis ergill.

Bendigedig fyth a fyddo dy Enw, Mawl a Diolch tragywyddol i'th ogoneddus Fawredd, am fy ngoſod dan Oruchwyliaeth dy Efengyl di a'th Ras, trwy'r hyn y trefnaiſt Adenedigaeth yſprydol, i'm gwneuthur, dan Ammodau'r Cyfammod newydd, yn Aelod i Griſt, yn Blentyn i Dduw, ac yn Etifedd Teyrnas Neſoedd.

Megis y'm corphorwyd i'th lân Eglwys, yr hon yw Corph Griſt, caniattâ i mi dy Lân Yſpryd, i'm hadnewyddu a'm ſancteiddio, i fod o honof yn Aelod fywiol o'r unrhyw: bendithia fi â Chyflawnder dy Ras, i aros byth yn Niſer dy ffyddlon Blant etholedig; fel y byddwyf, ynghyd â hwynt, yn Etifedd dy dragywyddol Deyrnas, trwy Jeſu Griſt fy Arglwydd.

Y mae

Y mae dy Addunedau di, O Dduw, arnafi; ac yr wyf o'm Calon yn deifyfu dy Ras i 'w cyflawni. O cymmorth fi, i ymwrthod o honof â'r Diafol a'i holl Weithredoedd, Rhodres a Gorwagedd y Byd anwir hwn, a holl bechadurus Chwantau'r Cnawd; fel na ddilynwyf hwynt, ac na'm tywyfer ganddunt; eithr, trwy dy Ras di, i groefhoelio o honof yr Hen-ddyn, ac yn hollol ymwrthod â holl Gorph Pechod; gan farwölaethu yn waftad fy holl Ddrygioni a'm Gwŷniau llygredig, a myned beunydd rhagof ymhôb Rhinwedd dda, a Buchedd dduwiol, fel na chollwyf fi byth y Breintiau a addewïr i mi.

Oddi wrthyt Ti, Tad y Goleuni, y mae pob Rhoddiad daionus a pherffaith yn difgyn oddi uchod; a thrwy Ffydd yng Nghrift, o'th Rodd di yn unig y mae Jechydwriaeth. O dyfg a chynnorthwya fi i gredu holl Byngciau Ffydd Grift: fef, i gredu yn Jachufol ac yn ddiffuant yn Nuw Dad, yr hwn a'm gwnaeth i, a'r holl Fyd; yn Nuw Fab, yr hwn a'm prynodd i, a phob rhyw ddyn; ac yn Nuw Yfpryd Glân, yr hwn a'm fancteiddia i, a holl etholedig Bobl Dduw. Chwanega'r Ffydd hon ynnof yn waftad, ac i allel o honof fyw yn addas iddi.

Yr wyf yn mawr ddiolch i Ti, fy Nhad nefol, am i Ti fy ngalw i gyfryw 'Stad Jechydwriaeth, trwy Jefu Grift ein Jachawdwr; mi a attolygaf arnat, O fy Nuw, i roddi i mi dy Ras, modd y gallwyf aros ynddo holl Ddyddiau fy Einioes.

Cymmoth fi, O fy Nuw, i gadw o honof dy wynfydedig Ewyllys a'th Orchymynnion di, a rhodio ynddunt: par i mi gofio a chflawni fy Nyled tu ag attat; fef, i gredu ynnot, i'th ofni, a'th garu, â'm holl Feddwl, â'm holl Enaid, ac â'm holl Nerth: dyfg i mi Dy addoli, a diolch i Ti, rhoddi fy holl Ymddiried ynnot, a galw arnat; a phar i mi anrhydeddu dy Enw fanctaidd di a'th Air, a'th wafanaethu yn gywir holl Ddyddiau fy Mywyd.

O cymmorth fi, Arglwydd trugarog, i gofio a chyflawni fy Nyled tu ag at fy Nghymmydog, ei garu ef fel fi fy hun, a gwneuthur i bob Dŷn megis y chwennychwn iddo ef wneuthur i minnau. Cynnorthwya fi i garu, anrhydeddu, a chymmorth, fy Rhieni, i anrhydeddu ac ufuddhâu i'r Brenhin a'i Swyddogion. Dyfg a chynnorthwya fi i ymddaroftwng i'm holl Lywiawdwyr, Dyfgawdwyr, Bugeiliaid yfprydol, a'm Hathrawön. Dyro i mi gymmorth i ym-

ddwyn

ddwyn o honof yn oſtyngedig, gan berchi pawb o'm gwell ac na wnelwyf Niweid i neb, ar Air na Gweithred: eithr i fod yn gywir ac yn union ymhôb peth a wnelwyf; na bo na Chas na Digaſedd yn fy Nghalon i neb; ac i gadw o honof fy Nwylaw rhag Chwilenna a Lladratta, a'm Tafod rhag dywedud Celwydd, Cableiriau, na Drwg-abſen; a chadw fy Nghorph mewn Cymhedroldeb, Sobrwydd, a Diweirdeb. O bendithia fi â'th Ras, fel na chybyddwyf ac na ddeiſyfwyf Ddâ na Golud neb arall; eithr dyſgu a llafurio yn gywir, i geiſio ynnill fy Mywyd, ac i wneuthur a ddylwyf, ymha ryw Fuchedd bynnag y rhyngo ſodd i Ti ſy ngalw.

Yr ydwyf yn deiſyf arnat, fy Arglwydd Dduw, a'm Tad nefol, yr hwn wyt Roddwr pob Daioni, ddanfon dy Ras arnaf, ac ar yr holl Bobl, fel y gallom dy anrhydeddu Di a'th waſanaethu, ac ufuddhau i Ti megis y dylem. Attolygaf arnat, O Dduw, ddanfon i ni bob peth angenrheidiol, yn gyſtal i'n Heneidiau ac i'n Cyrph: bydd drugarog wrthym, a maddeu i ni ein Pechodau: rhynged bodd i Ti ein cadw a'n hymddiffyn ymhôb Perygl yſprydol a chorphorol: cadw ni rhag pob Pechod ac Anwiredd, rhag ein Gelyn yſprydol, ac Angau tragywyddol. Yr hyn wyf yn obeithio a wnai, o'th Drugaredd a'th Ddaioni, trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt: ac am hynny y dywedaf, *Amen.* Poed felly y bo.

GWEDDI *i'w harfer wrth fyned i ddarllain* Gair DUW.

O Dad trugarog, yr hwn a dreſnaiſt i mi gael dy Air ſanctaidd, er Diddanwch ac Adeiladaeth i mi; Par iddo fod yn fwy hoff, yn fwy dymunol a gwerthfawr gennyf, na miloedd o Aur ac Arian darfodedig: agor fy Llygaid i'w ddeall; 'ſgrifena ef ar Lech fy Nghalon; cynhefa fy Enaid yn yr Addyſg o hono, a dyſg i mi lunio fy Muchedd wrtho, fel na chotto yn Dyſt erchyll i'm herbyn rhagllaw: canys yn ol y Gair hwn y'm cyfiawnheir, neu yntey'm condemnir, ger dy fron Di yn y Farn. Daroſtwng fy

Yſpryd

Yſpryd i yſtyriaid yr hyn a lefarech wrthyf, gyd â Goſtuddiedig o Yſpryd, ag ſy'n crynu wrth dy Air, yr edrychi Di, Arglwydd trugarog, edrych arnaf, a gwna i'th gyſfegredig Air hwn fod yn Arogl Bywyd i'm Henaid, ac nid yn Arogl Marwolaeth. Llwydda fy Nymuniad â phob Moddion i'm dyſgu a'm nerthu i'th geiſio a'th garu Di, chredu ynnot, ac y'm caffer yn y diwedd yn gymmwys i'th moſol Deyrnas; trwy Haeddedigaethau aneiriſ fy unig Jachawdwr Jeſu Griſt. *Amen.*

GWEDDI *fer pan ddel un gyntaf i'r* Eglwys.

YBendigedig Arglwydd Dduw, yr hwn a barheaiſt fy Mywyd hyd ymma, ac a roddaiſt i mi Gennad a Chyfle i ymddangos o'th flaen yr awr hon yn dy Addoliad. Ti a elli fyned â fi oddi ymma i'r Farn, ac y mae dy Lygaid arnaf ymhôb lle: deffro fy Enaid a'm Calon, a'r cwbl ſydd ynnof, i glodfori dy Enw; bydded fy Yſpryd ar waith ymhôb Rhan o'th Addoliad, wrth wrando, gweddïo, a chanu Mawl i'th Fawredd: cadw oddi wrthyf Feddyliau ofer a gwibiog: caniattâ na fyddwyf fel Twyllwr rhagrithiol ger bron dy Wyneb, i dynnu ar fy mhen Ddigofaint a Melldith fwyfwy. Bydded i'th Ras fy mywhâu a'm nerthu, a'th Fendith i'm llwyddo; fe allai y darfyddai Odfeydd Jechydwriaeth rhai o honom heddyw. Attolwg, Arglwydd, achub yn awr; attolwg, Arglwydd, par yn awr Lwyddiant, er mwyn Criſt fy Mhrynwr. *Amen.*

GWEDDI *ar Ddiwedd* Addoliad Duw, *yn yr* Eglwys, *neu wrth fyned oddi wrtho i'w ag Adref.*

BEndigedig a ſo dy Enw, O Arglwydd, am roddi a pharhau i mi Odfeydd a Moddion Jechydwriaeth, ac

am

am y Cyfle hwn i'th addoli ac i ddiſgwyl wrthyt. Madde
Arglwydd, yr holl Ammherffeithrwydd, yr Ymgafnder, a
Beiau, a welaiſt Di ynnof; na bo iddunt attal dy Fendit
na thynnu dy Felldith arnaf. Pa ddyn a ŵyr pa rai
honom ſyddant farw cyn cydgyfarfod o'th flaen y mwy
O Dduw trugarog, na ad i mi fyned oddi ymma heb d
Fendith di a'th Ras, i'm canlyn ac i'm cymmorth; i fo
yn Wneuthurwr y Gair, ac nid Gwrandawr yn unig, ga
dwyllo fyhun! Caniattâ, O Arglwydd, attolwg, Arglwydd
caniattâ, i'm Haddoliad yr awr hon, a'm Henaid pa
ddêl o'th flaen, fod yn gymmeradwy yn dy Olwg, trw
anfeidrol Haeddiant Criſt fy Mhrynwr. *Amen.*

Gras o flaen Bwyd.

O Arglwydd, yr hwn, er maint ein Hannheilyngdod,
ddarperaiſt i ni yr Ymborth hwn, a phob Trugaredd
au angenrheidiol at ein Cynhaliaeth, a thu ag ar ein Jech
ydwriaeth hefyd; Caniattâ dy Fendith arnunt; ac, meg
mai o'th Ddaioni di yr ydym yn cael Modd i fyw,
Moddion Gras; cymmorth ni ag Yſpryd dy Ras, i fwyt
ac i yfed, a byw i'th Ogoniant; gan ymrôi i'th waſanaeth
yn ſyddlon tra ſom yn y Byd hwn, ac y caffom Drugared
i Fywyd tragywyddol yn y Byd a ddaw, trwy Haeddiant
anfeidrol Jeſu Criſt ein Harglwydd. *Amen.*

Gras ar ol Bwyd.

BEndigedig a fyddo dy Enw di, ein Duw mawr gogo-
neddus, am ein Lluniaeth, a phob Trugareddau ag a'
ŷm yn gael gennyt i gynnal Bywyd ac Jechyd ynnom; yn
enwëdigol am ein Prynedigaeth, a'r Gras ſydd yn dwyn
Jechydwriaeth. Gwna ni yn ddiffuant yn ddiolchgar, ac i he
fyw

i'th Ogoniant, yn gynnes yn dy Gariad, yn ufudd holl Ewyllys, ac yn gymmwys i Deyrnas Nefoedd; y werthfawr Waed a Chyfryngdod Jeſu Criſt ein Harwydd. *Amen.*

Gras byr o flaen Bwyd, i Blant bychain.

O Arglwydd, bendithia'r Bwyd, a phob Trugaredd ag wyt Ti yn ei roi i ni: bendithia ni â'th Ras i'th garu 'th wasanaethu, ac i barchu dy Enw gogoneddus, trwy Jeſu Criſt ein Prynwr. *Amen.*

Gras byr ar ol Bwyd, i'r unrhyw.

O Arglwydd, yr hwn a 'n creaiſt ar y cyntaf, a 'n cedwaiſt Ddydd a Nos trwy 'n holl Fywyd, a'n prynaiſt trwy Farwolaeth dy Fab Jeſu, ac a roddaiſt Fwyd y Pryd hwn i'n porthi; Derbyn ein Diolch, a dyro i ni Ras i'th garu Di, a'th wasanaethu, er mwyn Criſt ein Prynwr. *Amen.*

YM myſg yr holl Gynheddfau drwg cywilyddus, a amlhânt yn awr yn y Byd, mae 'n alarus jawn i weled, mor aml yw 'r Teuluoedd di-Weddi, a'r rhai di-Dduw, na cheiſiant ei Fendith ef o flaen nac ar ol eu Bwyd. Bol yr Annuwiol yw eu Duw, y rhai a beſgant eu hunain yn ddioſn, a'u Bwrdd yn Fagl iddunt.

Meildith Dduw a ddaeth trwy Bechod ar yr holl Ddaear; felnad oes neb o'i Ffrwythau yn gyfreithlon nac yn ſuddiol, heb eu ſanctteiddio trwy Air Duw a Gweddi.

Pwy

Pwy ond y di-Ras a'r di-Dduw ni weddïai Dduw am Fendith, ar ei Luniaeth! (megis y dylent weddïo hefyd bob Bore a Nos) O Ddyn! oni chymmeri Addyſg oddi wrth Athrawiaeth yr Yſgrythur, ac Eſampl Criſt a'r Seintiau; dos a dyſg gan yr Ych yn y Preſeb: canys efe a blyg ei liniau wrth orwedd i lawr i gnoi ei gil, ac wrth godi i fynu i bori ei ebran.

Brwnt a chywilyddus i Griſton, o berchen Dyall, ac Enaid anfarwöl, na ddywedo Ras neu Weddi uwch ben ei Fwyd; fod yn waeth nag *Iuddew*, yn waeth nag Anifeiliaid, y Cwn, a'r Môch, a'r Bwyſtfilod, a wangciant eu 'Sglyſaeth heb edrych i fynu; am nad oes iddunt allu i wybod yn well. A chynddrwg a hynny, neu waeth, yw'r neb a ddywetto ei Ras neu ei Weddi yn fyrbwyll ac yn anyſtyriol, fel pe bai yn bwriadu i gellwair â Duw, a'i wawdio uwch ben ei Drugaredd eſ.

Ni wnai nïweid i Rieni ac Yſgolfeiſtraid, er ei fod yn ſatter o Gywilydd ac Arſwyd iddunt, i yſtyriaid pa faint y maent *bwy* yn euog, ac yn Achos o hŷn, o eiſiau hyfforddi'r rhai Jeuaingc yn well. *Y Doeth a yſtyria, ac a dderbyn Addyſg.*

" Na ddod glun i lawr i eiſte,'
" Na ddod dammaid yn dy'enau,
" Wrth Swpperu na Chiniawa,
" Nes bendithio'r Bwyd yn gynta'.
" Ac na chydcam godi'n amſer,
" Oddiar Ginio nac ar Swpper,
" Nes rhoi Diolch prûdd i'r Drindod,
" Am dy Fwyd ac am dy Ddiod.

" Mae pob Bwyd â Melldith arno,
" Er Cwymp *Adda*: nes bendigo
" 'R Bwyd â Gair Duw, ac â Gweddi,
" Nid cyfreithlon it' ei broſi."

Lloffion Prydyddiaeth Ficer *Llandoſeri*, mewn Yſgriſen law.

D I W E D D.